

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Kate Roberts a'r Ddrama

Jones, Diane

Award date:
2014

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 20. Sept. 2024

Kate Roberts a'r Ddrama

TRAETHAWD PhD

Diane Jones

Ysgol y Gymraeg

Prifysgol Bangor

2014

Cydnabyddiaeth a Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Athro Jerry Hunter, cyfarwyddwr yr ymchwil hwn, am ei gyfarwyddyd ymroddgar a gofalus. Y mae fy nyled yn fawr hefyd i'r canlynol am hwyluso'r daith: Ann Corkett, Yr Athro Katie Gramich, Dawi Griffiths, Geraint Jones, Dr Gwawr Jones, Yr Athro Alan Llwyd, Yr Athro Peredur Lynch, R.M. (Bobi) Owen (Dinbych), Marian Elias Roberts, Dr Francesca Rhydderch, Mrs Standring, Dewi Tomos, Yr Athro Gerwyn Williams.

Hoffwn ddiolch *yn arbennig* i Dafydd Glyn Jones ac i Dr Bruce Griffiths am bob cymorth.

Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd i Blaid Cymru, ceidwad hawlfraint Kate Roberts am yr hawl i gael llungopïo rhai dogfennau o'i chasgliad yn y Llyfrgell Genedlaethol ac am ganiatad i olygu dwy ddrama anghyhoeddedig ganddi a'u cynnwys yng nghorff y thesis hwn.

Ni fyddai'r ymchwil wedi bod yn bosibl heb gyfraniad hael Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, Canolfan Dreftadaeth Cae'r Gors a'r nawdd a gafwyd drwy gynllun Ysgoloriaeth Kess. Diolch iddynt oll.

Cyflwynir y gwaith i Iwan, Dafydd a Dwynwen.

Mae Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS) yn fenter sgiliau uwch Cymru gyfan a arweinir gan Brifysgol Bangor ar ran y sector AU yng Nghymru. Fe'i cyllidir yn rhannol gan Gronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd (ESF) cydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.



CYNNWYS

	tud
<i>Rhagymadrodd</i>	1
Pennod 1	
Y Ddrama Gymraeg ar droad yr ugeinfed ganrif: cyd-destunoli dramâu Kate Roberts	7
Pennod 2	
Y Tair B.A. a'r Dramâu Cegin	36
Pennod 3	
i) Golwg ar <i>Ffarwel i Addysg</i> a'r Dramâu Radio	74
ii) <i>Ffarwel i Addysg</i> gan Kate Roberts. Golygiad cyflawn gyda rhagair a nodiadau	131
Pennod 4	
ii) <i>Y Cynddrws</i> a dramâu 'O'r Tu Hwnt i'r Llen'	192
ii) <i>Y Cynddrws</i> gan Kate Roberts. Golygiad cyflawn gyda rhagair a nodiadau	253
Pennod 5	
Kate Roberts ac August Strindberg – <i>Yr Angladd</i>	283
Pennod 6	
<i>Modryb a Nith</i> : drama radio mewn pedair rhan	302
Llyfryddiaeth	316

Rhagymadrodd

Y mae llawer wedi ei ysgrifennu am fywyd a gwaith y Dr Kate Roberts. Nid yw hynny'n syndod o gofio ei bod yn llenor toreithiog, yn ffigwr diwylliannol gweithgar a'i bod wedi byw am yn agos i gan mlynedd. Wedi ei geni ar gwt Oes Fictoria bu fyw hyd wythdegau'r ugeinfed ganrif gan oroesi dau Ryfel Byd, y Rhyfel Oer a dirwasgiad enbyd y tridegau.

Cysylltir Kate Roberts yn bennaf wrth gwrs â'r stori fer. Cyhoeddodd ddeg cyfrol o storïau byrion yn ystod ei gyrfa a bu'n traddodi ar y stori fer a thrafod ei ffurf yn gyhoeddus. Yr oedd hefyd yn feirniad cyson ar gystadleuaeth y stori fer yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cyhoeddodd yn ogystal ryddiaith ar ffurfiau amrywiol y *novelle*, y stori fer hir a'r nofel, a chael gyda'r rheini hwythau gryn sylw a llwyddiant.

Yng ngwyneb hynny felly y mae'n rhyfedd mai ychydig iawn a wyddys yn gyffredinol am ei dramâu. Ceir ambell sylw arnynt gan feirniaid llenyddol ar ffurf sangiad neu 'nodyn wrth fynd heibio' wrth drafod ei ffuglen, ond prin iawn yw'r cyfeiriadau hynny mewn gwirionedd o gofio'n enwedig am y toreth sydd wedi ei ysgrifennu amdani ac am ei rhyddiaith. Ni cheir unrhyw gyfeiriad at ei dramâu yn ei chyfrol deyrnged¹, ac nid oes sôn amdanynt ychwaith yn y gyfrol *Gwyddoniadur Cymru*² a gyhoeddwyd yn 2008. Ysywaeth, aeth y dramâu hyn yn angof, ac un o brif amcanion y thesis hwn yw dwyn y dramâu hyn i olau dydd a'u hail-ddarganfod unwaith yn rhagor.

Yn ei ragair i *Dramâu Saunders Lewis, Cyfrol 1* dyddiedig Chwefror 1996, dywed Ioan M. Williams "Fy amcan wrth lunio'r cyfrolau hyn oedd sicrhau bod y deunydd ar gael a fyddai'n

¹ *Kate Roberts : Cyfrol deyrnged*, gol. Bobi Jones, (Dinbych: Gwasg Gee, 1969)

² Cofnod 'Kate Roberts', *Gwyddoniadur Cymru*, gol. John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur I. Lynch, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008), tt.783-784

ein galluogi i ddeall hyd a lled cyrhaeddiad Saunders Lewis fel dramodydd.”³ Tair blynedd ar bymtheg yn ddiweddarach dyma ymgais i wneud rhywbeth yn gyffelyb ar ran Kate Roberts, y dramodydd.

A hithau wedi’i geni ym 1891, ni ellir anwybyddu’r cyd-daro perffaith rhwng blynyddoedd mebyd Kate Roberts â throthwy’r hyn y cyfeirir ato gan feirniaid llenyddol yn ‘oes aur y ddrama’ yng Nghymru. Profodd Kate dŵf y symudiad fel y digwyddasai ac ni ellir peidio a myfyrio ynghylch y posibilrwydd mai dyma wreiddyn deffroad llenyddol Kate Roberts.

Ni raid chwilio ymhell yn ei gweithiau poblogaidd i ddarganfod prawf diamheuol o ddylanwad y mudiad drama ar ei gwaith. Yn *Laura Jones* deil Loli i gyfarfod â drama am y tro cyntaf yn ferch ifanc a hithau’n gweini ar fferm y Garreg Lwyd. Dadl wedi ei dramaeiddio yn dwyn y teitl *Dic, Sion Dafydd* ydoedd honno. Perfformiad naif ac amaturaidd a gafwyd o’r ddadl, hyd yn oed wrth safonau’r dydd, ond yr oedd Loli wedi ei phlesio, ac ymhellach yr oedd swyn y posibiliadau wedi cydio ynddi. Ceir ail ddrama yn *Laura Jones*, sef yr anfarwol *Beddau’r Proffwydi* gan W.J. Gruffydd. Dyma gyfarfyddiad cyntaf Loli â byd y llwyfan go iawn, a pherfformir y ddrama yn ei holl gogoniant gan gadw’n gwbl driw i’r hanfodion rheini a ddaeth yn rhan o gynhysgaeth y ddrama Gymraeg. Addasir rhan o gyfrol Winnie Parry, *Y Ddau Hogyn Rheini* yn ddrama gan Ann Owen yn *Tegwch y Bore* ar gyfer cynulliad Nadoligaidd o’r cyfarfod plant yn festri’r capel a hynny gyda chryn lwyddiant “Yr oedd y gymeradwyaeth ar y diwedd yn gynnes a hir.”⁴ Er gwaethaf y dadlau o du pwyllgor y capel ynghylch ei haddasrwydd i baratoi’r plant am ei bod yn newydd ddyfodiad daw ysbaid o lawenydd i Ann yn sgil y llwyddiant hwnnw cyn i’r oerni mawr gydio ynddi yn hwyrach ymlaen yn y nofel. Nid annhebyg yw’r ddrama a geir yn *Tywyll Heno*. Drama at y Nadolig ac ar gyfer plant y capel yw hon hithau, wedi ei chyfansoddi gan Bet Huws, gwraig y gweinidog

³ Williams, Ioan M., *Rhagair*, *Dramâu Saunders Lewis Cyfrol I*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996), t.ix

⁴ Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1967), t. 117

y tro hwn. Ymchwilir y tensiynau rhwng Bet ac aelodau Cymdeithas y Gwragedd cyn iddi ymroi i gyfansoddi ond ysywaeth ni wêl Bet benllanw ei hymdrechion oherwydd ei anhwylderau. Drwy gydol ei salwch ac ynghanol ei meddyliau duon dyfnaf, daw'r ddrama â llygedyn o oleuni i Bet, "O'r tu allan yr oedd kannwyll bach yn goleuo fel y golau trydan uwchben y drws ffrynt a'r tŷ yn dywyll – y ddrama oedd honno."⁵

Anos yw rhoi ffigwr hollol bendant ar nifer y dramâu a ysgrifennodd yn ystod ei gyrfa faith fel llenor. Gwyddys i sicrwydd er enghraifft ei bod wedi llunio un ddrama yn gynnar iawn ond nad oes copi ohoni wedi goroesi. Gwyddys amdani yn unig oherwydd bod adroddiad ar y ddrama honno wedi ei gynnwys mewn papur newydd lleol o'r cyfnod. Yr hyn na wyddys wrth gwrs yw faint o ddramâu eraill sydd wedi eu colli. Erys hefyd ambell ddrama ganddi ar ffurf braslun yn unig; wedi eu diogelu yn y Llyfrgell Genedlaethol. Y mae eraill mwy gorffenedig (ond na chawsant erioed eu cyhoeddi) ar ffurf llawysgrifau a theipysgrifau wedi goroesi. Hefyd, y mae dwy ddrama o leiaf, ac efallai tair, yn gyfieithiadau o waith dramodwyr eraill. O ystyried hynny felly, gyda pheth petruster y gwneir datganiad i'r perwyl hwn sef y priodolir i Kate Roberts bedair drama ar ddeg.

1.	<i>Y Botel</i>	tua 1910. Cyfieithiad o <i>The Bottle</i> , T. P. Taylor
2.	<i>Yn Eisiau Howscipar</i>	tua 1915. Copi heb oroesi
3.	<i>Y Fam</i>	1920 cyhoeddwyd. Cywaith rhwng Kate Roberts a Betty Eynon Davies
4.	<i>Y Canpunt</i>	1923 cyhoeddwyd. Cywaith rhwng Kate Roberts, Betty Eynon Davies a Margaret Price
5.	<i>Wel! Wel!</i>	1926 cyhoeddwyd. Cywaith rhwng Kate Roberts, Betty Eynon Davies a Margaret Price
6.	<i>Ffarwel i Addysg</i>	1931. Hefyd darlledwyd ar y radio ym 1950
7.	<i>Arian ac Aur</i>	1937 cyhoeddwyd. Kate Roberts, cyfieithiad o <i>Gold</i>

⁵ Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, (Dinbych: Gwag Gee, 1962), t.50

	<i>and Silver</i> , Betty Eynon Davies
8. <i>Y Cynddrws</i>	1954 darlledwyd ar y radio
9. <i>Modryb a Nith</i>	1959 darlledwyd ar y radio
10. <i>Aros Wrth Loco</i>	tua 1960
11. <i>Y Gwas</i>	1961 darlledwyd ar y radio
12. <i>Di-deitl</i>	tua 1965. Drama am chwarelwr o'r enw Wil Evans.
13. <i>Yr Angladd</i>	tua 1967. Addasiad o stori fer 'The Funeral' gan Johan August Strindberg
14. <i>Bore Sul yn nhŷ'r Jonesiaid</i>	1970 cyhoeddwyd yng nghylchgrawn <i>Y Wawr</i>

Fel arfer priodolir *Arian ac Aur* i Betty Eynon Davies, sef awdures y ddrama Saesneg wreiddiol *Gold and Silver*. Fodd bynnag, ceir nodyn yng nghlawr *Arian ac Aur* yn amlwg wedi ei gynnwys gan Betty Eynon Davies yn diolch i Kate Roberts am "Gymreigio'r ddrama".⁶ Diogel felly yw dal y medrir priodoli'r ddrama gyfieithiad *Arian ac Aur* i Kate Roberts yn rhannol.

Gellid dadlau hefyd o blaid cynnwys *Y Byw Sy'n Cysgu* (nofel gan Kate a gyhoeddwyd ym 1956) ar y rhestr uchod gan iddi hithau hefyd gael ei darlledu ar y radio ar ffurf drama ym 1956. Ceir cyfeiriad at hynny mewn troed nodyn yn *Annwyl Kate Annwyl Saunders*; "Darlledwyd *Y Byw sy'n Cysgu* yn ddrama gyfres wedi chyfaddasu a'i chyfarwyddo gan Emyr Humphreys, gyda Nesta Harris yn chwarae rhan Lora Ffennig, ar Raglen Cymru'r BBC. Clywyd y rhan gyntaf ar nos Wener, 4 Mai 1956, rhwng 8:30 a 9:00".⁷ Eto i gyd, nid yw'n hollol glir pa un ai'r nofel ynteu'r ddrama a ddaeth gyntaf. Efallai bod llythyr byr Saunders Lewis at Kate Roberts ar 5 Mai, 1956 yn torri'r ddadl:

⁶ Ceir eglurhad pellach ar y mater hwn yng ngorff y thesis.

⁷ *Annwyl Kate Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992), nodyn 1, t.182

F'annwyl Kate,

Gwrandewais ar gychwyn eich nofel a chefais gymaint o fwynhad fel na fedraf beidio ag anfon nodyn byr i'ch llongyfarch. Cymraeg cyfoethog y dialog a aeth a'm serch i bennaf. Yr oedd yr actorion yn dda hefyd, yn arbenng Nesta Harris.

Diolch yn fawr,
Saunders⁸

“eich nofel” meddai, gan roi coel i'r ffaith mai addasiad gan Emyr Humphreys o nofel Kate Roberts oedd y ddrama a ddarllledwyd. Y nofel ddaeth gyntaf, ac o ganlyniad felly penderfynwyd yn erbyn ei chynnwys ar y rhestr uchod.

Nod y thesis hwn yw rhoi darlun o Kate Roberts y dramodydd. Ceir cyflwyniad i'r dramâu a ysgrifennodd, ynghyd â myfyrdod manwl ar ambell ddrama o ddiddordeb neilltuol. At hynny ymchwilir i'r hyn a'i hysgogodd i ysgrifennu dramâu gan roi sylw i'r cyd-destun hanesyddol a diwylliannol.

Yn y bennod gyntaf olrheinir hanes y ddrama Gymraeg gan gychwyn c.1850 hyd at c.1960. Trafodir gwreiddyn y mudiad drama a barn beiriniaid llenyddol amdano. Ystyrir cefndir Kate Roberts a'i pherthynas â'r ddrama yn gyffredinol a cheisir yn ogystal ddeall beth a'i cymhellodd i droi at ffurf y ddrama.

Yn yr ail bennod canolbwyntir ar gyfnod byr ond hynod bwysig Kate Roberts yn Ystalyfera ger Abertawe (1915-17). Archwilir y berthynas â Betty Eynon Davies a Margaret Price a'r ffaith i'r cyfeillgarwch rhyngddynt esgor ar weithiau llenyddol cyntaf Kate Roberts. Trafodir cynnwys y dramâu cynnar hyn a'u harwyddocad wrth ystyried coff hanesyddol Kate Roberts yn ei gyfanrwydd.

⁸ Wedi ei godi o *Annwyl Kate Annwyl Saunders*, t.182

Trafodir mewn manylder yn y drydedd bennod y ddrama *Ffarwel i Addysg* gan Kate Roberts a luniodd wedi iddi gael llwyddiant sylweddol gyda'r stori fer. Myfyrir ynghylch ei rhesymau dros droi at y ddrama eto. Hefyd, trafodir arwyddocad y ddrama hon yn ei chyd-destun cymdeithasol ac ystyried barn yr ychydig feiriniaid llenyddol sydd wedi ysgrifennu amdani. Rhoir sylw yn ogystal i'r dramâu radio a luniodd ym 50au'r ugeinfed ganrif. Ceir golygiad manwl o'r ddrama *Ffarwel i Addysg* gyda rhagair a nodiadau llawn.

Yn y bedwaredd bennod, rhoir sylw i'r *genre* sy'n trafod y syniad o 'fyd arall' neu 'y Purdan' a beth sy'n nodweddu'r llenyddiaeth fel corff. Trafodir dylanwad athroniaeth Sartre ar waith llenyddol mwy diweddar Kate gan gynnwys y ddrama *Y Cynddrws* a'r stori fer hir *Tywyll Heno*. Dadansoddir ac adolygir *Y Cynddrws*. Ceir golygiad manwl o'r ddrama gyda rhagair a nodiadau llawn.

Trafodir drama-gyfieithiad Kate Roberts o waith August Strinberg yn y bumed bennod. Ymchwilir y tensiynau yng ngwaith Strinberg gan geisio deall rhesymau Kate Roberts dros ddewis y gwaith penodol hwn, sef stori fer gan Strinberg o'r enw *A Funeral* i'w drosi i'r Gymraeg. Ceir dyfyniadau o'r gwreiddiol a dyfyniadau o gyfieithiad Kate Roberts.

Yn y bennod olaf, eir i ymchwilio i natur y berthynas rhwng modryb a nith mewn llenyddiaeth gan roi sylw i ddrama radio gan Kate Roberts sy'n dwyn yr union deitl hwnnw. Pam y bu beirniadu yn y wasg ar y ddrama hon? Pam na chafodd ei chyhoeddi? A pham y bu i'r brif linydd storïol ynndi ynddangos eto ar ffurf y stori fer rai blynyddoedd yn ddiweddarach?

Pennod 1

Y Ddrama Gymraeg ar droad yr ugeinfed ganrif: cyd-destunoli dramâu Kate Roberts

Dywedodd Wil Sam, un o ddramodwyr Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif, unwaith mai apêl fawr y ddrama lwyfan iddo ef oedd y wefr o weld y llenni trymion yn ymwahanu'n araf. Yr eiliadau hynny o ragflasu disgwylgar cyn i'r set ddod i'r golwg.

Fel hyn y disgrifia Dafydd Glyn Jones ei brofiad cyntaf ef yn gwyllo drama:

Ac ymhen y funud, fwy neu lai, diffoddodd goleuadau'r llawr, daeth golau ar y llenni, ac ysgubodd y rheini, un hanner bob ochr, i ddatgelu... ie, ystafell... cegin fyw, rywbeth yn debyg i'n cegin ni, ond yn wahanol. Ac *yno*, erbyn deall, yr oedd y ddrama i ddigwydd! Rhyfeddol! Ysblennydd!¹

Gellid tybio fod y rhan helaethaf o Gymry Cymraeg ddechrau'r ganrif ddiwethaf yn medru dwyn i gof atgofion melys tebyg, a hynny yn syml iawn am mai dyma'r cyfnod a gydnabyddir bellach yn 'oes aur' y ddrama yng Nghymru. Gesyd Bobi Jones² ddechrau'r mudiad yn sicr cyn y Rhyfel Mawr pan ymddangosodd ddramâu poblogaidd W.J.

Gruffydd, J.O.Francis a W.D.Davies. Â Ioan Williams gam ymhellach gan ddiffinio "oes Aur y Mudiad Drama" yng Nghymru yn bendant : "... rhwng 1913 a 1936..."³

Dyma oes lle'r oedd cwmni drama bron ym mhob pentref a thref yng Nghymru. Heidiai torfeydd i'w gwyllo'n gyson mewn neuaddau pentref, festrioedd capeli neu unrhyw fan cwrdd addas arall, ond nid mewn theatrau pwrpasol yn ystod y cyfnod hwn. Yn ei gyfrol

¹ Jones, Dafydd Glyn, 'Hen Ddramâu, Hen Lwyfannau', *Llwyfannau Lleol* gol. Hazel Walford Davies, (Llandysul: Gomer, 2000), t.10

² Jones, Bobi, 'Y Ddrama 1913-1936 (1)', *Barn* 271, (Awst 1985), t.295

³ Williams, Ioan M., *Y Mudiad Drama yng Nghymru 1880 – 1940*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), t.1

Codi'r Llen mae Hywel Teifi Edwards yn cynnwys nifer fawr iawn o luniau o wahanol gwmnïau drama a oedd yn bodoli ar hyd a lled Cymru yn y cyfnod hwn, a'u gogoniant yw ei bod yn dystiolaeth ddiamheuol o boblogrwydd y ddrama ar droad yr ugeinfed ganrif.

Gellir olrhain dechrau'r mudiad drama Cymreig ar ei newydd wedd i un digwyddiad o bwys ym 1830 yn ôl T.J.Williams ⁴ sef ymddangosiad drama neu "ffug-chwedl" gan Gwilym Cawrdaf o'r enw *Y Meudwy Cymreig*.

Oeraidd fu'r derbyniad iddi, gydag arweinwyr crefyddol piwritanaidd yn dadlau yn erbyn rhoi unrhyw fath o lwyfan i ffug chwedlau nad oeddent yn Feiblaidd eu naws fel hon. Priodol hefyd yw cofio mai dyma'r union bobl a oedd wedi gwneud a allent i gladdu'r anterliwt neu'r 'interliwd' boblogaidd flynyddoedd yn ôl. Yn ôl T. J. Williams; "Un o effeithiau Diwygiad crefyddol y 18fed ganrif oedd ysgubo yr interliwd o Gymru." ⁵

Amlygir y gwrthdaro a fu rhwng y Methodistiaid a'r Anterliwtwyr mewn cofnod yn nyddiadur William Bulkeley o Fôn:

May 30th 1737. Few people in Morning Service & none at all in the evening by reason of the abominable Custom of playing Interludes, which being so dull, stupid & artless in the matter of acting it is astonishing how any body of common sense can have the patience to behold it, besides certain consequences of enticing people's servants & making them unfit for any business a day or two afterwards. ⁶

⁴ Williams, T. J., *Hanes y Ddrama Gymreig, Bangor*, (Bangor: Samuel Hughes, 1915) t.4

⁵ *Ibid.*, t.3

⁶ *Dyddiadur Williams Bulkeley*, Archifdy Prifysgol Bangor, Llsg. Henblas A18

Ymhellach, ceir cofnod mewn ambell anterliwt o'r gwrthdaro a fu rhwng awduron y dramâu a'r Methodistiaid. Mae *Ffrewyll y Methodistiaid* gan Williams Roberts o Lŷn a *Protestant a Neilltuwr ac Urania neu Grefyddol Ddadleuon* gan Huw Jones o Langwm yn tystio i'r ffaith fod anghydfod yn bodoli rhwng y Methodistiaid a'r anterliwtwyr.⁷ Hawdd deall pam eu bod yn teimlo felly yn ôl G.G. Evans, "Eglwyswyr ydoedd yr anterliwtwyr hyn; naturiol ydoedd iddynt deimlo'n garedig tuag at y sefydliad eglwysig a adawai lonydd iddynt tra'n teimlo'n elyniaethus tuag at y crefyddwyr newydd a ystyriai eu crefft yn wagedd a phechod."⁸

Nid gweddus oedd anterliwt â ganddi berthynas agos â ffeiriau gwerinol a thafarndai ynghyd â'r elfennau o faswedd a ffars a oedd ynnddi i gynulleidfa olau eu Beibl. Yn anorfod felly bu farw'r anterliwt ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg⁹ gan adael ar ei hôl fwllch o flynyddoedd sych o ddrama yng Nghymru.

Teg yw cydnabod hefyd fod ffactorau eraill ar wahân i grefydd wedi andwyo goroesiad yr anterliwt. Dywed G.G. Evans; "Ond dylid o leiaf nodi bod a wnelo ag edwiniad yr anterliwt fudiadau a syniadau newydd eraill, a ddaeth i fod yn ystod y ddeunawfed ganrif ac a weddnewidiodd Ewrop... Canlyniad y cyfnewidiadau hyn mewn dull o fyw a meddwl ydoedd awyrgylch llai ffafriol i'r anterliwt. Edwinodd mewn byd dieithr."¹⁰

⁷ Gweler A. Cynfael Lake, *Huw Jones o Langwm*, Llên y Llenor, (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2009) tt.86-89

⁸ Evans, G.G., 'Henaint a Thranc yr Anterliwt', *Taliesin* 54, 1985, t.18

⁹ Rhydd G.G. Evans ddyddiad penodol i ddarfodedigaeth yr anterliwt; "Pryd daeth yr anterliwt i ben? Y dyddiad taclus yw 1810, sef blwyddyn marw Twm o'r Nant." 'Henaint a Thranc yr Anterliwt', *Taliesin* 54, 1985, t.27

¹⁰ Evans, G.G., 'Henaint a Thranc yr Anterliwt', *Taliesin* 54, 1985, t.27

Cytuno â hanfod y ddadl hon a wna Kate Roberts ei hunan pan yw'n ysgrifennu adolygiad ym 1964 o *Anterliwtiau Twm o'r Nant* gan G.M. Ashton:

Rhodddwyd llawer o sylw i'r anterliwt yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf, mewn astudiaeth ohoni fel ffurf lenyddol ac fel drama i'w chwarae, ar ôl ei hesgeuluso am dros gan mlynedd. Peth i'w chwarae oedd yr anterliwt yn ei dydd, moddion adloniant, yr un fath â'r noson lawen a'r wylmabsant. Digon posibl mai'r Diwygiad Methodistaidd a laddodd yr adloniannau hyn, yn union fel y tagodd ffurfiau llenyddol eraill, megis y ddrama a'r nofel, cyn iddynt ddechrau tyfu, er efallai y gellid amau gosodiad fel yna, oblegid mae ambell beth yn marw'n naturiol fel pe bai wedi dyfod i ben ei dennyn. Mae'n ddigon sicr i'r ffurfiau yna o adloniant ddiflannu ar ôl dechrau adeiladu'r capeli, ac ar ôl i bobl ddysgu darllen ac ysgrifennu. Diwylliant yn y cof oedd diwylliant yr anterliwt a'r noson lawen. Wedi dysgu darllen ac ysgrifennu, fe gafodd y werin ddiwylliant o fath arall, ac yn y pregethwyr fe gawsant rywfaint o ddawn actio yr hen anterliwtwyr.¹¹

Wedi ymddangosiad *Y Meudwy Cymreig*, gan Gwilym Cawrdaf ym 1830 yn ôl T.J. Williams,¹² mi fentrodd ambell ddramodydd arall (rhai ohonynt yn ddynion a oedd yn dal swyddi o fewn y gyfundrefn grefydd) megis Llew Llwyfo, Hiraethog, Eleazor Roberts a Beriah Gwynfe Evans i fraenu'r tir ar gyfer dyfodiad y ddrama ar ei newydd wedd. Ond anghroesawgar oedd rhai credyfwyr o hyd.

Erbyn hyn roedd yr ysbryd Piwritanaidd wedi ei gynhyrfu. Ym Mhorthmadog yn 1879 ffurfiwyd cwmni i berfformio dramawd Saesneg er mwyn casglu arian i roddi glo i'r tlodion. Diarddelwyd bachgen ieuanc yn y lle gan y Methodistiaid am iddo actio'n yn y cwmni hwnnw mewn gwisg merch.¹³

¹¹ Roberts, Kate, 'Yr Anterliwt', *Lleufer* 20, 1964, t.177

¹² Williams, T.J., *Hanes y Ddrama Gymreig*, Bangor, (Bangor: Samuel Hughes, 1915), t.4

¹³ *Ibid.*, t.6

Edrydd T. J. Williams am achosion eraill hefyd ym Morgannwg, Caerfyrddin a Mynwy lle cafodd nifer o bobl ifanc eu diarddel o'r capel am gymryd rhan mewn drama.¹⁴

Yn sicr, yr oedd yr Hen Gorff yn siarad yn frwd iawn yn erbyn y “chwaraeyddiaethau” ac yr oedd “mynychu'r chwaraedy” mor bechadurus â “mynychu'r dafarn” yn ôl J. Ellis Williams.¹⁵ Yn ddiau yr oedd hynny'n rhannol oherwydd bod y deunydd yn symud y ffocws oddi ar y Beibl, ond tybed nad oedd rheswm arall dilys gan y creddyfwyr pahan fod y ddrama mor wrthun ganddynt? Efallai'n wir yn ôl Esyllt Môn Jones.

...yn hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif 'roedd pob agwedd ar fywyd y Gymru Gymraeg yn ddarostyngedig i grefydd a moesoldeb. Pam – achos eu bod yn parhau i anwesu'r briw yr oedd honiadau'r llyfrau gleision wedi ei wneud ym 1847.¹⁶

Adwaith i'r archoll ddifrifol a gafodd y Cymry yn sgil cyhoeddi'r Llyfrau Gleision oedd ceisio sicrhau goruchafiaeth foesol uwchlaw, ac ar draul, o bosibl, bethau eraill. Gellid dadlau fod gan rai Cymry ofn dwyn gwarth arny'n nhw'u hunain drwy ymwneud â'r ddrama, a'r gorau peth oedd ei hosgoi yn gyfan gwbl. Edrydd Kate Roberts fel yr oedd yr ei mam yn byw wrth yr egwyddor hon; “Ond soniaf am yr amhosibl, yr oedd tipyn o ddramâu yn dyfod i Rosgadfan weithiau, ond nid aeth erioed i weld yr un. Yr oedd ymblesera yn bechod ganddi.”¹⁷

¹⁴ Williams, T. J., *Hanes y Ddrama Gymreig, Bangor*, (Bangor: Samuel Hughes, 1915), t.7

¹⁵ Williams, J. Ellis, *Inc yn fy Ngwaed*, (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1963), t.13

¹⁶ Jones, Esyllt Môn, *Rhinwedd, rhith a rhagrith : arferion cymdeithasol a diwylliannol yn nramâu D. Mathew Williams, Idwal Jones, J. Kitchener Davies a John Ellis Williams*, thesis M.A. Prifysgol Bangor, 1997.

¹⁷ Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1960), t.110

Dichon na fu newid yn agwedd y Cymry hyn tuag at weithiau creadigol, a dramâu yn benodol, hyd y cyrhaeddodd Daniel Owen. “Os gwir mai crefydd Biwritanaidd a laddodd y ddrama yng Nghymru, ddechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg,” meddai Dafydd Glyn Jones, “y mae yr un mor wir mai dan nawdd y grefydd honno y dechreuodd rhywbeth tebyg i ddrama ymffurfio unwaith yn rhagor, ar draws canol y ganrif.”¹⁸

Er mai fel nofelydd yn bennaf y meddylir am Daniel Owen (20 Hydref 1836 – 22 Hydref 1895), ni ellir osgoi’r argraff fod ei gymwynas i’r ddrama Gymraeg yn amhrisiadwy.¹⁹ Fel llawer un tebyg iddo yn y cyfnod, derbyniodd arweiniad ardderchog yr ysgol Sul a magwyd ynddo ddiddordeb mewn llenyddiaeth. Tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuodd anfon ei waith i’w gyhoeddi yng nghyfnodolyn printiedig y Methodistiaid Calfinaidd; *Y Drysorfa*.

O 1870 i 1880 argraffwyd ffug-chwedlau Daniel Owen yn *Y Drysorfa*, misolyn y Methodistiaid Calfinaidd, a thrwy hynny darllenwyd hwynt gan gannoedd na wyddent mai ffug-chwedlau oeddynt. Yr oedd hyn yn gam pwysig tuag at rwyddhau y ffordd i ddyfodiad y Ddrama.²⁰

Cyhoeddwyd *Hunangofiant Rhys Lewis, Gweinidog Bethel*, ar ffurf penodau yn *Y Drysorfa* rhwng Ionawr 1882 a Rhagfyr 1883. Cymaint llwyddiant yr hanesion hyn am Rhys Lewis a Wil Bryan nes i’r cwbl gael eu cyhoeddi’n un gyfrol, yn nofel gyfan, ym mis Ebrill 1885. Blwyddyn yn ddiweddarach, yn ôl Ioan M. Williams²¹ cyflwynwyd yr addasiad cyntaf ar gyfer y llwyfan gan fyfyrwyr Coleg Diwinyddol y Bala, ac yn fuan

¹⁸ Jones, Dafydd Glyn, ‘Saunders Lewis a Thraddodiad y ddrama Gymraeg’, *Llwyfan* 9, Gaeaf 1973, t.1

¹⁹ Cydnebydd Hywel Teifi Edwards yntau yn ei ragymadrodd i’r gyfrol *Codi’r Llen* fod cyfraniad Daniel Owen yn ganolog i’r symudiad newydd hwn.

²⁰ Williams, T.J., *Hanes y Ddrama Gymreig, Bangor*, (Bangor: Samuel Hughes, 1915), t.5

²¹ Williams, Ioan M., ‘Daniel Owen a ‘Gwir Gychwyn’ y Mudiad Drama’, *Llên Cymru* 28, 2005

wedyn, ym 1886, ffurfiwyd The Trefriw Dramatic Company, Cwmni Drama Trefriw i gyflwyno eu haddasiad hwy o *Rhys Lewis*. Yr oedd hwn yn gwmni anturus dros ben ac aeth â *Rhys Lewis* ar daith mewn gobaith gwneud elw, mae'n debyg. Yn ôl D. Tecwyn Lloyd, "Canys heb os, y theatr a ledaenodd ac a 'wthiodd' gymeriadau D.O. i bob twll a chornel drwy Gymru."²²

Serch hynny, nid oedd Daniel Owen ei hun yn rhy hapus gan eu bod yn gwneud ceiniog ar gorn ei waith creadigol ef, a hynny heb ei ganiatâd.²³ Rhoddodd yn y man, fodd bynnag, sêl ei fendith ar un sript yn benodol, sef fersiwn J. M. Edwards, Treffynnon (brawd i O. M. Edwards) a gyhoeddwyd ym 1909 gan Gwmni Hughes a'i Fab, gyda'r geiriau canlynol ar y clawr "yr unig drefniad awdurdodedig".²⁴

Er gwaethaf y trafferthion cychwynol hyn ynghylch hawlfraint, fe agorwyd yr adwy a fu yn gaead gyhûd, a dechreuodd 'y ddrama' gydio unwaith eto. Ac yr oedd mynd mawr yn sicr ar *Rhys Lewis* am flynyddoedd i ddod. Rhestra D. Tecwyn Lloyd y cynhyrchiadau o'r ddrama hon a gafwyd yn y blynyddoedd o 1910 hyd 1914 gan wahanol gwmnïau drama; 1910 – 45 tro, 1911 – 54 tro, 1912 – 46 tro, 1913 – 41 tro a 1914 – 35 tro. "Bron iawn na cheid perfformiad o *Rhys Lewis* bob wythnos o'r flwyddyn yn rhywle neu'i gilydd y blynyddoedd hyn."²⁵

²² Lloyd, D. Tecwyn, 'Gwir gychwyn y busnes drama 'ma...'', *Llwyfan* 8 gwanwyn/haf 1973, t.5

²³ gw. Davies, D. R., 'Dau gwmni drama a Rhys Lewis', *Y Llenor* cyf. XXX

²⁴ Jones, Dafydd Glyn, 'Saunders Lewis a thraddodiad y ddrama Gymraeg', *Llwyfan* 9, Gaeaf 1973, t.2

²⁵ Lloyd, D. Tecwyn, 'Gwir gychwyn y busnes drama 'ma...'', *Llwyfan* 8 gwanwyn/haf 1973, t.6

Yn ‘Daniel Owen ar y Llwyfan, 1909-1937’²⁶ eglura D. Tecwyn Lloyd fel y bu iddo ddod ar draws llyfryn a eilw yn ‘Cash Book’ pan ymgymrodd â swydd Rheolwr Cwmni Hughes a’i Fab yn Wrecsam ym 1956. Llyfryn ydoedd hwn a oedd yn ffynhonnell hynod o werthfawr o ran gwybodaeth ynghylch trwyddedu perfformiadau dramâu a gyhoeddwyd gan y cwmni rhwng 1909 a 1937. Ac y mae’n hynod ddifyr yn y cyd-destun sydd a wnelom ni ag ef oherwydd edrydd D. Tecwyn Lloyd fel a ganlyn: “Mae’r cyfrif yn dechrau gyda pherfformiad o *Rhys Lewis* yn Maladeulyn, Dyffryn Nantlle ar y 30ain o Dachwedd 1909.”²⁷

Byddai Kate Roberts yn ddeunaw oed erbyn hynny ac ar drothwy ei chyfnod yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor. Go brin felly fod lle i gredu y byddai Kate Roberts wedi bod o amgylch Dyffryn Nantlle i weld y cynhyrchiad hwnnw. Ond eto, tybed na fyddai wedi medru dal un o’r tri pherfformiad arall a gafwyd yn y Dyffryn y flwyddyn honno? Edrydd D. Tecwyn Lloyd; “Yn ystod 1909 bu chwe pherfformiad, eu hanner yng nghylch Dyffryn Nantlle...”²⁸

Ac os nad yn Nyffryn ei mebyd, yna tybed a fyddai wedi ei dal ym Mangor?

Perfformiwyd y ddramawd yn y Penrhyn Hall, ac am ddwy noswaith yn olynol yr oedd y neuadd eang dan ei sang o wrandawyr. Mr. Cadwaladr Davies o’r Brifysgol oedd Cadeirydd y noson gyntaf a’r Proffeswr Henry Jones yr ail noson.²⁹

²⁶ Lloyd, D. Tecwyn, ‘Daniel Owen ar y Llwyfan, 1909-1937’, *Llên Cymru* 10, 1968 t.61

²⁷ *Ibid.*, t.61

²⁸ *Ibid.*, t.61

²⁹ Williams, T.J., ‘Dechreuad y Ddrama Gymreig’, *Hanes y Ddrama Gymreig*, 1915, t.10

Drama ac iddi gryn dipyn o statws felly o ystyried y sawl a fynychodd. Ac yna'n eironig ddigon o ystyried yr hyn a drafodwyd eisoes ynghylch gwrthwynebiad rhai creddyfwr i ddramâu ychydig flynyddoedd ynghynt, ceir y frawddeg hon gan T. J. Williams, "Ai yr elw at glirio dyled Capel Lon-y-Pobty." ³⁰

Gwna Ioan M. Williams y sylw diddorol hefyd nad yn unig at waith Daniel Owen y trodd dramodwyr y cyfnod, ond at nofelwyr eraill; "Ni sylwir yn aml mai yng ngwaith y nofelwyr Cymraeg, Edward Mathews, Roger Edwards, Gwilym Hiraethog, ac nid yn *Rhys Lewis* yn unig, y deuir o hyd i wreiddyn nodweddion y ddrama Gymraeg..."³¹ Ni ellir osgoi'r ffaith fod gwreiddiau mudiad drama'r oes aur felly yn dynn yn y nofel Gymraeg gynnar.

Ni pherthyn y ddrama yn unig i'r filltir sgwâr ychwaith. Teithiai y cwmnïau hyn yn ogystal, yn union fel y teithiau corau yn y cyfnod. Nid oedd yn anarferol i gael cwmni drama o'r De ar lwyfan yn y Gogledd nac ychwaith fel arall. Mentrodd Gwmni Trefriw cyn belled â Lerpwl gyda *Rhys Lewis*, a chael derbyniad gwresog iawn gan hyrwyddwyr y Ddrama Seisnig yno. ³²

Yn *Y Lôn Wen*, y mae Kate Roberts yn sôn am ymweliadau gan gwmnïau drama â Rhosgadfan pan oedd yn blentyn. Dywed fel y bu i'w thad unwaith roi benthyg ei het silc

³⁰ Williams, T.J., 'Dechreuad y Ddrama Gymreig', *Hanes y Ddrama Gymreig*, Bangor: Samuel Hughes, 1915), t.10

³¹ Williams, Ioan M., *Y Mudiad Drama yng Nghymru 1880 – 1940*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), t.15

³² Williams, T.J., 'Dechreuad y Ddrama Gymreig', *Hanes y Ddrama Gymreig*, (Bangor: Samuel Hughes, 1915), t.10

orau i gwmni drama, “Gellwch benderfynu beth a ddigwyddodd wedyn,” meddai, “diofalwch a pheidio â’i dychwelyd.”³³ Er gwaethaf yr anffawd, dengys y weithred o roi benthyg yr het pa mor ymglymedig oedd trigolion yr ardal wrth y cwmnïau hyn. Yr oedd yma elfen o berchnogaeth fel y sylwa Roger Owen:

Prif swyddogaeth a phennaf rhinwedd y theatr amatur, boed hynny yn awr ei hanterth yn ystod yr 1930au neu hyd yn oed heddiw, yw ei bod yn cynnig i’w chynulleidfa gyfle i wylïo ‘ein drama ni’, drama y gellir ei mwynhau a’i gwerthfawrogi o’r tu mewn, fel petai. Waeth pa ddrama a gyflwynir ar y llwyfan, gwir ogoniant y theatr amatur yw’r berthynas arbennig a grëir rhwng y gynulleidfa a’r actor, a’r ymdeimlad cryf o *berthyn* sy’n tyfu wrth i berfformiad fynd rhagddo.³⁴

A hithau wedi’i geni ym 1891, gellid awgrymu bod blynyddoedd cynnar Kate Roberts wedi cyd-daro â throthwy’r llanw ym myd y ddrama yng Nghymru. Wele gyfle euraidd iddi, nid yn unig i weld tŵf y symudiad, ond hefyd i fyw ac i brofi’r symudiad yn uniongyrchol. Dyma ddechrau oes aur yr ‘hen ddramâu Cymraeg’ a dechrau hefyd wrth ei gwt, gellid dadlau, egin diddordeb Kate Roberts mewn llenyddiaeth.

At ei gilydd, digon syml ac arwynebol o ran ffurf a chynnwys oedd y dramâu hyn a chyfeirir at y symudiad hwn ar dro fel y ‘theatr amatur’. Gocheler rhag meddwl mai gwendid yw hynny yn ôl Roger Owen yn ei ysgrif *Y Theatr Amatur a’r Fro*;

Nid yn ôl ei chelfyddyd y dylem farnu’r theatr amatur ond, yn hytrach, yn ôl ei chyfraniad i’w bro. Camp y theatr amatur er stalwm oedd iddi greu perthynas glôs iawn rhwng y gynulleidfa a’r actorion ac ymdeimlad cryf o

³³ Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1960) t.89

³⁴ Owen, Roger, ‘Y Theatr Amatur a’r Fro’, *Llwyfannau Lleol* gol. Hazel Walford Davies, (Llandysul: Gomer, 2000) t.32

berthyn i'r fro, a bu'r ymdeimlad hwnnw o berthyn yn allweddol bwysig wrth glymu'r gymdeithas Gymraeg ynghyd.³⁵

Ymhellach, "Ours is purely a folk movement" meddai Cynan,³⁶ yntau'n pwysleisio mai dyna a rydd i'r mudiad ei chryfder. Y mae'n anodd gwrthod y syniad mai dyma pam y bu cystal bri ar ddrama yn y cyfnod hwn, sef mai rhywbeth i'r werin ydoedd yn ei hanfod, "... yng nghefn gwlad y maged y ddrama Gymraeg", meddai J. Ellis Williams.³⁷ Dywed Kate Roberts ei hun, pan yw'n bwrw'i barn ar *Y Ffordd*, T Rowland Hughes (cyn-ddisgybl iddi, yn Ysgol Elfennol Dolbadarn) mewn erthygl ym 1970, mai llwyddiant y ddrama honno oedd ei bod yn adlais o'r 'hen ddramâu Cymraeg' a'i bod yn "un y gallai pob dosbarth o bobl ei mwynhau".³⁸ Mae Ioan M. Williams yn ategu'r hyn a ddywed Kate Roberts pan yw'n ystyried y cysylltiad rhwng datblygiad sydyn a bri mawr y math hwn o ddrama:

...sut y mae esbonio ymddangosiad disymwth y Mudiad Drama a ddatblygodd yn fudiad diwylliannol â'i wreiddiau'n ddwfn ledled y cymunedau Cymraeg? Y cam cyntaf tuag at ateb y cwestiwn hwn yw cydnabod mai mudiad cymdeithasol oedd y Mudiad Drama, yn hytrach na mudiad llenyddol.³⁹

Dyma hefyd "oes aur y werin Gymraeg" yn ôl Dafydd Glyn Jones.

Oes aur y ddrama Gymraeg, meddwn eto. Ie, erbyn gweld, oes aur y werin Gymraeg hefyd. Lluniwyd y werin honno gan grefydd ddiwygiadol, ac yr oedd ganddi holl gynhysgaeth ddiwylliannol a theimladol y grefydd honno, yn cynnwys yr hiwmor a ddeilliai ohoni.

³⁵ *Ibid.*, t.31

³⁶ Evans-Jones, Albert, (Cynan), *News Chronicle*, 7 Rhagfyr 1934, t.18

³⁷ Williams, J. Ellis, *Inc yn fy Ngwaed*, (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1963) t.23

³⁸ Roberts, Kate 'Y Ffordd, T Rowland Hughes' *Llwyfan* 4, haf 1970, t.10

³⁹ Williams, Ioan M., *Y Mudiad Drama yng Ngymru 1880-1940*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006), t.1

Erbyn y cyfnod yr ydym ni'n sôn amdano yr oedd gwaharddiadau caethaf y grefydd wedi codi, ond yr oedd union ddigon o ataliadau'n aros i greu cyd-ymdaro bywiog rhyngddi â'i phlentyn, y ddrama. Os mai 1910-1958 yw ein cyfnod, y mae'n cynnwys rhwng ei ddeupen ryfel byd a dirwasgiad economaidd enbyd. Gwelodd drai dychrynlyd y Gymraeg. Ond er gwaethaf popeth, a'r popeth hwnnw'n cynnwys y problemau nad oedd gan ein pobl na'r ewyllys na'r weledigaeth i'w symud ymaith, cyfnod oedd hwn pan gafodd y werin Gymraeg ryw hwyl nas cafodd na chynt na chwedyn, mentraf ddyfalu: hwyl ar fod yn hi ei hun. Rhan o'r hwyl honno oedd yr hen ddramâu ar yr hen lwyfannau.⁴⁰

Wele gyfnod lle'r oedd trwch y dramâu hyn yn cael eu cyfansoddi gan unigolion nad oeddynt yn academyddion.⁴¹ Dengys cyfrifiadau'r cyfnod bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn 1900 nag erioed o'r blaen. Hefyd wrth gwrs, yr oedd gwasg briodol yng Nghymru a adroddai ar bopeth cymdeithasol a ddigwyddai mewn pentrefi ar hyd a lled Cymru, a nifer fawr o gylchgronnau a phapurau newydd dyddiol, wythnosol a chwarterol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ellir llai na chytuno ag Adrian C. Roberts fod“...iechyd llenyddiaeth iaith, wrth gwrs, ynghlwm yn annatod wrth iechyd iaith bob dydd y genedl y mae'n perthyn iddi ac sy'n cael ei dysg, ei gwybodaeth a'i newyddion am y byd trwyddi.”⁴² Câl'r Cymro cyffredin ymhyfrydu yn y ddarpariaeth ddiwylliannol, Gymreig a oedd yn ei amgylchynu.

Priodol yw cofio yn ogystal fod yr addasiadau hyn o nofelau Daniel Owen yn bwysig am reswm ychwanegol.⁴³ Yn ôl Dafydd Glyn Jones medrir “rhestru rhai eitemau sydd i'w cael yn stori Rhys Lewis ac a ddaeth dan eu pwysau eu hunain, megis, yn rhan o

⁴⁰ Jones, Dafydd Glyn, 'Hen Ddramâu, Hen Lwyfannau', *Llwyfannau Lleol*, gol. Hazel Walford Davies, (Llandysul: Gomer, 2000), t.24

⁴¹ Mae W.J. Gruffydd yn eithriad. Cyhoeddodd yr Athro Prifysgol ddrama yn y traddodiad hwn yn 1913, sef *Beddau'r Proffwydi*.

⁴² Roberts, Adrian C., *Twm o'r Nant: Dwy Anterliwt*, (Bangor: Dalen Newydd, 2011), t.37

⁴³ Addaswyd *Y Dreiflan* ar gyfer y llwyfan ym 1915, *Enoc Huws* ym 1913, a *Gwen Tomos* ym 1920

gynhysgaeth y ddrama Gymraeg...”⁴⁴ Sefydlodd *Rhys Lewis* batrwm felly ar gyfer y dramâu a ddilynodd; fformiwla a oedd eisoes wedi profi ei gwerth ym mhoblogrwydd yr addasiadau o waith Daniel Owen.

At ei gilydd, gellir dadlau fod yr un math o gymeriadau i’w darganfod yn yr hen ddramâu a ddilynodd *Rhys Lewis* ar y llwyfan.⁴⁵ Er enghraifft, ymysg y cymeriadau stoc, ystrydebol ceir y gŵr deallus na chafodd addysg ffurfiol sy’n symbol hefyd o ddyn ‘da’ – cymeriad y gellir olrhain ei wreiddyn i Tomos Bartley. Cymeriad anhepgorol hefyd yw’r plismon, sy’n cynrychioli cyfraith gwlad. Ar ddechrau’r ddrama ymddengys y plismon yn ffurfiol ac yn ddigyfaddawd, ond ar yr unfed awr ar ddeg y mae’n cael trawsnewidiad ac yn dangos fod ganddo ochr glên, yn enwedig felly, pan yw’r arwr yn wynebu rhyw argyfwng neu’i gilydd. Sergeant Williams yw’r plisman i’w efelychu. Bid siwr hefyd y mae yno gymeriad tebyg i’r anfarwol Wil Bryan; yn llawn direidi. Ni ellir osgoi ychwaith ymddangosiad y potsiar a’r cipar (neu amrywiaeth ar hyn) sy’n cynrychioli eithaf her y werin yn erbyn y drefn. Cocyn hitio fyddai’r cipar neu’r plismon yn aml, yn enwedig felly os nad oeddent yn arddangos arwydd o gydymdeimlad. Tybed hefyd na ellir olrhain dywediadau sy’n rhan o’n cynhysgaeth ni heddiw i’r pwynt hwn mewn hanes; dywediadau megis ‘plismon neu gipar drama’? Yn fras erbyn heddiw mae’r dywediad ‘plismon drama’ yn cyfeirio at rywun nad ydyw’n medru dygymod yn dderbyniol â hanfodion ei swydd. Priodol yn ogystal yw tynnu sylw at y ffaith fod yr hen ddramâu hyn ar dro yn portreadu’r dosbarth canol uwch fel dosbarth o bobl lac eu gafael ar y Gymraeg - tarddiad y dywediad ‘Cymraeg Cipar drama’?

⁴⁴ Jones, Dafydd Glyn, ‘Saunders Lewis a thraddodiad y ddrama Gymraeg’, *Llwyfan* 9, gaeaf 1973, t.3

⁴⁵ Mae lle i gredu hefyd fod yma atgyfodi’r hen themâu a oedd mewn cymaint bri gan yr anterliwtwyr.

A dau gamdreiglwr dygn arall yw'r meddyg a'r twrnai; anodd dweud ai wedi budr-ddysgu'r Gymraeg y maent ai wedi gwneud ati i'w cholli – mwy tebyg mai'r olaf! Pwynt mawr yr hen ddramodwyr am y rhain, a phwynt Twm o'r Nant o'u blaenau, yw nad ydynt i'w cymryd o ddifri. Nid ydynt yn ieithyddol lawn llathen, maent wedi eu hurtio'u hunain drwy beidio â threiglo ac wedi eu gosod eu hunain y tu allan i gymdeithas pobl normal. Wrth gydnabod ffaith am y proffesiynau yng Nghymru, ffaith nad yw wedi newid yn sylfaenol rhwng y Deddf Uno a heddiw, y mae'r dramodwyr hefyd yn gwneud yn ysgafn o'r perygl i'r Gymraeg. Dyma eto fyth agwedd ar eu cyfaddawd. Daeth tro ar fyd, a dyma ni bellach yn codi cenhedlaeth gyfan i siarad Cymraeg Cipar Drama.⁴⁶

O ran themâu, tebyg oeddynt hwythau, at ei gilydd. Y sefyllfa nodweddiadol yw bod rhyw storm yn dod i ran rhyw deulu gwerinol da a chywir wrth iddo fynd i ymrafael ag uchelwr sy'n feistr tir neu gyfatebol. Ar dro y mae bygythiad i'r hen gartref a thro arall fygythiad i aelod o'r teulu. Enghreifftiau o'r dramâu mwyaf poblogaidd yn eu cyfnod a'r enwocaf erbyn hyn yw; cyfieithiadau o ddwy ddrama J. O Francis, *Gwyntoedd Croesion*, a *Deufor Gyfarfod*, Ephraim Harris, D.T. Davies, *Trem yn ôl*, Gwynfor, *Yr Unig Fab*, H. O. Hughes. Maent oll yn nodweddiadol o ddramâu yr oes aur. Hefyd ceir dramâu sy'n troi o amgylch dyfodiad y mab darogan ar yr unfed awr ar ddeg i achub un ai ei rieni, ei gartref, neu ei gariad o ddannedd rhyw drybini neu'i gilydd - sefyllfa a anfarwolir yn nrama enwog W.J.Gruffydd, *Beddau'r Proffwydi*, 1913.⁴⁷

Priodol hefyd yw sylwi ar hanfodion y set a'r olygfa a ddefnyddid. Gan amlaf yr oedd y cyfan yn digwydd mewn cegin fferm, neu barlwr mewn tŷ neu ar dro mewn sefyllfa gyfarwydd arall, megis siop. Un o'r hanfodion mwyaf oedd y lle tân neu'r aelwyd. Y

⁴⁶ Jones, Dafydd Glyn, 'Hen Ddramâu, Hen Lwyfannau', *Llwyfannau Lleol*, gol. Hazel Walford Davies, (Llandysul: Gomer, 2000), t.14

⁴⁷ Llathen o'r un brethyn ydoedd *Beddau'r Proffwydi* hefyd o ran cynnwys ond bod un gwahaniaeth mawr, sef bod W.J. Gruffydd yn Athro yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd pan ysgrifennodd y ddrama hon, a pheth anghyffredin yn y cyfnod oedd cael academydd yn troi ei law at ddrama (gwler nodyn 40).

mae'r myrdd lluniau o'r cyfnod hwn sy'n ymddangos yng nghyfrol Hywel Teifi Edwards, *Codi'r Llen* yn arddangos nid yn unig y math o set a oedd yn boblogaidd, ond hefyd y math o wisgoedd a cholur a ddefnyddid.

Bob Nadolig rhwng 1924 a 1931 ar dudalennau *Y Genedl Gymreig* ymddangosodd stori fer gan W.J. Griffith.⁴⁸ Yr oeddent yn boblogaidd iawn am eu bod yn hynod o ddigrif.

Mae un o'r straeon hynny, 'Antur y Ddrama' yn adrodd drwy enau fy 'nghyfaill Williams' fel y gelwir ef (un o brif gymeriadau'r straeon hyn) sut y mae mynd ati i lunio drama;

“Hyd y gwelais i,” ebr efō, “rhywbeth yn debyg ydyn nhw i gyd o ran defnyddia. Mae gen ti hen gwpwl duwiol ond gwael at eu byw, angyles o ferch mewn cariad â'r gweinidog Methodus, cythral o steward yn dwrdio troi'r hen gwpwl ar y clwt os na chaiff o'r ferch, a mab afradlon yn dŵad adra'n gefnog o'r 'Merica ar y funud ola. Cymysga nhw i fyny efo cipar, potsiar neu ddau, tafarnwr a beili, a dyna ichdi – cyn hawsed â chau adwy gerrig.”⁴⁹

Â thafod yn ei foch yr edrydd yr awdur y geiriau uchod, sy'n tystio i'r ffaith fod yr hen ddrama gegin wedi dod, yn eironig ddigon, yn dipyn o gocyn hitio ei hun erbyn tri degau'r ugeinfed ganrif.

“Dyna'r gloch yn canu... a'r cyrten yn agor. Darganfod beili tew yn chwyrnu yn y gadair freichiau o flaen y tân, potal chwisgi wag yn sticio allan o bocad ei gôt – yr hen gwpwl yn wylo wrth y bwrdd – y gweinidog yn cysuro'r ferch ar y setl – y gath yn 'molchi o dan y dresar. Ust! Dyna gnoc ar y drws. Pwy sy yna? Diolch byth! John y mab afradlon, wedi dŵad adra o Clondeic – het silc, gwasgod wen, giard aur a spats. Bwrw trem dros yr olygfa – 'Be' dâl peth fel hyn?' –

⁴⁸ O Fôn, nid yr Athro W. J. Gruffydd. Dygwyd y storïau hyn ynghyd yn y gyfrol *Storïau'r Henllys Fawr* gan T. Rowland Hughes ym 1938.

⁴⁹ Griffith, W. J., 'Antur y Ddrama', *Storïau'r Henllys Fawr*, (Llandysul: J.D. Lewis a'i Feibion, 1964), tt.78-79

rhoi'r het silc ar y gadair – cic i'r gath – bwrw'r beili allan trwy'r ffenast – cofleidio'r hen gwpwl – cusan i'w chwaer, a sigâr i'r gweinidog – y cyrten yn cau yng nghanol taranau o gymeradwyaeth...⁵⁰

Eto i gyd, erys rhyw anwyldeb rhyfeddol yn y disgrifiad hwn. Ni ellir dianc rhag y ffaith fod gan gynulleidfaoedd y cyfnod awch o hyd am y math hwn o ddrama.

Nid annhebyg i'r disgrifiad uchod yw'r olygfa ddigrif yn *Laura Jones* gan Kate Roberts pan yw Loli a Nain yn mynd i'r capel i weld drama:

Cafodd Nain a Loli fyned i eistedd i'r sedd flaenaf yn y ffrynt – Loli yn sgil Nain. “Dic Sion Dafydd” oedd enw'r ddrama neu'n hytrach ddadl, allan o'r “llyfr Dadleuon,” ond ychwanegasai'r ysgol-feistr ati dipyn o bethau am bobl yr ardal honno, gan nad oedd y ddadl yn ddigon hir. Am yr un rheswm ychwanegwyd pethau eraill hefyd. Cyn i'r ddrama ddechrau daeth dau ddyn ar y llwyfan i geisio canu ffidil. Ymwisgent fel dau dramp, a sach gan bob un ohonynt. Gwnaent y sŵn mwyaf aflafar ar y ffidil; ond yn sydyn dyma un yn stopio ac yn mynd i sach y llall, ac yn tynnu allan gremgog. Pan ganfu'r llall fod ei gydymaith am ddwyn ei gremgog, rhoes ei ffidil ar lawr, ac aeth yn sgyffl rhwng y ddau. Yn y sgyffl syrthiodd het un ohonynt i lawr dros ymyl y llwyfan a disgynnodd yn union wrth droed Nain. Cododd Nain yr het ac estynnodd hi i'r tramp. “Thanciw m'am” ebe'r tramp wrth Nain, a chwarddodd pawb.⁵¹

Daw'r ddrama yn *Laura Jones* i glo traddodiadol gyda mynd â'r arwr i'r carchar, ond heb yr achubiaeth funud olaf y tro hwn, ysywaeth.

Nid pawb fodd bynnag oedd â geiriau canmoladwy i'r math hwn o ddrama boblogaidd a oedd i bob pwrpas yn dryllio delwau cymdeithas:

⁵⁰ Griffith, W. J., ‘Antur y Ddrama’, *Storiau'r Henllys Fawr*, (Llandysul: J.D. Lewis a'i Feibion, 1964), t.80

⁵¹ Roberts, Kate, *Laura Jones*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1930), tt.41-42

There still remains the question of the attitude which the Welsh dramatist is going to take up towards many of the institutions of the country. In this connection it should be remembered that the Welsh Drama is at present in its infancy, and there will be more likelihood of sturdy growth on its part if it appeals to the sympathy of all classes. This it will not do if institutions which have played a great part in the life of the country are subjected to crude and unsympathetic attack.⁵²

Ffaith ddiddorol yn ogystal, yw bod gan y dramâu hyn un gwrthwynebydd pybyr arall, (er ychydig yn ddiweddarach) neb llai Saunders Lewis.⁵³ Y mae'n eu beirniadu am fod yn unffurf hyd at syrffed yn y wasg yn nechrau'r ugeinfed ganrif. "... our chaotic drama plods lamely along..." meddai yn *An Introduction to Contemporary Welsh Literature*, Awst, 1926. Barn Saunders oedd nad oedd y cynnyrch ychwaith yn ddigon eang ei weledigaeth, ac nad oedd mewn gwirionedd yn cynrychioli'n deg ystod profiad na deallusrwydd y gwerinwr:

Our Welsh drama, we are told, is peasant and village drama. And that is entirely good. Our dramatists' intention to describe only the life of the folk is quite justifiable. But I suspect that they fall short of their design and of the truth about peasant life. All the plays we have seen so far describe, and rather idyllically describe, village manners. But village life means more than 'manners'. It includes memories and traditions and song and even dance and mummery. Village and peasant drama, if it would tell the round truth, must include romance, the Mabinogion, the monastery, witchcraft, fairyland, and the ancient playgrounds of men. Let us widen our field.⁵⁴

Ymhellach meddai Bruce Griffiths am Saunders Lewis, " he writes as one opposed to the sordid realism of the Isben tradition, and is thus highly critical not only of the amateurish

⁵² Evans, Earnest, 'Some Recent Welsh Plays', *The Welsh Outlook*, 1914

⁵³ Lewis, Saunders, 'The present state of Welsh Drama', *The Welsh Outlook*, VI 1919 tt.302-304

⁵⁴ Lewis, Saunders *The Cambria Daily Leader*, 22 Hydref, 1919 (wedi ei godi o gyflwyniad Ioan M. Williams i 'The Eve of St John', *Dramâu Saunders Lewis* Cyfrol 1, t.6)

acting and production, but also of the mundane content, so characteristic of Welsh kitchen drama of the period.”⁵⁵

Beirniada Saunders Lewis hefyd yr iaith a ddefnyddid. Yn ei farn ef bratiaith sathredig a nodweddaï'r dramâu.⁵⁶ Yn anad dim y diflastod hwn a'i 'sbardunodd i ysgrifennu ei ddrama Gymraeg gyntaf, *Gwaed yr Uchelwyr* ym 1922. Drama a oedd yn fwriadol felly, yn torri confensiynau'r oes. Yn ôl Ioan M Williams roedd yr adolygiadau yn y wasg leol ynghylch *Gwaed yr Uchelwyr* yn chwyrn.⁵⁷ Beirniadaï rhai y set – dim lle tân, dim drysau na ffenestri na dodrefn, ac eraill y diffyg parch i'r confensiynau yr oedd y gynulleidfa wedi arfer â hwy, ac yn disgwyl eu cael. Ceisiodd Saunders Lewis ddefnyddio'r traddodiad er mwyn arddangos yr hyn a oedd yn bosibl.

Defnyddiodd Saunders Lewis yma rai o allanolion y traddodiad, rhai o'i sefyllfaoedd a'i gymeriadau stoc, gan ryw led ddisgwyl, mae'n siwr gen' i, i'r gynulleidfa weld fod ei ddefnydd o'r elfennau hynny yn wahanol i'r arfer, nid o ddamwain ond o fwriad. Hynny yw, y mae'r elfen o barodi yn un allweddol bwysig yn *Gwaed yr Uchelwyr*.⁵⁸

Gwelodd un beirniad craff serch hynny, sef W. J. Gruffydd mai ymgais gan Saunders oedd *Gwaed yr Uchelwyr* i wneud rhywbeth newydd; “i adael hen draddodiadau llwm a threuliedig “cegin fferm.””⁵⁹ Serch hynny, nid yw'n syndod na chafodd *Gwaed yr*

⁵⁵ Griffiths, Bruce, *Saunders Lewis*, Writers of Wales, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1989), tt.7-8

⁵⁶ Gweler cyflwyniad Ioan M. Williams ; ‘The Eve of St John’, t.7, a'i gyflwyniad i ‘Gwaed yr Uchelwyr’, tt.38-39 yn *Dramâu Saunders Lewis* Cyfrol 1

⁵⁷ Cyflwyniad Ioan M. Williams i ‘Gwaed yr Uchelwyr’, *Dramâu Saunders Lewis* Cyfrol 1, tt.37-38

⁵⁸ Jones, Dafydd Glyn, ‘Saunders Lewis a thraddodiad y ddrama Gymraeg’, *Llwyfan* 9, Gaeaf 1973, t.9

⁵⁹ Gruffydd, W.J., *Y Llenor* I, 1992, t.149

Uchelwyr dderbyniad gwresog gan fwyafrif o feirniaid a chynulleidfaoedd y cyfnod: yr oedd yn rhywbeth dieithr, yn rhy wahanol i'r norm.

Ond erys un cwestiwn pwysig. A oedd Saunders Lewis wedi methu â gweld gwerth diwylliannol y dramâu syml hyn? I'r perwyl hwn rhaid tynnu sylw at y cerydd a rydd Kate Roberts iddo mewn llythyr yn Rhagfyr 1934 mewn ymateb i'w feirniadaeth ef ar *Traed Mewn Cyffion*.

Nid wyf yn fodlon o gwbl i chwi ddweud y pethau a ddywedasoich am chwarelwyr, a chwithau yn gwbl ddieithr i'w bywyd ac i fywyd gweithwyr yn gyffredinol. Mae'n sicr y gwyddoch fwy na mi am hanes Cymru ac fel mae'r bywyd sydd yma heddiw yn dwf y gorffennol. Fe fedr eich treiddgarwch weled holl dwf y bywyd hwnnw yn ei gyfanrwydd. Ond ni wyddoch ddim am fywyd un dosbarth o bobl yn fwy na'i gilydd am na ddigwyddodd ichwi fod yn un ohonynt na'ch magu yng Nghymru. Dim ond edrych o'r tu allan y buoch erioed.⁶⁰

Ac ymhellach yn 1949, y mae'n datgan; “ Nid wyf yn meddwl y medr llenor drin yn iawn unrhyw ddosbarth ond y dosbarth y cododd ohono.”⁶¹ Gwir y gellid dadlau mai o'r tu allan y gwelai Saunders Lewis Gymru. Wedi'r cwbl yr oedd wedi ei eni a'i fagu yn Lerpwl (er i deulu Cymraeg, mae'n wir).⁶² Cafodd ei addysg hefyd dros y ffin a gellid dadlau ar un lefel wrth fynd i'r afael â'i weithiau llenyddol mai teimlad a dylanwad Ewropeaidd yn hytrach na theimlad a dylanwad Cymreig sydd iddynt. Yn sicr, nid oedd ganddo brofiad o fywyd chwarelwr yn Arfon, ond tybed nad oedd hynny, er ei wneud yn

⁶⁰ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992), t.111

⁶¹ Roberts, Kate, 'Problemau Lleonrion Cymraeg', *Y Faner*, 19 Hydref 1949

⁶² Mae nifer o feirniad llenyddol a llenorion wedi gwneud llawer o'r ffaith hon. Tybed a yw'r pwyslais ar 'fagwraeth Anghymreig Saunders' yn ymderch i ymylu rhai o'i safbwyntiau ef? Gellid dadlau fod hynny'n wir yn yr achos hwn.

anghyfarwydd fel y dadleua Kate Roberts, ond hefyd, yn rhoi iddo ryw wrthrychedd iach wrth edrych ar y cwbl “o’r tu allan”?

Bid a fo am y gynnen rhwng Saunders Lewis a Kate Roberts ar y testun hwn. Ni ellir osgoi’r ffaith mai gogoniant hen ddramâu Cymraeg yr oes aur oedd eu diniweidrwydd a’u gallu i dynnu’r torfeydd. Yr oeddent yn ffraeth ac yn ffres, ac yn mynd dros ben llestri yn aml, ac yn fwy na dim yn gwneud i rywun chwerthin beth bynnag fo’i safle cymdeithasol. Awyr iach mewn cyfnod a welodd gyni a sobreiddiwch rhwng dau Ryfel Byd sy’n anodd iawn i ni heddiw ei ddirnad.

Yr oedd y theatr amatur hefyd yn pontio’r bwlch rhwng y to ifanc a’r rhai hŷn. Âi pawb o bob oedran i weld y ddrama yn y cyfnod hwn – yr oedd yn ddigwyddiad cymdeithasol a theuluol. Dengys Kate Roberts fod gan blant ddiddordeb cynhenid mewn drama yn ei chyfrol o straeon byrion *Laura Jones*. Merch ifanc ydyw Loli o hyd yn *Laura Jones* a phan glyw fod drama am gael ei chynnal yn lleol, fel hyn yr ymetyb:

“Bedi drama?” ebe Loli.

“Dynion yn dynwared dynion erill ar ben stêj,” ebe Andreas.

Fe gafodd sôn am y ddrama effaith hapus ar Loli. Cafodd flas ar ddarllen “Rhys Lewis” i Nain unwaith eto.⁶³

Dyma olygfa fach sy’n darlunio’r modd y mae antur y ddrama yn apelio at bobl ifanc, ac mae’r ffaith fod Kate Roberts wedi dewis rhoi sylw ffuglennol i’r pwynt hwn yn awgrymu ei bod yn ystyried fod y cyfrwng yn apelio at bobl ifanc:

⁶³ Roberts, Kate, *Laura Jones*, t.40

Am ddyddiau wedyn, holai a stiliai Loli Andreas ynghylch y ddrama. A gai merched ddyfod i ddrama? Nid oedd yr un yn “Nic Sion Dafydd.” Os oedd a gai hi ddyfod i berthyn iddi? Yr oedd yn sicr y medrai smalio gwneud yr un fath a rhywun arall.⁶⁴

Ymhellach ymlaen yn y gyfrol gwireddir dymuniad Loli er ei bod yn gorfod penderfynu pa un ai dod i berthyn i’r dosbarth llenyddiaeth ynteu i’r ddrama a wna, gan y byddai ymhél â’r ddeubeth yn bwyta gormod i’w hamser gwaith. Nid yw’r dewis yn un anodd iddi; “Penderfynodd hithau yn ei meddwl y buasai’n well ganddi berthyn i’r ddrama nag i’r dosbarth llenyddiaeth,....”⁶⁵ A hynny er gwaethaf ei diddordeb mawr mewn storïau a llyfrau.

Mae J. Ellis Williams yn *Inc yn fy Ngwaed* yn ceisio crisialu apêl y ddrama i’r to ieuanc;

“Make believe is the gist of a child’s life”, ebe Robert Louis Stevenson. Mi gwrddais â llawer plentyn a gasâi gyfansoddi traethawd; cwrddais ag ambell un heb fawr o ddiddordeb mewn ’sgwennu stori; ond ni chyfarfûm erioed a phlentyn nad oedd yn barod i gynnig ei law ar ysgrifennu drama, os gwyddai ymlaen llaw y perfformid hi wedyn.⁶⁶

Merch ifanc ydoedd Kate Roberts pan luniodd ei drama gyntaf; cyfieithiad o *The Bottle*

T. P. Taylor.

Ym 1904 wedi iddi ennill ysgoloriaeth, aeth i Ysgol y Sir yng Nghaernarfon. Bu’n lletya yng Nghaernarfon gyda’i hanner chwaer, sef Jane a briododd George Robinson ac a fu’n cadw siop da da o dan y Cloc yn y dref. Meddai Kate, “ Yr oedd yn rhaid imi letya yn y

⁶⁴ *Ibid.*, t.46

⁶⁵ *Ibid.*, t.63

⁶⁶ Williams, J. Ellis, *Inc yn fy Ngwaed*, t.10

dref gan fod y tair milltir i stesion Dinas, ddwywaith y dydd, yn ormod imi, yn enwedig yn nyddiau tywyll y gaeaf.”⁶⁷ Ac yno yr oedd pan ddaeth cais gan ei brawd yng nghyfraith a oedd yn perthyn i gwmni drama yng Nghaernarfon i drosi drama T. P. Taylor, *The Bottle* i’r Gymraeg.⁶⁸

Bu’n ddisgybl yn Ysgol y Sir Caernarfon o 1904 hyd 1910 a gellid damcaniaethu’n eithaf saff felly ei bod wedi trosi’r ddrama toc cyn neu tra’r oedd yn bedair ar bymtheg oed.

Nodir fel a ganlyn ar dudalen deitl y ddrama:

Drama Ddirwestol Boblogaidd
Wedi ei chyfieithu trwy ganiatad
(cyfieithedig gan Miss Kate Roberts, Caegors, Rhosgadfan)
(Yr hawl i’w pherfformio i’w gael yn unig gan Mr S. G. Robinson, Maesincla Farm,
Ffordd Bethel, Caernarfon)⁶⁹

S.G. Robinson oedd brawd yng nghyfraith Kate Roberts, fel ag a soniwyd eisoes.

Drama ddirwestol yw *Y Botel* fel ag a led awgrymir gan y teitl. Cyfeiria Alan Llwyd ati fel “drama ddirwest wael, hen-ffasiwn”⁷⁰ Nid yw Geraint Wyn Jones yn cael ei blesio ganddi ychwaith.

Y mae’r iaith yma, yn amlwg, yn drwm o dan ddylanwad traddodiadol
y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae’r darn yn Feiblaidd ei rediad

⁶⁷ Roberts, Kate, *Atgofion I*, (Cymru: Gwasg Tŷ ar y Graig, 1972), t.18

⁶⁸ Blynyddoedd yn ddiweddarach mewn llythyr personol at Bruce Griffiths y mae Kate Roberts yn trafod ei chyfieithiad, a’r ffaith nad oedd yn rhy hapus efo’i hymgais.

⁶⁹ Lungopi o gopi personol Bruce Griffiths o Kate Roberts, *Y Botel*, Archifdy Prifysgol Bangor

⁷⁰ Llwyd, Alan, *Kate, Cofiant Kate Roberts*, (Talybont: Y Lolfa, 2011), t.24

a’i eirfa; ac yn areithiol ei ruthmau. Nid yw’n perthyn i’r ugeinfed ganrif.⁷¹

Ni ellir dadlau yn erbyn ei ffaeledau wrth edrych arni drwy sbectol heddiw, ond yn ei dydd fe ellir tybio y byddai’r testun, yn sicr, wedi bod yn boblogaidd iawn. Mudiad a gyrhaeddodd Prydain tua thriedegau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg o Unol Daleithiau America oedd y mudiad dirwest, a’i fwriad oedd ceisio perswadio pobl i arfer cymedroldeb (ac yna i lwyr ymwrthod) â diod feddwol. Yn ei ysgrif ‘Gwell yw Dŵr i Gylla Dyn’⁷² noda Islwyn Jones sut y bu i’r mudiad hwn ledaenu’n gyflym ac yn gadarn drwy Gymru yn fuan iawn wedi iddo gael ei gyflwyno.

Amcangyfrifid fod 29,058 o Gymry’r gogledd a Lerpwl wedi ymrwmo i lwrymwrthod â diodydd meddwol erbyn Rhagfyr 1836 ac fe fu cynnydd mawr iawn yn nifer y cymdeithasau dirwest a sefydlwyd rhwng 1836 a 1838. Yr oedd chwech a deugain o gymdeithasau yn Sir Fôn gydag aelodaeth o 24,780 erbyn mis Awst 1838. Ac erbyn mis Ebrill 1838, haerid bod 70,000 o lwrymwrthodwyr yng ngogledd Cymru.⁷³

Roedd gan Gaernarfon ei chwmmi drama ei hun hefyd, sef Cwmni’r Ddraig Goch.

1903. CWMNI “Y DDRAIG GOCH,” CAERNARFON “Llewelyn ein Llyw Olaf” ddywedir oedd y ddramod Gymreig gyntaf fu ar y llwyfan yng Nghaernarfon, er y myn rhai fod “Rhys Lewis” wedi bod yno ar ei hynt o “Drefriw” yn flaenorol. Cynrychiolid y prif gymeriadau yn “Llewelyn” gan T. O. Jones (Gwynfor), Miss Stythe, R. Rees Jones, Miss Hughes, B.A., W.J. Jones, R. H. Thomas, J.G. Thomas, Miss Williams (Board School), O.O.Roberts, T. H. Parry, H. O. Jones, J. Hughes, T. E. Williams, Idwal Thomas, Miss Roberts, a

⁷¹ Jones, Geraint Wyn, *Fel Drôr i Fwrdd Astudiaeth o waith Kate Roberts hyd 1962*, (Caernarfon: Gwasg y Bwthwyn, 2010), t.48

⁷² Jones, Islwyn, *Gwell yw Dŵr i Gylla Dyn, Bras-olwg ar Hanes Dirwest yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, (Caerdydd: Amgueddfa Werin Cymru, 1986)

⁷³ *Ibid.*, t.5

Miss Lena Stythe. Dyry preswyliaid Beriah yn y dref sicrwydd y caiff y Ddrama Gymreig ei lle yma.⁷⁴

Cyfieithu yr oedd Kate Roberts hefyd wrth gwrs; nid gwaith gwreiddiol ydoedd *Y Botel*, a thybed nad yw hynny'n ei chaethiwo? Sylw sy'n werth ei nodi hefyd ydi nad yw Kate Roberts, yn ddiweddarach yn ei gyrfa, yn cynhesu at gyfieithiadau o'i gweithiau hi ei hunan ychwaith:

Nid oes gennyf unrhyw feddwl o'r cyfieithiadau i'r Saesneg o'm storïau - Cymraeg yw fy iaith i – ond petai modd iddynt ddyfod ag arian imi yn yr iaith honno buaswn yn fwy na bodlon o weled eu cyfieithu, er mwyn defnyddio'r arian at wasg Gee.⁷⁵

O gofio'r cysylltiad cynnar rhwng Daniel Owen a dechrau'r mudiad drama yng Nghymru y mae'n werth nodi hefyd fod ymdrechion cyntaf Daniel Owen ym myd ffuglen yn gyfieithiad o nofel ddirwestol Americanaidd.⁷⁶ Ymddengys fod y Kate Roberts ifanc yn perthyn i'w chyfnod (ac yn wir, yn perthyn i'r cyfnod blaenorol mewn ffordd) a'i bod yn ddyledus i chwaeth Cymru Oes Fictoria ar ddechrau'i gyrfa lenyddol.

A throi drachefn at y cyfieithiad sicr, sef *Y Botel*, mae Geraint Wyn Jones yn llygaid ei le pan ddywed fod yr orgraff yn hynafol yn *Y Botel*. Er enghraifft ceir “ffrynd” yn lle “ffrind”, “o gwmpas” yn lle “o gwmpas”, “gwlaau” yn lle “gwelyau”, “ereill” yn lle “erail”. Wedi dweud hynny fodd bynnag priodol yw cofio na fyddai John Morris-Jones yn cyhoeddi *Orgraff yr Iaith Gymraeg* am bymtheg mlynedd eto (1928) felly nid oedd

⁷⁴ Williams, T.J., *Hanes y Ddrama Gymreig*, t.32

⁷⁵ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, t.128

⁷⁶ Cyhoeddiadau cyntaf Daniel Owen oedd cyfieithiadau o waith Timothy Shay Arthur, *Ten Nights in a Bar-Room* a *What I Saw There*.

ffurfiau cymeradwy'r geiriau hyn wedi eu nodi. Eto i gyd, ni ellir osgoi'r ffaith fod i'r ddeialog hithau sŵn hen oes, fel y gwelir yng nghlo'r geiriau hyn:

Morfudd: Gwaith, gwaith, gwaith, ac eto i ddim pwrpas, neith o ddim clirio'r tlodi sydd o nhwmpas i ffwrdd. Mae'r bygythiad ofnadwy o fynd a'r ychydig betha ma oddi arnaf, a'r ofn o gael fy nhroi drwy'r drws yn ddigartref yn rhwystro pob bwriad selog, ac yn herio pob ymdrech weithgar.⁷⁷

Yn sicr mae'r ddeialog yn ddiharebol Feiblaidd, gydag aml wers mewn moesoldeb yn cael ei chynnig i'r gynulleidfa, er enghraifft; "...diod ydi'r dechra, a'r bedd ydi'r diwadd."⁷⁸ a "...gwnewch i ereill fel y dymunech i ereill wneud i chwithau..."⁷⁹

Credir y seilwyd testun gwreiddiol T. P. Taylor, *The Bottle* ar gyfres o ddarluniau gan George Cruikshank (27 Medi 1792 – 1 Chwefror 1878). Cartwnydd, darlunydd llyfrau ac engrafwr ydoedd Cruikshank wrth ei waith. Y mae'n enwog am iddo ddarlunio'r lluniau ar gyfer nofelau poblogaidd Charles Dickens; yn fwyaf nodedig *Oliver Twist*. Roedd yn enwog iawn yn ei gyfnod ac oblegid hynny neu oherwydd hynny efallai, bu'n byw bywyd anfoesol ar sawl ystyr, er enghraifft, er ei fod wedi priodi roedd ganddo unarddeg o blant anghyfreithiol ac yr oedd yn or-ddibynnol ar alcohol. Fodd bynnag, ar draws pedwardegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg llywiodd ei holl ymdrechion i gyfeiriad y Mudiad Dirwest a oedd yn brysur ennill cefnogaeth frwd.

⁷⁷ Roberts, Kate, *Y Botel*, llungopi yn Archifdy Prifysgol Bangor, t.4

⁷⁸ *Ibid.*, t.24

⁷⁹ *Ibid.*, t.24

I'r pwrpas hwnnw, ac er mwyn hyrwyddo neges y mudiad dirwest, cynhyrchodd nifer o gyfresi o engrafiadau ar blatiau copper; *The Drunkard's Children* (8 plât, 1848) a *The Bottle* (8 plât, 1847).

Edrydd y gyfres hon o engrafiadau stori am deulu cyffredin a'r effaith ddifrifol o andwyol y mae gor-ddibyniaeth y tad ar y ddiod gadarn yn ei gael ar aelodau'r teulu. Yn hwylus iawn mae i bob plât gapsiwn eglurhaol:

- I The bottle is brought out for the first time: The husband induces his wife "just to take a drop."
- II He is discharged from his employment for drunkenness: they pawn their clothes to supply the bottle.
- III An execution sweeps off the greater part of their furniture: they comfort themselves with the bottle.
- IV Unable to obtain employment, they are driven into the street to beg.
- V Cold, misery and want destroy their youngest child: they console themselves with the bottle.
- VI Fearful quarrels, and brutal violence are the natural consequences of the frequent use of the bottle.
- VII The husband, in a state of furious drunkenness, kills his wife with the instrument of all their misery.
- VIII The bottle has done its work.

Dilyn y patrwm uchod a wna'r ddrama gyfieithedig *Y Botel* gan Kate Roberts. Pan gyfyd y llen ar yr olygfa gyntaf yn y ddrama cyflwynir y gynulleidfa i ystafell daclus ac i sefyllfa arferol, a'r pwyslais ar ba mor hapus yw'r teulu hwn cyn i'r tad estyn am y botel y tro cyntaf:

Ystafell wedi ei dodrefnu'n daclus yn nhy Llwyd. Y cartre dedwydd, y botel yn dyfod i'r golwg am y tro cyntaf.

Ond erbyn diwedd yr olygfa hon cawn wybod bod Rhisiart Llwyd, y prif gymeriad, wedi bod yn esgeuluso'i waith oherwydd ei fod yn yfed gormod. Personolir y botel, ac ymddengys fel cymeriad ychwanegol yn y ddrama o'r dechrau – rhyw ddiabol drwg o gymeriad sy'n tentio dynion da, ac yn eu hudo i'w transc.

Ruth: ...yr ellylles felldigedig – y ddiod⁸⁰

Hefyd,

Ruth: ...osgowch o fel tae o'n neidr, os gafaelith y cariad marwol am y ddiod yno fo bydd popeth da a phur yno fo yn siwr o wywo dan effaith y nwyd deifiol.⁸¹

Yn y diwedd y mae Llwyd yn colli ei waith a buan iawn y mae pethau'n dirywio wedyn. Cânt drafferth i gadw'r blaidd rhag y drws ac anfonir y plant allan i gardota ac i ddwyn o bocedi yn y traddodiad a ddarluniodd Charles Dickens mor wych yn *Oliver Twist*. Yn wir, mae un o'r plant yn marw; wedi llwgu i farwolaeth tra bod y tad yn gwario'r arian prin a gânt ar lenwi'r botel. Erbyn hyn y mae'r teulu wedi profi eithaf grym a dylanwad y ddiod. Mae'r tŷ yn wag ac yn oeraidd, y plant yn llwgu ac yn wylofain a Ruth y fam a'i gŵr yn ymladd. Nawr ac yn y man mae Rhisiart Llwyd yn ceisio ymwahanu oddi wrth y botel;

⁸⁰ *Ibid.*, t.18

⁸¹ *Ibid.*, t.15

Llwyd: ...Dowch, Ruth, rydw i'n dwad ataf fy hun rwan.
Mi a i fyny i wneud pethau'n iawn yn y gwaith a
mi fyddwn mor ddedwydd ag y buom ni rioed.⁸²

Ond ofer yw'r cyfan. A'r wers i'w dysgu yw peidio â chychwyn yfed yn y lle cyntaf.

Daw'r cyfan i uchafbwynt rhyfeddol yn 'Golygfa VIII' pan yw'r tad yn ymosod ar y fam gyda'r botel ac yn ei lladd. Erbyn yr olygfa olaf mae Rhisiart Llwyd mewn cadwyni yn y gwallgofdy, a'i blant yn edrych arno drwy'r drws.

Melodramataidd, heb os. Beiblaidd ei neges hefyd, yn sicr. Nid yw ychwaith yn perthyn yn ddestlus i'r hen ddramâu cegin Cymreig y sonnir amdanynt uchod, er mai o amgylch aelwyd y teulu Llwyd y mae'r ddrama'n digwydd. Perthyn i'r cyfnod pan ddeffrôdd bobl grefyddol i bosibiliadau'r ddrama fel cyfrwng y mae *Y Botel*. Y mae ei gwreiddiau'n sicr yn y dramâu a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd dan nawdd y capeli pan welsant fod llwyfan yn bulpud arall i bregethu arno. Yr oedd y Capeli eisoes wedi gwneud ffafr fawr â'r ddrama yn cyhoeddi ffug chwedlau Daniel Owen yn un o'u cyfnodolion; *Y Drysorfa* a dyma'r ail ffafr, sef noddï dramâu a oedd yn cefnogi agenda o fath arbennig.

Gadawodd Kate Roberts Ysgol y Sir Caernarfon ym 1910 gyda llond breichiau o wobrau am ei hymdrechion academaidd.⁸³ Pwynt na ellir ei anwybyddu hefyd yw, pan adawodd yr ysgol, yr oedd eisoes wedi cyhoeddi cyfrol o'i gwaith – cyfieithiad o ddrama a oedd wedi'i seilio ar gyfres boblogaidd o engrafiadau gan George Cruikshanks, un o ffrindiau agos y nofelydd enwog, Charles Dickens. Y flwyddyn honno hefyd trodd ei golygon tuag

⁸² Roberts, Kate *Y Botel*, llungopi yn Archifdy Prifysgol Bangor, golygfa V

⁸³ Llwyd, Alan, *Kate*, t.24

at Brifysgol Bangor – mangre a roes iddi syniadau ar gyfer drama arbennig fel y gwelir yn y man.

I gloi felly, gellid dweud fod yr oes y ganed Kate Roberts ynndi wedi bod yn oes dyngedfennol yn hanes y ddrama Gymraeg, a bod twf a phoblogrwydd y ddrama ar droad yr ugeinfed ganrif wedi bod yn fodd iddi ymdrwytho ei hun yn y *genre*. Magwyd Kate fel yr oedd y ddrama Gymraeg hithau yn dyfod i oed, a naturiol ddigon o ganlyniad ydoedd iddi droi ati fel ei ffrwd lenyddol gyntaf. Yn ei thro profodd y ddrama yn wythien ffrwythlon iawn iddi fel yr eir ati i ddangos.

Pennod 2

Y Tair B.A. a'r Dramâu Cegin

Ym mis Chwefror 1915 a hithau'n ferch ifanc pedair ar hugain mlwydd oed, a chanddi beth profiad fel athrawes erbyn hyn, derbyniodd Kate swydd Athrawes Gymraeg a Daearyddiaeth yn Ysgol y Sir Ystalyfera. Pentref diwydiannol yng Nghwm Tawe ydoedd Ystalyfera yn ystod y cyfnod hwn ond yr oedd yn wahanol iawn i bentrefi diwydiannol y Gogledd:

Euthum i Ystalyfera ym mis Chwefror 1915, i gymryd lle dyn a aethai i'r rhyfel. Ni wyddwn fod y fath le yn bod cyn cael telegram i'm galw yno yn sydyn. Yr oedd y daith yn bell ac yn ddieithr, a'r iaith yn ddieithr.¹

Er gwaetha'r ffaith fod popeth yn newydd ac yn ddieithr, yr oedd hon yn ddalen lân yn hanes Kate Roberts. Ac wrth i ni fanteisio ar ein sefyllfa freintiedig ni fel sylwebwyr o'r unfed ganrif ar hugain a chymryd cilwg yn ôl dros gwrs ei bywyd, dyma ddechrau pennod dra phwysig - pennod na chafodd lawer o sylw hyd yma.

Gan ddilyn, mae'n debyg, arweiniad Bobi Jones² daeth yn arferiad gan feirniaid llenyddol i gyfeirio at ddau brif gyfnod llenyddol yng ngyrfa Kate Roberts; 'Cyfnod Arfon' a 'Chyfnod Dinbych'. Gweler y cofnod hwn yn *Gwyddoniadur Cymru* er enghraifft; "Bydd beirniaid yn rhannu gyrfa lenyddol Kate Roberts yn ddau gyfnod: y cyntaf o *Deian a Loli* (1925) at *Ffair Gaeaf* (1937) yn 'gyfnod Rhosgadfan', a'r ail o *Stryd y Glep* (1949) hyd *Haul a Drycin* (1981) yn 'gyfnod Dinbych'.³ Ond gellid dadlau bod hynny'n gamarweiniol. Pe byddir yn gwbl fecanyddol ynghylch y mater medrir dadlau i gyfnod Kate yn Arfon ddirwyn i ben pan roes ei throed ar y trêen i Ystalyfera ym mis Chwefror 1915. Ni ddychwelodd i Wynedd i fyw

¹ Roberts, Kate, *Atgofion 1*, (Cymru: Gwasg Tŷ ar y Graig, 1972), t.26

² Jones, Bobi 'Storiau Cynnar Kate Roberts', *Barn* 209 (1980), t.159-61

³ Cofnod 'Kate Roberts', *Gwyddoniadur Cymru*, gol. John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur I. Lynch, (Caerdydd: Gwag Prifysgol Cymru, 2008), tt.783-784

fyth wedi hynny. Gellid dadlau'n dra rhesymegol hefyd nad cyfeirio'n unig at leoliad daearyddol yr awdures a wna'r beirniaid pan ddefnyddiant y llabed 'Cyfnod Arfon' wrth gwrs, a chydabyddir yn ogystal mai cyfeirio y maent at duedd ei gwaith mewn cyfnod neilltuol i bortredu cymunedau diwydiannol, cefn gwlad sy'n cyffelybu'r rheini a geir yn Arfon ei mebyd.

Ond nid oes lawer o sôn am 'Gyfnod Ystalyfera' Kate, na'i 'Chyfnod Morgannwg', na hyd yn oed ei 'Chyfnod yn y De' a thrueni hynny yw i hanes difyr a ffurfiannol y cyfnod hwn yn ei bywyd lithro drwy'r rhwyd oherwydd y dull gor-syml hwn o dafoli cyfnodau ei gyrfa.

Gwna Mihangel Morgan y pwynt hwn hefyd yn ei erthygl 'Kate yn y Cwm';

Ond er ei bod yn wir taw rhyw fath o Arfon yw lleoliad y rhan fwyaf o storïau'i thri chasgliad cyntaf fe luniwyd cyfran uchel ohonynt pan oedd yr awdures yn byw yn y de. Oni ddylid sôn am ran gyntaf ei gyrfa fel cyfnod Morgannwg?⁴

Dyma, mewn gair, gyfnod mabinogi Kate y llenor, a chyfnod sy'n haeddu mwy o sylw.

Wrth drafod dramâu Virginia Woolf a Kate Roberts yn *Cultural Translations: A comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf* dadleua Francesca Rhydderch nad gwyriad oddi wrth gynnyrch arferol Kate Roberts a Virginia Woolf yw'r dramâu cynnar hyn ond yn hytrach, "literary starting-points, the co-ordinates of which have hitherto remained unplotted."⁵

⁴ Morgan, Mihangel, 'Kate yn y Cwm', *Cwm Cynon*, Cyfres y Cymoedd, gol. Hywel Teifi Edwards, (Llandysul : Gwasg Gomer, 1997), t.285

⁵ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.152

Elfen hollbwysig yn neffroad llenyddol Kate Roberts yn ogystal oedd y ffaith iddi ddod yn gyfeillgar iawn yn fuan wedi cyrraedd Ysgol y Sir Ystalyfera â dwy ferch arall. Ac er nad oeddent o'r un cefndir â hi, roeddent yn bur sicr o'r un anian.

Betty Eynon Davies a Margaret (neu Nancy fel y'i gelwir weithiau) Price oedd y merched hyn a daethant yn ffrindiau pennaf ymhen dim. Dyma'r tair a ffurfiai'r drindod y rhoddwyd arni'r enw 'Y Tair B.A.' gan frodorion Ystalyfera.⁶ Rhaid cofio fod merched a chanddynt addysg Brifysgol yn brin iawn yn y cyfnod hwn gan nad ystyrid addysg yn hanfodol i ferched y cyfnod. Erbyn i Kate Roberts gyrraedd Prifysgol Bangor ym 1910 yr oedd dwy flynedd ar bymtheg ers i Brifysgol Cymru nodi yn ei siarter fod merched i'w trin yn gyfartal ar draws y Brifysgol.⁷ Er hynny, lleiafrif bychan iawn oedd merched mewn Prifysgolion yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif, yn staff gweinyddol, darlithwyr a myfyrwyr.

Meddai Katie Gramich am y drindod;

These were the two collaborators with her on the plays that the Red Dragon Society performed in the Tawe valley during the war. According to Nia Williams, the three young women were well known locally as 'y tair B.A. (The three BAs), which indicates the unusualness in those days and in that place of university-educated women.⁸

Yr oedd newid ar dro, er mor fychan, ac roedd y tair hyn felly gyda'r llif cyntaf o ferched i fanteisio ar y newid agweddau a welwyd yn y cyfnod yn enwedig felly agwedd cymdeithas

⁶ Williams, Nia, "*Fy iaith, fy ngwlad, fy nghenedl*" *hanes ymgyrchoedd Kate Roberts 1915-1961*, Thesis MA Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1998, t.33

⁷ Dyhouse, Carol *No distinction of sex? Women in British Universities 1870-1939*, (Llundain: Gwasg Prifysgol Llundain, 1995), t.12, "The charter of the University of Wales, granted in 1893, stipulated women's eligibility for degrees and also offices, stating specifically that they should be treated as full members of the university."

⁸ Gramich, Katie, *Kate Roberts*, Writers of Wales, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011), t.8

tuag at ferched. Mae lle i gredu hefyd yn ôl Francesca Rhydderch fod y tair hyn wedi elwa ar fod yn byw mewn cyfnod o newid cenedlaethol:

However, it is probable that Kate Roberts and her fellow dramatists were also influenced, however obliquely, by the concerns and spirit of the English suffragette and feminist playwriting collectives of the time.⁹

Yn ogystal â bod yn destun balchder, tipyn o syndod i bobl Ystalyfera oedd cael tair merch yn gweithio yn eu hysgol leol a chanddynt oll y B.A. tra chwenychedig. Daeth Kate felly yn rhan o chwaeroliaeth¹⁰ a oedd yn ffrwythlon ei gynnyrch creadigol gydag addysg ymysg y nodweddion a oedd yn eu tynnu ynghyd.

Merch i Timothy Eynon Davies, Gweinidog gyda'r Annibynwyr, ydoedd Betty Eynon Davies (12 Chwefror 1883 – 1 Chwefror 1960) a chafodd bob braint yn ystod ei magwraeth, gan gynnwys addysg o'r radd flaenaf mewn ysgolion bonedd yn Lloegr. Yr oedd yn ferch hyderus a diwylliedig ac roedd yn hyddysg iawn mewn sawl maes yn enwedig mewn Ffrangeg a llenyddiaeth Ewrop, ond maen tramgwydd Betty ydoedd na allai siarad Cymraeg er ei bod yn ceisio dysgu, yn ôl tystiolaeth Kate, "Ond mae Betty Davies yn mynd i sgrifennu i'r Ddraig Goch nesaf. Ond rhaid imi gyfieithu. Mae hithau yn prysur ddysgu Cymraeg."¹¹

Yn ôl Alan Llwyd, cafodd Betty Eynon ddylanwad aruthrol ar Kate Roberts. Â'r cofiannydd mor bell â datgan bod Kate Roberts yn ddiweddarach yn ei gyrfa yn seilio rhai o'i chymeriadau mwyaf cofiadwy ar Betty Eynon, er enghraifft Miss Williams, un o gyd

⁹ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.157

¹⁰ Priodol hefyd yw nodi yma fel y bu i Kate Roberts ddod yn gyfaillgar iawn â Lilla Wagner, seicdreiddwraig a ddioddefodd yn fawr o dan law y Natsiaid. Dyma gyfaillgarwch arall a esgorodd ar gynnyrch llenyddol yn ôl Alan Llwyd (*Kate*, t257-258). Gweler hefyd *Cyfaill*, drama lwyfan gan Francesca Rhydderch sy'n canolbwyntio ar y cyfnod hwn ym mywyd Kate Roberts.

¹¹ *Annwyl Kate*, *Annwyl Saunders*, gol Dafydd Ifans, t.29

athrawesau Ann yn *Tegwch y Bore*, a'r anfarwol Melinda yn *Tywyll Heno*. Yn sicr mae digon o dystiolaeth i ddadlau'n hyderus mai cof am Betty Eynon oedd egin y cymeriadau hyn. Un peth y medrir ei gymryd yn ganiataol fodd bynnag yw bod y ferch soffistigedig a diwylliedig hon a oedd wedi teithio llawer ac a oedd wyth mlynedd yn hŷn na Kate wedi denu ei hedmygedd hi. Athrawes Ffrangeg, Lladin a Saesneg oedd Betty Eynon ac er bod y ddwy o gefndir a oedd am y pegwn â'i gilydd roedd llenyddiaeth yn fodd i gymodi'r ddwy ac mae'n briodol iawn casglu fod eu diddordeb cyffelyb wedi bod yn dir canol rhyngddynt.

Agorodd Betty Eynon feddwl yr athrawes ifanc o'r Gogledd; ehangodd ei gorwelion, a helpodd, yn ddiarwybod i Kate, i greu llenor ohoni, neu o leiaf i roi iddi lawer iawn o gefndir ar gyfer y dyfodol. Hi a'i cyflwynodd i rai o glasuron mwyaf yr iaith Saesneg, a thrwy'r blynyddoedd, mewn sawl llythyr o'i heiddo at Kate, byddai Betty yn cymeradwyo llyfrau yr oedd wedi eu darllen iddi.¹²

Dadleua Katie Gramich, hithau, na ellir osgoi'r dylanwad a gafodd Betty Eynon ar y ferch ifanc o Ddyffryn Nantlle;

... Betty Eynon Davies was an important influence on her younger collaborator: she had graduated from the University of London in 1905, was widely read and sophisticated in comparison with the girl from Snowdonia, and was already an experienced English-language playwright by the time she came to Ystalyfera in 1913.¹³

The Four-leaved Clover: A play in one act oedd un o'r dramâu cynharaf i Betty Eynon Davies ei chyhoeddi ym 1920 (EPC Welsh drama series). Enillodd hon y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth Howard de Walden y flwyddyn flaenorol, er y gorfu i Betty Eynon rannu'r wobwr ariannol o £100 â chyd-enillydd. Ond fel y digwydd pethau, roedd hi'n un o'r ddwy arall a ddaeth yn gydradd gyntaf hefyd gan mai'r ail ddrama a ddaeth i'r brig oedd *Y Fam* gan

¹² Llwyd, Alan, *Kate*, t.46

¹³ Gramich, Katie, *Kate Roberts*, Writers of Wales, t.10

Betty Eynon Davies a Kate Roberts. *The Matchmaker, A play in one act*, oedd y ddrama nesaf i gael ei chyhoeddi gan The Welsh Outlook Press ym 1922, ac yna *Home: A play in one act* ym 1925 gan yr un cwmni cyhoeddi. Yn fwy nodedig efallai, mae *Gold and Silver* gan Betty Eynon yn dra diddorol oherwydd ei chysylltiad uniongyrchol â Kate. Ysywaeth, tasg anodd iawn yw dyddio'r gwreiddiol Saesneg gan nad oes copi wedi goroesi¹⁴ ond gwyddys iddi gael ei chyfieithu i'r Gymraeg a hynny gan neb llai na Kate Roberts ei hun. Ar dudalen deitl yr argraffiad o *Arian ac Aur* gan Wasg Aberystwyth ym 1937 nodir fel a ganlyn:

Dymunaf ddiolch i Miss Kate Roberts am ei chymorth
gwerthfawr yn Cymreigio'r ddrama hon.

Digon diogel yw darllen 'cyfieithu' am Gymreigio yn y cyswllt hwn, gan nad oedd Betty Eynon yn medru'r Gymraeg fel ag a nodwyd eisoes. Fodd bynnag, yn ôl Ioan M. Williams yn ei erthygl 'Ideoleg ac Estheteg yn y Mudiad Drama' a gyhoeddwyd ar y wefan *Gwerddon.com*, cyfieithwyd *Gold and Silver* eilwaith gan D.T. Llywelyn ym 1938 ar gyfer ei pherfformio gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg, Prifysgol Bangor neu Chwaraewyr Coleg y Gogledd fel y gelwir hwy ar dro. Rhestrir y ddrama a berfformiwyd ar gyfer y flwyddyn benodol honno fel hyn; "1938 Gold and Silver gan Betty Eynon Evans, wedi ei chyfieithu gan D. T. Llywelyn fel Arian ac Aur." (Evans nid Davies sylwer) Ond rhaid pwylllo yma. Rhedeg i gyfarfod â thrybini fyddai cymryd yn ganiataol fod yma ail gyfieithiad. Ond tybed nad defnyddio cyfieithiad Kate Roberts a wnaeth y cwmni drama o Brifysgol Bangor, a hynny heb yn wybod iddynt? Yn sicr mae T.LL., (nid yw'n rhoi ei enw llawn) awdur y llith sy'n dwyn y teitl 'Cyn Agor y Llen' ar raglen tymor 1937-38 y Gymdeithas Ddrama o'r farn mai drama Gymraeg wreiddiol sydd yma;

¹⁴ Nid oes copi o'r ddrama wreiddiol Saesneg wedi goroesi ee dim copi yn y Llyfrgell Genedlaethol

Traddodiad rheolaidd Chwaraewyr Coleg y Gogledd fu perfformio cyfieithiadau o ddramau Seisnig... Eleni, fodd bynnag, meiddiasom ymddihatru oddi wrth y traddodiad hwn trwy lwyfannu drama Gymraeg wreiddiol... Y mae'r amser wedi dod, ni a gredwn, i geisio llunio a datblygu'r Ddrama Gymraeg; dyna paham, yn un rheswm, y dewisasom "Arian ac Aur."¹⁵

Ymddengys nad oes gan T.L.L. unrhyw amheuaeth ynghylch iaith wreiddiol y ddrama, gan ei fod yn defnyddio hynny i wneud pwynt penodol ynghylch y defnydd o gyfieithiadau. Tybed a ddarllenwyd 'Cymreigio' fel 'cywiro' ganddo ac nid fel 'cyfieithu'? Mae hynny'n gwbl bosibl. Ac wrth gwrs, enw Betty Eynon Davies yn unig sy'n ymddangos ar argraffiad 1937; nid yw enw Kate Roberts i'w weld o gwbl ar y clawr a hynny'n groes i'r arfer gydag awduron cyfieithiadau.

Eironig iawn, ond odid, yw bod myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi anwybyddu cyfraniad un o raddedigion eu Prifysgol eu hunain yn y cyswllt hwn. Ond bid a fo am y gymdeithas honno ym Mangor, roedd y gymdeithas newydd yr oedd Kate Roberts yn perthyn iddi bellach yn hynod bwysig yng nghyswllt meithrin llenor.

Merch o Frycheiniog ydoedd Margaret Price, neu Nancy Price, ffrind arall Kate yn yr ysgol. Athrawes Saesneg ydoedd Margaret hefyd a chanddi hithau ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth a diwylliant. Ychydig a wyddys am Margaret Price mewn gwirionedd, ond yr oedd yn medru'r Gymraeg, mae'n debyg, er ei bod yn fwy cyfforddus yn siarad Saesneg.

Ond serch fod ganddi gyfeillion ar staff yr ysgol, cyfeillion y bu iddi gadw mewn cysylltiad â hwy am flynyddoedd wedi iddi adael byd addysg, nid oedd Kate yn hapus yno, fe ymddengys.

¹⁵ Rhaglen Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Bangor 1937-38, Archifdy Prifysgol Bangor

Efallai fod a wnelo hyn rywbeth â'r ffaith nad oedd yn athrawes naturiol, reddfol. Bu Kate Roberts yn dilyn cwrs Cymraeg a chwrs a roddai iddi drwydded i fod yn athrawes ym Mhrifysgol Bangor o 1910 i 1913. Roedd yn cael blas mawr ar y gwersi Cymraeg o dan ofal Syr John Morris-Jones a gwelir ei ddylanwad ar ei meddylfryd a'i hysfa am gywirdeb yn y Gymraeg flynyddoedd yn ddiweddarach. Ac meddai Syr Ifor Williams amdani, "I looked upon her as the most brilliant student we had ... Her Welsh prose was excellent."¹⁶ Ond gwahanol iawn oedd yr adroddiadau arni fel athrawes:

Final Estimate

Has done respectably in her degree work but has a dull and melancholy voice and manner, poor narrative power, and a lack of imagination. Her lessons are carefully prepared and she will always reach a certain level of accuracy, she has also some idea of method, but lack of animation tends to mar all her work. However, it must be remembered that she has no previous experience. C+¹⁷

Anodd credu mai'r un Kate yw hon y bydd rhai'n cyfeirio ati yn ddiweddarach fel Brenhines Ein Llên. Ac er y medrid dadlau, wedi myfyrio ynghylch y geiriau hyn, fod peth gwirionedd ynddynt yn ogystal wrth ystyried ei champweithiau llenyddol diweddarach; deialog ac nid naratif sy'n arwain yn aml ac mae Kate yn dueddol o ddibynnu ar y cof yn hytrach nag ar ei dychymyg, ac yn gefndir i'r cyfan y llais digalon unigryw hwnnw. Eto i gyd syndod yw ei gweld yn cael ei beirniadu am y nodweddion hyn. Ond mae'r llyfr adroddiad yn frith o sylwadau cyffelyb. Ar ei phrofiad ymarfer dysgu cyntaf yn ysgol Alexandra, Wrecsam (Medi 11 – 29, 1911) nodir fel hyn yn y llyfr; "Is anxious to do well but has a depressing manner which is anything but cheerful... Had not thought out difficulties girls were likely to find." Erbyn mis Rhagfyr 1912 ni welir fawr o gynnydd. Wrth sôn am Yr Aifft mae hi yn "lacking

¹⁶ Williams, Ifor, tystlythyr 7 Ebrill 1927, papurau Kate Roberts, LLGC, 2807

¹⁷ *University Collage of North Wales, Day Training Departement, Report Book, Students Entering in 1911*, Archifdy Prifysgol Bangor

in imagination” ac mae hyd yn oed yn baglu wrth geisio disgrifio’r hyn a ddaw yn y man yn ail natur iddi, “Not clear in her mind what constitutes a paragraph, and chn. left in confusion.”

Fe ddichon fod a wnelo’r ffaith iddi gael peth trafferth gyda rhai agweddau ar y swydd effeithio ar ei mwynhad a’i gallu i ymgartrefu yn yr ysgol. Wrth iddi gofio am ei chyfnod yn Ysgol y Sir Ystalyfera flynyddoedd yn ddiweddarach nid oes dim amwysedd. Mewn llythyr at Saunders Lewis ar y cyntaf o Hydref 1928 sy’n trafod salwch ei brawd Evan, meddai;

Fe aeth ei weled â mi yn ol deuddeg mlynedd at amser y meddyliwn fy mod wedi anghofio – pan oedd pedwar o’r brodyr yn y fyddin, nhad oddicartre, mam yn edrych ar ol y tyddyn ei hunan, a minnau yn Ystalyfera mewn uffern o ysgol.¹⁸

Afraid dweud bod y Rhyfel Mawr yn rheswm arall dros ei digalondid. Dyma gyfnod lle’r oedd pobl yn byw dan gysgod du llaw Rhagluniaeth heb wybod beth oedd hynt eu brodyr a’u tadau a’u gwŷr a oedd yn ymladd rhyfel annirnadwy mewn gwledydd dieithr. Cyfnod o anobaith a chyni a marwolaeth ym mhobman a chyfnod y bu i Kate ysgrifennu’n helaeth arno ac amdano yn ddiweddarach oedd cyfnod y Rhyfel Mawr.

Yn *Atgofion* edrydd Kate am effaith bellgyrhaeddol y Rhyfel, a hynny ar y pethau mwyaf elfennol, “Yr oedd y bwyd mor brin fel y byddai arnaf eisiau bwyd yn wastadol”.¹⁹ Yn goron ar y cyfan roedd tensiynau rhyngddi a Phrifathro’r Ysgol ar y pryd sef Henry Rees. Yn ôl Alan Llwyd roedd gan Henry Rees ragfarn yn ei herbyn am mai Gogleddwraig oedd hi ac roedd ei agwedd tuag ati “yn drahaus”.²⁰ Roedd Kate hefyd yn y cyfnod hwn, yn ôl ei

¹⁸ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, t.43

¹⁹ Roberts, Kate, *Atgofion I*, t.28

²⁰ Llwyd, Alan, *Kate*, t.55

chofiannydd, yn chwilio am swydd arall, gan wneud cais am swydd darlithydd Cymraeg yn y Coleg Normal ym Mangor ond ysywaeth, bu'n aflwyddiannus.

Ffactor bwysig iawn arall sy'n wybyddus iawn erbyn hyn yw sut y bu i Dei, brawd ieuengaf Kate ymrestru â'r fyddin ym 1916 gan ysgwyd Kate a'i rhieni gartref yn Nyffryn Nantlle i'w seiliau. Yn sydyn iawn roedd y Rhyfel a'i beryglon yn fyw iawn i Kate ac ymroddodd i sicrhau ei bod yn gwneud a allai dros y milwyr a'u teuluoedd yn ei chartref mabwysiedig yng Nghwm Tawe. Un o'r goruchwylion hynny ydoedd cymryd rhan yn y gweithgareddau i godi arian er mwyn anfon parseli o fwyd i filwyr a oedd oddi cartref - profiad sy'n cael ei gofnodi yn *Tegwch y Bore* pan yw Ann ac yn enwedig ei ffrind a'i chyd-athrawes yn yr ysgol, Bess Morris, yn gweithio "yn ddiflino ym mhwyllgorau cysuron y milwyr".²¹ Yn wir y mae Bess yn ymroi cymaint i'r gwaith hwn nes bod y gwaith caled yn newid ei chymeriad, a bron â'i gyrru o'i cho';

Cofiwch mai rhei ei meddwl ar un peth sydd wedi gyrru Bess Morris i'r tir y mae hi."

"Dwn i ddim, mae hi wedi mynd yn rhyfedd iawn."

"Yn ôl pob dim glywais i gynnoch chi mae hi'n Hogan sy'n credu mewn gwneud pethau i bobol eraill."

"Ydi."²²

Yn sicr yr oedd ymroi i fywyd cymdeithasol a diwylliannol yn rhywbeth a apeliai at Kate. Bu iddi ymddiddori'n llawn cyn hynny ym mywyd cymdeithasol y Brifysgol ym Mangor pan oedd yn fyfyrwr yno.

Roedd bwrlwm o fywyd cymdeithasol ym Mangor ar y pryd, a manteisiodd Kate a'i chyfoedion yn llwyr ac yn llawn ar y cymdeithasau a'r cyfeillachu a geid y tu allan i'r ystafelloedd

²¹ Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1967), t.302

²² *Ibid.*, tt.307-308

darlithio. Er mai Saesneg oedd prif iaith y Coleg, câi'r Cymry Cymraeg gyfle i gymdeithasu yn eu hiaith eu hunain yng nghyfarfodydd y Gymdeithas Gymraeg neu'r 'Cymric', a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1897.²³

Yn ychwanegol at 'Y Cymric' roedd y Gymdeithas Ddrama Gymraeg yn boblogaidd iawn a hefyd y Gymdeithas Lân a Dadl yn ogystal â'r Eisteddfod Ryng-golegol.

At hynny, y mae Kate Roberts yn adrodd yn *Y Lôn Wen* fel yr oedd yn Rhosgadfan ei mebyd gyloedd diwylliannol a llenyddol, gan amlaf ynghlwm wrth y Capel. Felly yr oedd yn gam naturiol i Kate ymaelodi â Chymdeithas y Ddraig Goch yn fuan wedi ymgartrefu yn Ystalyfera. Cymdeithas lenyddol fyrlymus oedd y Ddraig Goch a fuasai'n rhan o'r bywyd diwylliannol yng Nghwm Tawe er troad y ganrif, a thrwy hynny cai Kate wrando darlithoedd, clywed barddoniaeth ac wrth gwrs wyllo dramâu; "Ymhen pythefnos wedi imi fynd yno, fe chwaraeid dramâu byrion mewn neuadd."²⁴ Mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'i theimladau am ei hysgol, wrth hel atgofion flynyddoedd yn ddiweddarach am y Gymdeithas, ysgrifenna gydag arddeliad:

Tu allan i'r ysgol yr oedd digon o bethau i fynd â'n bryd. Cymdeithas y *Ddraig Goch*, er enghraifft, cymdeithas o ryw 400 o aelodau a gynhelid yn Gymraeg un wythnos ac yn Saesneg wythnos arall. Caem ddadleuon a darlithiau a phob math o gyfarfodydd, ac yr oedd yn gymdeithas hyfryd.²⁵

A chyda ffurfio cangen o Gymdeithas Cynilo'r Rhyfel yn Ystalyfera ymroddodd Kate a'i chyd-athrawesau i'r gwaith o godi arian. Drych union i'r olygfa a geir yn *Tegwch y Bore*;

"Wyddoch chi," meddai Ann un nos Iau yn y Ffestri wrth Mrs. Huws y gweinidog, a'r plant wedi mynd adre, "dwn i

²³ Llwyd, Alan *Kate*, t.28

²⁴ Roberts, Kate, *Atgofion 1*, t.27

²⁵ *Ibid.*, t.27

ddim pam mae'n rhaid inni gael yr hen ddadleuon dirwestol yma o hyd yn y cwarfodydd plant.”
 Sôn yr oeddynt am beth i'w gael mewn cyfarfod arbennig a oedd i'w gynnal cyn y Nadolig.
 “D wn innau ddim chwaith,” ebe'r llall, “fu gen i 'rioed fawr ddim i'w ddweud wrth ddirwest. Ond mae yna rai hen sôn am ddirwest ynddyn nhw.”
 “Nid meddwl am y dirwest yr oeddwn i,” meddai Ann, “ond meddwl am y dadl. Dau yn cwarfod â'i gilydd ar y lôn, a chyn y medrwhch chi gyfri dau, yn dadlau a ffraeo ynghylch rhywbeth. Nid felly y bydd pobl wrth gyfarfod â'i gilydd.”
 “Ond be gewch chi yn i lle nhw?”
 “Meddwl yr oeddwn i y basa posibl troi rhyw stori yn ddrama bach, a chael plant i'w hactio hi.”
 Yr oedd Mrs. Huws ar ben ysgol fechan yn cadw llyfrau yn y cwpwrdd llyfrau, a dyma hi'n troi rownd yn sydyn ac yn edrych ym myw llygad Ann.
 “Dyna chi wedi hitio'r hoelen ar i phen. Lle bûm i cŷd na faswn i wedi meddwl am beth fel yna, a mi'r oedd yn rhaid i chi ddwad i'r ardal yma i nysgu fi...”²⁶

A dyma, meiddir datgan, a esgorodd ar yrfa lenyddol Kate Roberts. Fel hyn ym 1915 a hithau'n bedair ar hugain oed, a fan hyn yn Ystalyfera, Cwm Tawe y bu i hynny ddigwydd.

Mae peth amwysedd ynglŷn â threfn cyfansoddi'r dramâu cynnar hyn a hynny efallai am na chawsant eu cyhoeddi'n syth. Bu bwlech o ychydig flynyddoedd rhwng y cyfansoddi a'r cyhoeddi, ac i ddrysu pethau ymhellach nid yw'r dramâu o reidrwydd wedi eu cyhoeddi yn y drefn y cawsant eu cyfansoddi ychwaith.

Gesyd Katie Gramich y dramâu yn y drefn ganlynol :

The first play to be formed by the pens of two of 'the three BA's'
Y Fam (The Mother)²⁷

Roberts's next published volume is also a co-authored play.
Y Canpunt (The Hundred pounds)²⁸

²⁶ Roberts, Kate *Tegwch y Bore*, t.112

²⁷ Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, t.9

²⁸ *Ibid.*, t.10

The next play was *Wel! Wel! (Well Well!)*.²⁹

Ond y tebygolrwydd yw mai eu gosod yn nhrefn eu cyhoeddi a wnaeth Katie Gramich, heb fanylu ynghylch y drefn gyfansoddi.

Tebyg hefyd yw barn Ioan M. Williams; “Fel dramodydd y dechreuodd ar ei gyrfa lenyddol, gan ennill y drydedd a’r olaf o gystadlaethau de Walden gyda’r ddrama *Y Fam*. Ysgrifennodd y ddrama un act honno ar y cyd â Betty Eynon Davies, cyd-athrawes â hi yn Aberdâr, a chydweithiodd â hi drachefn ynghyd â Margaret Price wrth gyfansoddi drama un act arall, ‘Comedi o Gwm Tawe’, *Y Canpunt*.”³⁰ *Y Fam* yw drama gyntaf Kate Roberts yn ôl y ddamcaniaeth hon, felly.

Ac y mae beirniad eraill, megis Mihangel Morgan ac Alan Llwyd yn osgoi’r mater (nid yn fwriadol efallai) drwy ganolbwyntio’n unig ar y dyddiadau cyhoeddi.

Y mae dryswch felly ynghylch pa ddrama yn union oedd y gyntaf i Kate Roberts ei chyfansoddi.

I geisio mynd at wraidd y broblem rhaid dibynnu ar adroddiadau o bapurau newydd y cyfnod a bodloni ar ddefnyddio dyddiadau perfformio’r dramâu i ddangos trefn y cyfansoddi i ni.

Felly’n union hefyd a wna Francesca Rhydderch:

Although it is true that of the three plays which Kate Roberts wrote with members of her female collective it was *Y Fam* [The Mother] which was published first, in 1920, *Y Canpunt: comedi o Gwm Tawe*

²⁹ Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, t.12

³⁰ Williams, Ioan M., *Y Mudiad Drama yng Nghymru 1880-1940*, t.106

[The £100: a comedy from the Tawe Valley] was first performed on 1st March 1916 by the Red dragon Society (and was subsequently published only in 1923), while *Wel! Wel!:comedi* [Well! Well!: a comedy] although not published until 1926, was performed as early as February 1920, by Aberdare Cymmrodorion drama company.³¹

Y mae'n bur sicr, o ddefnyddio'r fformiwla uchod felly, mai'r ddrama gyntaf i gael ei hysgrifennu gan Kate Roberts, a hynny ar ei liwt ei hun, oedd *Yn Eisiau*, howscipar a berfformiwyd gan aelodau o Gymdeithas y Ddraig Goch, gan gynnwys Kate ei hun, ar 30 Tachwedd 1915. Yn anffodus ni oroesodd na llawysgrif na theipysgrif o'r ddrama hwyliog hon ac ni chafodd ei chyhoeddi, ond gwyddys amdani am i adroddiad ar y perfformiad a oedd yn rhan o noson i anrhegu Peter Jones, cyn-reolwr glofa Tir-bach, a'i deulu ar achlysur eu hymadawiad â'r ardal,³² ymddangos yn y papur newydd *Llais Llafur* yn fuan wedyn:

The programme shows that there was an inexhaustable amount of talent in the church for it was practically all contributed by the members – the chief sketch of the evening being composed and dramatized by Miss Roberts, B.A... “Wanted, a Housekeeper by a Bachelor.” The role of bachelor was taken by Mr. John Morgan, BSc., and the applicants were Misses M. Price, B.A., K. Roberts, B.A., and Mrs Taliesyn Lloyd. The sketch and the natural manner in which it was acted evoked much merriment.³³

Perfformiwyd y ddrama fechan hon eilwaith, flwyddyn i'r mis, fe ymddengys, ym mis Tachwedd 1916.

The proceedings were brought to a close by a very amusing sketch written by Miss Kate Roberts, B.A., entitled ‘Wanted, a housekeeper’. The parts were taken by Mr. John Morgan B.A., as the Bachelor, while the characters of the aspirants for the position of housekeeper were filled by Miss M. Price B.A., Miss Kate Roberts (the authoress),

³¹ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.155

³² Gweler yr hanes yn Alan Llwyd, *Kate*, t.50

³³ ‘Ystalyfera Notes’, *Llais Llafur*, 4 Rhagfyr, 1915, t.3

Mrs. H. Morgan, L. and P. Bank; and Mrs Taliesyn Lloyd. The sketch had already aroused considerable interest.³⁴

Ymgais gyntaf y drindod, neu'r 'Tair B.A.' oedd *Y Canpunt* a luniwyd gyda golwg ar ei pherfformio yn y Coliseum yn Ystalafera fel rhan o ddatliadau Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Ddraig Goch ar 1 Mawrth 1916.

Hysbysebwyd y ddrama o flaen llaw yn y papur newydd *Llais Llafur* ar 26ain o Chwefror, 1916:

Heblaw yr adrodd a'r canu fe roddir perfformiad o ddrama newydd – “Y Can’punt.” Y mae'r ddrama newydd hon wedi ei hysgrifennu gyda'r amcan arbennig iddi gael ei chwareu yn nghyfarfod Nos Gwyl Dewi. Barnwn y dylai'r ardal deimlo dyddordeb neillduol yn y ddrama hon, am y rheswm fod ei hawdwyr yn trigo yn ein plith, ac yn adnabyddus i bawb bron. Cyfansoddwyd hi gan dair o aelodau ffyddlonaf y Ddraig Goch, sef Miss K. Roberts, B.A., Miss Margaret Price, B.A., a Miss Betty Davies, B.A., y tair fel y gwelir yn athrawesau yn yr Ysgol Sir.³⁵

Ac yn dilyn y perfformiad adroddwyd yn yr un papur newydd fod y cynhyrchiad wedi bod yn llwyddiant ysgubol:

Miss Jessie Williams as “Meri Myfanwy” evoked roars of laughter, while the stately dignity of “Mrs. Davies” (Miss M. Price), and the superior qualifications of “Angelina” (Miss Kate Roberts) will not soon be forgotten.³⁶

Ar 12fed o Ionawr, 1926, yn dilyn, gellir tybio, cyhoeddi'r tair drama fer *Y Canpunt*, ym 1923, ac *Y Fam*, 1920 a *Wel! Wel!* ym 1926 ymddangosodd erthygl ddiddorol yn y *South Wales News* yn dwyn y teitl ‘Humour in Welsh Life “Cwm Tawe” Comedy of a South Wales

³⁴ *Llais Llafur* 11 Tachwedd, 1916. Wedi ei godi o Francesca Rhydderch, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.155

³⁵ ‘Nos Gwyl Dewi yn Ystalyfera’, *Llais Llafur*, 26 Chwefror, 1916 t5. Wedi ei godi o Alan Llwyd, *Kate*, t.53

³⁶ *Llais Llafur*, 4 Mawrth 1916, t.3. Wedi ei godi o Alan Llwyd, *Kate*, t.53

town'. Edrydd yr erthygl hon ar natur y dramâu hyn o eiddo'r tair athrawes gan ganolbwyntio ar y cynnwys ysgafn a hwyliog a'r troeon trwstan a fyddai'n taro ar dro. Sonnir yn arbennig am un perfformiad o *Y Canpunt* lle benthyciwyd dresel a llestri te tsiena bendigedig ar gyfer y set ond fel y bu i bethau fynd o chwith braidd "...towards the end of the scene, and the precious china lay in pieces on the stage."

Yn ychwanegol at hyn ceir cofnod iddi gael ei pherfformio yn ogystal ar yr 2il o Ebrill, 1946 (tair blynedd ar hugain wedi ei chyhoeddi ym 1923) yn Theatr Garthewin gan gwmni Aelwyd Betws-yn-Rhos.³⁷ Ni ellir osgoi'r ffaith fod hon yn ddrama ac iddi apêl sydd bron â bod yn oesol a bod y briodas rhwng yr elfen ddigrif a'r ffaith fod y gorchfygedig yn ennill y dydd yn un sydd wrth fodd cynulleidfaoedd, yn enwedig felly cynulleidfaoedd amser Rhyfel, fe ymddengys.

Ni ellir ychwaith anghofio am ffaith bwysig arall am y cyfnod hwn, sef fod Kate Roberts yn ffodus iawn o'r ddarpariaeth ddiwylliannol a newyddiadurol a oedd yn bodoli yn ugeiniau a thridegau'r ganrif ddiwethaf. Degawdau o gyni ac o ansicrwydd rhwng dau ryfel, bid siwr, ond cyfnod ffodus hefyd, gellid dadlau, i lenorion a chyw dramodwyr fel Kate Roberts oblegid dyma gyfnod euraidd y wasg Gymraeg. Caed sawl papur newydd, rhai dyddiol a rhai wythnosol, Cymraeg a Saesneg yn adrodd ar bob math o ddigwyddiadau llenyddol a diwylliannol o Gymru benbaladr, o'r cynulladau mwyaf lleol a gwerinol, i'r cyngherddau mwyaf mawreddog. Roedd yna ddiddordeb felly yn y gwaith a wnâi Kate Roberts gyda Chymdeithas y Ddraig Goch, ac ymateb i'r gweithgarwch. Gellid tybio fod y gefnogaeth hon wedi bod yn anogaeth o fath i ddal ati.

³⁷ Gweler *Saunders Lewis a Theatr Garthewin*, Hazel Walford Davies, tt.86-87

Yn sicr, fe gafodd *Y Canpunt* sylw yn y wasg fel y nodwyd eisoes. Ni fyddai hynny wedi gwneud dim drwg i hyder y merched yn sicr, a gellir ond tybio hefyd, fod a wnelo'r sylw hwnnw rywbeth â'r ffaith i'r ddrama fechan hon gael ei chyhoeddi.

Comedi ysgafn, hyfryd ydyw *Y Canpunt* gan Margaret Price, Kate Roberts a Betty Eynon Davies (ymddengys eu henwau ar glawr y gyfrol a gyhoeddwyd ym 1923, yn y drefn honno). Y mae'n gorlifo o'r confensiynau y sonnir amdanynt yn rhan gyntaf y traethawd hwn. Y mae'r cybydd yn wastad yn gocyn hitio, a dyna a gawn yma. Y mae Mrs Davies, er yn amlwg yn gyfoethog iawn, yn hel esgusion rhag rhoi i'w nai sy'n dlawd, y canpunt a addawodd ei gŵr iddo, wedi iddo ef farw.³⁸ Y mae Jim, y nai a'i gariad, Mari, wedi dwad i geisio creu argraff dda ar y fodryb ac i ddatgan eu bwriad i briodi yn y gobaith y gwelan nhw'r canpunt. Wedi inni ddiodef rhagfarn a rhagrith Mrs Davies a'i merch ddi-liw (ond cyfoethog, cofier) Adelina, yn sydyn daw'r catalydd, sef Sam Price, pennaeth glofa Gors-y-Bryniau, i'r golwg. Y mae popeth yn cael ei wyrdroi ac mae'r cardiau yn llaw Mari a Jim yn edrych yn dipyn mwy ffafriol, er nad ydyw Jim druan yn ymwybodol o hynny ar y pryd. Y mae'n amlwg fod Mrs Davies â'i bryd ar gael Sam Price yn fab yng nghyfraith iddi ac mae Mari, y ferch sylwgar a chraff ag ydyw, wedi sylweddoli hyn ac yn llwyr fanteisio ar y sefyllfa. Ymddengys ei bod hi'n adnabod Sam Price eisoes a gwna'n fawr o'r cyfle i fflyrtio ag o er mawr anesmwythyd i Jim ac i Mrs Davies:

ADELINA (yn ceisio ennill edmygedd): Siwgr a llaeth, Mr. Price?

SAM PRICE: Thank you. Tri lwmp os gwelwch yn dda. (Yn troi at Fari M.) Rwi'n moin llawer o bethe melys achos wi mor sur yn hunan!

MARI M. (yn chwerthin): O nacyh, Mr. Price. Ych chi'n ddigon melys i fi, ta beth.³⁹

³⁸ Cymharer â'r sefyllfa yn y stori fer 'Yfory ac Yfory', gan Kate Roberts a ymddangosodd yn *Yr Wylan Deg*, 1976; "...er mwyn iddi hi farw, ac mwyn iddo fo gael y canpunt a adawsai iddo yn ei hewyllys." t.56

³⁹ Price, Margaret; Roberts, Kate; Davies, Betty Eynon; *Y Canpunt*, t.26

Llwydda Mari, drwy gynllwyn craff, i ennill y canpunt. Yn wir, bron nad yw Mrs Davies yn ei daflu atynt i gael gwared ar Mari o'r tŷ ac o olwg Sam Price. Y mae'r 'da' wedi trechu'r 'drwg' yn unol â chonfensiwn yr oes, a'r gynulleidfa yn hapus fod pawb wedi derbyn eu haeddiant.

The play is genuinely funny... as its title indicated, and in spite of its broad comedy, turns on economic realities and class differences... Its comic tone and structure, though, ensure that the characters are not ground down by poverty and hardship but triumph over it through their down-to-earth wit.⁴⁰

Saith mlynedd a deugain yn ddiweddarach i gyhoeddi *Y Canpunt* ymddangosodd dramodig fechan gan Kate Roberts yng nghylchgrawn *Y Wawr*⁴¹ yn dwyn y teitl *Bore Sul yn Nhŷ'r Jonesiaid*. Ceir cynllwyn cyfrwys yn y ddrama hon hithau. Y mae Pegi yn golchi'r ci yn y parlwr ac yn esgeuluso ei gwaith o wneud brechwast i'w modryb a'i Nain. Drwy gynllwyn craff, nid annhebyg i'r cynllwyn a geir yn *Y Canpunt* llwydda'r fodryb i gael ei brechwast yn y diwedd:

Modryb Jane: Does yna ddim newydd yn yr hen bapurau yma, dim ond rhyfel a streic a mwrddro [mae hi'n darllen ymlaen].
O'r nefoedd fawr! Oes, clywch, newydd ofnadwy. Mae'r clwy yna ar gŵn wedi dwad i'r wlad yma, clwy y cŵn cynddeiriog – rabies maen nhw'n i alw fo. [Mae'n sbelio'r gair "rabies" yn araf].
A mae gorchymyn wedi mynd allan nad oes neb i fod i olchi i gi.
Dyna'r peth gwaetha'n bod, ac mae pob ci gaiff ei olchi yn debyg o fynd yn gynddeiriog, a bydd yn rhaid i ddifa fo, er mwyn cŵn eraill.

Pegi: [Yn brysio tynnu'r ci o'r dŵr yn gynhyrfus ac yn ei sychu].
Clyw Tobi bach, gobeithio mod i'n ddigon buan. [Mae hi'n rhedeg allan].

⁴⁰ Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, t.12

⁴¹ Roberts, Kate, 'Bore Sul yn Nhŷ'r Jonesiaid', *Y Wawr* (Cylchgrawn Merched y Wawr), Rhifyn 9, Hydref 1970, tt.11-12

Modryb Jane: [Yn chwerthin yn uchel] Mi gawn frecwast rŵan siawns.

Nain: [Yn chwerthin yn aflywodraethus].⁴²

Mynn Katie Gramich a Francesca Rhydderch fod yma bwysigrwydd ar wahân i'r ffaith fod *Y Canpunt* yn gomedi godidog a ysgrifenydd gan dair merch ifanc a oedd mewn difrif yn torri tir newydd yn hanes llenyddiaeth merched, sef bod y ddrama hon hefyd yn ymrymuso yn ogystal â herio rôl y ferch mewn cymdeithas.

All the qualities which Mrs. Davies abhors in Mari, her country ways and her inability to speak English, become in the play the markers of the audience's emotional investment in Mari as an anti-heroine. Unlike her unscrupulous aunt, she has not internalised English values; true to her language, and to her culture, she is true to herself. Thus her sexual self awareness and power become amalgamated into her cultural and linguistic superiority, forging in *Y Canpunt* an image of Welsh womanhood which is radically at odds with Victorian notions of femininity which still held sway in Nonconformist Wales following the First World War.⁴³

Rhaid cofio yn ogystal fod mudiad y swffragét yn weithgar iawn yn genedlaethol yn ystod y cyfnod hwn. Ac er efallai nad oedd y merched hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mudiad hwnnw yr oeddent yn sicr yn gwneud eu rhan yn herio rhai confensiynau, ac yn cyfranogi at y don newydd o egni benywaidd a welwyd ar droad y ganrif ddiwethaf.

Wrth gymharu gweithiau Kate Roberts a Virginia Woolf daw Francesca Rhydderch i'r canlyniad bod yna wahaniaeth rhwng agwedd y ddwy awdures tuag at rôl y ferch mewn cymdeithas ac at ffeministiaeth yn gyffredinol a hynny oherwydd y ffaith i Kate fod yn

⁴² Roberts, Kate 'Bore Sul yn Nhŷ'r Jonesiaid', *Y Wawr* (Cylchgrawn Merched y Wawr), Rhifyn 9, Hydref 1970, t.12

⁴³ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.160

ddigon ffodus i gael addysg - addysg uwchradd ac addysg Prifysgol - rhywbeth a waharddwyd i bob pwrpas i Virginia Woolf;

Kate Roberts, for example... had access not only to a formal secondary education but also to a university degree course. Woolf, by contrast, spent her youth ensconced in her father's library in the solitary pursuit of some kind of education... It is clearly due to her lifelong feeling that she was something of an educational interloper, indeed an 'outsider', that Woolf's non-fiction writing on such questions developed into increasingly forthright and feminist polemic. Roberts, in the meantime, although she appreciated her good fortune in obtaining an education...was profoundly attached to the Welsh-language culture and community despite its deeply-rooted patriarchalism, and never developed a feminist approach comparable to that of Woolf.⁴⁴

Wedi dweud hynny, fodd bynnag â Francesca Rhydderch ati i ddadlau fod y dramâu cynnar hyn yn arddangos llawer mwy o elfennau ffemenistiaeth na gweithiau mwy diweddar Kate Roberts;

Nevertheless, an exploration of the sexual politics of Roberts's work- of her largely neglected plays and early political journalism, for example- brings to light some of the most radically proto-feminist works among Roberts's *oeuvre*.⁴⁵

Yn sicr mae'r ddrama hon – *Y Canpant*, yn arddangos elfennau o'r hyn a drafodir gan Francesca Rhydderch. Mae cymeriad Mari yn un cryf, ac yn sicr y mae hi'n ferch o flaen ei hamser.

Yn fwriadol, Mari y ferch heb na modd nac addysg na chefnidir cymeradwy sy'n cael y gair olaf yn y ddrama, a hynny'n llythrennol hefyd:

⁴⁴ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.8

⁴⁵ *ibid.*,

MARI M: Na, dim heno diolch. Falle gewn ni'r ride yna rywbyrd eto. (wrth JIM) Dwedwch goodbye wrth Mr. Price, Jim. Fe ddylsech fod yn ddiolchgar iawn iddo fe. (wrth MRS. DAVIES) Goodbye, Modryb Mary Jane. Mi ofynnwyd i chi ddod i'r briodas. Goodbye, Adelina. (*Yn cymryd braich* JIM) Dere mlan, Jim bach. Chi ydi 'nghariad i, wedi'r cwbl, ond rown i wedi penderfynu cal y canpunt 'na!
(*Y ddau yn mynd allan.*)

LLEN ⁴⁶

Ar 21 Hydref 2012, sef cant namyn pedair o flynyddoedd wedi'r perfformiad cyntaf hwnnw yn y Coliseum ar 1 Mawrth, 1916, ac yn dilyn ychydig o drafodaeth yn y wasg⁴⁷ ar y dramâu cynnar hyn yr oedd Kate Roberts yn rhannol gyfrifol amdanynt, perfformiodd Cwmni'r Morlan, *Y Canpunt* yn Theatr y Morlan, Aberystwyth⁴⁸ a hynny gyda gwir ddiddordeb a dilysrwydd, gan gadw at naws y gwreiddiol. Hysbysebwyd y perfformiad o flaen llaw yn *Y Tincer*.⁴⁹

HYDREF 21-22
Nosweithiau Sul a Llyn
Cwmni Morlan yn perfformio'r ddrama
Y Canpunt (Kate Roberts) ym Morlan,
Aberystwyth am 7.30 ar nos Sul, 21 Hydref
ac am 7.00 nos Lun, 22 Hydref. Ar y nos Sul
bydd Francesca Rhydderch a Katie Gramich yn
trafod gwaith Kate Roberts cyn y perfformiad.
Dim ond y ddrama fydd i'w gweld ar y nos Lun.
Tâl mynediad: £3 (ar y nos Sul), £2.50 (ar y nos
Lun) – y pris yn cynnwys paned

I hyrwyddo'r digwyddiad cafwyd erthygl fer yn Golwg yn ogystal ble mae Non Tudur yn cyfweld Geraint Evans a oedd yn cyfarwyddo'r ddrama:

⁴⁶ *Y Canpunt*, t.31

⁴⁷ Gweler *Golwg*, Jones, Diane, 'Ymateb i'r drafodaeth am rywioldeb Kate Roberts', 5 Ionawr 2012, Rhif 17 t.10, a Jones, Diane, 'Kate Roberts: Darganfod ei dramâu anghofiedig', *Y Casglwr*, Rhif 104, Gwanwyn 2012, t.7

⁴⁸ Ceir lluniau o'r perfformiad ar wefan Y Morlan:

http://www.morlan.org.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=67:cwmni-morlan-yn-perfformio-un-o-ddramau-kate-roberts&catid=4:documents&Itemid=6&lang=cy

⁴⁹ *Y Tincer* – papur bro Genau'r-Glyn, Melindwr, Tirymynach, Trefeurig a'r Borth. Rhifyn Hydref 2012
<http://www.trefeurig.org/uploads/tincerhydref2012.pdf>

Mae Geraint Evans ar fin cyfarwyddo un o ddramâu Kate Roberts ar ôl darllen hanes yn Golwg am ddramâu doniol y buodd yn eu hysgrifennu tra'n athrawes ifanc.

“Do'n i ddim hyd yn oed yn gwybod bod Kate Roberts wedi gwneud y math yma o beth,” meddai Geraint Evans sy'n llwyfannu *Y Canpunt* gyda Chwmni Drama'r Morlan yn Aberystwyth.

“Mae hi'n ddrama hwyliog dros ben ac yn gomedi. Mae e'n wrthbwynt llwyr i'r syniad arferol sy' gyda ni o Kate Roberts.”...

... “Mae'n ddoniol tu hwnt,” meddai Geraint Evans. “Peth ysgafn iawn yw e. R'yn ni'n mynd i'w chwarae yn union fel yr oedd hi wedi'i 'sgrifennu gan Kate Roberts. Dw i wedi newid y nesa' peth i ddim.”...

... “Mae syniad gyda ni o Kate Roberts fel gwraig ychydig yn seriws,” meddai Geraint Evans. “Ond mae golwg wahanol iawn arni hi fan hyn yn y cyfnod cynnar yn ei bywyd.”⁵⁰

Tasg arall ddigon anodd, onid amhosibl, yw ceisio datgymalu union gyfraniadau'r merched unigol yn y cywaith a gyfrannodd at *Y Canpunt*. Tueddiad yr ychydig feirniaid llenyddol sydd wedi trafod y ddrama hon yw rhesymu nad oedd gan Kate ran flaenllaw yn y fenter o gwbl. Gofyn Mihangel Morgan y cwestiwn hwn yn ei ysgrif ‘Kate yn y Cwm’;

...yn *Y Canpunt* sydd â'r is-deitl ‘Comedi o Gwm Tawe’ ceir tafodiaith ddeheuol ac eto yn *Wel! Wel!* Y cwestiwn yw faint o Kate sydd yn y testunau Cymraeg?⁵¹

Â Alan Llwyd gam ymhellach gan ddatgan yn blaen mai cyfieithu oedd unig rôl Kate Roberts:

Betty Eynon oedd y ddramodwraig, ond nid oedd yn ddigon rhugl ei Chymraeg i lunio'r un ddrama ar ei phen ei hun, a Kate gafodd y gwaith o gyfieithu neu addasu'r ddeialog i'r Gymraeg.⁵²

⁵⁰ Tudur, Non, ‘Kate Roberts y dramodydd doniol’, *Golwg*, cyfrol 25 rhif 5, (4 Hydref, 2012), t.19

⁵¹ Morgan, Mihangel, ‘Kate yn y Cwm’, *Cwm Cynon*, Cyfres y Cymoedd gol. Hywel Teifi Edwards, Gomer 1997 t.296

⁵² Llwyd, Alan, *Kate*, t.53

Mewn llythyr at Kate ar 10 Chwefror, 1927 y mae Saunders Lewis yntau'n cwestiynu'n gyffelyb, "Faint piau chi o Wel! Wel!"⁵³ Gresyn na fu i ymateb Kate o roesi ac o'r herwydd annhebygol y ceir byth ateb boddhaol i'r cwestiwn hwnnw bellach. Y mae'n amhosibl dweud erbyn heddiw beth yn union oedd rôl Kate yn y cyfansoddi cynnar hwn. Ond yr hyn y medrir ei gasglu, a'r hyn sy'n hollbwysig, ond odid, yw ei bod hi'n rhannol gyfrifol amdanant a'i bod hi, gyda chymorth eraill, yn llunio dramâu a oedd wrth fodd cynulleidfa'r cyfnod ac yn cael eu barnu'n ddigon da i'w cyhoeddi.

Ffaith arall o blaid y ddadl fod gan Kate Roberts ran allweddol i'w chwarae wrth lunio'r ddeialog yn y ddrama hon yw iddi ddefnyddio tafodiaith ddeheuol hefyd mewn rhai straeon byrion, a rhai cynnar at hynny. Wele 'Buddugoliaeth Alaw Jim';

"Ti a dy hen gi," oedd geiriau cyntaf Ann, a chyn i Morgan allu casglu ateb at ei gilydd byrlymodd ymlaen:
"Dyma fe'r crwtyn yn llefen am afu, a thithe'n gwario d'arian a d'amser ar yr hen gi yna. 'Does dim posibilid i fe gryfhau ar y bwyd mae e'n gael. A dyna'r plant eraill mas yn yr oerni yn dryched am lo yn yr hen lefel yna, a thithe'n enjoio yn y cae rasmus, a phobl yn dannod i fi 'mod i'n cael dillad newydd ar gefen dy hen gi di."⁵⁴

Hefyd 'Diwrnod i'r Brenin';

"Daro," meddai hi'n uchel pan welodd hi gorff tew di-siâp Meri Ann Price yn y drws.
"Rych chi'n dishgwyl yn fishi iawn," meddai honno.
"Odw," meddai Rachel, "rw i'n mynd i Gardydd prynhawn yma, ac rw' i am orffen popeth yn gynnar."
"Dyna lwcus mae rhai pobol," meddai ei chymdoges, "mae digon i arian i gael gyda nhw'."
"Na, dim digon, Meri Ann, ond fe ddigwyddws 'y nwnawl hala decsyllt inni'r bora yma."
"Dyna neis; mae pawb yn cael gwell lwc na ni. Be ddyliech chi wnath

⁵³ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, t.16

⁵⁴ Roberts, Kate, 'Buddugoliaeth Alaw Jim', *Ffair Gaeaf*, t.13

y Mishtir gyda Jac ni yn yr ysgol ddoe; 'r oedd e'n rhoi sgitshe'r ffynd mas, ych chi'n gweld, ac fe roes bâr newydd i Jac, ond fe roes y sgitshe oedd ar ei draed e i grwtyn arall, a dim ond y dwarnod cyn 'ny oeddwn i wedi talu hanner coron am i tapo nhw."

"Ie, ond fe gas Jac sgitshe newydd," meddai Rachel, "ellwch chi ddim byta'ch bynsen a'i chadw hi, Meri Ann."⁵⁵

O ystyried y cyd-destun ehangach, bu llawer o drafod yn y 1930au ynglŷn â thafodiaith mewn gweithiau ffuglennol, a Kate Roberts yn arwain y fintai o blaid defnyddio tafodiaith i roi gwedd o realaeth mewn llenyddiaeth. Dadleuai beirniaid llenyddol y cyfnod megis Iorwerth Peate⁵⁶ nad oedd rhaid ysgrifennu mewn tafodiaith bur i gyfleu sgwrs mewn ffuglen. I'r gwrthwyneb, byrdwn dadl Kate ydoedd fod ffuglen yn annaturiol oni ddefnyddir tafodiaith:

Weithiau, yn enwedig gan athrawon ysgolion, fe feirnedir awdur am ddefnyddio gormod ar yr iaith lafar. Hyd y gwelaf i, mae'n amhosibl gwneuthur stori'n naturiol yn Gymraeg heb ddefnyddio ffurfiau llafar pan fo pobl yn siarad â'i gilydd. . . . I mi, felly, byddai rhoi Cymraeg llyfr yng ngenau cymeriadau stori, yn enwedig pobl cefn gwlad, yr un peth â mursendod yn y cymeriadau eu hunain. . . . Eto, ni chlywais i erioed neb yn cwyno yn erbyn Daniel Owen am dafodiaith ac idiomau Sir Fflint a siaredir gan bobl fel Tomos Bartli.⁵⁷

Y mae'n dadlau ymhellach yn y *Y Llenor* ym 1931⁵⁸ "Ar ôl darllen gwahanol adolygiadau ar *Laura Jones*, temtir fi i ysgrifennu beirniadaeth lem iawn ar yr adolygwyr hynny a gondemnia'r defnydd a wnaif o dafodiaith." Ac eto, "Nid oes dim o'i le, hyd y gwelaf i, mewn ysgrifennu nofel bob gair mewn tafodiaith os dewisa'r awdur wneuthur hynny. Ond sôn yr ydwyf yn awr am storiâu lle yr ysgrifennwyd y darnau disgrifiadol mewn iaith lyfr a'r siarad mewn tafodiaith."

⁵⁵ Roberts, Kate 'Diwrnod i'r Brenin', *Ffair Gaeaf*, t.30

⁵⁶ Beirniadodd Iorwerth Peate y defnydd o dafodiaith yn *Laura Jones* yn *Y Llenor* 1931

⁵⁷ Roberts, Kate, *Laura Jones*, 'Rhagair', t.5

⁵⁸ Roberts, Kate, 'Tafodiaith Mewn Storiâu', *Y Llenor*, 1931 tt.55-58

O gymryd y dadleuon uchod i ystyriaeth felly gellid dadlau fod y dramâu cynnar hyn wedi cyflwyno cyfle iddi ymarfer y grefft o ysgrifennu deialog mewn tafodiaith ac efallai hyd yn oed berffeithio tafodiaith nad oedd yn eiddo iddi hi ei hunan. Ceir ail ddrama, yn ogystal sef *Wel! Wel!*⁵⁹ hithau wedi ei hysgrifennu mewn tafodiaith ddeheuol.

Awn am dro i siop Mr a Mrs Jenkins yn *Wel! Wel!*, yr ail ddrama i lifo o ysgrifbinau'r tair. Geilw awdur ysgrif yn y *South Wales News* y ddrama hon yn "A study of gossips."⁶⁰ Ac y mae yn llygaid ei le. Ni ellir osgoi cymharu'r ddrama fechan hon ag 'astudiaeth' arall y byddai Kate Roberts yn ei chyhoeddi flynyddoedd yn ddiweddarach, sef *Stryd y Glep*. Mae tebygrwydd elfennol rhwng y ddwy: nid yn unig y syniad ynghylch y lleoliad statig; y siop yn *Wel! Wel!* a'r lolfa yn *Stryd y Glep*, ond hefyd y ffaith fod cymeriadau yn mynd a dod ac yn cyfrannu at y stori gyda hynny. Mae 'hel straeon', neu 'glebran' am gymdogion yn golyn cyffelyb sy'n clymu plot y ddrama a phlot y stori hir fer at ei gilydd.

Mai 8

Dyma Enid wedi bod a phobl eraill lawer wedi bod. Mae'r tŷ yma'n waeth na thŷ capel ar nos Sul am hel straeon. Yr oedd Lowri Lysti yma, Dan, Enid, yr hen Lowri'r Aden, John ni, wrth gwrs, a Besi. Ond ni roddais fawr o sylw i ddim a ddywedai neb gan mor gyfuriog oeddw'n o'r hyn a ddywedasai Enid. Y newydd mawr a oedd ganddynt hwy oedd bod Rhys Glanmor wedi marw cyn y capel y noson honno, ac fel arfer, neb, ag eithrio'r hen Lowri, yn meddwl dim am ei enaid, ond sôn am ei arian.⁶¹

Yn wir, y mae'r siop hon yn y ddrama *Wel! Wel!* yn lle diddorol. Er bod Mrs Jenkins yn datgan ar ddechrau'r ddrama; "...dwi i byth yn gwrando ar hen glecs am fy nghymdogion, a

⁵⁹ Yn ogystal â bod mewn cyfrol gyhoeddiedig y mae'r ddrama hon yn bodoli hefyd ar ffurf llawysgrif (nid yw'n edrych fel llaw Kate) mewn llyfr nodiadau (LLGC Casgliad D. R. Davies rhif 57). Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y llawysgrif a'r copi cyhoeddiedig yw fod y cyfarwyddiadau llwyfan mewn Saesneg yn y llawysgrif ac mewn Cymraeg yn y copi cyhoeddiedig, hefyd mae ychwanegiad at ddiweddglo'r llawysgrif yn y copi cyhoeddiedig.

⁶⁰ *South Wales News*, Ionawr 12, 1926

⁶¹ Roberts, Kate, *Stryd y Glep*, t.7

phan fydda i yn clywed rhywbeth dyw e byth yn mynd ym mhellach.”⁶² Y mae’n gwneud, wrth gwrs, yn hollol i’r gwrthwyneb. Try’r ddrama o amgylch y straeon di-sail a edrydd Mrs Jenkins a’r siopwyr a ddaw yno ynghylch Dulyn Jones, y Gweinidog.⁶³

MRS. J. : Sharad am briodi, odi chi, Joseph Hughes wedi clywed fod Dulyn Jones yn gadel i lodgings, achos i fod e’n meddwl am briodi?

J. Huws yn eistedd i lawr yn gymffordus ar un o’r bocses fel pe am aros yn hir.

J. HUWS: Ych chi ddim yn gweud !

MRS. J. : Odi, glywodd Mair hynny.

MAIR (yn protestio) : O, Modryb Gwen !⁶⁴

Y mae Mrs. Jenkins yn gwbl argyhoeddedig fod Mr. Jones yn dangos arwyddion ei fod am briodi a chyda fod hynny ynddo’i hunan yn adlewyrchiad digon teg ar amgylchiadau’r gweinidog mae’r hyn sy’n datblygu o’r pwynt cychwynnol hwnnw yn gamddehongli disylfaen sy’n ymylu ar fod yn lloerig. Ac ynghanol hyn oll mae Mamgu druan a’i hebychiadau ymataliol “Wel! Wel!” hithau yn ychwanegu at elfen swrrealiaidd y ddrama. Tŷf y celwydd yn belen eira fawr ac mae pawb sy’n ymweld â’r siop yn cael modd i fyw wrth glywed am, ac ychwanegu at, y ffars. Dau eithriad yw cymeriadau Mair a Tom Jenkins, nith a gŵr Mrs Jenkins, ac mae’r ddau yn ymdrechu’n lew i ddal pen rheswm â’r cymeriadau eraill, er ofer pob ymgais.

Rhyw ychydig cyn y llen, daw Dulyn Jones ei hunan i’r siop ac yn araf bach datgymelir y stori a daw’r gwir i’r golwg. Ar y naill law sylweddola pawb iddyn nhw fod yn rhy fyrbwyll

⁶² Davies, Betty Eynon; Price, Margaret; Roberts, Kate, *Wel! Wel!*, t.5

⁶³ Sylwer ar enw bedydd y Gweinidog. Fel (Cors-y-Bryniau yn *Y Canpunt*) enw a gysylltir yn bennaf â Dyffryn Nantlle yw Dulyn. Un o fynyddedd Crib Nantlle ydyw Cwm Dulyn ac o lyn yng ngesail y mynydd hwn y caiff poblogaeth Dyffryn Nantlle eu dŵr yfed. Hwn hefyd yw’r mynydd lle y gwelodd R. Williams Parry wrthrych yr enwog soned ‘Y Llwynog’ (gweler *Yr Haf a Cherddi Eraill*). Dylanwad Kate Roberts a welir yma wrth gwrs. Dyma enghraifft brin ohoni yn gosod tamaid o Arfon mewn gwaith sy’n perthyn fel arall i gyd-destun hollol wahanol o ran daearyddiaeth.

⁶⁴ *Wel! Wel!*, t.8

ac y dylen nhw fod wedi taro dant ar eu tafodau rhwydd. Ar yr aswy, nid ydynt yn barod i dderbyn y bai am eu diofalwch, eithr yn unig gydnabod eu bod wedi eu temtio i hel clecs gan “dafode chi’r gwagedd.”⁶⁵

Priodol yw myfyrio yn ogystal ar y modd y mae’r is-blot yn plethu’n daclus â phrif ffrwd y digwyddiadau. Bradycha Mair ei theimladau tuag at y gweinidog Dulyn Jones yn fuan yn y ddrama pan yw’n ceisio achub ei gam;

MRS. J. : Nagyw – itha gwir. Ac odd Rachel John Price yn gweud wrth i taw un itha clos yw e. Odd hi’n gweud nag yw e bron byth yn prynnu cig; y mae e’n byta lot o’r hen feans na a porridge – ag, am i socks e, wel, mae hi wedi blino i cwyrto nhw. Ac odd Rachel yn gweud i fod hi’n hen bryd iddo fe brynnu rhai newydd.

MAIR : Wedodd Mr. Jones wrtho i i hunan nag yw e ddim yn lico cig. A dy’n nhw ddim yn rhoi shwd gymaint i’r gweinidog yn Gerizim fel y gall e ffordio prynnu socks newydd o hyd. Lot o hen screws i nhw.⁶⁶

Nid yw’n taro ar feddwl ei modryb (Mrs. Jenkins) y gallai fod gan Mair ddiddordeb rhamantus yn y gweinidog ifanc, nac ychwaith y byddai gan neb ddiddordeb felly ym Mair. Ond ychydig a wyddai hi, er mawr fwynhad i’r gynulleidfa, fod bryd Dulyn Jones ar ei nith hyhi ei hunan. Sieryd Dulyn Jones â Mair “yn betrusgar”⁶⁷ ac mae’n cael trafferth ffurfio ei eiriau pan yw’n ymddiddan â hi “Miss Mair y-y-y- gobeithio eich bod chi’n dod i’r Cwrdd Llennyddol nos yfory. Dych chi ddim wedi bod os amser nawr.”⁶⁸ Mae Mair hithau ar ben ei digon. Nid yw’r ddeialog nesaf hyd yn oed yn codi amheuon Mrs. Jenkins ynghylch y posibilrwydd o garwriaeth rhwng Mair a’r gweinidog.

⁶⁵ *ibid.*, t.21

⁶⁶ *ibid.*, t.6

⁶⁷ *ibid.*, t.20

⁶⁸ *ibid.*, t.20

D. JONES : Rw i wedi gweld ych colled chi yn fawr. Cofiwch ddod tro nesa.

MAIR : O rwi'n siwr o ddod, Mr. Jones.⁶⁹

Diwedd y gân, ac ergyd y ddrama, ydyw nad yw Mrs. Jenkins a'i thebyg yn adnabod dim ar bobl, gan gynnwys y rheini sydd agosaf ati. A'r jôc fwyaf ydyw pan fydd y gweinidog yn dewis ei wraig (ac mi fedrwn gymryd o'r awgrym sydd yma mai Mair fydd honno) mai Mrs. Jenkins fydd yr olaf i wybod.

“Sleisen fach fyw a digrif a gwir o fywyd Cymreig”, meddai Saunders Lewis am y ddrama fach hon mewn llythyr at Kate ym 1927⁷⁰, a hawdd deall apêl drama fel hon hyd yn oed ym 1927. Serch hynny, pwysig yw gwneud y pwynt nad oes yma lenyddiaeth fawr o gwbl. Adloniant chwareus nid llên glasurol. Ac felly y gwêl Saunders Lewis bethau; ymhellach yn ei lythyr dadleua “...â'ch llaw chwith y byddwch yn helpu'r ddwy arall, ac yn cadw'ch llaw dde i'ch straeon a'ch nofelau”.⁷¹ Roedd dwy gyfrol o straeon byrion (*O Gors y Bryniau a Deian a Loli*) o eiddo Kate eisoes wedi ymddangos o'r wasg pan luniwyd y llythyr hwn a rheini, fel y gwyddai Saunders Lewis yn iawn, yn drysorau o gyfrolau a fyddai'n sefyll prawf amser.

Ymhen y rhawg daw Kate Roberts i fireinio'r grefft o drafod merched parod eu tafod a'u straeon. Gellid cymharu'r ffigur famol a geir yn y ddrama hon yn burion â'r modd y mae Kate Roberts yn disgrifio'i mam ei hun mewn ysgrifau bywgraffyddol, er enghraifft;

Anaml y byddem yn tewi â siarad ar yr aelwyd, a chredaf, os rhoed imi unrhyw ddawn i greu deialog mewn stori, mai dysgu a wnaethum ar yr aelwyd gartref, a mam fyddai'r prif siaradwr.⁷²

⁶⁹ *ibid.*, t.20

⁷⁰ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, t.16

⁷¹ *ibid.*, t.16

⁷² Roberts, Kate *Y Lôn Wen*, t.110

Er na phortreadir Catrin Roberts, mam Kate, fel dynes breplyd, edrydd Kate yn ei hunangofiant am ffraethineb ei mam;

Dywedai wrth y gweddill ohonom: ‘Poerad un ohnoch chi er mwyn i rywun arall gael siarad.’ Y hi fyddai rhywun arall bob tro. Traethai ei barn am bawb a phopeth yn ddiwahaniaeth, pethau enllibus yn aml. ‘Yn y cwat y byddi di,’ meddai fy nhad dan chwerthin. ‘Yn fan’ma yr ydw i yn i ddeud o,’ meddai hithau.⁷³

Os mai comediau ysgafn felly oedd y dramâu cyntaf hyn a ysgrifenyddwyd gan y merched ieuanc ar drothwy’r ugeinfed ganrif, aiff y ddrama nesaf, a’r olaf o ddramâu cyfnod Ystalyfera, i gyfeiriad newydd. Yn rhyfedd ddigon, *Y Fam* yw teitl y ddrama ddilynol. Yn ei herthygl ‘Cyrff yn Cyffwrdd: Darlleniadau Erotig o Kate Roberts’, y mae Francesca Rhydderch yn tynnu sylw at bwysigrwydd y ddelwedd a geir yn *Y Lôn Wen* o fam Kate Roberts a sut mae’r ddelwedd honno’n plethu’n rhwydd â’r portread ystrydebol, delfrydol o’r Fam Gymreig.⁷⁴ Byddai Kate Roberts, drwy ei mam efallai a fyddai wedi dod i oed yng ngolwg cylchgronnau megis *Y Gymraes* ac *Y Frythones*, wedi bod yn ymwybodol o’r darlun o’r fam fel merch rinweddol a phur a weithiai’n galed er lles y teulu.⁷⁵

Y mae dwy fam yn y ddrama hon, sef y fam gyntaf, ddelweddol a fu farw, a’r llysfam sy’n gwyro’n gwbl groes i’r ystrydeb. Lluniwyd *Y Fam* tua 1917 ac yn sicr cyn 1919 gan iddi ennill gwobr dra chwenychedig Howard de Walden o £100 am y ddrama orau’r flwyddyn honno (er bod trigain o gystadleuwyr) fel ag y soniwyd eisoes.

⁷³ Kate Roberts, *Y Lôn Wen*, t111

⁷⁴ Francesca Rhydderch, ‘Cyrff yn Cyffwrdd: Darlleniadau Erotig o Kate Roberts’, *Taliesin*, Cyfrol 99, Hydref 1997

⁷⁵ Am drafodaeth ar y ddelwedd o’r ‘Fam Gymreig’ gweler Jane Aaron, *Pur fel y dur: y Gymraes yn llên menywod y bedwaredd ganrif ar bymtheg*.

Wedi'r Rhyfel Mawr, ailgydiodd de Walden yn ei gynllun i sefydlu Theatr Genedlaethol yng Nghymru. Yn 1919, noddodd unwaith yn rhagor gystadleuaeth ysgrifennu drama. Cafwyd trigain o gystadluewyr a'r tro hwn daeth dwy ferch i'r brig – Betty Eynon Davies, *Four Leaved Clover* a Kate Roberts, *Y Fam*.⁷⁶

Roedd Howard de Walden⁷⁷ yn gymwynaswr brwd, a gwnaeth waith mawr i hybu tŵf y ddrama Gymraeg.

Ni fyddai y bras-linelliad hwn o hanes y Ddrama Gymreig yn gyflawn heb gyfeiriad arbennig at gefnogaeth Arglwydd Howard de Walden, yr hwn sydd yn hanu o gŷff Cymreig. Trefnodd y boneddwr hwn i gael rhai o'r actwyr goreu i ymgymeryd a chwareu amryw o ddramodau Cymreig a Saesonig, yn y rhannau mwyaf poblog o'r De a'r Gogledd, er mwyn rhoddi mantais i chwaraeuwyr ieuanc gael gweled a chlywed rhai o'r actwyr Cymreig goreu, a dywedir ei fod yn ymgymeryd a'r rhan fwyaf os nad yr oll o'r cyfrifoldeb ariannol.⁷⁸

Cywaith a geir yn *Y Fam* hefyd ond gwaith dwy ac nid tair a geir y tro hwn yn ôl y gyfrol a gyhoeddwyd gan The Educational Publishing Company ym 1920, sef Betty Eynon Davies a Kate Roberts. Tybed ai hynny sydd i gyfrif am y newid yn acen y cymeriadau? Ni ellir ond dyfalu fod a wnelo diflaniad Margaret Price (y Gymraes arall) o'r darlun rywbeth â'r naid at dafodiaith y Gogledd. Ac anodd yw cyfiawnhau damcaniaeth Mihangel Morgan, mai rôl gyfieithydd yn unig oedd gan Kate yn yr achos hwn; "Mae lle i gredu taw ei chyfieithiad hi o waith Betty Eynon Davies oedd *Y Fam*...".⁷⁹ Mae'r ddeialog yn ystywyth ac yn llyfn ac yn ein hatgoffa o ddeialog debyg sy'n ymddangos yn y straeon byrion sydd wedi eu lleoli yn y De a ysgrifennodd Kate Roberts yn ddiweddarach, fel ag soniwyd eisoes. Gellir, yn ogystal, wneud dadl gref o blaid rôl Kate wrth lunio plot a chymeriadau'r ddrama. Onid oes yma flas tra

⁷⁶ Davies, Hazel Walford, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru*, t.45

⁷⁷ Am hanes de Walden gweler gyfrol Hazel Walford Davies, *Y Theatr Genedlaethol yng Nghymru*.

⁷⁸ Williams, T.J., *Hanes y Ddrama Gymreig*, t.15

⁷⁹ Morgan, Mihangel, 'Kate yn y Cwm', *Cwm Cynon*, t.296

chyfarwydd; cymeriadau benywaidd cryf, y treiddio i fyd y plentyn? Ac onid yw ei llais digalon a thrist hi i'w glywed yn glir drwy'r cyfan?

Lleoliad y ddrama yw “Cegin mewn ffarm unig, Ty'n Mynydd.”⁸⁰ a cheir yn ogystal ddyddiad penodol ar gyfer y digwydd sef noson cyn G'lan Gaeaf.⁸¹ Synhwyrir fod rhywbeth sinistr ar droed yn fuan a noda'r cyfarwyddiadau ar gyfer y set fod yn “Rhaid i'r gegin awgrymu unigedd.” Nid oes unrhyw amheuaeth fod hon yn fath gwahanol o ddrama. Melodrama yw *Y Fam* sydd â'i gwreiddiau ynghlwm wrth hen chwedlau am y byd arall. Yn ôl yr awdur anhysbys a luniodd yr erthygl yn y *South Wales News* ym 1926, y mae *Y Fam* wedi ei seilio yn uniongyrchol ar stori o'r hen draddodiadau; “This is based on a story taken from Welsh folk-lore.”

Yn *Y Lôn Wen* eglura Kate Roberts atyniad yr hen chwedlau hyn gan ddatgan bod rhai pobl wedi eu clymu'n dynnach wrthynt nag eraill;

Byddaf yn credu fod yna ddarnau o'r wlad lle mae naws ei phobl yn fwy parod i dderbyn argraffiadau crefyddol, a bod yna ddarnau eraill lle mae'r bobl fel petaent o'r ddaear yn ddaearol, a bod chwedloniaeth yr oesoedd cynnar heb adael eu cyfansoddiadau.⁸²

Tybed nad bwrw ei bol ei hunan a wna?

Wrth gwrs am lenyddiaeth yn y cywair lleddf yr adnabyddir Kate yn gyffredinol. Nid nad oes hiwmor i'w ddarganfod yn ei gweithiau rhyddieithol diweddarach. Byddai dweud felly'n gwneud cam mawr â hanfod gweledigaeth Kate Roberts. Ond dyma dro arall yn y rhod lenyddol a cham cyntaf i'r cyfeiriad dwys a difrifol. Ymhen blynyddoedd, cyfeiria Bobi

⁸⁰ Davies, Betty Eynon a Roberts, Kate, *Y Fam*, t.9

⁸¹ Y diwrnod olaf o Hydref felly o ddilyn yr hen drefn draddodiadol mai 1 Tachwedd yw diwrnod Calan Gaeaf.

⁸² Roberts, Kate *Y Lôn Wen*, t.41

Jones at Kate Roberts fel ‘y Frenhines Ddiodeffus’ am iddi ysgrifennu’n helaeth yn y cywair lleddf. Cofier hefyd am gyfrol John Emyr sy’n dwyn y teitl *Enaid Clwyfus*. Wrth adolygu *Ffair Gaeaf* yn *Y Llenor* ym 1938 arbeda T. J. Morgan gam Kate a feirniadwyd am bortreadu byd rhy ddu a llwm; “A beth sydd ar ddynion yn cwyno bod storïau Kate Roberts yn drist? Nid oes neb yn cwyno am dristwch Llyfr Job. . . . Y ffaith i’w chofio yw mai bywyd a phrofiad o’i chwmpas yn gyffredinol sy’n troi’n ddefnydd arbennig i’r storïau hyn, a dau beth sydd yn y bywyd hwnnw yn eu hargraffu eu hunain ar Kate Roberts, caledi a ffyrdd dyn i gyfarfod â’r caledi neu i ddianc rhagddo”

Drama am yr helynt a ddaeth i ran brawd a chwaer ifanc, ifanc (Gwyn ac Eiry) wedi i’w mam farw, ydyw *Y Fam*. Y mae’r tad (Ifan) wedi ailbriodi â “gwraig dlos”, ond “afler ei gwisg” (Nano). Ac yn y traddodiad Sindarelaidd, y mae’r llysfam yn eu cam-drin a’u hesgeuluso.⁸³ Cymeriad gwan iawn yw’r tad (fel sy’n nodweddiadol o ‘ddynion’ Kate Roberts), sy’n gweld fod ei blant yn dioddef, ond yn mwynhau gormod ar fwythau Nano (“a chwaraeai gyda’i wallt”) i fynnu gwell ymdriniaeth ohonynt ganddi. Ar y noson y caiff y gynulleidfa ffenestr i’w bywyd yng nghegin ffarm Tŷ’n Mynydd (ie, yr hen ffrind, y tŷ ffarm) y mae’n saith o’r gloch yr hwyr ar ddiwedd mis Hydref a’r plant yn dychwelyd o fod yn mofyn torth. Y maent “yn wlyb ac yn garpiog eu dillad”, ac yn amlwg y mae ganddynt ofn Nano (“ymdroant o gwmpas y drws”), mae gan Gwyn “atal dweud”, ac y mae Eiry yn “wylo ac yn tynnu yng nghôt ei thad”). Cânt eu hanfon i’w gwely ar “ryw grystyn o dorth”.

Ond wedyn, yn yr olygfa nesaf mae’r awyrgylch yn newid. Dim ond y ddau bach sydd ar y llwyfan yn awr. A dyma Kate Roberts ar ei gorau, yn adnabod ac yn deall enaid pobl. Y mae

⁸³ Cymharer hefyd â llysfam Winni Ffinni Hadog yn *Te yn y Grug*, Kate Roberts.

Gwyn ac Eiry yn breuddwydio am fyd gwell yn union fel ag y gwna Winni Ffinni Hadog yn

Te yn y Grug.

EIRY: Ond O! Gwyn, ma'n nhw'n mynd i'r ffair. Faswn inna'n licio mynd i'r ffair hefyd.

GWYN: O hitia befo, bach – hen le annifyr ydi ffair. Ma Siencyn yn deyd na tydi ffair yn lle i blant bach fel ni, ond i bobl fawr. Clyw! *Yn cau un llygad.*) Mi awn ni i'r sguor, a mi nawn ni siglan fawr, fawr, fel hyn (*yn dangos â'i ddwylo*).

EIRY (*yn siglo i fyny ac i lawr ar y gwely*): O! Gwyn, mi fydd hynny'n hwyl iawn! (*Yn stopio ac yn newid ei llais.*) O! tro diwetha wna hi mo'n gadal ni.

GWYN: Wn i be' nawn ni – mi ddengwn i ffwr' hefo'n gilydd – i – ffwr yn bell bell. Gorfadd i lawr, Eiry bach.

EIRY: I lle gawn ni fynd, Gwyn?

GWYN: Yn bell – bell – yn bellach na deng milltir. A mi nawn ni fyw mewn tŷ bach hefo'n gilydd. Mi na i weithio i ddwad ag arian inni gael bwyd.

EIRY: A mi 'na i llau'r tŷ, a gneud y bwyd yn barod –

GWYN: A mi 'na i balu'r ardd –

EIRY: A mi 'na i olchi'r dillad –⁸⁴

Cameo o bortreadau. Yn yr olygfa nesaf mae cnoc ar y drws, a phan agorir ef daw Mair, gwraig gyntaf Ifan, a mam y plant, i mewn. Y mae wedi ei gwisgo mewn gwyn (i gyfleu nad ydi hi o'r byd hwn), ac yn derbyn croeso mawr gan y ddau. “Mi glywis Eiry yn galw arna i, a dyma pam y dois i” meddai, ond y mae yma dro sinistr. Y mae'r fam â'i bryd ar fynd ag Eiry yn ôl “dros y mynydd”, ac “i'r Llan” efo hi, ac wrth gwrs mae Eiry yn mynd “dan ddawnsio”. Yn yr olygfa olaf mae Ifan yn darganfod corff marw'r ferch fach ar y grisiau y tu allan i ddrws y ffrynt.

Y mae'n stori wirioneddol drist, er ychydig yn felodramataidd i gynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain efallai.

⁸⁴ *Y Fam*, t.22

Dywed Geraint Wyn Jones mai bwrw ei phrentisiaeth y mae Kate Roberts yn ei gweithiau cyntaf.⁸⁵ Tybed ai chwarae â syniadau a geiriau a wna? Ond eto, ni ellir osgoi'r ffaith fod yna elfen o emosiwn amrwd iawn mewn gwaith cynnar artistiaid ifanc, ac nid yw Kate Roberts yn eithriad. Daw Emily Brontë, awdures *Wuthering Heights* a oedd yn ifanc iawn pan ysgrifennodd y nofel, (er ei bod yn 29 mlwydd oed pan gyhoeddwyd hi gyntaf) a Mary Shelly, awdures *Frankenstein*, (deunaw oed) i gof; dwy ferch ifanc iawn yn ysgrifennu am bethau brawychus ac angerddol, ond dwy o awduron mwyaf eu cyfnod, serch hynny.

Yn eironig ddigon, tynn Kate Roberts ei hunan gymhariaeth fel a ganlyn yn ei hunangofiant:

Byddaf yn gweld rŵan ryw hen lyn yn y gors o dan gapel y Foel, wedi rhewi'n gorn yn y gaeaf, ambell dusw o frwyn ar ei wyneb, y gwynt wedi chwythu graean drosto, a chlywaf yr un gwynt yn chwibanu drwy'r brwyn. Pan ddarllenais *Wuthering Heights* gyntaf, am fy mro enedigol y meddyliais yn syth.⁸⁶

Nid rhyfedd ychwaith yw'r mynych gyfeirio at y nofel a geir yn *Tegwch y Bore*. Ymddengys fod tebygrwydd mewn mwy nag un ffordd.

“Dowch at y tân i gynhesu.”
“Fuoeh chi ddim yn y capel y bore yma.”
“Naddo,” a dywedodd Ann hanes ei thaith y diwrnod cynt.
“Mi alla i gredu yn hawdd, mi wn i am y lle yna yn iawn. Mi allasai Emily Brontë fod wedi gosod ei nofel yn fan'na.”⁸⁷

Ac onid yw'r dyfyniad hwn o *Inc yn Fy Ngwaed* gan J. Ellis Williams hefyd yn berthnasol?

“Y mae bardd ugain oed yn fardd,” ebe rhywun, “am ei fod yn ugain oed; y mae bardd deugain oed yn fardd am ei fod yn fardd”.⁸⁸ Y mae'n crynhoi'r ideoleg i'r dim.

⁸⁵ Jones, Geraint Wyn, *Fel Drôr i Fwrdd, Astudiaeth o waith Kate Roberts hyd 1962*

⁸⁶ Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, t.30

⁸⁷ Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, t.336

⁸⁸ Williams, J. Ellis, *Inc yn Fy Ngwaed*, t.16

Ym 1921 ysgrifenyddwyd ‘Y Man Geni’, a luniwyd gyda golwg i’w hanfon yn un o dair stori fer i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ac ‘Yr Athronydd’ a gyhoeddwyd ym mhapur newydd *Yr Efrogdydd* ym Mehefin 1922; dwy stori fer gan Kate Roberts a oedd, gellid dadlau, yn ailbobiad o’r un themâu. Mae’r ymdriniaeth â cholli plentyn yn fwy cynnil yn ‘Y Man Geni’ ac yn ‘Yr Athronydd’. Y mae’r dramodydd eisoes wedi bwrw prentisiaeth yr awdur. Tomos, a fu’n ddigon anffodus i etifeddu man geni anlwcus ei dad a’i ewythr, sy’n colli’i fywyd yn ‘Y Man Geni’.

Dechreuodd feddwl am ei dad, am y breuddwyd, oni fuasai’n well pe buasai yntau’n gweithio yn y chwarel efo’i ddwylo, yn lle meddwl o hyd? Dechreuodd y twll droi a’r dynion i’w ganlyn. Aethant yn bellach, bellach. Collodd Tomos ei ben, syrthiodd i lawr, -a –

* * * *

Tua deg o’r gloch y noson honno, eisteddai mam Tomos wrth y tân gyda chymdoges. Buasai degau o bobl yno er pedwar y prynhawn, ac erbyn hyn yr oedd pob man cyn ddistawed â’r corff bach, oer yn y siamber.⁸⁹

Nid fod a wnelo’r man geni ddim â’i ddamwain, ond y mae yma ymdeimlad bod Ffawd wrth yr awennau, a bod yr hen Domos wedi ei eni yn ddiriad yn nhraddodiad Llywarch Hen.⁹⁰ “Ac mi rodd gin y Tomos cynta fan geni wrth ben i lygad chwith fel fy nau Domos inna.”⁹¹

Luned fechan, ddyflwydd oed sy’n croesi i’r byd arall yn ‘Yr Athronydd’ ac yn gwneud i Ifan Dôl Goed sylweddoli gwerth ei bywyd bach.

Echdoe, bu Luned, plentyn bach blwydd oed ei chwaer, farw. Ni chymerasai erioed nemor sylw ohoni, heblaw ei bod yno, dyna’r cwbl. Eithr ddoe, teimlodd fod rhyw wacter mawr yn ei fywyd. Collodd

⁸⁹ Roberts, Kate, ‘Y Man Geni’, *O Gors y Bryniau*, t.16

⁹⁰ *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams, Gwasg Prifysgol Cymru, 1953

⁹¹ Roberts, Kate, ‘Y Man Geni’, *O Gors y Bryniau*, t.17

ddau lygad glas plentyn bach i befrio arno bob tro'r edrychai dros ymyl ei lyfr. Trwy'r dydd ddoe, a bore heddiw, ceisiai beidio â chodi ei ben oddiar ei lyfr rhag cael y siom a ddilynai hynny.⁹²

Fel yn *Y Fam*, mae'r meirw'n cerdded yn 'Yr Athronydd' hefyd, ond y tro hwn cawn gipolwg ar eu byd nhw, mewn golygfa sy'n ein hatgoffa o chwedlau tylwyth teg ardal Dyffryn Nantlle; "Yno gwelai ddyn ieuanc yn canu chwibanogl – chwibanogl wedi ei gwneuthur o frwynen cors – a merch ieuanc yn dawnsio i'r miwsig..."⁹³

Ysbryd ydi Mair yn *Y Fam*, nid un o giwed Gwyn ap Nudd. Ond yr un yw'r gorchwyl sef dyfod i'r byd hwn i mofyn rhywun cyn mynd ag o, neu hi, i'r byd arall, drwy geg yr ogof yn 'Yr Athronydd' a thrwy ddrws y ffrynt yn *Y Fam*.⁹⁴

Y mae cwestiwn yn ei gynnig ei hun yma; a yw *Y Fam* yn perthyn i draddodiad yr 'hen ddramâu'? Wel ydi...fwy neu lai. Mewn cegin tŷ fferm y mae'r cyfan yn digwydd ac yn sicr y mae yma draethu ar foesoldeb Nano. Tybed hefyd a fedrwn ddadlau mai dyfod i 'achub' Eiry a wna Mair ei mam? Ond y mae naws hon yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddramâu poblogaidd yr oes. Yr hyn a welwn yma, efallai, yw ymgais gan Kate Roberts a Betty Eynon i roi eu stamp eu hunain ar y ddrama. A pham lai? Gwyddom yn barod fel y bu i Kate yn ddiweddarach dorri tir newydd ym maes y stori fer. Ai'r gwreiddioldeb hwnnw a welwn yma, mor gynnar â hyn yn ei gyrfa? Gellid yn wir wneud dadl deg i'r perwyl hwnnw, ond mae'n werth crybwyll dau bwynt arall yn ogystal. Yn gyntaf y mae'n werth sylwi eto fod Margaret Price, un o'r drindod a fu wrthi hyd yma yn cyd gyfansoddi yn absennol y tro hwn. Enwau Kate Roberts a Betty Eynon Davies yn unig sydd wrth y ddrama hon. Hefyd y mae yma

⁹² Roberts, Kate, 'Yr Athronydd', *O Gors y Bryniau*, t.50

⁹³ Tomos, Dewi, *Straeon Gwydion*, Gwasg Carreg Gwalch, 1990

⁹⁴ Ceir drws angffredin arall yn *Y Cynddrws*, drama radio gan Kate Roberts, 1954. Drws sy'n gwahanu dau fyd a geir yma hefyd, ond y tro hwn byd y meirw a'r byd a ddaw a gawn.

newid sylfaenol yn iaith y ddrama fwy diweddar hon. Hyd yma, iaith ddeheuol a fu'n arferol, ond dyma am y tro cyntaf ddefnyddio iaith ac acen ogleddol lwyr. Anodd peidio â chysylltu'r ddau beth, sef ymadawriad Margaret Price, y Gymraes arall, a'r newid cyfeiriad ieithyddol.

I gloi felly gellir datgan mai camgymeriad fyddai peidio ag ystyried y dramâu hyn yng nghyd-destun gyrfa lenyddol Kate o hyn ymlaen. Yn ddiau, gall diffyg dealltwriaeth o'r cyfnod ffurfiannol cynnar hwn fod yn gyfrifol am dlodi ein hadnabyddiaeth ni o fywyd a gwaith un o'n prif awduron fel cenedl. Wedi'r cyfan dyma'r pwynt cychwynnol, dechrau'r daith ped dymunir.

Wedi dweud hynny fodd bynnag, dweud gormod fyddai dweud fod yma 'lenyddiaeth fawr'. Ni ellir llai na chytuno ag Ioan M. Williams pan ddywed; "Nid yw'r dramâu bychain hyn namyn enghreifftiau go fywiog o ystrydebau celfyddydol cynnyrch y Mudiad Drama..."⁹⁵

Cynnyrch eu cyfnod ydynt hwy, heb os, ac wedi eu llunio i bwrpas penodol ac ar gyfer cynulleidfa arbennig a gellir tybio fod hynny'n rhannol gyfrifol paham y bu iddynt fynd i ddifancoll. Wedi'r cyfan nid oes fawr o gynulleidfa y dwthwn hwn i'r 'dramâu cegin' a fu mor boblogaidd ar droad y ganrif ddiwethaf.

Gyda symud i Aberdâr ym 1917 trodd Kate ei golygon at bethau eraill. Yr oedd dull newydd o ddweud stori wedi gafael ynddi yn ffurf y stori fer, a gellid tybio bod ei phrofiad cynnar â'r ddrama wedi rhoi hyder iddi droi ei llaw at y ffurf newydd hon. Nid yw'n dychwelyd at gyfrwng y ddrama hyd ganol y tridegau, a phan yw'n gwneud hynny y mae'n amlwg fod llenor tra gwahanol ar waith.

⁹⁵ Williams, Ioan M., 'Ideoleg ac Aestheteg y Mudiad Drama', *Gwerddon*, cylchgrawn ar-lein http://www.gwerddon.org/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/Gwerddon_02-%28terfynol%29.pdf

Pennod 3

i) Golwg ar *Ffarwel i Addysg*

Erbyn i'r Eisteddfod Genedlaethol gyrraedd Bangor ym 1931 yr oedd Kate Roberts eisoes yn llenor led brofiadol a llwyddiannus. Derbyniwyd *O Gors y Bryniau a Rhigolau Bywyd* yn gynnes gan y Cymry llengar, felly hefyd *Deian a Loli*, er ychydig yn fwy llugoer oedd y croeso i *Laura Jones*,¹ mae'n wir dweud. Medrir dal, yn gwbl hyderus fodd bynnag, fod Kate Roberts wedi gwneud enw iddi'i hun ym myd y stori fer erbyn tridegau'r ugeinfed ganrif.

Ychydig yn annisgwyl felly yw ei gweld yn troi at gyfrwng y ddrama eto. Fel y trafodwyd eisoes, yr oedd wedi ymhél â'r ddrama yn nyddiau ei hieuenctid ond ymddengys fod ysfa i ysgrifennu drama wedi cydio ynddi drachefn. Ym 1931, a hithau'n wraig briod deugain mlwydd oed cyflwyna ddrama mewn tair act a gymer ddwy awr a hanner i'w chwarae i gystadleuaeth Cyfansoddi Drama Gymraeg, Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931. Ei ffugenw oedd 'Ednowen Bendew' a'r ddrama oedd *Ffarwel i Addysg*.²

Yn ogystal â'r ffaith ei bod erbyn hynny yn prysur wneud enw iddi'i hun ym maes y stori fer gyda phedair cyfrol i'w chyfrif bu hefyd fwllch o bum mlynedd rhwng cyhoeddi ei drama ddiwethaf (*Wel!Wel!*, 1926) a chyflwyno *Ffarwel i Addysg* i gystadleuaeth yr Eisteddfod. Ond beth, tybed, a'i hysgogodd i fentro'n ôl i fyd y ddrama?

¹ Yn gyffredinol nid yw *Laura Jones* yn cael ei hystyried gystal â chyfrolau eraill Kate Roberts gan feiriniaid Llenyddol. Gweler Geraint Wyn Jones *Fel Drôr i fwrdd, Astudiaeth o waith Kate Roberts hyd 1962*

² Roberts, Kate, *Ffarwel i Addysg*, teipysgrif wreiddiol a gyflwynwyd i Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931 ymhlith papurau KR yn y Llyfrgell Genedlaethol rhifau 2515, 2516 a 2517. Hefyd, ceir gopi o'r teipysgrif a ddefnyddiwyd pan y'i darlledwyd ar Raglen Cymru y BBC ddydd Iau, 7 Medi 1950 ymhlith y papurau hynny; rhif 2634

Fe ddichon fod a wnelo hyn rywbeth ag ymddangosiad erthygl gan Thomas Parry a oedd yn Athro yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor ar y pryd, ac a oedd hefyd yn hannu o Ddyffryn Nantlle fel Kate Roberts, ar dudalenau'r *Genedl* ar 9 Chwefror, 1931.³

DRAMA BANGOR
ACTWYR Y COLEG
Gan T.P.

SEL Y MYFYRWYR

Diamau mai tra hysbys bellach i bawb o ddarlennwyr "Y Genedl" yw gwaith Chwaraewyr y Gogledd. Cwmni o fyfyrwyr ydynt sy'n caru celfyddyd drama pob gwlad, a llwyddiant drama Cymru yn arbennig. Gyda'r ddwy nwyd hyn i'w cymell, buont wrthi ers blynnyddoedd rai yn dyfal ymarfer ac yn perfformio dramau ym Mangor...

... Beirnedir hwy'n aml am fynd dros Glawdd Offa, ac yn wir dros Fôr y Gogledd i geisio dramau. "Nid ydynt hwy," ebe'r cyfaill beirniadol, gyda dieter cyfiawn (o'i safbwynt ef ei hun), "yn cefnogi dim ar ddramodwyr Cymreig. Pa ddisgwyl cael drama fawr yng Nghymru, a'r cwmniau yn anwybyddu pob ymgais greadigol gan ein dynion ni ein hunain? 'Choelia i byth nad oes rhyw ddrama Gymraeg y gellir ei hactio ym Mangor yna. Beth am A a B ac C? Rhyw agwedd academig, ffroenuchel a thrahaus yw peth fel hyn." Cymer dy wynt frawd.

Â Thomas Parry rhagddo i achub cam y cwmni drama hwn o Brifysgol Bangor drwy nodi nad oedd drama fawr i'w chael yn y Gymraeg, yn sicr felly ym marn Thomas Parry, ddim i gymharu â Lloegr a gwledydd eraill. "Nid oes neb gweddol glir ei lygad na wêl fod bron bob gwlad yn Ewrop yn curo Cymru am ddrama."⁴ A dyna'r rhesymeg y tu ôl i gyfieithu

³ Parry, Thomas, 'Drama Bangor', *Y Genedl Gymreig*, 9 Chwefror, 1931, t.5

⁴ Parry, Thomas, 'Drama Bangor', *Y Genedl Gymreig*, 1 Chwefror 1931, t.5

dramâu i'r Gymraeg i'w perfformio gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg Prifysgol Bangor, fe ymddengys.⁵

Yr oedd y rhod wedi troi erbyn dechrau tridegau'r ugeinfed ganrif, a'r hen ddramâu cegin a fu unwaith mor hynod o boblogaidd yn dechrau nychu. Nid oeddent yn apelio at academyddion Adran y Gymraeg, Bangor mae'n debyg am nad oedd deunydd na chymeriadau 'clasurol' ynddynt. Yn sicr fe wnaethant osgoi perfformio'r math hwn o ddrama. Chwilio am ddeunydd amgenach, a oedd yn fwy uchelgeisiol a wnâi Cymdeithas y Ddrama Gymraeg yn ôl Thomas Parry – deunydd, yn ei farn ef, nad oedd ar gael yn y Gymraeg.

Yng ngwyneb y fath feirniadaeth lem, nid yn unig ar gyflwr y ddrama Gymraeg yng Nghymru ond hefyd ar ei dramodwyr, ni ellid disgwyl dim llai na ffrwydrad o ymatebion. A dyna a gafwyd.

Yn ei dull dihafal ei hun nid ymgela Kate Roberts rhag herio barn yr ysgolhaig. Gwrthyd ddadl Thomas Parry, yr Athro Prifysgol, yn ddiflewyn ar dafod yn ei hymateb i'w erthygl.

Syr. – Ni fedraf weld bod grym o gwbl yn nadl T.P. dros drosi dramau o ieithoedd eraill i Gymraeg o hyd ac o hyd. Nid oes dim o'i le mewn cyfieithu unrhyw waith llenyddol o iaith arall er mwyn ei wneuthur yn batrwm. Ond mae dal ymlaen i gyfieithu ac i roddi gwaith cyfieithiedig o flaen cynulleidfaoedd y naill flwyddyn ar ol y llall, yn niweidiol iawn.⁶

⁵ Cwmni drama a ffurfiwyd yn y Brifysgol ym Mangor ym 1923 dan lywyddiaeth R. Williams Parry ac a gafodd ei ail sefydlu yn 2012

⁶ Llythyr gan Kate Roberts, *Y Genedl Gymreig*, 16 Chwefror 1931, t.5

Â rhagddi i wneud y sylw tra diddorol “...nid yr un peth yw bywyd cenedloedd eraill a’n bywyd ni; ac o weld bywyd cenedloedd eraill o hyd ac o hyd, yn union fel y gwelir bywyd cenedloedd eraill yn y darluniau byw, daw’r Cymry i feddwl nad oes dim bywyd ond un fel yna... estron yw’r bywyd a’r awyrgylch ynddynt...”⁷ geiriau sy’n ein hatgoffa am y sylw a wnaeth mewn ymateb i feirniadaeth Saunders Lewis o’r portread o chwarelwr yn *Traed Mewn Cyffion*. “Nid wyf yn fodlon o gwbl i chwi ddweud y pethau a ddywedasoich am chwarelwyr, a chwithau yn gwbl ddieithr i’w bywyd ac i fywyd gweithwyr yn gyffredinol.”⁸ Saif yn arwrol dros hawl y Cymry i fod yn wahanol i bobloedd gwledydd eraill. Rhydd yr un ffon fesur iddi ei hunan yn ogystal; mewn llythyr arall at Saunders Lewis gwna’r sylw hwn wrth drafod nofel yr ydoedd yn gweithio arni ym 1932, “Yr wyf wedi dechrau ysgrifennu nofel a’i chefnidir yng Nghwm Rhondda. Gan na wn i ddigon am drigolion y Rhondda (rhaid gwybod o’r tu mewn i wybod yn iawn) yr wyf am gymryd hynt a helynt teulu o’r Gogledd a ddaeth i lawr yma adeg dechrau’r dirwasgiad yn y fasnach lechi rywdro rhwng 1900 a 1910.”⁹ Erys y gwaith hwn yn anorffenedig (ni chyhoeddwyd nofel ganddi yn ymdrin â’r elfennau a drafodir yn y llythyr hwn) ond y mae’r ychydig eiriau hyn yn amlygu barn Kate Roberts o blaid ysgrifennu am yr hyn sy’n gyfarwydd. Dywed Emyr Humphreys, fod safiad fel hwn o blaid ‘llynyddiaeth y filltir sgwâr’, ac o blaid ymchwilio’r hyn sy’n Gymreig wrth gyfansoddi yn rhannol gyfrifol paham y bu iddi ennill y teitl ‘Brenhines ein Llên’;

Sonnir yn aml am Kate Roberts fel ‘brenhines’ ein llen: ond prin y byddai ei brenhiniaeth yn ffaith heb oes o ymroddiad unplyg a diflino i achos yr iaith a rhyddid Cymru. Dengys y gyfrol bwysig a olygwyd

⁷ Llythyr gan Kate Roberts, *Y Genedl Gymreig*, 16 Chwefror 1931, t.5

⁸ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, t.111

⁹ *ibid.*, t.89

gan David Jenkins ym 1978 gip ar fyw arwrol artist mewn cymdeithas a oedd yn gyson yn dewis y llwybr llithrig i hawddfyd a wedyn yn gweiddi'n groch wrth weld ei hun yn suddo'n raddol i gors difodiant. Camp fwyaf Kate Roberts efallai oedd cadw'r cydbwysedd gwrthrychol sy'n angenrheidiol i gelfyddyd glasurol ac ar yr un pryd sefyll yn y bwlch ac ymladd yn gyson ar hyd y blynyddoedd dros anrhydedd ei gwlad. Nid ar chwarae bach y mae datgan y gwir yn erbyn y byd.¹⁰

Priodol yw nodi hefyd nad dadl unwaith ac am byth yw hon gan Kate Roberts. Bedair blynedd yn ddiweddarach ym 1935 ymddengys fod Kate yn parhau i ofidio am gyflwr y ddrama Gymraeg, ac yn benodol am y duedd cyffredinol i drosi i'r Gymraeg ddramâu nad oedd a wnelo hwy ddim oll â bywyd pobl gyffredin (pobl nad oeddent yn academwyr ac yn arweinwyr addysg) Cymru. Esblygodd y ddadl hefyd i gynnwys effaith y blynyddoedd hyn o gyfieithu ar y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Casglodd *Y Brython* ynghyd rai o'i dadleuon;

Y DDRAMA YNG NGHYMRU Geiriau Plaen Kate Roberts

Dywaid Kate Roberts lawer o bethau miniog am y sawl sy'n ymhel â'r ddrama yng Nghymru yn y "North Wales Times". Wele rai o'i sylwadau:

Ni wn am unrhyw bwnc yr ysgrifennwyd mwy arno na mudiad y ddrama yng Nghymru, ac ni wn am fudiad a aeth drwy gymaint o wahanol gyfnodau mewn amser mor fyr. Ni wn chwaith am fudiad a adawyd fel hwn i ymdaro drosto'i hun, ac i fod at drugaredd pob gwynt. Ar ôl y rhyfel, dechreuwyd cael wythnos o gystadlu – mewn dramâu Cymraeg, cofier. Ond byr fu hoedl yr wythnos ddrama Gymraeg. Y peth nesaf a gafwyd oedd cael wythnos ddrama, a hanner yn Saesneg, a dyna ddechrau'r diwedd. Mae lleoedd lle y bu i hyn unwaith yn cael wythnos o ddramâu Saesneg yn unig, erbyn hyn.

Trychineb

¹⁰ Humphreys, Emyr, 'Kate Roberts', *Kate Roberts, Ei meddwl a'i Gwaith*, gol; Rhydwen Williams, t.19

Dyma'r peth mwyaf trychinebus a ddaeth i Gymru erioed; trychineb i'w drama a thrychineb i'w diwylliant. Bywyd Lloegr a bortreadir, ac iaith Lloegr a ddefnyddir; ie, a dulliau Lloegr o gynhyrchu drama a ddynwaredir. Ac mae'r holl beth mor ddieithr i'n gwlad â changarws...

... "Ond," meddai rhywun, "'does gyda ni ddim dramâu Cymraeg gwerth eu hactio." Lol botes maip! Fe glywsoch hwnyna mor aml onid aethoch i'w gredu. Mae'n well i chwi chwarae dramâu ailraddol Cymru na dramâu ailraddol Lloegr. Bydd yn well i chwi edrych ar eich bywyd eich hunain mewn drych heb fod o'r gorau na rhythu ar fywyd na wyddoch ddim amdano byth beunydd barhaus.¹¹

Eto, mor ddiweddar ag 1966, a hithau erbyn hynny yn bymtheg a thrigain y mae'r un materion yn parhau i'w phoeni, "Mae'n dda iawn gennyf ddeall eich bod yn ysgrifennu drama i'r Bala;" meddai wrth Saunders Lewis, "bydd yn rhywbeth i edrych ymlaen ato, ac at ein bywyd ein hunain, yn lle'n bod yn cael cyfeithiadau o hyd."¹²

Yr oedd gan Kate Roberts weledigaeth eangfrydig, fe ymddengys ac yr oedd wedi sylwi'n gynnar ar y dydd fod perygl pellgyrhaeddol i'r traddodiad hwn o gyfieithu dramâu o dramor. Ceir yr argraff ei bod yn ceisio cyfleu mai tarddle'r 'drychineb' hon fel y geilw hi oedd gweithredoedd cwmniau megis Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Bangor o dan arweiniad academyddion megis Thomas Parry.

Ym 1970 a hithau erbyn hynny'n tynnu am ei phedwar ugain, mae'n adolygu *Y Ffordd*, sef drama gan T. Rowland Hughes yn *Llwyfan*. Yr hyn sy'n ddiddorol am yr erthygl hon yw'r modd y mae'n hel atgofion am yr hen ddramâu cegin. Yn amlwg yr oedd ei

¹¹ Roberts, Kate, 'Y Ddrama yng Nghymru', *Y Brython*, 12 Rhagfyr 1935, t.5

¹² *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol; Dafydd Ifans, t.220

hymglymiad wrthynt yn ddiwyro ac nid oedd treigl amser ychwaith wedi pallu dim ar hynny;

Yn y dau a'r tri degau, pan aem i weld drama, byddem yn ein gosod ein hunain i lawr i fwynhau stori, ac yn eistedd yn ôl yn braf i fwynhau noson o adloniant, heb fod eisiau inni bendroni ynghylch symbolau nac ystyr na dim. Ond erbyn heddiw rhaid inni grafu ein pennau a meddwl beth yw ystyr y cwbl.

Peth braf felly oedd cael mynd yn ôl i'r hen amser a mwynhau stori am unwaith, a honno'n stori y gwyddem y dylem wybod ei chefnidir. Digwyddiad o helyntion Beca sydd yn Y FFORDD, a hwnnw'n ddigwyddiad cynhyrfus, yn diweddu dros dro beth bynnag yn hapus i Beca.

Yn y Rhyl y gwelais i'r ddrama, mewn theatr fach a honno'n llawn, cymorth mawr i'r actorion ac i'r gynulleidfa i'w mwynhau. Pan agorodd y llen, gwelsom dafarn hen ffasiwn, gyda'i chownter mewn un gongl, y lle tân mawr a'r setl, a themlo fod pob dim yn iawn.¹³

O edrych ar raglenni Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Prifysgol Bangor¹⁴ yn y blynyddoedd cyn i'r ddadl wreiddiol dorri ar dudalennau'r *Genedl Gymreig* ym 1931 gwelir yn sicr duedd, neu draddodiad hyd yn oed, o gyfieithu dramâu o'r Saesneg gan staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Er enghraifft, ym 1926 llwyfanwyd *Tŷ Dol* gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg; cyfieithiad Ifor Williams o *A Doll's House* gan Henrik Isben. Ym 1927 llwyfanwyd *Gadael Tir*, cyfieithiad R. Williams Parry o *Outward Bound* gan Sutton Vane ac ym 1929 ei gyfieithiad, *Jane Clegg* o waith John Ervine. Ym 1930 cafwyd *Hedda Gabler*, sef cyfieithiad Thomas Parry eto o waith Isben.

¹³ Roberts, Kate, 'Y Ffordd, Barn Kate Roberts', *Llwyfan* 4, Haf 1970, t.10

¹⁴ Rhaglenni Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Prifysgol Bangor, Archifdy Prifysgol Bangor

Ar raglen y Gymdeithas Ddrama y tymor hwnnw, 1930-31 ceir nodyn o gyfiawnhad dros weithredu yn y modd hwn:

Oherwydd prinder dramâu Cymraeg, ni phetrusa y Gymdeithas gyfieithu dramâu cenedlaethol eraill, cyfansoddiadau a ystyrir yn safonol gan feirniaid a chan y lliaws sydd â'u chwaeth yn ddigon disgybledig i fwynhau a gwerthfawrogi drama dda.¹⁵

Y mae'n amlwg nad yw Kate Roberts yn cytuno â'r meddylfryd uchod. Yn ei llythyr yn *Y Genedl Gymreig* a anelwyd at Thomas Parry cynigia deitl dwy ddrama ddilys ac addas yn ei thŷb hi i'w perfformio ar lwyfan y Coleg, sef *Gwaed yr Uchelwyr*, Saunders Lewis ac *Ephraim Harris* D.T. Davies. "Paham nad actia Bangor y ddwy hyn?"¹⁶ dwy ddrama wreiddiol Gymraeg a oedd yn fwriadol wedi ceisio ymryddhau oddi wrth draddodiad y mudiad gwerinol poblogaidd oedd y rhain, fel ag a soniwyd eisoes.

Etyb Thomas Parry y cyhuddiad mai niweidiol oedd edrych dros Glawdd Offa a thu hwnt am ddramâu i'w llwyfannu drwy restru dylanwadau estron ar lenyddiaeth Cymru, gan bwysleisio mor llesol y bu'r arferiad i lenorion mwyaf Cymru. A chydag aneliad personol i gyfeiriad Kate Roberts ei hunan y mae'n datgan eu bod yn gwneud hynny "am yr un rheswm yn union ag y mae pencampwyr y stori fer yn darllen Maupassant a Tchecov, yn lle eu cyfyngu eu hunain i'r Mabinogion".¹⁷

¹⁵ Rhaglen Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Prifysgol Bangor 1930-31, Archifdy Prifysgol Bangor

¹⁶ Llythyr Kate Roberts, *Y Genedl Gymreig*, 16 Chwefror 1931, t.5

¹⁷ Llythyr Thomas Parry, *Y Genedl Gymreig*, 2 Mawrth 1931, t.5

Ymboetha'r ddadl mewn llythyr pellach pan gyhudda Kate Roberts Thomas Parry o wybod yn y bôn fod yr arfer yn andwyo twf y ddrama yng Nghymru, a'i fod, drwy gyflwyno'r pwnc o gwbl yn teimlo euogrydd ynghylch y mater:

Eto, hoffwn ofyn i Gwmni Bangor gan eu bod yn mynnu actio cyfieithiadau, paham na pherfformiasant ddim o Moliere? Onid y ffaith ydyw mai dylanwad y West End sy'n gryf ar Fangor. Onid dramâu – Saesneg ac eraill – a fu'n boblogaidd yn y West End a gyfieithir ganddynt? ... Yr hyn sydd wedi difetha achos Bangor ydyw i T. P. ysgrifennu ysgrif ar y pwnc i gychwyn. Yn yr ysgrif honno fe roes y gwrthddadleuon cyn bod dadl – ffaith a ddengys ynddi ei hunan fod yna deimlad o euogrydd tua Bangor. Mae i ddyn gyfarfod â gwrthddadleuon cyn bod dadl yr un peth ag ymddiheurad.¹⁸

Y mae'n werth crybwyll yma nad yw Kate Roberts yn nodi ar unrhyw adeg nad yw'r dramâu Saesneg hyn yn werth eu llwyfannu. Yn wir, gellid dadlau fod Kate yn gyfarwydd iawn â llenyddiaeth Lloegr ac yn agored i'r hyn yr oedd math gwahanol o fywyd a diwylliant yn medru ei gynnig. Yn ei chasgliad yn y Llyfrgell Genedlaethol mae llyfr nodiadau bychan sy'n dyddio i'w chyfnod yn Ysgol y Merched Aberdâr, sef 1917 hyd 1928 ond yr oedd yn parhau i'w ddefnyddio hyd ganol y tridegau.¹⁹ Ynddo y mae'n rhestru nifer fawr o ddeunyddiau darllen sy'n ymestyn dros nifer o dudalennau gyda'r nodyn "llyfrau i'w cael" ar ben y rhestr. Ymysg y myrdd cyfrolau a grybwyllir mae *Short Plays translated from the French*, 1935; *No Time like the Present*, gan y nofelydd benywaidd enwog Storm Jameson, ac enwir gwaith Virginia Woolf, *A Room of One's Own* a *The Waves* ynghyd â *Wonder Hero* gan J.B. Priestly.

¹⁸ Llythyr Kate Roberts, *Y Genedl Gymreig*, 9 Mawrth 1931, t.5

¹⁹ Llyfr Nodiadau, Casgliad Kate Roberts, LLGC, 2559

Yr hyn sy'n bwysig i'w gofio yma yw mai yn erbyn cofleidio llenyddiaeth estron, a dramâu yn benodol, ar draul llenyddiaeth gynhenid Cymru yr oedd Kate ac nid rhagrithio yn erbyn gweithiau o wledydd eraill.

Ymunodd ambell un arall yn y drafodaeth; hwythau'n traethu yn erbyn dadl Thomas Parry. Mewn llythyr a ymddangosodd yn y *Y Genedl Gymreig* wythnos union wedi i lythyr Kate Roberts ymddangos, dadleua'r dramodydd Elinor Hannah Thomas o dan y ffugenw Awena Rhys, fod lle i gredu bod adeiladu wedi digwydd ar seiliau cadarn oes aur y ddrama, a bod rhyw newid ar ddod:

Y mae'r werin yn galw am adloniant, ac fe ddylai ei gael. Dylid cydnabod fod ein dramâu wedi gwella llawer yn ddiweddar, a byddai gobaith am fwy o berffeithrwydd pe cawsai'r cyfansoddwyr Cymreig fwy o chwarae teg. Y mae'r rhwystr ar ffordd ei thyfiant bron yr un mor gryf heddiw eto, er mewn dull gwahanol.²⁰

Awgryma Awena Rhys fod yr academyddion ym Mangor yn mygu'r dramodwyr Cymreig gyda'i harferiad o gyfieithu ac yn ei gwneud yn anodd iddynt gyrraedd eu llawn botensial.

Tybed nad fel adwaith yn erbyn y drefn hon yn ei hen Goleg ym Mangor yr aeth Kate Roberts ati ym 1931 i ysgrifennu'r ddrama *Ffarwel i Addysg?* Y mae lle i gredu hynny yn ôl Ioan M. Williams; "Ymgais oedd ei drama nesaf hi i fynd i'r afael â'r union ffenomen gymdeithasol a lesteiriodd ddatblygiad y Mudiad Drama, sef y ffaith fod yna rwyg yng Nghymru rhwng trwch y boblogaeth ar y naill law ac ar y llall yr ysgolheigion a hawliai'r

²⁰ Llythyr Awena Rhys, *Y Genedl Gymreig*, 16 Mawrth 1931, t.5

fraint o’u harwain.”²¹ Yn sicr y mae’r ddrama’n ymchwilio rôl y Brifysgol ym mywyd ac yn natblygiad ei myfyrwyr gan fynd mor bell â chwestiynu gwerth addysg ffurfiol. Ni ellir llai na chytuno ag Ioan M. Williams pan ddywed mai “prif amcan Kate Roberts yn *Ffarwel i Addysg* yw dangos amherthnasedd yr addysg a gynigid yng ngholegau Cymru i fywyd dosbarthiadau gwerinol Cymru.”²² Er nad oes cyfeiriad at Gymdeithas y Ddrama Gymraeg yn nrama Kate Roberts mae yma’n sicr feirniadaeth ar y ddarpariaeth yr oedd y Coleg yn ei gynnig.

“A solitary rebellion”²³ meddai Francesa Rhydderch am y ddrama hon, *Ffarwel i Addysg*, ac ni ellir llai na chytuno, ar un wedd y mae Gwen, prif gymeriad y ddrama yn gwrthryfela yn erbyn sawl ffactor sydd a dylanwad dros ei bywyd yn y stori, ond ar wedd arall gellid dadlau fod y ddrama ei hunan yn wrthryfel pur, wedi ei llunio gan ddramodydd i herio beirniaid llenyddol ac academwyr y cyfnod. Yn ôl Ioan M. Williams, “mae angen cydnabod y ddrama fel ymgais wirioneddol onest i wynebu’r gwacter brawychus a welodd Kate Roberts yng nghnewyllyn bywyd Cymru gyfoes – a hynny trwy uniongyrchedd drama.”²⁴ Yn sicr y mae’r ddrama’n llenwi’r bwch hwnnw rhwng cynffon oes aur y dramâu cegin a dechrau cyfnod newydd yn hanes y ddrama, sef y cyfnod rhwng *Gwaed yr Uchelwyr*, Saunders Lewis, 1922, a *Buchedd Garmon*, eto gan Saunders Lewis a ddarllledwyd ar y radio ym 1937.

²¹ Williams, Ioan M., ‘Ideoleg ac Estheteg y Mudiad Drama’, *Gwerddon.com*

²² *ibid.*,

²³ Rhydderch, Francesa, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t162

²⁴ Williams, Ioan M., ‘Ideoleg ac Estheteg y Mudiad Drama’, *Gwerddon.com*

Fel arfer, yr oedd bys Kate Roberts ar byls pethau ac yn fwriadol gydwybodol, fe aeth ati fe ymddengys, yn union wedi i'r ddadl gyhoeddus hon rhyngddi a Thomas Parry ymddangos ar dudalennau'r *Genedl Gymreig* i ysgrifennu'r ddrama.²⁵ Yn eironig ddigon, ac yn gwbl fwriadol hefyd y gellid tybio, fe alwodd y ddrama yn *Ffarwel i Addysg*.

Pa lwyddiant gafodd *Ffarwel i Addysg* felly yn y gystadleuaeth drama yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor? Roedd yn un o'r goreuon, yn ôl y beirniad D.T. Davies; "fe wêl y cyfarwydd ynddi waith un â llaw gelfydd" a "gellir disgwyl gwaith gwych oddiwrthi eto."²⁶

Yn ôl adolygiad yn *Y Brython* yn 1932, yr oedd yma ddrama "rymus" a oedd yn sicr yn haeddu cydnabyddiaeth am gamu i gyfeiriad newydd:

Dylai'r ddrama rymus hon gael croeso mawr gan garedigion ein drama. Bydd y sawl nad ymgydnabydda â hi yn dlotach o gymaint â bod *Ffarwel i Addysg* yn un o'r dramâu hynny sy'n gam bras ymlaen tuag at greu ysgol i'r ddrama yng Nghymru.²⁷

Yn ddiau, byddai Kate Roberts wedi cofleidio'r fath groeso i'w drama, yn enwedig o gofio'r dadleuon efo gwŷr y Coleg.

²⁵ Adferwyd y berthynas rhwng Thomas Parry a Kate Roberts yn fuan ac erbyn 1934 y mae'n gwahodd Thomas Parry a'i wraig i ymweld â Morris a hithau yn Nhonypany (gweler Derec Llwyd Morgan, *Y Brenhinbren, Bywyd a Gwaith Thomas Parry 1904-1985*, t67). Hefyd, ef yn y man sydd yn cywiro profleuni ei gweithiau gan gynnwys ei nofel *Traed Mewn Cyffion* (gweler Derec Llwyd Morgan, *Y Brenhinbren, Bywyd a Gwaith Thomas Parry 1904-1985*, t.112)

²⁶ Davies, D.T., Beirniadaeth, Papurau Kate Roberts, LLGC, rhif 2963, t.30

²⁷ Adolygiad o *Ffarwel i Addysg*, *Y Brython*, 13 Hydref 1932, t.5

Ond nid oedd *Ffarwel i Addysg* yn ddigon “celfydd” na “gwyd” i fod yn fuddugol yn yr Eisteddfod, ysywaeth.²⁸ “Gobeithiaf mai gwaith un yn dechrau yw hon, gan gymaint yr addewid a welaf ynddi” meddai’r beirniad. Ond a ellid dweud yn deg mai ‘dechrau’ ar ei gyrfa yr oedd Kate Roberts yn y cyfnod yma? Ie, yn ôl Geraint Wyn Jones. Gwna’n fawr o’r ffaith mai bwrw ei phrentisiaeth roedd Kate Roberts yn y blynyddoedd hyn. Ond deil D. J. Williams ei bod eisoes wedi sicrhau ei chreffft; “Yr oedd llaw prentis ar rai o’r rhai hynny...” meddai wrth gyfeirio at y straeon yn y gyfrol *O Gors y Bryniau*, 1925 ond erbyn *Rhigolau Bywyd*, 1929“...meistr, neu feistres yn hytrach, y grefft yn unig a geir yma.” Ai cam yn ôl felly oedd *Ffarwel i Addysg*? Ac ai camgymeriad oedd ailymweld â ffurf y ddrama?

Rhaid gofyn y cwestiwn a yw’r ddrama yn argyhoeddi? Fel hyn yr ysgrifennodd awdur anhysbys yr adolygiad i *Ffarwel i Addysg* a ymddangosodd yn *Y Brython* wedi’r Eisteddfod, “Pan yn dechrau ei darllen meddyliem y byddai’n rhaid inni wneuthur hynny ar ddwy-waith oherwydd diffyg amser, ond cafodd gymaint o afael ynom, nes methu ohonom ei throi o’n llaw nes cyrraedd y diweddglo.”²⁹ Dyna fesur llwyddiant darn o lenyddiaeth, heb os.

Pan berfformiwyd y ddrama am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 1932 yn Y Rhondda gan Gymdeithas Hyrwyddo Dramâu Cymraeg ymatebodd y gynulleidfa’n gadarnhaol dros ben yn ôl Llew Llwyfo. Dyma a ysgrifennodd am yr achlysur yn *Y Darian*;

²⁸ Cynan oedd y fuddugol yng nghystadleuaeth Cyfansoddi Drama Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1931 gyda’i ddrama *Hywel Harris*.

²⁹ Adolygiad o *Ffarwel i Addysg*, *Y Brython*, 13 Hydref 1932, t.5

Drama Gymraeg yn y Rhondda.
Perfformiad llwyddiannus o “Ffarwel i Addysg”.
Gan Llew Llwyfo

Yn y Pentre, Rhondda, nos Fercher diwethaf, cafwyd ateb pur bendant i'r bobl hynny a fyn ddweud na wrendy pobl De Cymru ar ddramâu Cymraeg. Yn Neuadd Canon Lewis, perfformiwyd “Ffarwel i Addysg” (Kate Roberts) am y tro cyntaf, gan Gymdeithas Hyrwyddo Dramau Cymraeg. Fel gwyddis bu i'r ddrama hon yn agos i gipio'r wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, a delia a bywyd coleg a helynt merch a anfonwyd o'r coleg am garu. Profodd chwerthin a chymeradwyaeth “pobl y glo” bod y ddrama wrth fodd eu calon er iddi ddelio â bywyd gwahanol i'w bywyd hwy. Teimlwn wrth wrando'r ddrama nad oes un esgus dros fynd allan o Gymru i chwilio am ddeunydd ein dramâu, a chawn ddigon o ddeunydd meddwl a mwynhad wrth chwerthin yn drugarog am ben ein gwendidau ein hunain.³⁰

Dyma brofi i Thomas Parry ei bod yn bosibl cael drama uchelgeisiol a drama a oedd yn cynnwys nodweddion a oedd yn fyw i Gymry Cymraeg y tridegau (ac nid yng nghadarnleoedd yr iaith yn unig ychwaith) a hynny drwy ychydig o ymdrech. Er na chipiodd *Ffarwel i Addysg* y wobwr yn yr Eisteddfod bu arbrawf Kate Roberts, fe ymddengys, yn gwbl lwyddiannus.

Yn ddifyr iawn, tua'r un cyfnod mae Prifysgol Bangor (nid y Gymdeithas Ddrama y tro hwn) a Kate Roberts yn amlygu barn sydd am y pegwn â'i gilydd ar fater arall. Edrydd Ioan M. Williams, fel y bu i Gymdeithas y Ddrama Gymraeg, Prifysgol Bangor wneud ymgais i gyflwyno rhywbeth ychydig yn wahanol i'r norm ym 1935, ond gorfu iddynt ymwrthod â'r syniad yn fuan; “Bu sôn hefyd, tua 1935 am gynhyrchiad o *Gwm Glo* J. Kitchener Davies, y gwrthodwyd gwobr Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd iddi'r flwyddyn cynt. Ond camodd awdurdodau'r coleg ymlaen yn wyneb y perygl hwnnw i

³⁰ Llew Llwyfo, ‘Drama Gymraeg yn y Rhondda’, *Y Darian*, 22 Rhagfyr 1932, t.8

wahardd gwrhydri'r Gymdeithas, a chafwyd y cyfieithiad Cymraeg o *Cross Currents* J. O. Francis (*Gwyntoedd Croesion*) yn ei lle.³¹

Drama yw *Cwm Glo* sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau cymdeithasol dirwasgiad mawr tridegau'r ugeinfed ganrif heb unrhyw arlliw o ramant diwylliannol. Y mae'n trafod agweddau anghynnes ar fywyd gweithwyr pyllau glo De Cymru a'u teuluoedd; gwirioneddau megis tlodi, budreddi a phuteinio. Er iddi gael ei chydnabod fel yr ymgais orau yng ngystadleuaeth y ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd ym 1934 ataliwyd y wobr, a hynny oherwydd y feirniadaeth gymdeithasol gwbl gignoeth a oedd ynddi.

Nid oedd cwmnïau drama'n barod i ennyn gwg beirniaid llenyddol y cyfnod drwy feiddio llwyfannu *Cwm Glo*. (Nid oedd senedd Prifysgol Bangor yn wahanol i neb arall yn hynny o beth). Ac o'r rheini a feiddiodd ei chyflwyno fe wnaethant ymyrryd ag elfennau craidd y ddrama yn ôl Manon Rhys; "Yn ôl mwy nag un adolygiad o berfformiad Cwmni Drama Gymraeg Aberystwyth o *Cwm Glo*, cymeriad doniol oedd y Dai Dafis a actiwyd gan Clydach Thomas. I ddyfynnu 'Cerddetwr' yn yr *Amman Valley Chronicle*, 14 Chwefror 1935, 'Fe gadwodd Mr. Clydach Thomas, drwy droi cyn lawer o drasiedi'r ddrama yn rhywbeth tebyg iawn i ffars, y cwbl rhag mynd yn boenus o ddiflas i'r neb sydd yn anwylo cymeriad glöwr de Cymru. Diolch am hyn!' Tybed a deimlodd yr awdur yn flin ynglŷn â hyn? Ai dyna oedd un o'r rhesymau a'i hysgogodd i godi ei gwmi ei hun i

³¹ Williams, Ioan M., 'Ideoleg ac Estheteg y Mudiad Drama', Gwerddon.com

<http://www.gwerddon.org/flipbook/Rhif2/files/assets/basic-html/page88.html>

Gweler hefyd Ioan M. Williams, *Y Mudiad Drama yng Nghymru*, t.144. Am drafodaeth ar safiad Senedd Prifysgol Bangor yn erbyn perfformio *Cwm Glo* gweler hefyd Ellis Roberts, '“Tylluan” yn Ymosod ar Ddrama!', *Y Brython*, 12 Rhagfyr 1935, t.4.

gynhyrchu'r ddrama, a hynny'n syth ar ôl cynhyrchiad cwmni Abertawe?"³² Yn dilyn hyn felly, sefydlwyd Cwmni'r Pandy gan Kitchener Davies gyda golwg ar lwyfannu *Cwm Glo* yn y dull a fwriadwyd.

Gan fyned yn groes i'r hyn y byddid wedi ei ddisgwyl gan Kate Roberts, o gofio'r darlun ystrydebol ohoni fel gwraig foesol a chul, dadleuodd Kate Roberts yn gyhoeddus o blaid *Cwm Glo* fel drama gyfoes a gonest. Dyma ddrama meddai a oedd wedi ceisio gwneud rhywbeth yn wahanol yn y Gymraeg, ond a feirniadwyd oblegid hynny. Pan gyhoeddwyd y ddrama ym 1935, anfonodd Kate Roberts air amdani i'r *Brython*:

“Cwm Glo”

Un o'r dramâu a sgrifennwyd i geisio torri ar yr undonedd yw “Cwm Glo” (J. Kitchener Davies), a greodd gymaint o gynnwrf yn Eisteddfod Castell Nedd, dros flwyddyn yn ôl. O'r diwedd daeth siawns i'r cyhoedd i'w darllen, canys fe'i cyhoeddwyd yn gyfrol ddestlus gan Wasg “Y BRYTHON” am hanner coron, a diau y bydd mynd mawr arni. Cafwyd llawer o siarad a beirniadu ffôl ar y ddrama hon eisoes – gan ei chanmolwyr a'i chondemwyr. Nid oes amheuaeth nad yw “Cwm Glo” yn torri tir newydd, a'r cwestiwn i'w benderfynu yw, a yw'n dweud y gwir mewn ffordd argyhoeddiadol ac yn diddori'r dyrfa?

Pam y Condemio?

Yn rhyfedd iawn, y mae cenedl yn barod i wrando ar ddramâu Saesneg, a'u canmol, ond os ceir yr un ddrama yn Gymraeg fe ddywedir ei bod yn anfoesol. Y mae “Cwm Glo” yn bregeth ar foesoldeb o'i chymharu â llawer o'r ffilmiau a ddangosir ar hyd a lled ein gwlad. Y mae yng “Ngwm Glo” gymeriadau anllad ac aflan: y mae ynddi hefyd, gymeriadau glân a duwiol – yr un gymysgedd ag a geir yn ein bywyd bob dydd...³³

³² Rhys, Manon, ‘Atgyfodi Cwm Glo, Kitchener Davies’, *Cwm Rhondda*, gol. Hywel Teifi Edwards, t.277

³³ Roberts, Kate, ‘Y Ddrama yng Nghymru’, *Y Brython*, 12 Rhagfyr 1935.

Ac mae'n debyg mai hynny a apeliai fwyaf at Kate Roberts, sef y darlun gonest hwn o fywyd yn y cymoedd adeg y dirwasgiad. Erbyn i'r geiriau hyn ymddangos yn *Y Brython* yr oedd Kate Roberts a Kitchener Davies wedi dod yn gyfeillion da; yr oeddynt yn troi yn yr un cylchoedd diwylliannol ac yr oedd y ddau yn weithgar iawn gyda Phlaid Cymru yn y cyfnod hwn.³⁴ Yn ôl Llew Llwyfo yn *Y Darian* yr oedd Kitchener Davies wedi actio yn y cynhyrchiad cyntaf un hwnnw o *Ffarwel i Addysg* yn y Rhondda ym 1932; "Yna y daeth y cymeriad pwysig arall, Dafydd Edwards i mewn, ac fe'i chwaraewyd gan Mr. J. Kitchener Davies. Ymddangosai Mr. Davies i mi fel hen law ar y llwyfan..."³⁵ Talodd Kate Roberts y gymwynas yn ôl i Kitchener Davies gan gymryd rhan yng nghynhyrchiad Cwmni'r Pandy o *Cwm Glo*. Edrydd Manon Rhys hanesion y cwmni hwn a glywodd gan ei mam a oedd hefyd yn aelod;

Ie, yr atgofion... Buont yn hofran ar y cyrion drwy'r misoedd hir. Nid fy rhai i, ond y rhai y soniwyd amdanynt mor aml gan fy mam a'm modryb – Bet Lewis a Marged yng nghynhyrchiad cwmni'r Pandy. Atgofion oedden nhw am gyfnod hapus, cyffrous pan reolai menter ac asbri a direidi ieuencid dros gallineb. Straeon am lwytho ceir hyd at y to â phrops llwyfan, am y ceir hynny'n diffygio neu'n mynd yn sych o betrol cyn cyrraedd pen y daith. Panig wrth golli'r ffordd, a chyrraedd theatrau'n hwyr. Cynulleidfaoedd yn gweiddi anghymeradwyaeth, neu'n chwerthin lle na ddylai chwerthin fod. (Hyn oll a olygai fy nhad wrth sôn am 'amaturiaeth' ym myd y ddrama Gymraeg yn ei erthygl yn y *News Chronicle* rai misoedd wedyn!) Y 'Prima Donna' Kate Roberts (Mrs Davies), yn mynnu mai ei chawl-cartref hi ddylai fod yn jwg Bet Lewis, ac yn dodrefnu'r llwyfan â'i bwrdd a'i chadeiriau derw moethus, a'i lliain les a'i chanwyllbrennau pres – a'r cyfan yn hollol anaddas i gegin y glöwr tlawd ac '... yn gweddu'n well i balas goludog na chell lom ellyll' yn ôl yr *Amman Valley Chronicle*, 21 Ionawr 1936. Weithiau, byddai'n rhaid chwilio'n sydyn ac ar fyr rybudd am brops newydd – pan fyddai Kate yn pwdu. Ond fel arfer

³⁴ Gweler; Kate Roberts, *Atgofion 1*, t32, hefyd Kate Roberts, 'Cofio'r Dyddiau Cynnar yn y Rhondda', *Erthyglau ac Ysgrifau Beirniadol Kate Roberts*, t.43 a ymddangosodd gynatf yn *Y Ddraig Goch*, Mai 1976.

³⁵ Llew Llwyfo, 'Drama Gymraeg yn y Rhondda', *Y Darian*, 22 Rhagfyr 1932, t.8

byddai pawb, gan gynnwys Morris Williams, ei gŵr, yn ei gweld hi'n haws ufuddhau iddi na chodi ei gwrychyn.³⁶

Difyr yw'r ffaith fod Kate Roberts yn parhau i actio mewn dramâu yng nghanol y tridegau a hithau erbyn hynny yn llenor pump a deugain oed. Nid fod hynny ynddo'i hun yn syndod o gofio am y traddodiad ac am gariad Kate Roberts at y ddrama, ond ychydig iawn a gofnodwyd am hyn gan feirniaid llenyddol yn gyffredinol. Dyma ddarganfod gwedd arall arni sy'n torri'r darlun ystradebol.

Er gwaetha'r ffaith fod Kate Roberts yn hyderus iawn wrth ddadlau'n gyhoeddus ar faterion yn ymwneud â'r ddrama yng Nghymru, gan gyflwyno ei barn yn ddiflewyn ar dafod nid oedd yr un mor ffyddiog yn cyflwyno ei gwaith llenyddol, fe ymddengys, heb yn gyntaf ei anfon at ei hathro llenyddol. Meddai wrth Saunders Lewis mewn llythyr dyddiedig 3 Ebrill, 1931; "Ni thyf fy nrama ddim, am fy mod wrthi'n glanhau'r ty – glanhau'r Gwanwyn. Awn i'r Gogledd yfory hyd ddydd Mercher – a gobeithiaf fedru mynd ymlaen yn chwyrn gyda hi wedyn. Wedi imi ei gorffen, a fyddwch garediced a'i darllen imi? "Ffarwel i Addysg" yw ei theitl..."³⁷ O gofio fod ymateb Saunders Lewis i straeon byrion Kate Roberts wedi bod yn hynod o ffafriol, er enghraifft, yn ei ragymadrodd i *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* edrydd Dafydd Ifans sut y bu anogaeth Saunders Lewis yn anhepgorol i Kate Roberts wrth iddi geisio ei sefydlu ei hunan fel awdures y stori fer; "Anogwyd hi gan Saunders Lewis i anfon ei chynnyrch at W J Gruffydd i'w ymgorffori yn *Y Llenor*, y cylchgrawn llenyddol newydd a oedd eisoes wedi llwyddo i'w sefydlu ei hun yn gyhoeddiad arloesol a safonol: "Pe bawn i yn olygydd *Y*

³⁶ Rhys, Manon, 'Atgyfodi Cwm Glo, Kitchener Davies', *Cwm Rhondda*, gol. Hywel Teifi Edwards, t.295

³⁷ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol; Dafydd Ifans, t.79

Llenor, byddai stori gennych ym mhob rhifyn, a llyfr ohonynt yn ddigon buan”.³⁸ Ond nid oedd ei ymateb i'r ddrama yr un mor glodwiw;

F'Annwyl Kate Roberts,

Daeth y gomedi, agorais y parcel, darllenais hi, ac wele hi'n ôl. Mi ddywedaf fy marn yn ddiwenaith amdani, er mai gwell fyddai gennyf ddweud rhywbeth a fyddai'n eich plesio. Ond cofiwch hyn yn gyntaf – yr wyf yn sgrifennu o fewn deg munud i'r foment y darllenais y gair olaf, ac felly nid barn a ystyriwyd yw hon, na barn wedi cael hamdden i ddychmygu sut yr actiai'r ddrama, - ond barn fyrfyfyr yr argraff gyntaf.

Fe all yn hawdd ennill gwobr eisteddfod genedlaethol, ac felly, os yw'r arian yn brin gennych anfonwch hi. (Ni raid imi geisio bod yn siwgraidd?) Ond nid yw hi ar lefel ystorïau byrion eich enw – (fwy nag yw dramâu degau o nofelwyr mewn ieithoedd eraill). Y mae ynddi lawer o sylwadau miniog a threiddiol a dyfnion, llawer hefyd o gryfder mewn rhannau – ond nid yw'n ddramatig. Er enghraifft, yn yr act olaf y mae llawer o'r pethau gorau a dyfnaf oll, ond ymddengys i mi mai drama arall yw'r act olaf, nid rhan o ddrama'r act gyntaf a'r ail. (Gyda llaw gw nai'r cwbl nofel fendigedig). Mewn drama ni ddylid dechrau gydag Annie, gwneud ei gweithred hi'n brif ffactor, ac yna ei thafu o'r neilltu. Beth ddylai fod yn destun y ddrama? Os bywyd y coleg, dylai'r olygfa *fawr* fod yng nghyfarfod y senedd, - yr athrawon oll, yr eneth o'u blaen, y warden faleisus, a'r bachgen, yna Annie'n torri i mewn yn ei hysteria, a chymeriadau'r athrawon gwryw a benyw yn ymddangos drwy'r cwbl. Felly, ni byddai ond dau brif bwnc (1) serch ifanc a chenfigen a (2) awyrgylch colegau Cymru, a'r genfigen yno hefyd, cenfigen yr hwn o rai iengach a chenfigen hen ferch o eneth synhwyrus.

Gormod, - deunydd nofel, - sydd yn eich drama. Dylai drama gymryd un sefyllfa'n unig a'i dihysbyddu hi mewn tair act neu bedair, nid symud o sefyllfa i sefyllfa.

Wedi dweud hynny, unwaith eto mentraf eich atgoffa ei fod yn beth ofnadwy eithriadol cael dim yn agos at werth a llawnder y ddrama hon mewn eisteddfod genedlaethol, - anfonwch hi'n ddibetrus.

A pheidiwch â rhoi llenyddiaeth heibio fyth, fyth. *Llenor* ydych chiwi, artist ac nid dim arall, ac nid Dic-pob-cawl fel fi.

³⁸ Ifans, Dafydd, Rhagymadrodd, *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t.xiii

Yn gynnes iawn,
Saunders Lewis³⁹

Yr awgrym yw y dylai barhau â'i hymdrechion yn llwybr y stori fer a'r nofel, a pheidio ag ymgiprys mwyach â'r ddrama. Barn Saunders Lewis yw nad ydyw *Ffarwel i Addysg* yn ddigon dramatig, a bod diffyg sylfaenol yn ei strwythur. Ni ellir llai na chytuno fod yma ddeunydd crai addawol ar gyfer nofel, ond ei bod rywsut yn anaddas ar gyfer ffurf y ddrama. Adlais o'r geiriau hyn gan Saunders Lewis a geir gan y cynhyrchydd Emyr Humphreys yn ei lythyr at Kate Roberts flwyddyn cyn darlledu *Y Gwas*⁴⁰ ar y radio ym 1961; "Yr wyf yn awr wedi cael hamdden i astudio "Y Gwas". Yn ei ffurf bresennol ymddengys i mi ei bod hi'n cloffi braidd rhwng drama a nofel" ac "Ar wahân i broblemau ffurf credaf y buasai gan y gwrandawr mwy o gydymdeimlad â chyflwr Gwen a Huw y tu mewn i gyfundrefn nofel."⁴¹ Efallai mai dyma sydd i gyfrif paham fod dramâu Kate Roberts wedi cael llai o sylw beirniad llenyddol na'i gweithiau eraill. Digon teg yw datgan nad yw'n ymgiprys yn rhy lwyddiannus â ffurf y ddrama oherwydd diffygion saerniaeth; fel y dywed Saunders Lewis nid oes un uchafbwynt trawiadol yn *Ffarwel i Addysg*. Gwir yw hynny hefyd am *Y Gwas*. Serch hynny, ni ellir osgoi'r ffaith fod i *Ffarwel i Addysg* (ac *Y Gwas*) rinweddau pwysig eraill. Yn gyntaf, cawsai ei chyfansoddi, fel ag a soniwyd eisoes, mewn ymateb i'r argyfwng ym myd y ddrama Gymraeg ddechrau tridegau'r ugeinfed ganrif. Yn ogystal, er efallai nad felly y bwriadwyd iddi fod, y mae

³⁹ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol; Dafydd Ifans, tt.83-84

⁴⁰ *Y Gwas*, drama radio gan Kate Roberts a ddarlledwyd Nos Iau, 16 Chwefror, 1961. Ceir copi o'r sgrïpt yng nghasgliad Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol, rhif 2652.

⁴¹ Llythyr gan Emyr Humphreys, cynhyrchydd *Y Gwas* at Kate Roberts dyddiedig 22 Gorffennaf 1960. LIGC, rhif 2653. Mae'r dramâu a ysgrifennodd Kate Roberts ym mhumpdegau a chwedegau'r ugeinfed ganrif oll, fe ymddengys, yn dioddef o'r pechod yma. Ac eithrio *Y Cynddrws*, byddai *Y Gwas*, *Y Chwarelwr*, *Modryb a Nith* a *Ffarwel i Addysg* (y tynnwyd y llwch oddi arni ym 1950 i'w darlledu ar y radio) wedi gwneud gwell nofelau neu straeon byrion na dramâu. Meddir am *Modryb a Nith* yng ngholofn adolygiadol 'Gwyllo a Gwrando efo Meic', *Y Cymro*, 4 Mehefin 1959, t.5, "Defnydd stori fer oedd yma, ac nid cynnwys addas i ddrama-gyfres;"

Ffarwel i Addysg yn ddrama hanesyddol o fath, neu o leiaf y mae'n ddrama ac iddi werth i'r sawl a fynn astudio'r cyfnod hwn mewn hanes. Ceir ynddi bortread hyglyw o fywyd merch o fyfyrwr mewn Prifysgol ar droad yr ugeinfed ganrif ac ymdriniaeth hynod sensitif o deimladau a rhwystredigaeth pobl ifanc ar ddechrau eu taith drwy fywyd ar gwt Oes Fictoria. Gogoniant pennaf y ddrama, fel y gellid disgwyl, yw'r ddeialog lyfn a defnydd cwbl naturiol ond trawiadol Kate Roberts o'r Gymraeg.

Bîd â fo am ei ffurf. Yng nghynnwys *Ffarwel i Addysg* mae ei nerth.

Ymddengys y ddrama fel petai wedi tyfu o'r paragraff hwnnw yn *Atgofion 1*;

Pan euthum i'r hostel yn fy ail flwyddyn y dechreuais fwynhau bywyd cymdeithasol y coleg. Yr oedd nifer y merched yn llai na chant, a deuai pawb i adnabod ei gilydd. Yr oedd y bwyd yn dda, ac yr oedd digon o amrywiaeth ynddo. Wrth gwrs yr oedd y rheolau'n gaeth iawn. Ni chaem aros allan ar ôl saith, ac yn y coleg ei hun ni chaem siarad gyda'r dynion ddim hwy na'r deng munud rhwng darlithoedd. Trwy gydweithrediad myfyrwyr eraill yn datgloi ffenestri byddai rhai merched yn medru aros allan yn hwy na saith ambell dro.⁴²

Ar ddechrau'r act gyntaf y mae criw o ferched yn dychwelyd i'w llety o bicnic, eithr nid yw Gwen yn eu mysg. Fe ddysgw'n mai allan efo'i chariad Dafydd, y mae hi. Myfyrwr diwinyddol yw Dafydd a'i fryd ar fynd yn bregethwr wedi graddio. Fesul ychydig, fodd bynnag, datgelir gan y merched fod Dafydd yn dipyn o dderyn, a nodant eu pryderon ynghylch addasrwydd y berthynas.

⁴² Roberts, Kate, *Atgofion 1*, t.24

- Olwen: Nid hynny ydyw'r pwynt. Wyddoch chi ar y ddaear sut y basa hi ar ol priodi. 'R'ydw i'n credu y gwnai Gwen wraig dda i unrhyw un, pregethwr neu ryw ddyn arall, os basa hi'n caru'r dyn. Ond mi ddweda i hyn wrthoch chi, mi fasa'n rhaid iddi gael yr un faint o gariad yn ol; ac mae arna i ofn na chai hi mo hynny gan Dafydd.
- Annie: Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Olwen: Am mae fflyrt ydyw o.⁴³

Portreadir Gwen fodd bynnag i'r gwrthwyneb yn gwbl fwriadol, gydag unrhyw ffaelecteddau posibl yn ei chymeriad yn cael eu cyflwyno yn y fath fodd, fel na all y gynulleidfa wneud dim ond ei hoffi.

Yn y cyfnod a bortreadir yn y ddrama yr oedd arferion a meddylfryd cymdeithasol yn geidwadol iawn, ac roedd rheolau'r Brifysgol yn adlewyrchu hynny. Ni chaniatawyd i ferched a bechgyn gymysgu o gwbl y tu allan i ddarlithoedd a gwae unrhyw un a gawsai ei ddal yn dychwelyd yn hwyr i'w hostel.

Yr oedd y rheolau yn ddigon caeth o'u cymharu â rhai heddiw. Yr oedd yn rhaid i bawb fod i mewn am saith y nos. Caech ganiatâd i ddyfod i mewn yn hwyrach os byddai gennych reswm digonol dros hynny. Weithiau byddai merched yn dianc allan i garu, os byddai ganddynt ffrindiau i agor ffenestri iddynt i ddychwelyd. Delid ambell un weithiau a byddai cerydd a chosb. Ni chaech siarad yn rhy hir gyda dyn o fyfyrwr am ragor na'r deng munud rhwng darlithiau, a gwneud hynny'n aml, yna fe gaech gerydd gan warden y neuadd. Saesnes oedd hi. Caem fynd i'r Gymdeithas Gymraeg ar nos Wener, ond byddai'r warden yno rhag ofn i chi fynd allan gyda bachgen yn lle mynd i'r Gymdeithas, neu gael eich hebrwng yn ôl gan un o'r bechgyn.⁴⁴

⁴³ *Ffarwel i Addysg*, t.5. Cyfeiria'r rhifau tudalennau at y ddrama wreiddiol a anfonwyd i gystadleuaeth y ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931 (Nid y sript drama a addaswyd ar gyfer y radio ym 1950.) Ceir copiau o'r ddrama ar ei ffurf gwreiddiol yn y Llyfrgell Genedlaethol rhifau 2515, 2516 a 2517.

⁴⁴ Kate Roberts, 'Coleg Bangor – 1910', *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts*, t.38 a ymddangosodd yn wreiddiol yn *Y Dyfodol*, Awst 1969.

Dywed Alan Llwyd fod gweithiau llenyddol Kate Roberts yn dueddol o fod yn hunangofiannol. Bid siwr y mae'n wir am y ddrama hon. Nid oes lle i ddadlau nad yw *Ffarwel i Addysg* yn seiliedig ar y profiadau a gawsai Kate Roberts pan ydoedd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor ac yn fwy penodol fel lletywr yn hostel Cae Derwen. Ni ellir dianc rhag y ffaith ychwaith ei bod yn ysgrifennu am yr hyn y gwyddai hi amdano a'r hyn yr oedd hi wedi'i ddysgu drwy brofiad. "Mwynheais bob munud o'm dyddiau coleg. Yr oeddwn yn ifanc ac yn wirion, a'r dyfodol heb fod yn poeni dim arnaf."⁴⁵

Wrth hel atgofion rhydd Thomas Parry, yntau yn ddifyr iawn, esiamplau o'r math o reolau a fodolai yn y Coleg ym Mangor yn ei ddyddiau ef yno'n fyfyrwr yn y mil naw dauddgau; "Yr oedd disgyblaeth bur lem ar fyfyrwyr y pryd hwnnw – y merched i fod yn eu neuaddau preswyl erbyn wyth o'r gloch ond pan fyddai dawnys yn P.J., a'r pryd hwnnw fe fyddai'r drysau i gyd dan glo rhag ofn i'r myfyrwyr ddianc allan yn gyplau."⁴⁶ Nid ym Mangor yn unig y bodolai'r rheolau hyn, yr oeddynt yn gyffredin ym mhob Prifysgol y cyfnod; "Careful supervision and chaperonage of the female students was an ever-present feature of life in the early years of the co-educational universities: the need for propriety, and the fear of scandal, were much in evidence."⁴⁷

Mae Francesca Rhydderch o'r farn bod yr un thema i'w gweld yn *Ffarwel i Addysg* ag a welwyd yn *Y Canpunt* flynyddoedd yn ddiweddarach, sef safiad o du'r ferch yn erbyn

⁴⁵ Roberts, Kate, 'Coleg Bangor – 1910', *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts*, t.40 a ymddangosodd yn wreiddiol yn *Y Dyfodol*, Awst 1969.

⁴⁶ Parry, Thomas, *Atgofion 1*, t.46

⁴⁷ Dyhouse, Carol, *No distinction of sex? Women in British Universities 1870-1939*, t.59

trefn gymdeithasol gul; “In ‘Ffarwel i Addysg’ [A Farwell to Education], the subversive preoccupations of *Y Canpunt* re-emerge, albeit in a muted and far more sombre form...”⁴⁸

Comedi ysgafn oedd *Y Canpunt* gyda chic sydyn tua’r diwedd o blaid y ferch fodern. Tra gwahanol, ond odid, yw *Ffarwel i Addysg* gyda’i phlot dwys a myfyriol a’i chwestiynu cyson ynghylch ‘y drefn’.

Like *Y Canpunt*, ‘Ffarwel i Addysg’ is subtitled ‘a comedy’; like *Y Canpunt* it focuses unflinchingly on the social dynamics of relationships between the sexes, in a dramatic analysis which is concentrated upon the interaction of a young courting couple, Gwen and Dafydd. However, while in the earlier play these discussions were light-hearted, and even farcical, in ‘Ffarwel i Addysg’ the allegedly ‘comic’ element is almost non-existent. The sexual innuendo is still there – and is in fact less subtle than it was in the earlier play – but it is here infused with a cynical sarcasm as opposed to ironic jest.⁴⁹

Pwynt o ddiddordeb yn ogystal pan edrychir ar gyd-destun y ddrama hon yw iddi gael ei chyfansoddi pan ydoedd Kate Roberts newydd briodi â Morris Williams,⁵⁰ a’i bod felly, yn unol â’r drefn bryd hynny, wedi gorfod rhoi’r gorau i’w swydd fel athrawes – yn ddiddorol felly dyma ‘ffarwel’ arall i ‘addysg’. Ond gwêl Katie Gramich y cysylltiad hwn yn un chwithig; meddai, “It is a strange play for a newly married woman to write, perhaps.”⁵¹ Ac ymhellach, “It is almost as if Roberts is revisiting her own youth and exploring alternative paths in life.”⁵² Llawn mor drawiadol yw’r dehongliad hwnnw o’r ddrama. Ai gweld ei hun yn Gwen a wna Kate Roberts? A fyddai hi wedi dymuno rhoi’r

⁴⁸ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, t.162

⁴⁹ *ibid.*, t.163

⁵⁰ Priododd Kate Roberts â Morris Williams, brodor o’r Groeslon ar 23 Rhagfyr, 1928

⁵¹ Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, t.45

⁵² *ibid.*, t.46

cyfan heibio fel ag y gwna Gwen er mwyn byw bywyd tawelach ac o ran hynny dedwyddach?

Yng ngolygfa agoriadol y ddrama y mae'r merched sy'n lletya yn hostel Coleg Bryn Afon⁵³ yn trafod y tensiynau sy'n bodoli rhwng merched a bechgyn a'r gwahaniaethau yn y dull yr ymdrinnir â'r ddau ryw gan swyddogion y Coleg a chan gymdeithas. Yn *Y Brython*, ceir adolygiad o'r ddrama hon, na chafodd ei hanrhydeddu yn yr Eisteddfod, gan golofnydd anhysbys:

Dadleniad celfydd o ffurfioldeb caethiwus bywyd mewn hostel coleg a'i ddylanwad alaethus ar fywydau geneth a rhai o'i pherthnasau a'i chydabod a geir yn y gomedi. Ond y mae ynddi fwy na hynny. Ceir ynddi feirniadaeth lem ar ein cyfundrefn addysg ac ar y syniadau poblogaidd am serch a phriodas.⁵⁴

Y mae'r sylwebaeth hon yn graff iawn, ac yn arddangos dealltwriaeth ddofn o'r hyn sydd gan y dramodydd yn ei meddwl. Nid yw'n amhosibl tybied fod gan y colofnydd brofiad uniongyrchol o sefyllfa gyffelyb ei hunan.

Mae'r merched yn y ddrama yn trafod eu sefyllfa anodd:

Lizzie: Rydw i'n gobeithio nad ydy hi ddim wedi gwneud dim byd ffol, achos mi wyddoch fel mae'r Warden a'i chylllell ynddi o hyd.

Olwen: Too bad hefyd, achos mae'n amlwg fod Dafydd a hithau wedi gwirioni am i gilydd.

⁵³ Cyfeirir yn fynych at Brifysgol Bangor fel 'Y Coleg ar y Bryn'. Gweler cerdd Gwyn i'r Brifysgol sy'n dwyn yr union deitl hwnnw ar y mur ym Mhrif Lyfrgell y Celfyddydau, Prifysgol Bangor.

⁵⁴ *Y Brython*, 13 Hydref 1932,t.5

- Annie: Ond mae Gwen yn mentro gormod mae arna i ofn.
- Lizzie: Mae'n rhaid i rywun fentro neu beidio a charu o gwbl, yn y Coleg yma beth bynnag.
- Olwen: (sydd newydd fod yn y drws yn edrych a yw Gwen yn dyfod) Cweit reit, ond mae rhywun fel llygoden o dan balf y gath yn y fan yma.⁵⁵

Â'r drafodaeth rhagddi gyda'r merched yn datgelu nad dyma'r tro cyntaf i Gwen fod allan yn hwyr gyda bachgen. Ond deryn brith yw Dafydd, a deawn i ddeall fod ganddo enw am fercheta.

- Olwen: Nid hynny ydyw'r pwynt. Wyddoch chi ar y ddaear sut y basa hi ar ol priodi. 'Rydw i'n credo y gwnai Gwen wraig dda i unrhyw un, pregethwr neu ryw ddyn arall, os basa hi'n caru'r dyn. Ond mi ddweda i hyn wrthoch chi, mi fasa'n rhaid iddi gael yr un faint o gariad yn ol; ac mae arna i ofn na chai hi mo hynny gan Dafydd.
- Annie: Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Olwen: Am mai fflyrt ydy o.
- Annie: Ond siwr, fasa pregethwr ddim yn fflyrt ar ol priodi.
- Olwen: Dyn a'ch helpo. Mae gan bregethwyr well siawns i fflyrtio na neb arall ond trafaelwyr, priod neu ddim, hynny ydyw os bydd y duedd honno ynddyn nhw. Ac yn ddiws mae yn Dafydd.⁵⁶

Cymeriad gwan yw Dafydd yn y ddrama. Ni fanteisir ar y ffaith fod *Ffarwel i Addysg* yn ddrama faith i ddatblygu'r cymeriad i'w lawn botensial. Am gyfran helaeth o'r digwyddiadau y mae fel petai'n ceisio deall meddyliau y cymeriadau benywaidd ac yn

⁵⁵ *Ffarwel i Addysg*, t.2

⁵⁶ *ibid.*, t.5

methu. "...d'wn i ddim i beth mae dyn yn cyboli efo genod."⁵⁷, "Wyt ti'n deall merched?"⁵⁸ ac "'D'w' i ddim yn meddwl y medr yr Hollalluog i deall nhw."⁵⁹ Fe'i cyferbynnir â'i gyfaill a'i gyd-letywr Roland Jones a wnaed o well deunydd.

- Hannah: Deudwch i mi, ydach chi'n nabod Rolant Jones, sy'n aros efo Dafydd Edwards?
- Lizzie: Ydw, bachgen dymunol iawn ydyw o. Beth oedd? Ydych chi'n i licio fo, Hannah?
- Hannah: Na. Dim ond fy mod i'n meddwl rwan y baso fo'n siwtio Gwen yn well o lawer na Dafydd Edwards.⁶⁰

Ymddengys fod Dafydd yn y Coleg i ymblesera'n gymaint ag ydyw yno i baratoi am swydd goler wen. Cymeriad ffansiöol, bàs ydyw, (er ei fod yn adfer rhywfaint ar ei gymeriad ei hunan erbyn diwedd y ddrama) heb na chydwybod na chrebwyll.

- Dafydd: Wel, does ond gobeithio'r gorau, dwn i ddim i beth mae dyn yn cyboli efo genod.
- Rolant: Nid rwan mae dweud peth felly. Dywed i mi, beth fase ti'n wneud petai Gwen yn digwydd cael ei throi o'r Coleg? Mi glywsom am bethau felly'n digwydd.
- Dafydd: Beth faswn i'n wneud beth?
- Rolant: Faset ti'n fodlon priodi Gwen?
- Dafydd: Pam briodi? Nid dyna'r unig ffordd allan. Mi all Gwen chwilio am le.
- Rolant: Dafydd, Dafydd, dwyt ti ddim am adael i'r eneth chwilio am le a thithau i raddau wedi bod yn gyfrifol am iddi gael

⁵⁷ *ibid.*, t.14

⁵⁸ *ibid.*, t.22

⁵⁹ *ibid.*, t.23

⁶⁰ *ibid.*, t.3

y sac? Ac eglwys yn barod gen ti i ddisgyn iddi.

Dafydd: Nonsens. Chaiff hi mo'r sac.

Rolant: Paid ti â bod mor siŵr.⁶¹

Gwelir hefyd dreiddgarwch a chraffter Kate Roberts wrth iddi gynnwys sawl cyfeiriad at 'ddrama' yn y sgript. "Yn y fan yna mae'r ddrama'n dechrau – dwad i gyfadde mai hi glicedodd y ffenest wnaeth hi."⁶² "Ffaith i ti. Mae o'n swnio'r un fath a darlun y *Cinema*, ac mae'r hyn oedd wrth wraidd y weithred lawn mor ddramatig."⁶³ "Chlywais i 'rioed siwd beth. Pwy fasa'n meddwl y baset ti, Dafydd Edwards, pregethwr parchus efo'r Anghudffurfwyr, wedi dy landio mewn... mewn drama mor ogoneddus rhwng ddoe a heddiw."⁶⁴ A cheir jôc fechan rhwng yr awdur a'r gynulleidfa pan ddywed Dafydd, "Rydw i'n teimlo fel petawn i'n actio mewn drama."⁶⁵

Y mae'n wir dweud yn ogystal fod Dafydd yn ffitio'n ddestlus i'r ddelwedd o bregethwyr a geir yn fynych yng ngweithiau'r awdures. Ffigur cysgodol ydyw, fel Gruff gŵr Bet yn *Tywyll Heno* a'i brif bwrpas, fe ymddengys, yw bod yn gyfrwng diriaethol allanol i gyfleu'r cynhyrfiadau seicolegol mewnol a ddaw i ran y prif gymeriad (eto fel Gruff yn *Tywyll Heno*).

Cymeriad eilradd arall, ond un tra phwysig i rediad y stori yw Annie. Yn amlwg y mae'n genfigenus o Gwen; o'i rhyddid a'i hyder a'i hyfdra. Gwedd arall bwysig ar y cymeriad

⁶¹ *ibid.*, t.14

⁶² *ibid.*, t.23

⁶³ *ibid.*, t.23

⁶⁴ *ibid.*, t.24

⁶⁵ *ibid.*, t.23

hon ydyw ei bod yn dal kannwyll i Ddafydd, ac yn y fan hon y ceir y catalydd sy'n esgor ar y ddrama. Cymeriad llwydaidd yw Annie, a cheir disgrifiad manwl ohoni ar ddechrau'r

Act gyntaf:

Pan a'r llen i fyny gwelir merch ieuanc, tuag un ar hugain oed – Annie Williams – yn eistedd mewn cadair galed wrth y ddesg, a phentwr o lyfrau o'i blaen. Geneth heb fod yn hardd ydyw, ond nid yw'n hagr, geneth ddi-liw, ond mae golwg gydwytodol, o ddifrif arni. Un o'r bobl hynny sy'n gweithio'n galed yn y coleg ac yn gadael ychydig o'u hol ar y byd wedi mynd oddiyno. Mae golwg wedi syrffedu arni, ac felly y mae.⁶⁶

Y sarff yn yr ardd ydyw Annie. Edliwiai i Lizzie ei bod fel "deryn corff" am ei bod yn poeni am Gwen ac yn rhagweld ei chwmp. Y mae'r gwmp wrth gwrs yn sicr, gwna'n siwr o hynny.

Y mae'n arferiad gan y merched yn amlwg i adael ffenestr ar y llawr gwaelod yn agored i'r sawl na lwyddodd i gyrraedd yr hostel cyn y cyrffew;

Lizzie: Ella, ond rhag gwneud dim yn waeth nag sydd raid, yr ydw i am fynd i lawr i agor cliciad ffenest y cloakroom. Mae hi'n hen gynefin a dwad i mewn trwyddi, ac mae'n siwr y meddylith hi am y ffenest y peth cynta.⁶⁷

Y bwriad yw sicrhau fod modd i Gwen ddychwelyd heb gael ei dal gan y Warden. Ond yn ddiarwybod i aelodau eraill y cwmni y mae gan Annie'r asgwrn hwnnw i'w grafu gyda Gwen. Mae Gwen yn dlws, yn fywiog, yn byw i'r foment ac mewn cariad. I'r

⁶⁶ *ibid.*, t.1

⁶⁷ *ibid.*, t.6

gwrthwyneb, cymeriad llwydaidd, di-liw, yw Annie. Mae cenfigen yn ei llethu, ac ar funud gwan y bydd yn edifar ganddi yn y man, cly ffenestr y “cloakroom” fel y bydd yn rhaid i Gwen ganu cloch drws y ffrynt.

- Gwen: Dyma fi wedi cyrraedd.
- Annie: A diolch am hynny, 'r'ydydym ni wedi bod yn ofnadwy o bryderus yn eich cylch chi.
- Gwen: (Gan eistedd i lawr a newid ei hesgidiau am slipanau ac ymddangos yn ddihitio) Y ni? Pwy ydyw ni?
- Annie: Y genod. Olwen Lizzie, Hannah a finnau.
- Gwen: Piti na fasa'ch pryder chi dipyn yn fwy ymarferol.
- Annie: Beth ydych chi'n feddwl?
- Gwen: Mi allasa rhai ohonoch chi fod wedi agor ffenst y cloakroom i mi?
- Annie: (Gan neidio'n sydyn) Oedd hi ddim wedi i hagar?
- Gwen: Nag oedd, ddim un. Mi fu'n rhaid imi ganu'r gloch.⁶⁸

Caiff Gwen ei dal, wrth gwrs, yn unol â chynllwyn craff Annie.

(Ar hyn clywir cnoc ar y drws, a daw morwyn i mewn, ar ol i Annie weiddi “Dowch i mewn”).

- Y forwyn: (Wrth Wen) Mae ar y Warden eisiau eich gweld yn ei rwm rwan os gwelwch yn dda, Miss Pritchard.⁶⁹

Ond ar y carped y noson honno o flaen y Warden, yr oedd Gwen mewn ysbryd “herfeiddiol”. Wyneba gael ei diarddel o'r coleg a olyga ddwyn gwarth ar ei henw da ac

⁶⁸ *ibid.*, t.6

⁶⁹ *ibid.*, t.11

ar ei theulu. Bychan yw'r aberth honno heno. Nid yw yfory â'i ganlyniadau yn mennu dim arni; "Mae heddiw'n siwr, a chwpan heddiw'n llawn."⁷⁰

Drych i'r awyrgylch a geir yma yw'r hyn a geir yn nrama ddirdynnol Saunders Lewis, *Siwan*, ble mae Gwilym Brewys a Siwan yn byw am 'heno':

- Gwilym: Gad lonydd iddo. Fe roddaist heno i mi.
- Siwan: 'Rwy'n rhoi heno i ti. Heno, 'rwy'n rhoi Myfi fy hunan i ti,- yng ngwely fy ngŵr.
- Gwilym: Fe wyddost fy mod yn d'addoli.
- Siwan: Gwraig briod ganol oed?
- Gwilym: Unbennes a thywysoges o lin brenhinoedd,
Roes oed mo'i farc ar dy dalcen nac ar dy gorff.
All cyfri'r blynyddoedd ddim cyffwrdd â'm haddoliad i.
- Siwan: Na all heno, pe na bai ond heno'n bod.
'Rwy'n fy rhoi fy hun iti am heno, Gwilym Brewys.
- Gwilym: Bydd heno'n ddigon heno, a heno i mi yw byth,
Fedri di mo 'ngharu i, Siwan?⁷¹

Dau gariad yn meddwi ar eu teimladau ac yn byw i'r funud. Er bod hyn fymryn yn felodramataidd i chwaeth cynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain efallai, roedd yn ddiau yn torri tir newydd yn nhridegau'r ugeinfed ganrif.

⁷⁰ *ibid.*, t.9

⁷¹ Lewis, Saunders, *Siwan*, Saunders Lewis, *Dramâu Saunders Lewis Y Casgliad cyflawn Cyfrol I* gol. Ioan M. Williams, t.519

Drannoeth i'r digwyddiadau y mae gwedd wahanol ar bethau. Sylweddola Gwen ei byrbwylltra, yn rhy hwyr. Caiff ei dwyn i gyfrif am ei hymddygiad gan y Senedd a'i diarddel. Cyrhaedda lythyr o'r Coleg adref i hysbysu ei thad a'i modryb o'r penderfyniad:

Rhisiart: (Wrth ddyfod i mewn, er mwyn dwedyd rhywbeth) Pryd wyt ti'n dweud y daeth y llythyr yma?

Sara: Ond efo'r post y bore yma.

(Eisteddant mewn manau cyfleus i'w gweled gan y gynulleidfa.)

Rhisiart: (Ar ol seibiant synfyfyriol.) Ac mae Gwen wedi ei throi o'r Coleg. (Ysgwyd ei ben yn brudd.)⁷²

Rhydd hyn bwysau ar Ddafydd, nad yw'n rhy hapus i'w ysgwyddo. Sylweddola fod pethau wedi mynd yn argyfyngus o bell y tro hwn a bod disgwyl iddo 'wneud y peth iawn,'sef gofyn i Gwen ei briodi. Byddai'r weithred honno o leiaf yn achub rywfaint ar enw da Gwen ac yn lliniaru mymryn ar ei chwymp oddi wrth ras. Ond, craffanga Dafydd yn y gwyll am unrhyw lwybr arall;

Gwen: Rhaid i chi faddau i mi. 'R'ydw i wedi mynd trwy bethau mawr er neithiwr. (rhwng ebychiadau) Mae'n debyg eich bod chi wedi clywed.

Dafydd: Wel, do. Mi ddywedodd Lisi ac Olwen wrth Rolant, ond dim ond y munud yma y dywedodd Rolant wrtha i. Ond, Gwen, ydych chi ddim yn meddwl mai mynd yn ol i'r Hostel fasa'r peth gorau i chi rwan? Os gwelan nhw'ch colli chi o'r Hostel, mae pob siawns sydd gynnoch chi ar ben.

Gwen: (Yn anobeithiol) Waeth beth wna i rwan. Mi gewch chi weld mai f'expelio ga i.

⁷² *ibid.*, tt.24-25

Dafydd: (Yn garedig) Rhaid inni obeithio'r gorau. D'oes arna i ddim eisiau colli'ch cwmpeini chi ond rydw i'n credu mai mynd yn ol ydyw'r peth gorau i chwi.⁷³

Daw'r dadrithiad yn syth wedyn pan geisia Gwen egluro'i sefyllfa iddo. Er tanbeidrwydd ei gariad neithiwr, nid yw'n gofyn am ei llaw heddiw. Gyda geiriau Olwen yn canu yn ei chlustiau, "Peidiwch chi a rhoi gormod o'ch ymddiried yn Nafydd. Mae o wedi caru degau yn i oes ac mi gâr ddegau eto."⁷⁴ Ffy o'i olwg.

Disgyn llen o dawelwch dros yr act olaf. "Tybiasai artist llai weld yma gyfle i ymfflamychu a lluchio llestri" meddai D.T. Davies⁷⁵. Nid felly Kate Roberts.

Ymchwilio'r enaid a geir yma. Y mae'r drafodaeth yn y drydedd act hon rhwng y fodryb (Sara) a'r nith (Gwen) yn digwydd yn aml yng ngweithiau'r llenor. Cyffes y carwr, ped dymunir. Daw ar ffurf tyngu llw yn *Dwy Storm*;

A heno, ar y mynydd Llwyd, a gwynt y dwyrain yn glanhau ei wyneb, aeth Eban drwy'r frwydr fawr o ryddhau ei feddwl oddi wrth Aels. Ers pan dorasai hi'r newydd iddo, buasai mewn uffern. Aels, y bu'n ei charu mor gywir ac mor danbaid am ddwy flynedd yn medru gwneud ffasiwn beth, heb ddim rheswm yn ei olwg ef!... Yr oedd y gwynt wedi distewi a'r noson yn oleuach. Nid oedd ond duwch i'w weled ymhobman: daear dywyll, cloddiau tywyll, ac ambell ddraenen ddu yn sefyll yma ac acw wrth ochr y cloddiau. Ac yno, yn yr unigedd a'r duwch, tynghedodd Eban na byddai a fynnai ef â merched byth wedyn.⁷⁶

Atgof ydyw yn *Rhwng Dau Damaid o Gyfleth* wrth weld ei wyres yn tynnu cyfleth caiff

Dafydd Tomos ei gludo yn ei ôl i'r gorffennol;

⁷³ *ibid.*, t.17

⁷⁴ *Ibid.*, t.8

⁷⁵ Davies, D.T., *Beirniadaeth y Ddrama*, Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931, LLGC rhif 2963.

⁷⁶ Kate Roberts, 'Dwy Storm', *Ffair Gaeaf*, t.51

Cydiodd y weithred ei gof wrth olygfa debyg a welodd drigain mlynedd ynghynt. Edrychodd ar ei wyres a'i llewys cwta a'i gwallt du fel cragen gocos uwch ben ei chlust ac aeth ei feddwl yn ôl at Geini, yr eneth oedd yn gweini gydag ef yn Nôl yr Hedydd. Wrth dynnu cyfleth fel hyn y syrthiodd mewn cariad â hi. Safai hi a'i meistres ar ganol y llawr fel y gwnai ei ferch a'i wyres yn awr, yn tynnu cylfeth. Llewys byr, wedi ei crychu i fand uwchben ei phenelin oedd ganddi, llewys digon uchel i ddangos bôn braich gron a thwll yng nghnawd ei phenelin. Deuai ei gwallt du i lawr dros ei chlust ar ei ffordd i'r tu ôl i'w phen. Wrth iddi chwerthin dangosai res o ddannedd gwynion a thwll yn ei boch.⁷⁷

Yr un yw canlyniad yr ymchwilio – dadrithio. Fel hyn y gwêl John Emyr bethau:

Drwy gydol gwaith Kate Roberts gwelir y thema gwahanu yn brigo i'r wyneb yn gyson. Ceir amrywiaethau lluosog ar y thema, wrth gwrs; deuir ati o amryfal gyfeiriadau drwy'r storïau unigol. Ac nid cariadon a geir bob tro. Ond cawn yr awdures yn rheolaidd yn dychwelyd at ganolbwynt syml argyfwng 'poblogaidd' sy'n ei chynhyrfu i'r byw. Dau enaid hoff – yn aml iawn cariadon – yn dod ynghyd, yna'n mynd ar wahân, yn agosáu ac yna'n dieithrio. Dyna batrwm syml sawl stori, fel symudiad ffurfiol mewn dawns.⁷⁸

Dawns neu beidio. Pan ddaw cais Dafydd yn gofyn iddi ei briodi, daw yn rhy hwyr. Ofna Gwen mai tosturi a barodd iddo ofyn y cwestiwn. Nid felly yn ôl Dafydd, "Efallai mai tosturi ddangosodd i mi faint oeddwn i yn eich caru chi, ond nid tosturi oedd y peth i hun, yr ydw i'n sicr o hynny."⁷⁹ Ac ymhellach, gwêl Gwen heibio i'r sentimentalrwydd a oedd wedi cydio ynnddi, "... ond yr ydw i wedi ffendio peth arall hefyd, fod cariad yn llai barddonol rhwng pedair gwal ystafell."⁸⁰

⁷⁷ Roberts, Kate 'Rhwng Dau Damed o Gyfleth' *Rhigolau Bywyd*, t.19

⁷⁸ Emyr, John, *Enaid Clwyfus*, t.11

⁷⁹ *Ffarwel i Addysg*, t.37

⁸⁰ *ibid.*, t.35

Rhydd y profiad ryw hyder newydd i Gwen, a cheir y teimlad ei bod wedi aeddfedu mwy mewn tridiau nag a wnaeth yn y blynyddoedd a arweiniodd at y profiad hwn. Fel yn hanes Crist a'r Pasg; wedi'r gwrthryfela a'r dioddef daw'r ymchwilio mewnol. A dim ond wedi hyn oll y ceir yr atgyfodiad. Ceir proses debyg iawn yn nrama Saunders Lewis ble mae'r prif gymeriadau; Siwan a Llywelyn fel petaent yn gweld eu ffordd yn gliriach wedi iddynt ddiodeff. Y mae'n werth oedi rhagor yma i fyfyrion ymhellach uwch yr elfennau cyffelyb sy'n amlygu eu hunain yn *Ffarwel i Addysg* a *Siwan*. Darlledwyd *Siwan*, Saunders Lewis a *Ffarwel i Addysg* Kate Roberts ar Raglen y Cymry y BBC gwta bedair blynedd ar wahân gan ddau lenor Cymraeg a anwyd ar drothwy'r ugeinfed ganrif - dau lenor a oedd yn rhannu'r un weledigaeth wleidyddol ac a ddaeth yn gyfeillion oes. Awdures ydoedd Kate Roberts a ysgrifennai yn ei mamiaith yn unig ac a ysgrifennai am yr hyn a welai ac a brofai yn ei milltir sgwâr. Ffaith a barodd i'w gwaith fod yn anweledig i gynifer o ddarlennwyr Saesneg yn ôl Francesca Rhydderch; "An author who wrote solely in her mother tongue, a language spoken today by some 800,000 of the Welsh population, Kate Roberts's work remains invisible to many, despite the fact that within her own culture she holds an iconic status..."⁸¹ I'r gwrthwyneb, y mae gwedd glasurol, eang ei daearyddiaeth ar waith Saunders Lewis; "Saunders Lewis used the high culture of Medieval monasticism and a pre-Christian Greece and Rome to speak to his 'aristocratic' Welsh society and, while not translating Greek drama directly into the Welsh tongue, his use of Classically inspired tragic models for his plays was obvious. Inspired by a handbook on Greek philosophy written in Welsh by D. James Jones, Saunders Lewis began to laud the Greek conception of the poet or writer as a teacher and sage and held particularly high in

⁸¹ Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D Aberystwyth, tt.1-2

his estimation the poet-lawgiver Solon and the tradition of philosophical didacticism. His admiration for the plays of Aeschylus, Sophocles, Euripides (and subsequently of Corneille and Racine) inspired him to create what could be termed “Celtic Tragedy”.⁸²

Yn wir, ar yr olwg gyntaf ymddengys fod y ddwy ddrama yn ymdrin â dau fyd sydd am y pegwn â'i gilydd. Y mae'r naill, *Ffarwel i Addysg* yn cyflwyno merch ifanc o gefndir y dosbarth gweithiol i'r gynulleidfa. Chwarelwr syml yw ei thad a'i mam wedi ei chladdu'n ifanc o ganlyniad i'r blynyddoedd o lafur caled y bu'n rhaid iddi eu dioddef. Ar yr aswy, cyflwynir yn Siwan wraig hynod freintiedig bymtheg ar hugain oed, a gwaed un o deuluoedd brenhinol mwyaf dylanwadol Ewrop yn llifo drwy'i gwythiennau. Yr oedd hi'n un o wragedd mwyaf Ewrop yn ei chanrif ac yr oedd ganddi ddealltwriaeth dda o fyd brenhinoedd. Un o nifer o arwresau Saunders Lewis sydd o dras fonheddig yw Siwan. Gellid enwi Blodeuwedd, y ferch a wnaed o flodau yn wraig i Lleu, Arglwydd Ardudwy; Esther, gwraig Ahasferus brenin Persia a Branwen, chwaer Bendigeidfran brenin Ynys Prydain ymhlith y rhai mwyaf nodedig. Merched sy'n huanu o fydoedd na welodd Saunders Lewis erioed ynt bob un, eithr yn ei ddychymyg yn unig y gwelodd hwy ef. Yn gwbl groes i hynny fodd bynnag, merched o ddosbarth cymdeithasol isaf cymdeithas yw arwresau Kate Roberts bron yn ddieithriad. Merched ynt sy'n wragedd neu'n ferched i chwarelwyr llechi a glo, yn famau tlawd i blant colledig, yn weithwyr tir a thyddyn. Merched a welai Kate Roberts o'i hamgylch yn ddyddiol yw'r rhain; gwagedd a ymladdasai eu brwydrau caled yr un mor urddasol â brenhinesau Saunders Lewis.

⁸² Llewellyn-Jones, Lloyd, *Trasidei Gymraeg: Is there a Classical Tradition in Welsh Language Drama?* <http://www2.open.ac.uk/ClassicalStudies/GreekPlays/Seminar02/LLJLewis.htm>

Dwy arwres gwbl wahanol yw Siwan a Gwen wedi eu llunio gan ddau lenor nodedig o'r un anian ond anghyffelyb eu dull a'u harddull. Anffurfiol yw'r iaith yn *Ffarwel i Addysg*, ac er bod rhai o'r ymadroddion ac ebychiadau wedi dyddio ychydig ni ellir ond gweld beirniadaeth Katie Gramich o iaith y ddrama ychydig yn egr; "One can see why it did not win the competition. The dialogue is stilted and rather too literary..."⁸³ Y ddeialog yw prif nodwedd y ddrama a hynny am nad oes crescendo digwyddiadol fel y cyfrwy fel ag a nododd Saunders Lewis. Y mae'r ddrama yn dibynnu'n drwm ar y ddeialog i gyfleu'r argyfyngau sydd ynddi. Ni ellir ychwaith osgoi'r dylanwad ymneilltuol Arfonaidd sy'n nodweddiadol o arddull gweithiau llenyddol yr awdures; "Ac mi fydd arna i gwilydd codi 'mhen tua'r chwarel yna. 'R' ydw i wedi bod yn son cymaint am Gwen. Mi gan hwyl braf am fy mhen i rwan."⁸⁴

I'r gwrthwyneb, aruchel a blodeuog yw'r iaith yn Siwan mewn cymhariaeth. "Am dy fod di'n cofio blas pethau / A bod blas yn darfod mor fuan; / Am iti chwerthin ar berygl / A bod bywyd ar antur mor frau; / Am fod dy orfoledd di yn fy ngallu / A bod rhoi i ti d'orfoledd yn bêr. / Am ei bod hi'n awr yn galan Mai."⁸⁵ Drama ar fydr yw hi a'r arddull yn gweddu i'r thema glasurol, aristocrataidd sy'n llifo drwy'r gwaith. "Saunders Lewis' contribution to Welsh culture has been to create a sense of tragic drama drawing heavily on Greek tragedy and thus being far removed from the chapel tradition. He also employed a verse suited to and suitable for telling the tragic stories on the stage."⁸⁶ Felly y mae

⁸³ Gramich, Katie, *Kate, Writers of Wales*, t.45

⁸⁴ *Ffarwel i Addysg*, t.25

⁸⁵ Lewis, Saunders, *Siwan*, Dramâu Saunders Lewis, gol. Ioan M. Williams, t.547

⁸⁶ Llewellyn-Jones, Lloyd, *Trasidei Gymraeg: Is there a Classical Tradition in Welsh Language Drama?*
<http://www2.open.ac.uk/ClassicalStudies/GreekPlays/Seminar02/LLJLewis.htm>

Saunders Lewis a Kate Roberts yn dibynnu'n drwm ar ddeialog i anfon y ddrama yn ei blaen, er bod y ddeialog yn gwbl wahanol o ran yr elfen esthetig.

Yn ogystal ni ellir osgoi'r elfen arwrol yn nhraddodiad y delfryd traddodiadol a geir yn y ddwy ddrama nac ychwaith y teimlad fod y ddwy arwres wedi neidio drwy gylchoedd tân i gyrraedd y gwirionedd mawr yr ochr draw. Do, bu'n rhaid aberthu ar hyd y daith, (cynnwrf serch afieithus a'r rhyddid a bersonolwyd yng Ngwilym Brewys yn *Siwan* ac addysg brifysgol ddethol a'r addewid am ddyfodol disglair yn *Ffarwel i Addysg*) ond wedi bod drwy'r drin, cafwyd y tawelwch ysbryd na ellir ei gael heb fod wedi dioddef yn gyntaf. Yn wir, ped aed ati i ddinoethi'r prif gymeriadau, a'u rhyddhau o'r cefndiroedd y gosodwyd hwy ynddynt gan y dramodwyr, y mae'r tebygrwydd yn yr argyfyngau sy'n wynebu'r arwresau a'r dyheadau sy'n corddi ynddynt yn drawiadol o debyg. Dramâu seicolegol yw'r ddwy yn eu hanfod. Gellid priodoli'r geiriau hyn o eiddo Ioan M. Williams yr un mor hawdd i *Ffarwel i Addysg* Kate Roberts; "Drama fewnol yw *Siwan*, a ddengys faint cyrhaeddiad dramodydd a allai wynebu a goresgyn un o brif broblemau drama yn yr ugeinfed ganrif, sef sut i gyfryngu argyfwng seicolegol mewnol trwy weithgarwch allanol."⁸⁷ Dramâu sy'n amlygu tyndra emosiynol sy'n ymylu ar fod yn hunan ddinistriol yw *Siwan* a *Ffarwel i Addysg*, ac archwilir ynddynt gorneli tywyllaf yr ymwybod.

O ystyried y tebygrwydd rhwng y ddwy ddrama felly tybed nad yw'n deg casglu wrth bwysu a mesur *Siwan* a *Ffarwel i Addysg* ochr yn ochr â'i gilydd, bod cael prif gymeriad clasurol o uchel dras yn fformiwla at wneud drama yn un fwy nodedig a llwyddiannus?

⁸⁷ Williams, Ioan M., *Dramâu Saunders Lewis, Y Casgliad Cyflawn, Cyfrol I*, t.526

Ymddengys fod cynulleidfaoedd yn hoffi rhamantiaeth personoliaethau hanesyddol, a bod bywyd trasig tywysoges fel Siwan yn apelio'n llawer iawn mwy na thrasiedi'r ferch ar y stryd fel Gwen. Yng ngwyneb hyn oll felly, y mae'n hynod o drawiadol sylwi pan fentra Kate Roberts i fyd 'clasurol' Saunders Lewis y daw iddi hithau anfarwoldeb fel awdures. Heledd, chwaer y tywysog Cynddylan yw'r dywysoges sy'n cael sylw yn *Tywyll Heno*, er yn anuniongyrchol mae'n wir dweud. Eithr nid ar ffurf drama ond ar ffurf stori fer hir y cyflwynir y stori, er gellir dadlau fod *Tywyll Heno* yn arddangos elfennau a fyddai'n gartrefol iawn mewn drama; er enghraifft nid yn unig y mae'r fonolog ddi-atalnod ar dudalen 76 yn ein hatgoffa o araith Lucky yn *Waiting for Godot*, Samuel Beckett, medrir dadlau yn ogystal mai'r ddeialog sy'n arwain y stori yn *Tywyll Heno* a'i bod yn rhan anatod o wead y gwaith. Cydiodd *Tywyll Heno* a'i gysylltiad â thywysoges o'r Oesoedd Tywyll yn nychymyg y darllenwyr Cymreig mewn modd na wnaeth drama Kate Roberts am ferch o chwarelwr. Trueni hynny, ydy i'r ddrama *Ffarwel i Addysg* fynd yn angof erbyn y dwthwn hwn.

Er nad yw'n trafod bywyd rhamantus tywysogion er hynny y mae i *Ffarwel i Addysg* rinweddau na ellir eu hanwybyddu. Un o'r prif themâu a archwilir gan yr awdures, fel ag a nodwyd eisoes yw gwerth addysg. Cyfyd sawl cwestiwn ynglŷn â gwerth addysg yn y ddrama. Rhydd ei barn yn ddiflewyn ar dafod ynghylch y math o ddarpariaeth addysgiadol a gaed mewn Prifysgolion ddechrau'r ugeinfed ganrif, a faint elwach oedd unigolyn o fod wedi ei dderbyn.⁸⁸

⁸⁸ Bu'n trafod y ddarpariaeth addysgol mewn sawl ysgrif hefyd. Er enghraifft y ei cholofn yn y Ddraig Goch.

Mae Ann Ifans, Twnt i'r Mynydd, ffrind Jane Gruffydd y fam batriarchaidd, yn *Traed Mewn Cyffion* yn gwbl argyhoeddedig mai dim ond poen sy'n canlyn addysg: “ ‘Dwn i ddim wir; mae rhywun yn dallt llawn digon yn yr hen fyd yma eisys. Wybod ar y ddaear faint o boen mae dyn yn 'i arbed wrth beidio â gwybod Saesneg.’”⁸⁹ Yr un yw safbwynt Robert Wynn, y cymeriad hynod yn *Gwen Tomos*, Daniel Owen; “Ni ofidiai Robert Wynn am ei anwybodaeth o'r Saesneg, oblegyd credai fod pob pechod newydd oedd yn y wlad o darddiad Seisnig...”⁹⁰ Nid oedd diffyg gwybodaeth neu addysg o reidrwydd felly yn cael ei weld yn anfantais. Ond safbwynt ychydig yn wahanol sydd gan Rhisiart Pritchard y chwarelwr gweddw yn *Ffarwel i Addysg*. Anfona ei ferch Gwen, i goleg i ennill addysg a gradd. “Daiff neb i dy ben di i ddwyn d'addysg di oddiyno.”⁹¹ Rhydd bwyslais mawr ar ennill gradd B.A. Fel y dywed Gwen “Mae yna hud o gwmpas y llythrennod B.A. iddo fo.”⁹² Gwêl y fargen a wnaeth gyda'i thad ynghylch ei haddysg yn ei chaethiwo;

Gwen: Caethiwed ydyw o a dim arall. Mae fy nhad wedi fy rhoi fi yma yn union fel petai chi'n rhoi arian ar log er mwyn iddo ddwad a rhagor o arian i mewn. Nid cael addysg ydym ni yn y Coleg yma ond cael ein paratoi i droi allan bres i ni'n hunain neu i'n rhieni. Investment ydyw hi. A chan fod darllen nofelau a mynd allan i garu yn fwy cydnaws a mi na'r pethau sych ydym ni'n ddysgu yn y Coleg, fedra i ddim gweld bod bai arna i.⁹³

Wrth drafod ei helynt gyda'i modryb Sara rhesyma;

Gwen: Beth tasa nhaid heb fod mor dlawd, mi fasa nhad wedi

⁸⁹ Roberts, Kate, *Traed Mewn Cyffion*, t.72

⁹⁰ Owen, Daniel, *Gwen Tomos: merch y Wernddu*, (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1894) t.151

⁹¹ *Ffarwel i Addysg*, t.28

⁹² *ibid.*, t.29

⁹³ *ibid.*, t.11

cael tipyn o addysg a gweld y byd, ac mi fasa'n gweld
mai peth i'w gael er i fwyn i hun ydyw addysg.

Sara: Ie, ond rhaid i chi beidio a beio'ch tad, Gwen, am edrych
ar bethau fel yna. 'D'ydyw o ddim wedi cael addysg i weld
pethau yn y golau yna.

Gwen: Na, dyna sylweddolais i rwan wrth iddo fynd allan. Mae
yna hud o gwmpas y llythrennod B.A. iddo fo.⁹⁴

Yn hunanol efallai, gwyddai Rhisiart y deuai llwyddiant ei ferch â pharch mawr iddo ef
yn y chwarel, ond yn fwy na hynny y mae am i Gwen gael rhywbeth na chafodd ef ei hun,
sef y cyfle i wneud rhywbeth arall; rhywbeth gwell na gwaith caib a rhaw. Deisyfai waith
“ysgafn” a “chyflog da” i'w ferch. Ymhellach, “Dydi titsio ddim yn waith”⁹⁵ meddai gan
arddangos nid yn unig ei obeithion ond yn ogystal ei anallu i ddirnad unrhyw fywyd a
gwaith arall. Iddo ef mae'r mater yn gwbl ddu a gwyn. Addysg yw'r allwedd sy'n agor y
drws i fyd amgenach. Clywn Kate Roberts yn sibrwd y ‘man gwyn, man draw’, diarhebol
yn ein clustiau.

Ac yr oedd Gwen, wrth gwrs wedi llyncu'r breuddwyd. Yn yr Ysgol Ganolraddol roedd
â'i thrwyn ar y maen a'r wobr fawr, y B.A. yn uchelgais arbennig. “Mi'r oedd hi'n
gweithio bob munud o'i bywyd yr adeg honno, Sul, Gŵyl a gwaith.”⁹⁶ Y mae'n ennill
ysgoloriaeth sy'n talu am gyfran helaeth o'i lle yn y Coleg, ac mae'r wobr yn nesáu.

Ond digwydd rhywbeth rhyfedd i Gwen yn sgil cael addysg. A dyma'r sylweddoliad
mawr. Dengys Kate Roberts, yn gelfydd iawn, fod addysg, yn enwedig addysg

⁹⁴ *ibid.*, t.29

⁹⁵ *ibid.*, t.28

⁹⁶ *ibid.*, t.26

lwyddiannus, yn dysgu pobl sut i feddwl, sut i beidio â bod yn fodlon. Rhoi annibynniaeth barn a hyder meddwl i bobl a wna addysg dda, nid cyflenwi gwybodaeth.

Gwen: Ie, dyna ydyw trasiedi'r peth. Mae o wedi aberthu i roi addysg imi ac mae'r addysg honno wedi dangos imi mai ffolineb yw'r aberth, neu'r hyn sydd yn symbylu'r aberth. Mae addysg yn dechrau yn y pen wrong, modryb. Y nhad ddylai gael i ddysgu gynta beth ydyw addysg.⁹⁷

Yn *Y Gwas* mae Gwen, merch y ffermwr cefnog yn dysgu Huw y gwas sut i ddarllen. Wedi derbyn y mymryn hyn o addysg, mae Huw yn dechrau magu syniadau. “Rhyddid” yw'r gair mawr, “Rhyddid ydy'r peth sydd arnai i eisiau fwya yn y byd”⁹⁸. Y mae ein Gwen ni, yn *Ffarwel i Addysg*, hithau'n deisyfu rhyddid. Rhyddid i feddwl, rhyddid i benderfynu drosti ei hun. Medrwn gymharu meddylfryd Gwen yma ag eiddo i Harri Vaughan prif gymeriad y nofel adnabyddus *Cysgod y Cryman* yn gwbl hyderus.

“Pam y doist ti adre?”

“’Rydw i wedi gorffen yn y coleg”.

Cydiodd Edward Vaughan yng nghefn ei gadair i’w sadio’i hun.

“Gorffen yn y coleg! Wedi dy droi allan yr wyt ti?”

“’Rhag eich c’wilydd chi’n meddwl y fath beth”, ebe Harri’n ffuggyhuddo. “Wedi gorffen ohonof fy hun yr ydw i. Wedi blino ar ddysgu. Alaru. Cael cyfog”.

Wel, meddai Edward Vaughan wrtho’i hun, mae’n debyg fod modd i lanc gael syrffed ar addysg.

“Beth wyt ti’n bwriadu’i wneud?” gofynnodd. Wedi’r cyfan, fe allai Henri’n dod adref fod yn rhagluniaethol ac yntau’n colli’i ddynion bob yn un ac un. “Mae ’na ddigon o waith iti yn Lleifior”.

Ffugiodd Harri syndod.

“O? Yn siŵr, ’chymerech chi’r un comiwnydd anffyddol ar eich ffarm”.

⁹⁷ *ibid.*, t.29

⁹⁸ Roberts, Kate, *Y Gwas*, LLGC, Papurau Kate Roberts, rhif 2652

“Paid â chellwair. ’Rydw i’n fodlon dygymod â’r pethe yna os gweithi di. Mi gei dy gyflog fel pob un, ac fe wŷr pawb fod cyflog Lleifior yn uwch na chyflog yr un fferm arall o fewn ugain milltir”.

“Nid ydwyf mwy deilwng i’n galw’n fab i ti. Gwna fi fel un o’th weision cyflog, e? Dim diolch. Wedi fforffeidio fy rhan o gyfalaf Lleifior, ’dydw i’n siŵr ddim yn mynd i helpu i chwanegu ato. ’Rwy’n mynd i weithio ar y ffordd”.

Yr oedd y saib yn drydanol.⁹⁹

Mae Harri, fel Gwen, yn magu anfodlonrwydd â’r arlwy sydd ger bron ac yn dyheu am dorri llwybr newydd iddo’i hun. Er gwaethaf yr holl addysg, mae Harri’n ennill ei geiniog yn gweithio ar y ffordd, a gwêl Gwen ei hun yn “agor siop ymhen tipyn”.

Thema bwysig arall a ymchwilir yn y ddrama yw caru neu/a chariad. Ym myd Kate Roberts ymddengys fod dau fath o gariad yn bodoli. Cariad pwyllog a thrwyadl yw’r cyntaf a ddigwydd rhwng dau sy’n parchu ei gilydd. Cariad tanbaid, meddwol sy’n disgyn dros rywun fel dewiniaeth yw’r llall.

Gall y math cyntaf ddigwydd rhwng dwy chwaer: *Modryb a Nith*;¹⁰⁰ rhwng ffrindiau; *Y Trysor* neu rhwng gŵr a gwraig; *Rhigolau Bywyd* ac *Y Condemniedig*. Mae’n gariad aeddfed, sy’n nythu yn y berthynas rhwng dau dros gyfnod o amser. Cariad fel

⁹⁹ Elis, Islwyn Ffowc, *Cysgod y Cryman*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1953), t.239

¹⁰⁰ Drama radio gan Kate Roberts a ddarlledwyd ar Radio Cymru ar ffurf pedair pennod; 1. ‘Atgof a Gobaith’ (Nos Sul, 10 Mai 1959), 2. ‘Dechrau Amheuson’ (Nos Sul, 17 Mai, 1959), 3. ‘Torri Amod’ (Nos Sul 24 Mai, 1959) a 4. ‘Sŵn Priodi’ (Nos Sul, 31 Mai, 1959). Ceir copiâu o’r sgriptiau yng nghasgliad Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol rhifau 2640-2644. Ceir adolygiad anffafriol ar y ddrama yng ngholofn *Y Cymro*, 14 Mai, 1959, t7; “Digalon, dienaidd a difywyd ydoedd y bennod gyntaf i’r ddrama-gyffres newydd ar y radio *Modryb a Nith*. Fe’ m siomwyd bod awdur o safon Kate Roberts yn gorfod ymostwng i ddefnyddio dull mor elfennol o gyfleu stori ag a gawsom nos Sul...” Gweler hefyd Annwyl D.J, *gol* Emyr Hywel, t.243, a t.348.

cyfeillgarwch yn golygu eich bod yn ei garu “â chariad distaw, cyson”¹⁰¹ chwedl Mair yn *Torri Amod*. Ond nid yw’n fêl i gyd ychwaith. Yn eironig iawn, dyma gariad sy’n cloi pobl wrth ei gilydd, doed a ddelo. Megis yn *Modryb a Nith*, meddai Sara am ei chwaer Elin y bu’n ei nyrso am flynyddoedd, “Mi fuo Elin a finna cyd efo’n gilydd nes bod ein bywyd wedi mynd yn un...”¹⁰² Marwolaeth un o’r pâr yn aml iawn yw’r unig ryddhad a geir oddi wrtho.

Daw’r ail fath o gariad ar amrantiad fel petai, gan daflu llwch hud i lygaid, yn union fel y gwna Puck yn *A Midsummer Night’s Dream*. Ond peidied â synied yn rhy isel amdano; cariad neu serch grymus a nerthol na ellir ei wrthsefyll yn hawdd, os o gwbl, yw hwn. Ei ddioddef a wna rhywun, fel twymyn, cyn dod ato’i hun neu wella, ac ail-afael yn ei fywyd wedyn.

Cofier i’r ddrama hon gael ei llunio yn ystod hanner cyntaf tridegau’r ganrif ddiwethaf a dyma gyfnod eithriadol o ddifyr o bersectif archwilio’r enaid ac o ystyried iechyd emosiynol mewn goleuni newydd. Dechreuwyd rhoi pwyslais arbennig mewn llenyddiaeth a barddoniaeth ar ystyr ‘cariad’ fel emosiwn, ac ymchwiliwyd i’r eithaf yng Nghymru bosibilrwydd ‘gwir garu’. Yr oedd D.H. Laurence eisoes wedi cyhoeddi *Women in Love* ym 1920 ac wedi ymchwilio yn y nofel honno themâu herfeiddiol yn ymwneud â chariad a rhyw er mawr syndod, ac er peth ffeiddiwch i nifer o ddarllenwyr y cyfnod.

Yng Nghymru hefyd yn nauddegau’r ugeinfed ganrif bu llenorion yn herio ffiniau themâu

¹⁰¹ Roberts, Kate, ‘Torri Amod’, *Yr Wylan Deg*, t.100. Y mae’r stori fer hon yn olrhain yr un nodweddion o ran thema, cymeriadau a stori â’r ddrama *Modryb a Nith*. Edrych fel petai Kate Roberts wedi derbyn cyngor yr adolygydd yn *Y Cymro* y byddai’r stori’n gwenud gwell stori fer na drama. Gweler nodyn 41.

¹⁰² *Modryb a Nith*, Act I

llenyddiaeth a barddoniaeth. Yn ei ysgrif ar *Troi a Throsi*,¹⁰³ sef nofel Morris Williams (y sawl a ddaeth yn ŵr i Kate Roberts yn y man) dywed Peredur Lynch fod y nofel honno hithau yn archwilio ystyr ‘gwir gariad’; “...o safbwynt hanes llenyddiaeth Gymraeg y dauddegau, o safbwynt newydd-deb trawiadol rhai o’r themâu ar y pryd, y mae *Troi a Throsi*, mi gredaf, yn waith tra arwyddocaol.”¹⁰⁴ Stori led-hunangofiannol sydd yma am Meurig Prisiart¹⁰⁵ yn archwilio’r berthynas sydd rhyngddo a’i gyfaill Arthur Morgan. Datgelir fod yr hyn sydd rhyngddynt yn fwy na chyfeillgarwch agos. Y mae’n rhywbeth y gellir ei deimlo “yn ei waed” ac yn “r[h]ywbeth dirgel yn myned allan o’r naill a’r llall.”¹⁰⁶ Arbrofa Meurig Prisiart â chariad cnawdol a hynny gyda phuteiniaid ym Mharis, ond anfoddhaol ac annigonnol yw’r profiadau hynny. Y mae’r ‘gwir gariad’ y mae’n ei ddeisyfu uwchlaw’r cnawdol a theimla’n rhwystredig a chlostroffobig yn y Gymru a oedd ohoni. Fel Gwen yn *Ffarwel i Addysg* y mae’n anelu at rywbeth amgenach. Ni ellir peidio â chrybwyll ychwaith ‘Atgof’ y bryddest a enillodd goron Eisteddfod Genedlaethol Pont-y-pŵl i E Prosser Rhys ym 1924. Pryddest a daniodd ddadleuon ymysg y Cymry Cymraeg oblegid natur yr ymdriniaeth o gariad hoyw a oedd ynddi. Ceir yma, eto, gyfeillgarwch sy’n gariad rhwng dau a gyfyd uwchlaw’r cnawdol. Y cariad perffaith; “Yr holl ymddiried gonest, a’r afradlon / Arfaethu glân a wnaethpwyd ger y lli.”¹⁰⁷ Ysbeilir y cariad perffaith hwn pan ildir i dentasiynau cnawdol.

¹⁰³ Nofel anghoeddiedig gan Morris Williams a ysgrifennodd rhwng 1924 a 1926 cyn iddo gyfarfod â Kate Roberts. Ceir copi ohoni yng nghasgliad Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol rhif 3930.

¹⁰⁴ Lynch, Peredur I., ‘Nofel Gŵr Kate Roberts’, *Taliesin*, cyfrol 85, 1994, t.10

¹⁰⁵ Sylwer ar y cyfenw ‘Prisiart’, Gwen Prisiart yw enw prif gymeriad ‘Ffarwel i Addysg’ yn y fersiwn a gyflwynwyd i Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1931, er iddo newid yn Gwen Pritchard erbyn y fersiwn radio ym 1950.

¹⁰⁶ Williams, Morris, *Troi a Throsi*. Wedi ei godi o Peredur Lynch, ‘Nofel Gŵr Kate Roberts’, *Taliesin*, cyfrol 85, 1994, t.12

¹⁰⁷ ‘Atgof’, E Prosser Rhys. Wedi ei godi o Peredur Lynch, ‘Nofel Gŵr Kate Roberts’, *Taliesin*, cyfrol 85, 1994, t.20

Nofel arall a feirniadwyd am ei hanfoesoldeb oherwydd ei hymdriniaeth â chariad anarferol ydoedd *Monica* gan Saunders Lewis a gyhoeddwyd ym 1930. Yn ôl Angharad Price yr oedd Saunders Lewis yn “herfeiddiol iawn yn cyhoeddi'r fath nofel yn y Gymraeg ar y pryd.”¹⁰⁸ Yn wahanol i Gwen, prif gymeriad *Ffarwel i Addysg* ni ellir cydymdeimlo â Monica i'r un graddau. Y mae rhywbeth yn ansawrus yn ei chylch, ac ni phortreadir hi fel arwres. Yn wir, teimlir fod Saunders Lewis yn ei beirniadu am ddilyn ei greddf ac am ymroi'n ormodol i'w theimladau. “Merch o'r dosbarth canol is ydi Monica a dwi'n teimlo bod y nofel yn gondemniad ar y dosbarth hwnnw yn ogystal ag ar fath arbennig o ferch.”¹⁰⁹ Fel ag a soniwyd eisoes, perthyn i waith gorau Saunders Lewis elfen glasurrol, ac nid oes arlliw o hwnnw ym *Monica*. Er hynny, gwerthfawrogwyd y nofel gan Kate Roberts;

Ym mha le y dechreuaf? Yn gyntaf, gadewch imi ddiolch yn fawr iawn i chi am *Fonica* drosom ein dau. Eisteddais wrth y tân un prynhawn ac fe'i darllenais yn drwyadl. Credaf ei bod yn nofel fawr iawn. Safasoch yn onest wyneb yn wyneb a dau gymeriad ac roisoch inni du mewn un ohonynt, beth bynnag, yn drwyadl.¹¹⁰

Nid yw'n syndod bod y math hwn o ymchwilio corneli tywyllaf yr hunan yn apelio at Kate Roberts ac at Morris Williams. Perthyn i'r ddau, (fel i ambell un arall a oedd yn llenyddda yn y cyfnod hwn megis E Proser Rhys a Caradog Pritchard) elfennau bohemaidd a herfeiddiwch a barodd iddynt ymosod ar y ffiniau a roes cymdeithas iddi'i hunan. Nid yw gwaith Kate Roberts mor fentrus â gweithiau ei chymheiriaid gwrywaidd efallai ond

¹⁰⁸ Price, Angharad, ‘Monica Mewn Cyffion’, *Ysgifau Beirniadol XXIX*, tt.78-99. Hefyd ceir cyfweiliad ag Angharad Price am yr ysgrif honno ar wefan y BBC;

<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/straeon/monica.shtml>

¹⁰⁹ Cyfweiliad ag Angharad Price ar wefan y BBC ar ei hysgrif ‘Monica Mewn Cyffion’,

<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/straeon/monica.shtml>

¹¹⁰ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol Dafydd Ifans, t.71

er hyn dengys fod ganddi gydymdeimlad â'r themâu sy'n britho gweithiau llenyddol heriol y cyfnod.

Rhydd Gwen ei gyrfa yn y Coleg, ei pherthynas â'i thad, ei dyfodol sicr a'i chyfeillgarwch â'i chyd-letywyr mewn perygl er mwyn Dafydd. Cyll ei gafael ar 'reswm' am ychydig.

- Olwen: (Yn gellweirus) Dyma amser neis i ddwad i mewn.
- Gwen: (Dipyn yn flin) Sut gwyddoch chi mai rwan y dois i i mewn?
- Lizzie: Mi fuom yn clustfeinio am sŵn dy draed ti hyd y corridor.
- Gwen: Gwaith diddorol iawn.
- Lizzie: Rwan, Gwen, paid â bod yn gas. Poeni yn dy gylch di roeddym ni.
- Gwen: Doedd raid i chi ddim poeni.
- Lizzie: Wel Gwen bach, beth pe taset ti'n cael d'expelio.
- Gwen: Dim ods. Mi 'roedd heddiw'n werth hynny.¹¹¹

Yr un math o sefyllfa'n union y darganfu Let ei hun ynnddi yn *Modryb a Nith*. Bu Let yn synfyfyrion cymaint am ei chariad, a meddai am ei chwrs Coleg; "syndod oedd imi basio o gwbl".¹¹²

Ond wedi'r gwirioni, daw'r dadrithio. "Mae yna grac yn rhywle" meddai Let.¹¹³ A dechreua Gwen weld gwir fesur Dafydd; "Dyna chi, yn meddwl amdanoch ych hun yn

¹¹¹ *Ffarwel i Addysg*, t.7

¹¹² *Modryb a Nith*, ACT III

¹¹³ *Modryb a Nith*, ACT II

gynta.”¹¹⁴ O hyn ymlaen y mae eu gorwelion yn chwyddo a darganfu’n harwresau fod y byd mawr yno yn aros amdanynt. Canlyniad y caru nwydwyllt, byrbwyll yma yw bod Gwen yn ffarwelio â’i haddysg, ond yr eironi yw iddi dderbyn, drwy hynny, wers fawr ei bywyd.

Felly y rhoes Gwen “ffarwel i addysg” coleg, a phwynt mawr y ddrama yw mai’r amgylchiadau a arweiniodd i’r ffarwel disymwth hwinnw oedd yr addysg drylywraf a gafodd Gwen.¹¹⁵

Y mae synnwyr yn trechu a gall Gwen ddechrau pwysu a mesur ei dyfodol eto. Mor ddeheuig y dywedodd Geraint Wyn Jones; “Sylfaen meddwl iach yw synnwyr cymesuredd.”¹¹⁶

Yr olaf o’r prif themâu sy’n britho’r ddrama yw’r thema dod i oed neu aeddfedu – proses gwbl naturiol, eithr nid un hawdd ym myd Kate Roberts.

Trist yw’r olygfa honno yn *Traed Mewn Cyffion* ble mae Owen yn ennill swllt a cheiniog yn y cyfarfod plant er gwaethaf y ffaith ei fod yn cystadlu yn erbyn plant “mwy nag ef ei hun”. Y mae ar ben ei ddigon ac yn breuddwydio am gael prynu “copi, a rybar, a phensel” gyda’i enillion. Ond buan iawn y dymchwel ei freuddwydion o’i gwmpas pan orchymyn ei dad iddo roi’r arian i’w fam i brynu bwyd ac yntau’n cael bonclust am ei sterics ac am daflu’r arian ar y bwrdd. A chyda hynny y mae un sylweddoliad mawr yn gwawrio arno - sylweddoliad sy’n gwneud iddo adael plentyndod a chymryd y cam cyntaf i fyd oedolion:

¹¹⁴ *Ffarwel i Addysg*, t.19

¹¹⁵ Anhysbys, ‘Adolygiad o Ffarwel i Addysg’, *Y Brython*, Hydref 13, 1932, t.5

¹¹⁶ Jones, Geraint Wyn, *Fel Drôl i Fwrdd, Astudiaeth o waith Kate Roberts hyd 1962*, t.248

“Dyma’r tro cyntaf iddo ddyfod i gyffyrddiad gwirioneddol â’r ymdrech a âi ymlaen yn ei gartref yn erbyn tlodi.”¹¹⁷

Y chydig frawddegau’n ddiweddarach y mae pathos y sefyllfa’n cael ei phwysleisio gydag un ffaith foel; “Dyma’r tro cyntaf erioed iddo fod yn wirioneddol drist; a thristwch heb ei ddisgwyl ydoedd.”¹¹⁸

Y mae drws plentyndod wedi cau yn glep yn ei wyneb ac fe deimla yntau yn union fel Begw yn *Te yn y Grug* pan ddarlunir hi’n teimlo “bang cyntaf y cau drysau a fu yn ei bywyd wedyn”.¹¹⁹ Ond nid plant yn unig sy’n synhwyro effaith y cau drysau y mae oedolion Kate Roberts hwythau ar dro’n sylweddoli na “fedar neb ail agor adwyon wedi i cau unwaith ym myd pobl...”¹²⁰ chwedl Wiliam Gruffydd yn y stori *Newid Byd* a cheir y teimlad mai gwreiddyn argyfwng Ann Owen yn *Tegwch y Bore* yw’r teimlad annifyr sy’n deillio o’r ansicrwydd hwnnw nad ydyw’n teimlo ei bod yn perthyn i unman. Adlais o brofiad Kate Roberts ei hunan a geir fe ymddengys. Daw’r dyfyniad nesaf o’i hunangofiant *Y Lôn Wen*:

Yr wyf yn mynd i fyd newydd, byd difrif, di-chwarae; ni chaf hitio marblis ar y lôn eto, na chwarae london, na rhedeg ras wrth y pwell trochi defaid. Bydd fy sgert yn is a’ m gwallt yn uwch ar fy mhen. Ni chaf ddweud fy adnod na phennau’r pregethau efo’r plant lleiaf yn y seiat byth eto. Bydd yn rhaid imi gymryd pethau o ddifrif.¹²¹

¹¹⁷ Roberts, Kate, *Traed Mewn Cyffion*, t.38.

¹¹⁸ *ibid.*, t.38.

¹¹⁹ Roberts, Kate, ‘Gofid’, *Te yn y Grug*, t.9

¹²⁰ Roberts, Kate, ‘Newid Byd’, *O Gors y Bryniau*, t.76

¹²¹ Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, t.24

Pan egyr y ddrama *Ffarwel i Addysg* synhwyrir diniweidrwydd Gwen; “Mi ’r’ydw i’n weddol saff o’r dyfodol hefyd. Mi fydd yn amhosibl i ddim ddwad rhwng Dafydd a mi ar ôl diwrnod fel heddiw.”¹²² Ymddengys mai ffolineb yw bod yn weddol sicr o unrhyw beth. Ceir sawl enghraifft o gwestiynu llaw Ffawd a Rhagluniaeth yng ngweithiau Kate Roberts. Un wedd ar hynny a geir yma. Fel Chaucer yn *The Nun’s Priest’s Tale* gwelir hi’n archwilio’r cysyniad o Ragluniaeth ac Ewyllys Rydd. Faint o ryddid sydd gan Gwen, neu unrhyw Wen arall, mewn gwirionedd, i benderfynu unrhywbeth drosti ei hun? Onid dysgu derbyn yr anochel a wna rhywun wrth aeddfedu? Derbyn ac ymwroli.

Ymwroli yw’r union beth a wna Rhisiart Pritchard. Yr oedd wedi gwyllo ei wraig yn marw o ganlyniad i’r gwaith caled a wnaethai dros y blynyddoedd; “Gweini laddodd dy fam. Pe tasa hi wedi cario llai o fwyd moch a chodi llai o feichiau trymion mi fasa’n fyw heddiw”.¹²³ Ymwroli hefyd a wna Siwan yn nrama Saunders Lewis:

Siwan: Merch i frenin oeddwn i. Yn bymtheg oed
Mam i dywysog a llysgennad Aberffraw.
Rhoddais fy ngroth i wleidyddiaeth fel pob merch brenin.¹²⁴

Ond proses gymhleth yw cyrraedd y stâd yma. Nid pawb sy’n ei goroesi. Canlyniad peidio â derbyn ei dynged yw’r unigrwydd a’r segurddod mawr sy’n bygwth pwyll meddwl Eban Llwyd yn *Dwy Storm*. Y mae’n chwerw ac yn filain am i Aels ei wrthod am Guto Pant y Drin, ac ymhen blynyddoedd wedyn pan glyw am farwolaeth Aels a’i chladdedigaeith annheilwng sylweddola sut y bu iddo ef wastraffu ei fywyd.

¹²² *Ffarwel i Addysg*, t.8

¹²³ *ibid.*, t.28

¹²⁴ Lewis, Saunders, ‘Siwan’, *Dramâu Saunders Lewis, Y casgliad Cyflawn Cyfrol 1*. gol. Ioan M. Williams, t.540.

Meddyliai yn awr mor wahanol y buasai ei fywyd pe priodasai ag Aels neu â rhywun arall. Daw pob “pe buasai” ym mywyd dyn i’w feddwl pan fo heb ddim i’w wneud.¹²⁵

Ei falchder a’i daliodd rhag derbyn y glec ac ymwroli. Balchder sylwer – y mwyaf o’r saith pechod marwol, yn ôl Chaucer.

Yn ddi-os caiff Gwen ei hysgwyd i’w seiliau yn ystod ail act y ddrama. Mae’r petruso o du Dafydd yn sioc iddi,

Gwen: Dyna chi ym meddwl am danoch chi’ch hun yn gynta.

Dafydd: (Dan gerdded yn ol ac ymlaen hyd yr ystafell) Nag ydw, Gwen; r’ydw i wedi nghadw fy hun allan hyd rwan. Yn y Coleg Diwynyddol yr ydw i, ac fel hen stiwdent o’r Brifysgol mi ges ddwad ar y picnic ddoe. Hyd y gwela i, d’w ’i ddim wedi torri rheolau fy ngholeg fy hun; ond os clywan nhw eich bod chi wedi treulio pnawn yma efo mi, fedra i ddim dweud sut y bydd hi arna i. ’D’ydw i’n gwneud dim ond siarad er eich lles chi, ac os ydy’n well gynnoch chi daflu pob siawns i ffwrdd, dyna fo. Ond d’wn i ddim ydych chi’n sylweddoli beth ydych chi’n wneud. Mae gynnoch chi ddigon o allu i gael gradd dda, ac mi gaech le da yn athrawes ac ennill arian i fwynhau eich hun ac i dalu’n ol i’ch tad.

Gwen: (Yn boeth) Y chi o bawb yn siarad fel yna. ’Dydych chi’hau’n meddwl am ddim ond am arian a thalu’n ol. (Yn drist) A dim ond ddoe roeddech chi’n addo pob dim imi ac yn son am fentro a gadael i pob dim fynd i’r coblyn, dim ond i ni gael byw yn ein ffordd ein hunain, ddoe yn son am briodi a byw efo’n gilydd yn fuan, a heddiw dyma chi’n gwrthod fy nghais i i aros yma.¹²⁶

¹²⁵ Roberts, Kate, ‘Dwy Storm’, *Ffair Gaeaf*, t.54

¹²⁶ *Ffarwel i Addysg*, tt.19-20

Unig ymateb Dafydd yw:

Dafydd: Ie, nid ddoe ydyw heddiw.
Gwen: (Yn araf a synfyfyriol gan ail adrodd) Nid ddoe ydyw heddiw. Ac fel yna y bydd hi byth.¹²⁷

Daw elfen ddifyr arall i amlygu ei hunan yn y ddrama a hynny drwy gyffes Annie. Tra pery Dafydd a Gwen i geisio datrys eu hargyfwng daw Annie i'r drws. Gwelir yn syth ei bod bron â simsanu dan bwysau euogrwydd; "Rhaid imi redeg drwy fy stori neu farw."¹²⁸ Adrodda sut y bu iddi gloi cliced y ffenestr mewn "ffit o rywbeth gwaeth na chenfigen"¹²⁹ er mwyn sicrhau y byddai'n rhaid i Gwen ganu cloch drws y ffrynt, a thrwy hynny gwella'r siawns iddi gael ei dal gan y Warden. Erys Gwen "yn ddifynegiant gan ddirmyg".¹³⁰ Serch hynny, buan iawn y mae Gwen yn gollwng y teimladau cas hyn wrth iddi sylweddoli fod gweithredoedd Annie mewn gwirionedd wedi bod yn fodd iddi ymrhyddhau, a hebddynt y byddai wedi parhau i fod yn byped i ddisgwyliadau cymdeithas.

Buan iawn wedyn y daw at ei choed ac aiff y gynulleidfa o'r theatr yn gwbl argyhoeddedig y bydd Gwen yn ymdopi, a hyd yn oed yn byw bywyd cyfoethocach na fyddai wedi ei fyw petai hi heb brofi a goroesi'r helynt hwn. Disgwyl gormod fyddai disgwyl i Rhisiart Pritchard ddeall meddwl ei ferch, fodd bynnag. Pa ddwy genhedlaeth

¹²⁷ *ibid.*, t.20

¹²⁸ *ibid.*, t.22

¹²⁹ *ibid.*, t.22

¹³⁰ *ibid.*, t.22

sydd yn deall ei gilydd mewn gwirionedd? Dengys Kate Roberts inni dro ar ôl thro nad felly yn gwnaed ni. Y mae gan bob cenhedlaeth ei hunaniaeth a'i hargyfyngau ei hun.

Ceir gwrthdaro rhwng tad a merch mewn drama arall gan Kate Roberts sydd heb ei chyhoeddi hefyd sef drama am chwarelwr o'r enw Wil Ifans.¹³¹ Mae Annie'n benderfynol o briodi Edi, er ei fod wedi "i droi o'r coleg" a chanddo enw am ddiota a llaesu dwylo. Ni all Wil, ei thad, ddirnad meddwl ei ferch. Felly Edward Vaughan yn *Cysgod y Cryman*. Lleifior ydyw popeth iddo ef. Mae Harri'n priodi Lisabeth a chodi teulu yn Lleifior yn gwneud synnwyr perffaith i Edward, ond nid i Harri. Y peth anhawsaf i'w dderbyn am bobl eraill, mae'n debyg, yw nad eich meddwl chi yw eu meddwl hwy. Yn *Gwacter* mae'r fam yn gresynu bod Gwyn ei mab yn mynnu priodi Ethel, merch â'i phen yn y gwynt a chymeriad annheilwng arall, ac yntau ond newydd ddechrau ennill. Edrych o'r tu allan y mae Margiad ac felly mae ei hymateb hi'n fwy gwrthrychol:

Gad iddo fo ddiode tipyn. Mae gormod o bobl heddiw yn poeni ynghylch eu plant, yn lle gadael iddyn' nhw ddiode' i cosb am i ffolineb i hunain. 'Dwn i ddim beth ydi'r hen ofn yma i'w plant ddiode. 'Doedd neb ofn i ni ddiode erst talwm. Ella y try hi allan yn well nag wyt ti'n i feddwl.¹³²

Ychydig iawn sydd yma i beri inni chwerthin er mai 'Comedi mewn Tair Act' yw is-deitl y ddrama hon. Y mae'n 'gomedï' yn y traddodiad bod yma gymodi o fath ar ddiwedd y ddrama efallai. Ond yn sicr, ni ellir datgan mai diweddglo 'hapus' sydd yma. Y mae rhwyg sylweddol wedi digwydd ac mae gan Ddafydd dagfa yn ei lais ar ddiwedd y

¹³¹ Drama am chwarelwr o'r enw Wil Ifans, gan Kate Roberts, c.1964, casgliad Kate Roberts, LLGC rhif 2523. Nid oes teitl ar y ddrama, ond cyfeirir ati o hyn ymlaen, er hwylustod, fel *Y Chwarelwr*.

¹³² Roberts, Kate, 'Gwacter', *Gobaith a Storiâu Eraill*, t.39

ddrama a Gwen, hithau, “bron â thorri i lawr”, heb sôn am boen y tad. Y mae awdur yr adolygiad yn *Y Brython*, 1932 yn cytuno; “Prin yr etyb i’r cwbl a olygir wrth y term “comedi.” Tuedda i fod yn rhy drom, a dadleuai’r sawl a lŷn yn gyndyn wrth draddodiad y dylai ei ddiwedd glo fod yn un hapus.”

Eto i gyd nid trasiedi sydd yma ychwaith gan mai gobaith sy’n gorchfygu. Tybed ai comedi ddu sydd yma? Neu hwyrach y medrid ystyried label Dafydd Glyn Jones yn ei erthygl *Y Ddrama Ryddiaith*¹³³ pan yw’n trafod *Beddau’r Proffwydi*, *Ephraim Harries*, ac eraill tebyg; “dramâu o ddifrif calon” ydynt. Y sicr fe berthyn *Ffarwel i Addysg* i’r dosbarth hwnnw o ddrama. Ond tybed nad yw’r allwedd i’w gael wrth edrych unwaith yn rhagor ar y llyfr nodiadau sydd wedi’i ddiogelu yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn hwnnw y mae Kate Roberts yn diffinio fel a ganlyn;

Trasiedi – gwrthryfel aflwyddiannus yn erbyn amgylchiadau – ffawd – etifeddeg – cymdeithas.

Comedi – yn delio a ffolineb a gwendid dynol ryw a’n gwneud yn chwerthinllyd.¹³⁴

Ni ellir profi’n gwbl hyderus mai diffinad Kate Roberts ei hunan yw’r uchod, er ei fod yn amlwg wedi dal ei diddordeb. Gallai yn hawdd fod wedi codi’r nodyn o lyfr a oedd yn trin nodweddion y ddrama, a dyma’r senario fwyaf tebygol. Ond yr hyn sy’n ddiddorol, ond odid yw’r ffaith fod *Ffarwel i Addysg* yn gweddu i’r disgrifiad hwn o gomedï yn burion.

¹³³ Jones, Dafydd Glyn ‘Y Ddrama Ryddiaith’, *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* gol. Geraint Bowen, t.215

¹³⁴ Llyfr Nodiadau, Casgliad Kate Roberts, LLGC, rhif 2559

Ar ei symlaf, y mae Gwen yn ffôl am iddi roi ei bryd ar Ddafydd. Ac mae yntau yn ei dro yn enghraifft berffaith o wendid dynol ryw.

Nid oedd Kate Roberts, ei hunan, yn siwr a oedd y ddrama hon yn taro deuddeg, fe ymddengys. Yn ei cholofn ‘Radio Cymru’ yn *Y Cymro* ychydig wedi darlledu *Ffarwel i Addysg* ar y radio, dyma a ddywed Enid Parry:

Yr oedd llawer o bobl yn edrych ymlaen i glywed drama o waith Kate Roberts, a oedd yn newydd i’r rhan fwyaf ohonom. Yn union o flaen y ddrama, clywsom sgwrs fer gan yr awdur yn rhoi ei rhesymau paham nad oedd yn ystyried “Ffarwel i Addysg” yn ddigon da i’w darlledu. Credaf fod yr awdur yn llawer rhy lawdrwm ar ei drama. Fe ddichon bod y mân wendidau ynddi yn fwy amlwg pan chwaraeid hi ar lwyfan. Ond fel rhaglen radio, yr oedd yn bleser i’r gwrandawr. Yr oedd y ddeialog mor naturiol a’r actio mor fyw, nes i’r awr fynd heibio yn ddiarwybod.¹³⁵

Hyd yn hyn, ni ddaeth y sgwrs hon i’r golwg, ac felly erys rhesymau Kate Roberts dros fod ychydig yn ansicr o’i drama yn ddirgelwech. Eto i gyd, fe ymddengys ei bod yn awyddus i’w chyhoeddi. Bu’n ystyried ei hanfon at W. J. Gruffydd i’r *Llenor* i’w chyhoeddi fesul act, ond penderfynwyd yn erbyn hynny oherwydd ei bod yn ddrama faith.

Annwyl Kate Roberts,

Diolch yn fawr am anfon imi gopi o’r ddrama. Ni chefais amser eto i ddarllen mwy na’r act gyntaf, ond edrychaf ymlaen am gael ei gweld ar y llwyfan ar ôl imi gael hamdden i’w gorffen. Yr ydych yn gwneuthur yn ddoeth ynglŷn â’i chyhoeddi, yr wyf yn meddwl; buasai’n amhosibl ei chynnwys yn y *Llenor* oherwydd ei hyd.

Byddaf yn disgwyl am stori neu erthygl i’r *Llenor* pan gewch hwyl, ac yn fwy na diolchgar amdani pan ddaw.

¹³⁵ Colofn ‘Radio Cymru’ Enid Parry, *Y Cymro*, 15 Medi 1950, t.13

Cofion cynnes atoch eich dau,

Yr eiddoch byth

W.J.G¹³⁶

Yn sicr yr oedd yn fwriad ar un adeg gan Kate Roberts i'w chyhoeddi felly, er na ddigwyddodd hynny am ba reswm bynnag. Yr hyn a wyddys serch hynny yw iddi ddyblygu copïau o'r ddrama ar gyfer eu gwerthu. Ceir nodyn i'r perwyl hwnnw mewn llawysgrifen¹³⁷ ar y deipysgrif; "Gellir cael copïau yn rhad drwy'r post am 1/6 oddiwrth yr awdures, 7 Kenry Street, Tonypany, Rhondda."¹³⁸

Am ba bynnag reswm ni welodd *Ffarwel i Addysg* y llwybr i'r cyhoeddwr. Efallai mai dyna sydd i gyfrif paham y mae Kate Roberts erbyn 1966 yn sôn am lunio drama arall, nid anhebyg iddi;

Dechreuais i ar ddrama rhyw dair blynedd yn ôl, ac wedi gwneud tua chwarter o'r act gyntaf methais fynd ymlaen. Gofynnodd Ysgrifennydd yr Academi i mi siarad ar rywbeth sy gennyf ar y gweyll yn y gynhadledd nesaf, a thybiais os addaw-wn, y buaswn yn siwr o fynd ymlaen. Ond er cael syniad am ei chynllun, nid euthum ddim pellach na gwneud nodiadau ar ei chyfer. "Dau hen ffrind" yw ei theitl; gŵr gweddw a hen lanc, cyfeillion oes, yn byw drws nesa i'w gilydd; wedi ei droi allan o'r coleg am wastraffu ei amser a methu pasio ei arholiadau, y bachgen yma yn ceisio lladd gwraig sydd wedi dyfod i gadw tŷ i dad ei wraig.¹³⁹

¹³⁶ Gruffydd, W.J., Llythyr at Kate Roberts, LLGC, rhif 184

¹³⁷ Nid yw'n edrych fel llawysgrifen Kate Roberts.

¹³⁸ Roberts, Kate, *Ffarwel i Addysg*,

¹³⁹ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol; Dafydd Ifans, t.221

Eithr ni welodd y ddrama hon ben y daith ychwaith. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw bod Kate Roberts yn ail ymweld â hen ddeunydd na chawsai ei gyhoeddi am ysbrydoliaeth newydd.

I gloi felly, hawdd fyddai dadlau nad yw *Ffarwel i Addysg* yn ddrama sy'n cynhyrfu'r dyfroedd, er gwaethaf yr argyfyngau sydd ynddi. Fydd hi fyth mor ddeniadol â Siwan, â'i hergydio dramatig, er enghraifft, nac mor gofiadwy â *Cysgod y Cryman* a'i syniadaeth soffistigedig. Profwyd geiriau D.T. Davies yn wir: "Ni fydd *Ffarwel i Addysg* yn boblogaidd iawn, efallai..." Ond rhaid gwared rhag ei beirniadu, er hynny. Y mae hon yn ddrama arbennig iawn. Pluen yn cosi yw *Ffarwel i Addysg*. Yn wir, fe ellid dal mai hynny'n union a rydd iddi ei mawredd.

ii) *Ffarwel i Addysg* gan Kate Roberts. Golygiad cyflawn gyda rhagair a nodiadau

Rhagair

Gan nad yw'r ddrama hon wedi ei chyhoeddi, penderfynwyd ei golygu fel rhan o'r thesis gan roi cyfle i ddarllenwyr ymgysgu â'r testun. Hyd yma, ni chyhoeddwyd y ddrama ac erys ar ffurf teipysgrifau na chawsant erioed eu golygu. Y mae, fel ag a soniwyd eisoes ddwy deipysgrif, sef dwy brif ffynhonnell wedi goroesi a sawl copi o'r teipysgrifau hynny hefyd wedi eu cadw. Y deipysgrif cyntaf yw'r testun gwreiddiol a ysgrifennwyd gan Kate Roberts ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1931. Dyma'r brif deipysgrif, a hon yw'r un a ddefnyddir fel gwreiddyn y golygiad hwn. Ceir copïau ohoni ymhlith papurau Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol rhifau 2515, 2516 a 2517. Y mae gan y golygydd gopi personol o'r deipysgrif hon a brynwyd mewn ocsiwn lyfrau ar y we. Yr ail fersiwn yw'r addasiad a wnaeth Kate Roberts ar gyfer darlledu'r ddrama ar y radio ym mis Medi 1950. Ceir copi ohoni ymhlith papurau Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol rhif 2634.

Y prif wahaniaeth rhwng y teipysgrifau yw'r ffaith nad yw'r cyfarwyddiadau set na llwyfan yn ymddangos yn eu cyfanrwydd yn y deipysgrif ddiweddarach. Hefyd, ceir ambell ymgais i ystywto'r orgraff er enghraifft, mae *chwythau* yn fersiwn 1931 wedi mynd yn *chwithau* erbyn 1950. A hefyd y mae ambell fwch yn y sgript, hynny yw gair coll wedi ei lenwi erbyn y fersiwn ddiweddarach. Ni wyddys fodd bynnag pwy a olygodd y mymryn hwn. Efallai mai Kate Roberts ei hun fu'n gwneud y gwaith, neu efallai mai'r cynhyrchydd a fu wrthi. Lle'r oedd hynny'n bosibl, defnyddiwyd unrhyw 'welliannau' a gynigwyd gan y deipysgrif ddiweddarach.

Y brif her wrth ymgymryd â'r golygiad hwn ydoedd y nodiadau. Ceir cyfeiriadau yn y ddrama at enwogion o'r cyfnod, sydd erbyn heddiw angen nodyn eglurhaol. Y mae Kate

Roberts hefyd yn cyfeirio at sawl peth ee *scol, case* heb unrhyw eglurhâd. Ceiswyd rhoi nodyn lle bynnag yr oedd gair neu gyfeiriad dieithr. Yn y golygiad a geir yma hefyd ceiswyd gadw at naws y gwreiddiol bob amser, ac er pendroni ynghylch tocio mymryn ar y ddeialog a'r cyfarwyddiadau llwyfan ar dro, penderfynwyd yn erbyn hynny yn amlach na pheidio. Amrywiaethau atalnodi a sillafu oedd y prif broblemau testunol. Ceiswyd ymglymu wrth rai egwyddorion sylfaenol, a phatrymau cymeradwy fel ag a nodir yng ngramadeg Peter Wynn Thomas. Roedd awydd i wneud y testun yn glir ac yn ddarllenadwy i'r meddwl modern, ond hefyd ei gadw'n ddilys. Y mae'n ddrama sydd wedi ei gwreiddio mewn cyfnod ac amser penodol, sef trothwy'r ugeinfed ganrif a rhaid i hynny dywynnu drwy'r testun. Diau y byddai eraill yn gwneuthur ychydig yn wahanol.

Y prif newidiadau:

1. Oherwydd natur teipysgrif o'r cyfnod hwn a fyddai wedi ei theipio ar deipiadur traddodiadol byddai wedi bod yn anodd iawn gwneud defnydd helaeth a chywir o'r acen grom neu'r to bach. O'r herwydd bu'n rhaid ychwanegu bron bob un ohonynt.
2. Ni wneir defnydd helaeth ychwaith o'r gofynnod neu'r marc cwestiwn, am yr un rheswm â'r uchod mae'n debyg. Ychwanegwyd '?' ar ddiwedd pob cwestiwn, boed yn un uniongyrchol neu rethregol.
3. Mae ambell atalnod llawn ar goll hefyd yn y testun gwreiddiol, er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi eu cynnwys erbyn fersiwn 1950.

4. Tueddai'r deipysgrif wreiddiol i sillafu rhai geiriau gan ddefnyddio orgraff hŷn, tra'r oedd fersiwn 1950 yn cyflwyno'r orgraff fodern ee *gyfair – gyfer, chwythau – chwithau, ffrynd – ffrind, petaut – petaet*. Arddelwyd y fersiwn ddiweddaraf yn y golygiad hwn bob amser, er nad oedd weithiau yn ymddangos yn fersiwn 1950.

Cywirwyd yn ogystal bob gwall a oedd yn ymwneud â dyblu'r 'n'; er enghraifft aeth *cwestiynnau* yn *cwestiynau*, *ohonnom* yn *ohonom*, *ohonnoch* yn *ohonoch*, *annodd* yn *anodd*, *penderfynnol* yn *penderfynol* a *dyn* (ffurf treigledig tynn) yn *dynn*. Newidwyd hefyd eiriau megis *oddiwrth*, *oddiyno*, ac *oddiar* i'r ffurfiau cymeradwy *oddi wrth*, *oddi yno* ac *oddi ar* yn unol â'r cyfarwyddyd yng ngramadeg Peter Wynn Thomas.

5. Newidwyd ambell ffurf ferfol er mwyn ei dadffurfioli a'i gwneud yn fwy llafar; er enghraifft newidwyd pob *ydyw* i *ydy* ac yn yr un modd newidwyd pob *dydyw* i *dydy*. Er fod y geiryn deusill yn cael ei arddel yn fersiwn 1950 hefyd, teimlwyd fod y ffurf bellach yn rhy hynafol a dieithr ar gyfer y llwyfan. Fodd bynnag, penderfynwyd yn erbyn cymryd y cam nesaf sef *ydi* a *dydi* gan y byddai hynny'n rhy fodern.

Mae tuedd yn y ddwy fersiwn i dreiglo enw priod ee *i Wen*, yn *Nafydd*. Gan fod hyn ar brydiau yn darllen yn drwsgl ac yn swnon'n anghyfarwydd ac ar dro yn hen ffasiwn teimlwyd mai buddiol fyddai cysoni'r enwau priod oll a pheidio â'u treiglo o gwbl. Felly ceir *i Gwen*, ac yn *Dafydd*.

Derbyniwyd fod unrhyw ddiffyg arall wrth dreiglo yn wall, a chywirwyd y cyfan ee aeth yn *cyflym* yn *yn gyflym*.

6. Mae defnydd helaeth iawn yn cael ei wneud yn y gwreiddiol o'r collnod neu'r sillgoll ee ceir *'d'w'i'n* yn y gwreiddiol sydd wedi troi yn *'dw i'n* erbyn fersiwn 1950. Arferir yn y teipysgrifau hefyd y sillgoll ar ddechrau geiriau ee *'R'oeddwn*, *'R'ydw*, *'R'wyt*, *'D'oes* ac hefyd ar ddiwedd geiriau ee *ydyn'*, *medran'*, *wydden'*, *ddwedson'*. Fodd bynnag, llafurus iawn yw'r drefn hon, yn enwedig mewn sgript drama. A chymryd felly fod pawb yn deall fod llythrennau ar goll penderfynwyd arddel y ffurfiau cyfoes ar y sillafiad a hepgor cymaint o'r collnod neu'r sillgoll ag oedd modd heb golli dim o'r ysytr. Nid oes gwahaniaeth o gwbl wrth gwrs yn sŵn y geiriau wrth iddynt gael eu hynganu, eithr yn unig sut maent yn edrych ar y papur. Aeth y geiriau uchod felly yn *Roeddwn*, *Rydw*, *Rwyt*, *Does*, ac yn *ydyn*, *medran*, *wydden*, *ddwedson*.
7. Ychwanegiad y golygydd yw unrhyw beth a ymddengys rhwng [].
8. Cadwyd at arferiad Kate Roberts yn y deipysgrif wreiddiol (fe'i ceir hefyd yn nheipysgrif 2634) o ddefnyddio *sy* yn lle *sydd* bob amser.
9. Penderfynwyd hefyd gadw at ei harferiad yn y deipysgrif wreiddiol (fe'i ceir hefyd yn nheipysgrif 2634) i dalfyrri'r rhagenwau *ei*, *eu* ac *eich* – defnyddir *i* gan Kate Roberts *i* gyfleu'r rhagenw unigol *ei* ac ar dro y lluosog *eu* ond er mwyn gwahaniaethu rhwng yr arddodiad *i* sy'n golygu *to* yn Saesneg, penderfynwyd cynnwys, yn y golygiad hwn, y sillgoll o'i flaen - *'i*. Defnyddir *ych* gan Kate Roberts i gyfleu'r rhagenw *eich* a chadwyd at y drefn honno yn y golygiad hwn.
10. Ar dro ceir camgymeriad wrth deipio enw'r cymeriad sy'n siarad. Y mae'n glir o rediad y sgript pa gymeriad sy'n siarad a chywirwyd unrhyw wall. Un pwynt difyr

hefyd y pendronwyd uwch ei ben oedd y newid a fu yn enw'r prif gymeriad rhwng y deipysgrif wreiddiol a'r fersiwn ddiweddarach. Yn y deipysgrif wreiddiol Gwen Prisiart yw enw'r prif gymeriad a Rhisiart Prisiart yw ei thad a Sara Prisiart yw ei modryb. Erbyn fersiwn 1950 Gwen Pritchard a geir, ac felly Rhisiart Pritchard a Sara Pritchard. Ond nid aeth Rhisiart yn Richard, sylwer. Y mae achos i'w wneud dros y naill a'r llall, ond penderfynwyd cadw at y fersiwn ddiweddaraf yn y golygiad hwn.

11. Ceir yn y testun hefyd duedd i ysgrifennu rhai geiriau Saesneg heb ymgais i'w Cymreigio ee *great, bus, too bad, risk, expel, wrong*. Penderfynwyd cadw at y gwreiddiol a'u nodi mewn *italig* i ddangos eu bod yn eiriau estron.
12. Mewn *italig* hefyd y rhoir y geiriau sy'n dynodi pwyslais. Tanlinellu a wneir yn y ddwy deipysgrif.
13. Oddi eithr un nodyn moel sy'n disgrifio'r term 'cocyn nel' ar waelod tudalen fel a ganlyn *cocyn nel = cocyn hitio = targed*. Ni cheir unrhyw droed nac ôl nodyn arall yn y ddrama nac unrhyw ymgais i egluro termau nac idiomau neu ddywediadau. Gwaith y golygydd yw'r nodiadau oll.

Ffarwel i Addysg

Kate Roberts

Cymeriadau yn ôl trefn eu hymddangosiad.

Annie Williams Olwen Gruffydd Lizzie Humphreys Hannah Roberts Gwen Pritchard	}	Myfyrwyr yng Ngholeg Bryn Afon, ac yn aros yn Hostel y Coleg.
--	---	---

Morwyn yn yr Hostel

Mrs. Huws	Gwraig lety Dafydd Edwards a Rolant Jones
-----------	---

Dafydd Edwards Rolant Jones	}	Myfyrwyr yn y Coleg Diwynyddol a chyd-letywyr
--------------------------------	---	---

Sara Pritchard Rhisiart Pritchard	Modryb Gwen Tad Gwen
--------------------------------------	-------------------------

Digwydd yr holl ddrama yn ystod yr wythnos gyntaf o Fawrth

ACT I

GOLYGFA:

Yn ystod yr Act hon â'r llen i lawr i ddangos myned o ryw ddwyawr o amser heibio. Ystafell sy'n ystafell wely ac yn fyfyrgerll i ddwy yn Hostel Coleg Bryn Afon. Ar y dde, wrth edrych o'r gynulleidfa ac yn agos ati, mae lle tân. Ar un ochr, ond yn bellach oddi wrth y gynulleidfa mae desg agored a silffoedd llyfrau odani. Bydd y sawl a eistedd wrth y ddesg hon felly ag ochr ei wyneb at y gynulleidfa. Yn y mur gyferbyn â'r gynulleidfa mae drws yn arwain i'r cyntedd. Ar yr ochr chwith mae gwely i un (single bed), sy'n debycach i leithig¹ nag i wely yn ystod y dydd. Gellir taenu'r cwrlid² drosto mewn dull a'i gwna yn debyg i leithig. Nid yw'r gwely arall, na'r ddesg arall, na'r ffenestr yn y golwg oblegid eu bod wrth y pedwerydd mur a gynrychiolir gan y lle gwag sy rhwng y gynulleidfa a'r actwyr. Gellir cael

¹ Gall lleithig olygu mainc, ond gall hefyd olygu 'soffa' neu 'couch' – hen air sydd i'w weld yn *Y Mabinogi*.

² 'churlid' yn y gwreiddiol. Nid yw'r cyfarwyddyd yn ymddangos yn nheipysgrif 2634.

cwpwrdd dillad a guddir gan len o'r un lliw a chwrlid y gwely mewn rhywle cyfleus yn yr ystafell. Wrth ymyl y tân mae dwy gadair esmwyth, ac mae cadair galed neu ddwy yn yr ystafell. Mae amryw ddarluniau o bobol³ mewn fframiau yn yr ystafell, ac ar y silff ben tân, ar y ddesg &c. Ar y gwely a'r cadeiriau mae clustogau esmwyth. Gwelir ffon hoci neu ddwy mewn cornel.

AMSER:

Tuag wyth o'r gloch yr hwyr, Nos Sadwrn y picnic.

Pan â'r llen i fyny gwelir merch ieuanc, tuag un ar hugain oed – Annie Williams – yn eistedd mewn cadair galed wrth y ddesg, a phentwr o lyfrau o'i blaen. Geneth heb fod yn hardd ydyw, ond nid yw'n hagr, geneth ddi-liw, ond mae golwg gydwybodol, o ddifrif arni. Un o'r bobl sy'n gweithio'n galed yn y coleg ond yn gadael ychydig o'u hól ar y byd wedi mynd oddi yno⁴. Mae golwg wedi syrffedu arni, ac felly y mae.⁵ Pan â'r llen i fyny, fe egyr ei cheg o syrffed llwyr uchben ei llyfrau. Rhydd ei llaw chwith o dan ei phen, chwaraea â'i phensel a bruddwydia. Wedyn cyfyd a cherdda'n ddiymadferth at y gwely ac eistedd arno. Yna cymer nofel oddi ar y gwely a dechreua ei darllen. Wedyn, ymwrendy fel un yn clywed sŵn. Clywir siarad a chwerthin a chanu pwt o gân yn y cyntedd, yn bell i gychwyn, ac yna'n dyfod yn nes. Y genethod sy'n dyfod i fyny o swper ar ôl y picnic. Rhuthra Annie i'r drws ac egyr ef.

Annie: (*Â'i phen yn y drws*) Hylo, mi'r ydach chi wedi dwad o'r diwedd.

Llais o'r tu allan: Dy! Rydych chi wedi 'i cholli hi heddiw.

Annie: (*Yn awyddus*) Gawsoch chi hwyl?

Llais Arall: (*Yn frwdfrydig*) Great! Ddaeth Gwen yn ôl?

Annie: Naddo, pam? Dowch i mewn am funud.
(*Daw tair o'r genethod i mewn. Â'r lleill yn eu blaenau ar hyd y cyntedd. Eistedd y tair ar wahanol gadeiriau hyd yr ystafell. Geill un eistedd ar y gwely.*)

Olwen: (*Perchen y llais cyntaf yn y drws, mewn syndod*) Ddaeth hi ddim yn ôl? Wel, mae hi wedi colli'r bus dwaetha.

³ 'beronau' sydd yn y gwreiddiol. Ond cyfeiriad at bobl yn gyffredinol sydd yma ac nid at offeiriaid Eglwysig.

⁴ 'oddiyno' sydd yn y gwreiddiol. Drwy'r testun newidwyd pob 'oddiyno' yn oddi yno. Felly hefyd 'oddiwrth' yn oddi wrth, ac 'oddiar' yn oddi ar.

⁵ Diddymwyd; 'Heddiw yw diwrnod picnic y Coleg, picnic wythnos Wyl Dewi, ac arhosodd hithau i mewn i weithio yn lle mynd ar y picnic. Mae'n wir ei bod yn or bryderus ynghylch ei gwaith, a thybiai y medrai weithio'n rhagorol wedi cael pob man yn dawel. Ond yr oedd rheswm arall pam nad aeth ar y picnic. Bu hynny a'r tawelwch ofnadwy yn yr Hostel yn fwy o rwystr nag o help iddi. Mewn gwirionedd ni wnaeth ddim gwaith. Nid aeth i lawr i swper chwaith, am fod arni gywilydd iddi beidio a mynd gyda'r lleill ar y picnic.'

- Annie: Welais i ddim golwg arni.
- Lizzie: (*Perchen yr ail lais yn y drws, a'r un sydd fwyaf hy ar Gwen oherwydd ei bod yn dyfod o'r un ardal*) Mae Gwen wedi'i gwneud hi o'r diwedd mae arna i ofn.
- Annie: (*Gan gymryd arni ddangos pryder dros Gwen*) Beth sydd wedi digwydd?
- Lizzie: Beth wn i? Ond doedd hi ddim ar y *bus*, a doedd hi ddim i mewn i swper, ac mi wyddoch beth fydd canlyniadau hynny.
- Hannah: Tw! Ella 'i bod hi a Dafydd wedi dwad yn ôl yn gynt, a mynd am dro o gwmpas Bryn Afon yma. Ella bydd hi i mewn mewn dau funud.
- Annie: (*Yn falieisus*) Dydy hynny ddim yn debyg.
- Lizzie: Rydw i'n gobeithio nad ydy hi ddim wedi gwneud dim byd ffol, achos mi wyddoch fel mae'r Warden â'i chyllell ynnddi o hyd.
- Olwen: *Too bad* hefyd, achos mae'n amlwg fod Dafydd a hithau wedi gwirioni am 'i gilydd.
- Annie: Ond mae Gwen yn mentro gormod mae arna i ofn.
- Lizzie: Mae'n rhaid i rywun fentro neu beidio â charu o gwbl, yn y Coleg yma beth bynnag.
- Olwen: (*Sydd newydd fod yn y drws yn edrych a yw Gwen yn dyfod*) Cweit reit, ond mae rhywun fel llygoden o dan balf y gath yn y fan yma.
- Hannah: Ydy, ond dydy pawb ddim felly.
- Annie: Beth ydych chi'n feddwl?
- Hannah: Mi gaiff Doris Greyson garu faint a fynno hi heb i neb ddweud dim wrthi.
- Olwen: Caiff, os caru ydach chi'n galw mynd allan efo bachgen mewn cwch ar ddydd Sul.
- Annie: Ie, ond mae hi wrthi'n wyneb agored, ac mae Gwen a'i holl fywyd yn trio cuddio.
- Olwen: Welsoch chi rywun yn caru'n wyneb agored ryw dro? Faint gymerai'r un ohonom ni'n pedair â charu'n wyneb agored?

Annie: Ie, ond caru ydy cusanu.

Lizzie: Beth arall ydy o?

Olwen: Llawer mwy a llawer llai.

Annie: Does dim eisiau i bobl fynd allan efo'i gilydd, hyd yn oed i garu.

Olwen: (*Yn wawdlyd*) Na, mae lot yn caru yn y tŷ.

Hannah: Sut ar y ddaear y medr neb nabod 'i gilydd heb weld 'i gilydd?

Annie: Mi fedrwch sgrifennu at ych gilydd.

Olwen: Aha! Ffordd yna mae'r gwynt yn chwythu aie?

Annie: Peidiwch â siarad yn wirion. Ond mi fydda i'n meddwl bod yn llawn cyn hawsed i rywun ddod i nabod 'i gilydd wrth sgrifennu ag wrth weld 'i gilydd.

Lizzie: (*Gyda halen*) Dydy hynny ddim yn wyneb agored iawn.

Olwen: (*Gyda min, gan edrych ar Annie*) Ond mae o'n ddiogelach.

Hannah: Ella mai sgrifennu llythyrau caru y bu Annie trwy'r dydd.

Annie: (*Yn pwdu*) O dyna chi'n 'te.

Olwen: Welsoch chi Jane a Parry efo'i gilydd?

Lizzie: Do, maen nhw i'w gweld yn *thick* iawn.

Hannah: Roeddwn i'n amau bod yna *gase*⁶ yn fan yna ers talwm iawn.

Lizzie: A blwyddyn i rwan roedd Parry fel peth gwirion efo Dilys.

Olwen: Ie, fel yna mae hi. Does gan bawb ddim atgo melys am bicnic, mae'n siŵr, a dweud y gwir, ydach chi ddim yn meddwl bod y picnic wedi mynd yn lle i gyplau garu yn lle i bobl gymysgu a dwad i nabod 'i gilydd?

⁶ 'case' Saesneg wedi ei dreiglo'n feddal. Yr hyn a olygir yw 'achos o garwriaeth'. Gelwir weithiau hefyd yn 'Col case' o 'Collage case' sef 'achos o garwriaeth yn y Coleg'. Ym mhrifysgol Bangor mae'n debyg bod mainc arbennig wedi ei lleoli o dan y ffenestr liw (a roddwyd gan A.M ac E.H. Davies, Treborth) ar brif goridor llawr gwaelod adeilad y Celfyddydau. Cyfeirid at y fainc honno fel 'Col case seat' ble'r oedd cariadon y coleg yn arfer eistedd.

Hannah: Ydy, mae o. Mae o'n colli i amcan mewn gwirionedd.

Lizzie: Ydy, mae arna innau ofn bod y picnic wedi mynd yn lle i rai pobl ddechrau caru ac i'r lleill orffen.

Olwen: Wel, mi fedrwn ninnau ddweud ein bod ni wedi cael te da, genod, os na chawsom ni gariad.

Hannah: Deudwch i mi, ydach chi'n nabod Rolant Jones, sy'n aros efo Dafydd Edwards?

Lizzie: Ydw, bachgen dymunol iawn ydyw o. Beth oedd? Ydych chi'n 'i licio fo, Hannah?

Hannah: Na. Dim ond fy mod i'n meddwl rwan y baso fo'n siwtio Gwen yn well o lawer na Dafydd Edwards.

Olwen: Wel, mi fŷm i'n meddwl ar un adeg 'i fod o'n *keen* ar Gwen. Sgwn i lle mae hi? Gobeithio na fydd hi ddim yn hir.

Lizzie: Mae arna i ofn na bydd hi ddim yma'n fuan iawn.

Hannah: Pam Lizzie?

Lizzie: Wel, mi gwelais i nhw'n cychwyn i gyfeiriad Craig y Wennol pan oedd hi'n bur agos i'r *bus* gychwyn.

Annie: (*Yn cymryd diddordeb mawr*) Craig y Wennol! Mynd yn bellach oddi wrth y *bus* felly.

Lizzie: Ia, dyna pam mae arna i gymaint o ofn iddyn nhw fod yn hwyr.

Annie: Pam raid i chi fod mor bryderus?

Lizzie: Liciwn i ddim 'i gweld hi'n dwad i helynt efo'r Warden. Achos *expel* fyddai hynny. Ac mi wn i mai ar 'i orau y mae'i thad yn 'i chadw hi yma.

Annie: Ie, a dyna pam y dylai Gwen fod yn ofalus.

Olwen: (*Yn wawdlyd*) Gofalus! Hy! Bod yn ofalus! Dyna'r unig beth ydym ni'n 'i ddysgu yma.

Annie: Rhaid i rywun gofio'i ddyletswydd at 'i rieni wedi'r cwbl.

Hannah: (*Dan fingamu*) Dyna air mawr arall y lle yma. Dyletswydd.

Olwen: Ie, mae'r gloch chwarter i wyth⁷ yn atgoffa rhywun o hynny bob dydd.

Lizzie: (*Yn rhoi ei phen heibio i'r drws.*) Na, does dim golwg ohoni. Ts! Ts! O ran hynny mi'r oedd golwg ry hapus ar y ddau iddyn nhw fod yn ôl yn fuan iawn.

Annie: Sut oeddyn nhw'n edrych?

Lizzie: Fel petaen⁸ nhw yn y nefoedd, hynny ydyw, nefoedd dau gariad.

Olwen: Sut un ydy honno, Lizzie?

Lizzie: Fe gewch ofyn i Gwen pan ddaw hi yma.

Annie: Gobeithio y paran nhw felly o hyd. Ond dydw i ddim yn meddwl 'i bod nhw'n siwtio'i gilydd yn dda iawn.

Hannah: Beth waeth am hynny os ydyn nhw'n caru 'i gilydd?

Lizzie: Mae lot yn hynny wrth gwrs, os ydyw pobl yn caru 'i gilydd, mi fedran roi i fyny efo lot o bethau.

Olwen: Efo lot o fân bethau, medran, ond nid efo pethau mawr. Mae yna bethau yn Dafydd na fedr Gwen byth *ddal* i roi i fyny efo nhw, os na wnaiff o newid wrth gwrs.

Annie: Mae yna bethau yn Gwen sy'n anos rhoi i fyny efo nhw, allwn i feddwl.

Olwen: Wel?

Annie: (*Yn wan*) Mae hi'n fyrbwyll iawn yn un peth ac yn gwneud pethau annoeth.

Olwen: Rhywbeth arall?

Annie: Mi wyddoch fel y mae hi'n gwastraffu 'i hamser yn y Coleg yma, yn darllen nofelau a phethau felly.

Olwen: Ac mi'r ydych yn meddwl mai dal ymlaen felly y basa hi ar ôl priodi?

⁷ Cloch a roddai rhybudd fod drws yr Hostel ar fin ei gloi. Cloch cyrffyw. Nid oedd y merched i fod allan nac i fynd allan o'r Hostel wedi i'r gloch ganu.

⁸ 'pe tai' sydd yn y gwreiddiol ac yn nheipysgrif 2634. Drwy gydol y testun hwn newidwyd pob 'pe tai' yn petai.

- Annie: O nag ydw. (*Yn wan*) Ond dwi ddim yn meddwl y gwnai hi wraig i bregethwr.
- Hannah: Dydi bod yn wraig i bregethwr ddim llawer o gatch wedi'r cwbl. Dydi gwraig pregethwr yn aml yn ddim ond cocyn nêl⁹ i wraig pawb arall.
- Olwen: Nid hynny ydy'r pwynt. Wyddoch chi ar y ddaear sut y basa hi ar ôl priodi. Rydw i'n credu y gwnai Gwen wraig dda i unrhyw un, pregethwr neu ryw ddyn arall, os basa hi'n caru'r dyn. Ond mi ddweda i hyn wrthoch chi, mi fasa'n rhaid iddi gael yr un faint o gariad yn ôl; ac mae arna i ofn na chai hi mo hynny gan Dafydd.
- Annie: Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Olwen: Am mai fflyrt ydy o.
- Annie: Ond siŵr, fasa pregethwr ddim yn fflyrt ar ôl priodi.
- Olwen: Dyn â'ch helpo. Mae gan bregethwyr well siawns i fflyrtio na neb arall ond trafaelwyr, priod neu ddim, hynny ydy os bydd y duedd honno ynddyn nhw. Ac yn ddi-os mae yn Dafydd.
- Annie: Ond fasa hyd yn oed fflyrt ddim yn fflyrtio ar ôl priodi.
- Olwen: Mae'n dda mai hynna wyddoch chi am ddynoliaeth, Annie. Gobeithio na ddewch chi ddim i wybod rhagor.
- Hannah: Wel, fflyrtio neu beidio, does dim golwg o Gwen, beth bynnag ddaw ohoni. Mae arna i ofn yr aiff hi i ddŵr poeth am hyn. Rydw i'n credu y byddai'n well i mi fynd i gadw.¹⁰ (*Cyfyd i gychwyn*)
- (Yn ystod y siarad hwn, bu Lizzie'n synfyfyriol. Cyfyd y ddwy arall yn awr, a chychwynai'r tair tua'r drws)*
- Olwen: Wel, dyma ddiwedd i wythnos fendigedig.
- Lizzie: Ie, petai Gwen wedi cyrraedd mewn pryd.
- Annie Pam raid i chi bryderu am Gwen? Rydych chi fel deryn corff.¹¹

⁹ cocyn hitio neu darged. Daw 'nêl' o anelu.

¹⁰ mynd i'r gwely, neu noswyllo.

¹¹ Aderyn (tylluan fel rheol) sy'n gwneud sŵn tu allan i gartref rhywun a oedd ar farw. Mewn ambell achos mae sôn am yr aderyn hyd yn oed yn taro gwyr y ffenest gyda'i big pan oedd claf ar fin marw yn yr ystafell. Gweler 'Coelion Cymru' – Evan Isaac neu 'Welsh Folklore' Arthur ap Gwynn.

Lizzie: Dwn i ddim, ond faswn i ddim yn licio'i gweld hi'n dwad i helynt achos rydw i'n gwybod tipyn am 'i theulu hi.

Annie: *(Ychydig yn gyffrous)* Pam? Beth amdany'n nhw?

Lizzie: Dim neilltuol, ond mae'n nhw'n rhai pur penderfynol a styfnig pan ddaw tipyn o rywbeth croes ar 'i traws nhw.

Annie: Os *daw* rhywbeth croes i Gwen, hi ei hun fydd yn gyfrifol am hynny y tro yma, beth bynnag.

Lizzie: Ella, ond rhag gwneud dim yn waeth nag sydd raid, yr ydw i am fynd i lawr i agor clicied ffenestr y *cloakroom*. Mae hi'n hen gynefin â dwad i mewn trwyddi, ac mae'n siŵr y meddylith hi am y ffenestr y peth cynta.

(Edrych Annie'n anfodlon, fel y gellid disgwyl i un sy'n cadw'n hollol at lythyren rheolau'r Coleg. Hannah, Lizzie ac Olwen yn mynd allan dan furmur â'i gilydd. Â Annie i eistedd yn y gadair esmwyth ac edrych fel petai mewn cyni meddwl. Â'r llen lawr yn y fan hon am ychydig funudau i ddangos myned rhyw ddwyawr o amser heibio.)

Pan â'r llen i fyny, mae'r ystafell ychydig yn dywyllach. Clywir sŵn traed un person yn cerdded ym mhellafoedd y cyntedd, ac yn dyfod yn nes. Egyr y drws a daw Gwen i mewn. Geneth dal, landeg ydyw a chanddi wyneb deallus. Daw i mewn a lluchia'i chot a'i het ar y gadair gan gymryd arni fod yn ddihitio.)

Annie: Wel?

Gwen: Dyma fi wedi cyrraedd.

Annie: A diolch am hynny, rydym ni wedi bod yn ofnadwy o bryderus yn eich cylch chi.

Gwen: Y ni? Pwy ydy ni?

Annie: Y genod. Olwen, Lizzie, Hannah a finnau.

Gwen: Piti na fasa'ch pryder chi'n fwy ymarferol.

Annie: Beth ydych chi'n feddwl?

Gwen: Mi allasai rhai ohonoch chi fod wedi agor ffenestr y *cloakroom* i mi.

Annie: (*Gan neidio 'n sydyn*) Oedd hi ddim wedi 'i hagog?

Gwen: Nag oedd, ddim un. Mi fu'n rhaid imi ganu'r gloch.

Annie: Pwy ddaeth i agor i chi?

Gwen: Miriam, wrth lwc. Ond...

Annie: Ond beth?

Gwen: (*Ychydig yn anniddig*) Mae arna i ofn fod y Warden ar y grisiau arall pan oeddwn i'n dwad i fyny hwn, ac mi clywais hi'n siarad efo Miriam.

Annie: (*Yn orawyddus*) O, wna Miriam ddim dweud.

Gwen: Dwn i ddim, peth mawr ydyw cael eich dal yn ddirybudd. Mae'n siŵr mae'r gwir ddoi allan efo Miriam heb iddi gael amser i baratoi.

Annie: (*Yn ddiymdrech*) Mae'n fwy na thebyg.

Gwen: A pheth arall, doedd dim byd yn rhwystro'r Warden fy ngweld i'n dyfod i fyny'r grisiau.

(*Cnoc ddistaw ar y drws. Daw Lizzie ac Olwen i mewn yn eu gwisgoedd nos. Siaradent yn ddistaw gan ei bod yn oriau distawrwydd yr Hostel.*)

Olwen: (*Yn gellweirus*) Dyma amser neis i ddwad i mewn.

Gwen: (*Dipyn yn flin*) Sut gwyddoch chi mai rwan y dois i i mewn?

Lizzie: Mi fuom yn clustfeinio am sŵn dy draed ti hyd y coridor.

Gwen: Gwaith diddorol iawn.

Lizzie: Rwan, Gwen, paid â bod yn gas. Poeni yn dy gylch di roeddym ni.

Gwen: Doedd raid i chi ddim poeni.

Lizzie: Wel Gwen bach, beth pe tase ti'n cael d'expelio.

Gwen: Dim ods. Mi'r oedd heddiw yn werth hynny.

Annie: (*A fuasai a golwg boenus arni o hyd*) Wel, yn enw pob dim, oes arnoch chi ddim eisiau bwyd Gwen? Mi wnai damaid i chi rwan.

Gwen: Na, diolch rydw i wedi cael peth.

Olwen: Ym mhle, drwy gymorth?

Gwen: Ym mhle ddyliciech chi?

Olwen: Ym Morris's?

Gwen: Gwell o lawer, y ngeneth i. Am y tro cyntaf yn f'oes, mi ges bryd o fwyd mewn hotel.

Y lleill: (*Gan synnu*) O!

Gwen: Do, am y tro cynta 'rioed mi ges oglau hotel o'r tu mewn.

Olwen: Dim byd mwy na'r oglau?

Gwen: Do, mi ges i swper iawn.

Olwen: A gwin?

Gwen: Na, ddim gwin.

Lizzie: Pam?

Gwen: Yr oedd Dafydd yn erbyn.

Olwen: Oedd, mi wn.

Lizzie: Peth rhyfedd i fod o'n fodlon mynd i hotel o gwbl.

Gwen: Y fi wnaeth iddo ddwad. Roeddem ni'n dau wedi cael rhan o'n "Scol"¹² yr wythnos dwaetha, ac wrth ein bod ni wedi cael diwrnod mor fendigedig heddiw, mi tynnais o i mewn.

Olwen: Beth petai pobl y capel yn dwad i wybod?

Gwen: Mi wnai lot o les iddyn nhw.

Lizzie: Ond Gwen, pam y daru ti ganu'r gloch? Ddaru ti ddim treio'r ffenestr?

¹² O'r Saesneg *Scholarship*. Rhan o arian yr ysgoloriaeth a olygir.

Gwen: Do, ond mi'r oedd clo arni, ac mi fu'n rhaid imi ganu'r gloch.

Lizzie: (*Yn gynhyrfus*) Ond mi fŷm i yn agor cliced y ffenestr cyn mynd i ngwely.

Gwen: Wel, mi'r oedd rhywun wedi gofalu'i chlicedu hi'n ôl cyn imi ddwad adre.

Annie: (*Yn llipa*) Un o'r morynion, reit siŵr.

Olwen: (*Yn ddirmygus*) Hy!

Lizzie: Pwy ddaeth i agor iti?

Gwen: Miriam.

Lizzie: Wyt ti'n meddwl y gwnaiff hi achwyn?

Gwen: Mae'n dibynnu'n hollol faint o gwestiynau ofynwyd iddi yn union ar ôl imi ddwad i mewn.

Olwen: Pwy oedd yno *i* ofyn cwestiynau?

Gwen: Mi'r oedd y Warden yn dwad i lawr y grisiau arall pan oeddwn i'n dwad i fyny hwn, ac mi clywais hi'n siarad efo Miriam.

Annie: Ond dydw i ddim yn meddwl y basa Miriam byth yn dweud.

Gwen: Mae'n dibynnu'n union faint o bresenoldeb meddwl sy ganddi hi, wrth gael ei holi'n ddirybudd.

Olwen: Dim, allsw'n i feddwl.

Gwen: (*Yn berffaith ddihitio*) Wel, does dim help, yr hyn a wnaed a wnaed.

Lizzie: Beth sydd wedi digwydd iti? Dwyt ti ddim fel petaet ti'n hitio dim beth ddaw ohonat ti. Mae arna i ofn dy fod ti *wedi* cael gwin.

Gwen: Dim ffasiwn lwc, Lizzie, bach, neu mi faswn yn crio erbyn hyn, ond yr ydw i wedi cael diwrnod bendigedig efo Dafydd.

Olwen: Y gwaetha ydy, fod pethau bendigedig yn dwad i ben.

Gwen: Os don nhw, mi gawn gofio amdanyn nhw. Fedr hyn yn oed Warden Hostel ddim dwyn f'atgofion i.

- Annie: Ie, ond faint gwell ydy rhywun ar atgofion? Bod yn saff o'r dyfodol ydy'r peth mawr.
- Olwen: Ond mae atgofion yn well na dim. Chaiff rhai ohonom ni ddim atgofion hyd yn oed.
- Gwen: Mi'r ydw i yn weddol saff o'r dyfodol hefyd. Mi fydd yn amhosibl i ddim ddwad rhwng Dafydd a mi ar ôl diwrnod fel heddiw.
- Olwen: Peidiwch chi a rhoi gormod o'ch ymddiried yn Dafydd. Mae o wedi caru degau yn 'i oes ac mi gâr ddegau eto.
- Gwen: Dydw i ddim yn meddwl.
- Olwen: Wrth gwrs, mae pob un o'i gariadon¹³ o wedi meddwl mai hi oedd y ddwetha, ond ...
- Lizzie: Mae o'n rhy olygus o lawer iawn.
- Olwen: Dynion felly sy'n cael eu gadael yn y diwedd ac eitha gwaith â hwynt.
- Gwen: (*Braidd yn brudd*) Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Olwen: Am 'u bod nhw'n meddwl cymaint ohonynt 'u hunain.
- Gwen: Fuoch chi'n caru rywdro efo Dafydd?
- Olwen: Y fi? Dim ffasiwn lwc.
- Gwen: Does dim ods am hynny. Rydw i wedi cael fy niwrnod heddiw, a phetai hyn yn golygu cael y sac, mi fyddai'n werth hynny.
- Lizzie: Wyt ti'n meddwl hynny o ddifri, Gwen?
- Gwen: Ydw. O Ddifri. (*Yn cerdded o amgylch yr ystafell*) Mae heddiw'n siŵr a chwpan heddiw'n llawn.
- Lizzie: Ie, ond Gwen bach, mi ddaw yfory ac ella siom.
- Gwen: Pa waeth? Mi gaf gofio am heddiw.
- Olwen: Ond peth byr iawn yw co' os na ddeil rhywun i fynd ymlaen.

¹³ 'cariadau' sydd yn y gwreiddiol ac yn nheipysgrif 2634. Newidwyd i'r terfyniad lluosog arferol.

Gwen: Ydych chi'n awgrymu y newidia Dafydd ei feddwl mewn cyn lleied â hynny o amser?

Olwen: Fedra i ddim dweud, ond mae'n rhaid inni fod yn barod am y gwaetha.

Gwen: Pam na eill rhywun fod yn barod am y gorau weithiau?

Lizzie: Am y bydd y siom yn llai fel arall.
(*Yn ystod yr holl siarad hwn, ymddengys Annie'n synfyfyriol a phendrist.*)

Annie: Rhaid inni beidio â siarad yn uchel, neu mae'r Warden yn siŵr o ddwad yma.

Gwen: (*Yn arwyddocaol*) Ella daw hi yma p'run bynnag.

Lizzie: Well inni fynd, Olwen, a gobeithio bod Ffawd wedi cau ceg Miriam. (Ânt allan yn ddistaw.)

Gwen: (*Gan gadw ei chot a'i het, a chan edrych yn ddibleser*) Does arna i ddim awydd mynd i 'ngwely.

Annie: Na finnau chwaith.

Gwen: Beth sydd arnoch *chi* felly?

Annie: Dim ond mi wn na fedra i ddim cysgu.

Gwen: Pan fydda i wedi mwynhau fy hun yn fawr, fedra i byth gysgu. Mi fydda i'n mynd dros bob peth ddigwyddodd, yn fy meddwl.

Annie: Gawsoch chi amser da iawn?
(*Lizzie yn rhoi ei phen heibio'r drws. Neidia Gwen ac Annie mewn dychryn*)

Gwen: Esgob! Mi ddaru ti fy nychryn i. Mi feddyliais mai'r Warden oedd yna.

Lizzie: Dim ond taro i mewn wnes i, i ddweud bod y Warden yn mynd o rwm yr ail Warden rwan.

Gwen: (*Yn anesmwyth*) O rwm yr ail Warden? Sgwn i beth oedd hi'n wneud yno'r adeg yma o'r nos?

- Lizzie: Dwn i ddim. Ond mi redais yma i ddweud. Cerwch i'ch gwelyau¹⁴ os ydych chi'n gall. Nos dawch eto.
- Annie: Mi rown y golau yma allan, ac mi eisteddwn wrth y tân.
- (Rhoddir y golau allan a daw llewyrch y tân i'r ystafell. Tynnant y cadeiriau esmwyth at y tân. Eistedd un ar yr ochr ac felly wyneba'r gynulleidfa, a'r llall o flaen y tân, fel y bo'n hanner wynebu'r gynulleidfa.)*
- Gwen: *(Yn bryderus)* Sgwn i pam yr oedd y Warden yn rwm yr Ail?
- Annie: *(Hithau'n bryderus)* Wn i ar y ddaear.
- Gwen: *(Gan ymddangos yn ddihitio)* Ond i beth y poena i? Digon i'r diwrnod ei dda ei hun.
- Annie: Ydych chi'n meddwl mewn gwirionedd, Gwen, 'i fod o'n werth yr holl *risk* yma?
- Gwen: Rwan, peidiwch chwithau â dechrau arna i eto.
- Annie: Gan fy mod i wedi dechrau, well imi orffen. Ydych chi'n meddwl eich bod chi'n hollol deg at eich tad?
- Gwen: Pam fy nhad?
- Annie: Wel, y fo sy'n eich cadw chi yma ynte?
- Gwen: Wrth gwrs, pwy arall?
- Annie: Ac fel y rhan fwya ohonom ni, ar 'i orau mae o'n medru gwneud hynny'n 'te?
- Gwen: Ie, ond beth sydd a wnelo hynny â'r ffaith fy mod i'n caru efo Dafydd Edwards?
- Annie: Wel... Wel... Mae'n gas gen i ddweud, mae o'n siŵr o fod yn mynd â'ch meddwl a'ch amser chi oddi wrth eich gwaith.
- Gwen: Does gen i mo'r help am hynny.
- Annie: Gan bwy mae'r help?

¹⁴ 'gwelyau' sydd yn y gwreiddiol. 'gwelyau'sydd yn nheipysgrif 2634.

- Gwen: O dwi'n beio neb ond fi fy hun. Ond dweud yr ydw i nad oes gen i mo'r help fod gan Dafydd, neu'n hytrach fod gan garu gryfach gafael yno i na 'ngwaith.
- Annie: Ond fedrwch chi ddim bod yn benderfynol a dweud "Mi fynna i weithio a chael *First*".¹⁵
- Gwen: Does arna i ddim llawer o eisiau *First*. Mi fyddaf lai yn y ffasiwn drwy beidio â chael un.
- Annie: Mae gynnoch chi ddigon o allu i gael *First* ond i chi weithio dipyn, ond ar y rêt yma, mae arna i ofn na chwech chi ddim *Second*.¹⁶
- Gwen: At ba rêt?
- Annie: Wel, mi wyddoch faint ydych chi'n ddengid allan gyda'r nos, a sawl gwaith ydych chi wedi dwad i mewn trwy ffenest y *cloakroom*, ac mi wyddoch nad ydych chi'n gwneud dim ond darllen nofelau a synfyfyrion pan fyddwch chi i mewn.
- Gwen: Rydw i'n dweud wrthoch chi nad oes gen i ddim help. Fel yna 'rydw i'n teimlo ac i beth y gwna i ddim yn groes i'r graen?
- Annie: Ie, ond beth am eich tad? Meddyliwch y fath siom fydd hi iddo fo, ac i'ch modryb hefyd o ran hynny.
- Gwen: (*Mewn tipyn o dymmer*) Edrychwch yma, Annie, rydw i wedi hen flino arnoch chi'n siarad. Mae'n amlwg na wyddwch chi ddim amdani hi. Mi wyddoch fel y byddwch chi'r genod yn sôn o hyd am gaethiwed y lle yma, na chawn ni ddim gwneud fel hyn na gwneud fel arall, a bod yma gannoedd a miloedd o fân reolau, a'n bod ni'n cael ein trin fel plant, a rwan dyma chi'n cyfiawnhau caethiwed arall.
- Annie: Nid caethiwed ydy gwneud 'i ddyletswydd at 'i rieni.
- Gwen: Caethiwed ydy o a dim arall. Mae fy nhad wedi fy rhoi fi yma yn union fel petai chi'n rhoi arian ar log er mwyn iddo ddod â rhagor o arian i mewn. Nid cael addysg ydym ni'n y coleg yma ond cael ein paratoi i droi allan bres i ni'n hunain neu i'n rhieni. *Investment* ydy hi. A chan fod darllen nofelau a mynd allan i garu yn fwy cydnaws â mi na'r pethau sych ydym ni'n ddysgu yn y Coleg, fedra i ddim gweld fod bai arna i.

¹⁵ Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Prifysgol

¹⁶ Gradd Ail Ddosbarth mewn Prifysgol

- Annie: Mi fasa'n well i chi fod allan o'r Coleg felly.
- Gwen: Ond fasa ddim gwell gan fy nhad. Mae o'n meddwl mai addysg ydy dysgu'r pethau sych, ac yr ydw innau'n meddwl mai addysg ydy dysgu'r pethau diddorol.
(Yn y fan hon, clywir sŵn rhywun yn pasio yn y cyntedd a neidia Gwen mewn dychryn. Erys am eiliad fel petai yn disgwyl i rywun gnocio. Yna â ymlaen)
 Y gwir amdani ydy ein bod ni'n cael ein hanfon i'r Coleg ar yr adeg *wrong*. Meddyliwch hi – yr ydym ni yma o ddeunaw i un neu ddwy ar hugain. Yr adeg yna roedd ein neiniau'n priodi ac yn magu plant, a nhw oedd yn iawn. Rydym ninnau'n treio gwthio rhyw bethau sych i mewn i'n pennau ar adeg pan mae arnom ni eisiau cwmni bechgyn – yr adeg pan ddechreua rhywun gymryd diddordeb yn ei hwyneb a'i gwallt er mwyn tynnu sylw bechgyn.
(Edrych Annie'n anghyfforddus) Dyna'r gwir amdani, waeth i chi heb na gwingo. A'r unig wahaniaeth rhyngoch chi a fi ydyw mod i'n dilyn fy ngreddf a chithau ddim. O'r deg ar hugain ymlaen y dylem ni fod yn y Coleg. Yr adeg honno mi ddechreuwn gymryd diddordeb mewn pethau sych am 'i bod nhw'n ddiddorol 'i hunain ac nid yn bils y mae'n rhaid inni eu llyncu er mwyn ennill ein bywoliaeth. Faint o bleser gawsoch chi'r pnawn yma wrth ddysgu berfau'r Wyddeleg? Dim mi wranta. Mi fasa'n ganmil gwell i chi fod allan ar y picnic. Mi fetia i mai yno'r oedd eich meddwl chi ac na wnaethoch chi ddim gwaith.
- Annie: Naddo, wnes i ddim gwaith. Rydych chi'n dweud y gwir am hynny. Ond wn i ddim a ydych chi'n iawn yn eich rheswm ai peidio.
- Gwen: Wel, beth oedd y rheswm?
(Ar hyn clywir cnoc ar y drws, a daw morwyn i mewn, ar ôl i Annie weiddi "Dowch i mewn".)
- Y forwyn: *(Wrth Gwen)* Mae ar y Warden eisiau eich gweld yn ei rwm rwan os gwelwch yn dda, Miss Pritchard.
(Â'r forwyn allan. Disgyn wyneb Gwen. Edrych yn ddiymadferth a phrudd. Cyfyd o'i chadair yn llipa. Ond y funud nesaf ymsytha. Rhydd ei gwefusau'n dynn ar ei gilydd a cherdda o'r ystafell gan ddal ei phen i fyny'n herfeiddiol. Wedi iddi fynd allan, Ymddengys Anni fel petai'n methu â byw yn ei chroen. Cerdda ar hyd yr ystafell mewn cyni, ac yna eistedd ar gadair a chuddio ei phen yn ei breichiau.)

LLEN

ACT II

GOLYGFA: Ystafell yn llety Dafydd Edwards a'i gyd-fyfyriwr Rolant Jones. Mae'r drws a'r lle tân yn yr un safle ag o'r blaen. Nid yw'r gwely yno na'r cwpwrdd dillad. Gall y ddesg fod yno ond mewn safle gwahanol. Yn yr ystafell mae lleithig lledr neu oil-cloth, bwrdd a chadeiriau. Ar y mur mae darluniau o'r teip a geir mewn tai llety. Nac anghofier yr asphidestra¹⁷ ar ganol y bwrdd. Mae darluniau genethod a myfyrwyr colegau ar y silff ben tân. Mae clustogau gwahanol i Act I hyd y cadeiriau.

AMSER: Tuag un o'r gloch ddydd Sul, sef trannoeth i'r digwyddiadau a gofnodwyd yn Act I. Dyn ieuanc golygus yw Dafydd Edwards tua phedair neu bump ar hugain oed. Wyneb gwan sydd ganddo, a hawdd gweled ei fod yn meddwl cryn lawer ohono'i hun. Mae gan ei gyd-letywr a chyd-efrydydd, Rolant Jones, wyneb cryfach a llawer mwy o gymeriad ynddo. Dyn ieuanc oddeutu'r un ar hugain oed ydyw yntau.

Pan â'r llen i fyny, gwelir Mrs. Huws, y wraig lety wrthi'n plygu'r lliain bwrdd ar ôl clirio'r llestri cinio. Nid yw Rolant Jones i mewn yn yr ystafell ar y pryd. Mae yn y llofft yn ei hwylio ei hun ar gyfer¹⁸ yr Ysgol Sul. Eistedd Dafydd yn y gadair freichiau wrth y tân gan edrych iddo. Dynes fysneslyd yw Mrs. Huws.

Mrs. Huws: (*Gan orffen clirio – rhoi papur a halen &c ar yr hambwrdd a phlygu'r lliain*)
Peth rhyfedd na fasech chi'n pregethu yn rhywle heddiw, Mr. Edwards.

Dafydd: (*Yn swta*) Ie'n 'te?

Mrs Huws: Achos fel rheol, fyddwch chi byth gartre.

Dafydd: Na fydda.

Mrs Huws: (*Gan geisio gwybod mwy*) Ond fel yna mae hi. Mae'r pregethwyr gorau heb gyhoeddiad weithiau.

Dafydd: Ydyn.

Mrs Huws: (*Na chymer ei gorchfygu*) Ond roeddwn i'n meddwl eich bod chi'n pregethu yn Llanfairfechan heddiw.

¹⁷ Aspidistra – planhigyn lluosflwydd gyda dail hirion gwyrdd.

¹⁸ 'gyfair' sydd yn y gwreiddiol. Nid yw'r cyfarwyddyd yn ymddangos yn nheipysgrif 2634.

Dafydd: Felly'r oeddwn innau'n meddwl.

Mrs Huws: Ddim yn teimlo'n dda yr oeddech chi?

Dafydd: *(Ei dymer yn codi)* Naci, fŷm i 'rioed yn teimlo cystal.
(Daw Rolant Jones i mewn ac â Mrs. Huws allan gan gymryd yr hambwrdd, lliain &c gyda hi)

Dafydd: Pe tase ti heb ddwad i mewn y munud yma, mi fasa yma gorff yn y rwm yma.

Rolant: Be sy'r hen frawd?

Dafydd: *(Mewn mwy o dymer)* Mi fasa Gabriel 'i hunan yn llofrudd, petai o'n digwydd bod yn lodjer.

Rolant: Beth oedd yn bod?

Dafydd: *(Gan afael yn Rolant a'i ysgwyd)* Mi fu ond y dim i'r ddynes dynnu fy nhu mewn i o 'nghorff i, ei droi o tu chwithig allan a'i ysgwyd o ar garreg y drws.

Rolant: Yr argian fawr!

Dafydd: Mewn geiriau eraill, mi wnaeth bob dim ond gofyn y rheswm pam nad es i i fy nhyhoeddiad y bore yma.

Rolant: Do reit siŵr. Mae hi wedi clywed oglau'r stori yn y capel y bore yma.

Dafydd: *(Yn wyllt)* Pa stori?
(Eistedd y ddau i lawr yn y cadeiriau esmwyth o flaen y tân)

Rolant: Wel, y stori ydyw fod Gwen Pritchard wedi ei dal yn mynd i'r Hostel yn hwyr neithiwr, a bod y Warden wedi ei galw i'w rwm, ac mae'r genod yn ofni mae *expel* fydd hi.

Dafydd: Y nefoedd fawr!

Rolant: Lizzie ac Olwen ddywedodd wrtha i; ond mae'n siŵr bod genod yr Hostel i gyd yn gwybod, ac mai rhywbeth felly oedd gan hon dan 'i daint rwan.

Dafydd: *(Yn brudd)* Wel! Wel!

- Rolant: Cod dy galon 'rhen frawd, 'roeddit ti'n bur galonnog neithiwr ac yn malio dim beth ddigwydda iti.
- Dafydd: Ie, ond neithiwr oedd hynny, ac mae lliw pethau'n wahanol heddiw. Ond dywed i mi, pam na faset ti'n dweud hyn wrtha i cynta y dois di o'r capel?
- Rolant: Doedd arna i ddim eisiau sbwylio dy ginio di. Rydw i'n credu mewn mwynhau bwyd, hyd yn oed bwyd tŷ lodging, ac mi wyddwn y clywit ti'r stori yna yn ddigon buan.
- Dafydd: Bwyd neu beidio, fasa fo ddim ond yr un peth erbyn rwan.
- Rolant: Ond faswn i ddim yn poeni pe taswn i'n dy le di, nes cei di fwy o oleuni ar y mater.
- Dafydd: Wyddai'r genod beth oedd y Warden wedi 'i ddweud wrth Gwen?
- Rolant: Ddim, heblaw 'i bod hi wedi ffonio at y Prini¹⁹ iddo ddwad i'r Hostel bore heddiw, ac yn y cyfamser mae Gwen i gadw i'w rwm, cael ei phrydau bwyd i fyny, a neb i' gweld hi ond Annie.
- Dafydd: Druan ohoni hi!
- Rolant: Y peth sy'n rhyfedd ydy, meddai Olwen a Lizzie, fod Annie'n edrych mor boenus â phetai'r peth wedi digwydd iddi hi.
- Dafydd: Fu dda gen i 'rioed mo'r eneth yna.
- Rolant: Na finnau, chwaith. Mae'n hi'n gwneud imi feddwl am lygoden.
- Dafydd: Wyt ti'n meddwl bod yn werth imi dreio gweld Olwen a Lizzie er mwyn cael gwybod chwaneg?
- Rolant: Nac ydw. Achos mi ddwedson y cwbl wydden nhw wrtha i; ac os na chant fynd i weld Gwen, fedran nhw gael gwybod dim rhagor - os na chan nhw wybod drwy Annie, wrth gwrs. Mae hi'n cael bod efo Gwen o hyd a mynd a dwad fel y fynno hi.
- Dafydd: Beth fasa orau i'w wneud, dwad?
- Rolant: Fedri di wneud dim nes clywed rhywbeth.

¹⁹ Prifathro'r Coleg.

Dafydd: Clywed beth?

Rolant: Wel, dwn i ddim sut bydd hi arnat *ti*.

Dafydd: Fedra i ddim gweld y medran nhw wneud dim i mi. Yn y Coleg Diwinyddol yr ydw i rwan ac nid yn y Brifysgol²⁰.

Rolant: Ie? Wel? Beth am y Coleg Diwinyddol?

Dafydd: O dydw i ddim wedi torri rheolau. Welodd neb mohona i yn dwad i mewn yn hwyr, a does gan neb gŵyn yn erbyn fy ngwaith i.

Rolant: Nac oes. Gwen raid ddiodde am hyn.

Dafydd: Ond dwn i ddim beth fedra nhw wneud iddi heblaw ei cheryddu.

Rolant: Yr oedd y genod yn dweud fod y Warden â'i chyllell ynnddi o hyd.

Dafydd: Sut felly?

Rolant: Am 'i bod hi'n esgeuluso'i gwaith ac yn slipio allan efo chdi gyda'r nos a phethau felly.

Dafydd: Twt lol! Beth ydy hynny bach?

Rolant: Mi all fod yn lot i Warden Coleg.

Dafydd: Sut mae hi'n gwybod bod Gwen yn sleifio allan efo mi?

Rolant: Fasa hi ddim yn Warden, Dafydd, heb fod ganddi lygaid yn nhu ôl i'w phen.

Dafydd: Wel, does ond gobeithio'r gorau, dwn i ddim i beth mae dyn yn cyboli efo genod.

Rolant: Nid rwan mae dweud peth felly. Dywed i mi, beth fase ti'n 'i wneud petai Gwen yn digwydd cael ei throi o'r Coleg? Mi glywsom am bethau felly'n digwydd.

Dafydd: Beth faswn i'n 'i wneud beth?

Rolant: Faset ti'n fodlon priodi Gwen?

²⁰ 'y Brif Ysgol' sydd yn y gwreiddiol ac yn nheipysgrif 2634.

Dafydd: Pam briodi? Nid dyna'r unig ffordd allan. Mi all Gwen chwilio am le.

Rolant: Dafydd, Dafydd, dwyt ti ddim am adael i'r eneth chwilio am le a thithau i raddau wedi bod yn gyfrifol am iddi gael y sac? Ac eglwys yn barod gen ti i ddisgyn iddi.

Dafydd: Nonsens. Chaiff hi mo'r sac.

Rolant: Paid ti â bod mor siŵr.

Dafydd: Mi feddyliais dy fod ti'n mynd i'r Ysgol Sul.

Rolant: Mi feddyliais innau hefyd. Ond dydw i ddim am fynd rwan.

Dafydd: Chei di byth gyhoeddiad yn y fan yna eto am beidio â mynd i'r Ysgol Sul. Pechod anfaddeuol i bregethwr ifanc.

Rolant: Rydw i am aberthu cyhoeddiad y pnawn yma. Mi rwyt ti wedi aberthu pob cyhoeddiad yn y wlad yma wrth beidio â throi i fyny o gwbl.

Dafydd: Doeddwn i ddim yn teimlo ar fy nghalon fynd i bregethu i neb heddiw. Sut roedd posib pregethu i bobl sychion am osgoi mwyniant pechod dros amser ar ôl bod yn syllu i lygaid merch drwy'r dydd ddoe, a gorffen gyda swper mewn hotel?

Rolant: Dydw innau ddim am fynd i'r Ysgol Sul 'pnawn yma. Mae arna i eisiau sgwrs efo ti.

Dafydd: Mae arnat *tithau* eisiau gwybod fy nhu mewn i felly.

Rolant: Aros di'r hen frawd, dydym ni ddim yn mynd i ffraeo rwan ar ein blwyddyn ola ar ôl yr holl flynyddoedd o fwyta wrth yr un bwrdd.

Dafydd: Ymlaen â thi ynte.

Rolant: Rwan, beth wnaut ti petai Gwen yn digwydd cael ei throi i ffwrdd?

Dafydd: Dwn i ddim. Mae'n anodd dweud.

Rolant: Faset ti yn 'i phriodi hi?

Dafydd: Dwn i ddim.

Rolant: Na faset felly, neu mi faset yn ateb ar 'i ben y baset ti.

Dafydd: Rhaid i ddyn, yn enwedig pregethwr, fod yn ofalus iawn *pwy* mae o yn 'i briodi.

Rolant: Pam rwyt ti'n cyboli gyda Gwen felly?

Dafydd: Rydw i'n gobeithio nad oes raid i ddyn ddim priodi pob geneth mae o'n cyboli efo hi yn y Coleg.

Rolant: Nac oes, ond bod tipyn bach o wahaniaeth rhyngot ti a fi.

Dafydd: Yn hollol. Crewyd mo bawb ohonom ni 'run fath, a wela i ddim bod dim o'i le yn yr hyn ydw i'n 'i wneud.

Rolant: Nac oes, os ydyw'r ferch yn deall hynny.

Dafydd: Deall beth?

Rolant: Mewn geiriau plaen, deall nad ydy hi ddim ond brechdan i aros pryd.

Dafydd: Ond dydy neb yn mynd i ddweud hynny wrth ferch wrth fynd am dro efo hi'r tro cynta. Beth wyddost ti na all y frechdan droi allan yn ddigon o bryd iti?

Rolant: Efallai, wir, ond mi ddylit egluro iddi, cyn iddi roi dim o'i meddwl arnat ti.

Dafydd: Wyt ti'n meddwl y doi unrhyw ferch am dro heb 'i bod hi wedi rhoi'i bryd arnat ti eisoes.

Rolant: (*Yn bendant*) Ydw. Paid ti â meddwl mai'r genod sydd ar dy ôl di bob amser. Mi rwyt ti wedi gwirioni dy hun am un neu ddwy cyn iddyn nhw feddwl amdanat ti, ac mae Gwen yn un ohonyn nhw.

Dafydd: Ydyw, mae'n rhaid imi gyfaddef 'mod i wedi cael trafferth fawr 'i chael hi ddwad allan efo mi, ond mae hi wedi gwirioni'n lân erbyn hyn.

Rolant: Felly *roeddit* tithau.

Dafydd: O mi'r ydw i'n caru Gwen o hyd.

Rolant: Ond, nid digon i' phriodi hi?

Dafydd: Na, fedrai ddim meddwl amdani'n wraig i weinidog.

Rolant: Oes eisiau i wraig i weinidog fod yn wahanol i wraig rhywun arall ynte?

Dafydd: Wel, nid pob dynes a wna'r tro i weinidog.

Rolant: Na, nid pob dynes a wna'r tro i unrhyw ddyn, fedra i ddim dychmygu fy hun yn priodi Iances er 'i bod hi'n mynd i'r Seiat bob wythnos.

Dafydd: Ie, ond mi greda i bod yn rhaid i weinidog fod yn fwy gofalus na neb arall wrth ddewis gwraig.

Rolant: Dyna fo, dy holl safbwynt di, wel di – dewis gwraig. Nid dewis gwraig y bydd neb.

Dafydd: Dull o siarad oedd hwnna.

Rolant: Dull o siarad awgrymiadol iawn. Ond pam rwy'ti'n meddwl bod yn rhaid i weinidog fod yn fwy gofalus wrth “ddewis” gwraig chwedl tithau.

Dafydd: O rwy'ti wedi clywed y rhesymau lawer gwaith.

Rolant: Nid gen ti.

Dafydd: Wel, gan bobl eraill, ac am unwaith, rydw i'n credu 'run fath â'r mwyafrif.

Rolant: Ie? Wel?

Dafydd: Bod yn rhaid i weinidog gael dynes ddistaw gall, wastad ei thymmer, un fedr basio heibio i wendidau praidd 'i gŵr.

Rolant: Mewn geiriau eraill, darn o bren.

Dafydd: Dim o gwbl.

Rolant: Os dyna dy syniad ti am wraig gweinidog, pam rwy'ti mor hoff o Gwen? Achos, drwy drugaredd, dydy cymwysterau gwraig gweinidog yn ôl Dafydd Edwards ddim ganddi hi.

Dafydd: Dyna ydy'r trwbl, fachgen. Genod fel Gwen ydw i'n hoffi ac eto mi wn na wnan nhw wraig imi.

Rolant: Yr hyn wyt ti'n 'i feddwl ydy, y gwnan nhw wraig i ti, ond na wnan nhw ddim gwraig i Dafydd Edwards y gweinidog.

Dafydd: Yn hollol.

- Rolant: Ac oherwydd hynny, rwyf ti'n amau a fedri di briodi Gwen.
- Dafydd: Dyna fo ar 'i ben.
- Rolant: Yli di'r hen bererin, maddau i mi am dy gynghori di, mae'n hen bryd iti roi'r syniadau neinaidd yna yn y to. Pan brioda i, mi brioda i eneth fydd wrth fodd 'y nghalon i, ac nid wrth fodd calon f'eglwys i.
- Dafydd: Y ffordd hawsa allan ohoni hi i ni, wrth gwrs, fasa i mi fod yn rhywbeth heblaw gweinidog, gan fod eglwysi yn cymryd gymaint o ddiddordeb yn dy wraig di. Ond mae'n hollol bosibl iti gael gwraig wnaiff blesio d'eglwys a thithau neu os mynni di, gael eglwys wnaiff blesio dy wraig di.
- Rolant: Ella, unwaith o bob mil, ond nid yn debyg. Pan brioda i, Dafydd, dwi ddim am falio hynna yn f'eglwys (*rhydd glec ar ei fawd*) ac os daw hi i bwynt, wel, yr eglwys gaiff fynd.
- Dafydd: Fedrwn i ddim gwneud hynny.
- Rolant: Mwya cwilydd iti felly ydy gwirioni pen geneth y gwyddost ti na wna hi ddim gwraig iti.
- Dafydd: Mae cymaint o fai arni hi ac arna innau.
- Rolant: Cwestiwn. Rwyf ti newydd ddweud mai wedi hir greffu y daeth hi am dro efo ti.
- Dafydd: Mae'r ddadl yn torri fel arall, hefyd, os ydy hi'n ddweud 'i bod hi'n fy ngharu i, mi rydd i fyny efo pethau fel gwaith eglwys er fy mwyn i.
- Rolant: Na, fedra i ddim gweld Gwen yn rhoi te i'r dosbarth gwnïo, nac yn llywydd Cymdeithas Ddirwestol y Merched.
- (*Â Dafydd yn synfyfyrgar*)
- Dafydd: Na finnau chwaith. Ac eto (*Gyda theimlad*) mae hi'n eneth hoffus. Hoffais i neb fwy erioed.
- Rolant: Ydy, mae hi. (*Gyda theimlad*) Mi fasa'n dda iawn gen i gael bod yn dy sgidia di.
- Dafydd: (*Gan agor 'i lygaid*) Mae arna i ofn dy fod tithau mewn cariad efo hi.
- Rolant: Ella baswn i, pe baswn i wedi cael dy siawns di i' nabod hi.

(Ar hyn clywir cnoc ar y drws. Gwaedda un ohonynt "Dowch i mewn" a daw Mrs. Huws i mewn)

Mrs. Huws: Mae yna ferch ifanc wrth y drws eisiau eich gweld chi, Mr. Edwards.

Dafydd: Y fi?

Mrs. Huws: Ie.

(Â Mrs. Huws allan, ac â Dafydd ar ei hôl. Daw'r olaf yn ôl mewn munud gyda Gwen. Mae hi'n gwisgo cot fawr ac mae'n bennoeth. Edrych yn llwyd a phrudd.)

Gwen: Rhaid i chi faddau i mi am eich distyrbio chi fel hyn. Mi glywais Annie'n dweud ar ôl Olwen a Lizzie eich bod chi heb fynd i'ch cyhoeddiad.

Rolant: *(Wedi codi i gychwyn)* Mi â i i'r gegin.

Gwen: Na. Mr. Jones, peidiwch â chodi.
(Rhydd Rolant ei gadair iddi)

Dafydd: Well i chi dynnu'ch cot, Gwen.

Gwen: Na, dim diolch, mae hi'n gynnes amdana i.

Rolant: Mi a i allan am funud. Mae arna i eisiau sgrifennu llythyr.

Gwen: D'oes dim rhaid i chi fynd o'm hachos i.

(Â Rolant allan. Wedi iddo fynd, rhuthia Gwen at Dafydd a gafaela ynddo. Rhydd ei phen ar ei ysgwydd a dechreua wylo. Gafaela Dafydd ynddi'n dyner.)

Gwen: Dafydd!

Dafydd: Dyna fo Gwen. Peidiwch â chrio *(cusana hi)*. Mi ddaw pethau'n well eto. Well i chi eistedd yn y gadair yn y fan yma. *(Trefna'r clustogau iddi ar y gadair sy'n wynebu'r gynulleidfa.)*

Gwen: *(Dan deimladau cryfion a than ddal i afael ynddo)* O Dafydd, dwedwch eich bod yn fy ngharu gymaint ag erioed.

- Dafydd: Ydw, ydw, Gwen bach. Dowch, steddych yn y fan yma. (*Rhydd hi i eistedd yn y gadair. Sych hithau ei llygaid.*) Dyna chi, mi deimlwch yn well rwan. (*Eistedd ef ei hun ar y gadair arall fel ei fod yn hanner troi at y gynulleidfa.*)
- Gwen: Rhaid i chi faddau i mi. Rydw i wedi mynd trwy bethau mawr er neithiwr. (*Rhwng ebychiadau*²¹) Mae'n debyg eich bod chi wedi clywed.
- Dafydd: Wel, do, mi ddwedodd Lisi ac Olwen wrth Rolant, ond dim ond y munud yma y dwedodd Rolant wrtha i. Ond, Gwen, ydych chi ddim yn meddwl mai mynd yn ôl i'r Hostel fasa'r peth gorau i chi rwan? Os gwelwch nhw'ch colli chi o'r Hostel mae pob siawns sydd gynnoch chi ar ben.
- Gwen: (*Yn anobeithiol.*) Waeth beth wna i rwan. Mi gewch chi weld mai f'expelio ga i.
- Dafydd: (*Yn garedig.*) Rhaid inni obeithio'r gorau. Does arna i ddim eisiau colli'ch cwmpeini chi ond rydw i'n credu mai mynd yn ôl ydy'r peth gorau i chi.
- Gwen: (*Yn benderfynol*) Na. 'D af i ddim, heb gael dweud sut y bu hi gynta, beth bynnag. Mi rydw i wedi bod bron â thorri eisiau cael dweud wrthoch chi.
- Dafydd: Ar unwaith, ynte.
- Gwen: (*Yn dawelach*) Wel, wedi imi eich gadael chi neithiwr, mi es yn syth at ffenest y *cloakroom*, gan obeithio y base hi'n agored, ond doedd hi ddim. Wedyn, mi fu'n rhaid imi ganu'r gloch, ac mi ddaeth Miriam i agor. Mae Miriam yn *sport* wyddoch, ond cynta mod i wedi cael y grisiau, mi glywn rywun yn dwad i lawr y grisiau arall ac yn siarad efo Miriam, ac yr oeddwn i'n siŵr mai'r Warden oedd hi wrth 'i llais hi. Ymhen tipyn, wedi i mi fynd i fyny mi ddaeth Lizzie i mewn, ac mi'r oedd hi wedi synnu bod ffenest y *cloakroom* wedi ei chlicedu, achos mi'r oedd hi ei hun wedi bod i lawr yn agor y gliced yn gynt ar y noson.
- Dafydd: Dyna beth rhyfedd.
- Gwen: Mi ddwedodd Lizzie ei bod wedi gweld y Warden yn dwad o rwm yr Ail Warden, ac ymhen tipyn, dyma'r forwyn yn cnocio ar y drws i ddweud bod ar y Warden eisiau 'ngweld i.
- Dafydd: Beth ddigwyddodd?

²¹ 'elychiadau' sydd yn y gwreiddiol ac yn nheipysgrif 2634.

- Gwen: Wrth gwrs, roeddwn i wedi dychryn yn ofnadwy, ond rywsut cyn imi gychwyn ati hi, mi ges nerth ac mi feddyliais “Dydy Warden Coleg ddim ond dynes run fath â minnau”, ac yn yr ysbryd hwnnw yr es i i mewn. Mi fasa’n well i mi pe taswn wedi dangos mwy o ofn.
- Dafydd: Pam? Oedd hi’n gas iawn?
- Gwen: Oedd. Mi edliwiodd fy ngorffennol imi i gyd, fel petai gen i orffennol gwerth sôn amdano, ond mi’r oeddwn i’n ddigon o fats iddi.
- Dafydd: (*Yn gellweirus*) Eitha gwaith.
- Gwen: Ie, rywsut, ond mi fasa’n well imi fod wedi dal fy nhafod.
- Dafydd: Ydych chi’n meddwl?
- Gwen: Erbyn hyn, ydw. Ond neithiwr doeddwn i’n malio dim beth ddigwyddai imi.
- Dafydd: Beth sy’n cyfri am y gwahaniaeth, ydych chi’n feddwl?
- Gwen: (*Yn freuddwydiol, gan syllu i’r tân.*) Mae’n debyg mai amser.
- Dafydd: (*Yn araf*) Ie, mae’n debyg.
- Gwen: (*Gan afael ym mraich Dafydd eto*) Ond mi rydych chi’n fy ngharu fi, ond ydych chi, Dafydd? Yr ydym ni’r un fath heddiw ag oeddem ni ddoe, ond ydym ni?
- Dafydd: Ydym, wrth gwrs. Beth sy’n gweud i chi amau hynny?
- Gwen: Dim, ond mae arna i ofn.
- Dafydd: Ofn beth?
- Gwen: Fel hyn, ydych chi’n gweld. Neithiwr roeddwn i’n gry ac yn medru herio pob dim am ein bod ni wedi cael diwrnod bendigedig efo’n gilydd. Roeddwn i’n gas wrth Annie am ddweud ’mod i’n gwastraffu f’amser yn y Coleg a gwastraffu arian ’nhad; y fi oedd yn iawn, a hwythau’n²² *wrong*. Ond erbyn heddiw dydw i ddim mor siŵr.
- Dafydd: Ac mi’r ydych chi’n mynd i feddwl bod fy nghariad i wedi oeri tuag atoch chi a phethau felly.

²² ‘chwythau’n’ sydd yn y gwreiddiol. ‘hwythau’n’ sydd yn llawysgrif 2634.

Gwen: Ond methu deall yr ydw i na faswn i'n teimlo'r un fath â neithiwr y bore yma.

Dafydd: Fel yna mae hi, Gwen, mae llanw a thrai ar deimladau yr un fath ag ar bethau eraill. Ond ewch ymlaen â'r hanes.

Gwen: (*Yn ddiamynedd*) O does arna i ddim eisiau sôn am y peth efo chi. Pam raid mi wastraffu amser, ac yntau mor brin? Ella na chawn ni ddim gweld ein gilydd am hir eto.

Dafydd: Sut felly?

Gwen: Taswn i'n cael f'expelio ydw i'n feddwl.

Dafydd: Wel, rwan, Gwen, gadewch inni fod dipyn yn ymarferol. Er mwyn treio arbed i chi gael eich expelio, beth petaen ni'n edrych dros y sefyllfa, rhag ofn y medrwn ni wneud rhywbeth?

Gwen: Fedrwn ni wneud dim, mae'r ddynes yna wedi penderfynnu mai o'r Coleg yr ydw i i fynd. Mae hi bron wedi dweud hynny.

Dafydd: Ie, ond wedyn, nid ganddi hi mae'r gair dwaetha yn y mater. Mi fydd gan yr athrawon rywbeth i'w ddweud.

Gwen: Lot o hen bobl ydy'r rheini wedyn.

Dafydd: Ond ella bod rhai ohonyn nhw heb anghofio'u dyddiau caru.

Gwen: Rhyw un neu ddau efallai.

Dafydd: Ond dwedwch i mi beth sy'n mynd i ddigwydd?

Gwen: Mae'n rhaid imi fynd o flaen y Senedd²³ yfory.

Dafydd: Pryd glywsoch chi hynny?

Gwen: Rwan, *just* cyn imi ddwad yma. Mi deliffoniodd y ddynes yna at y Prini o flaen y nhrwyn i i ofyn iddo ddwad i'n Hostel heddiw. Mae'n debyg iddo ddwad ac mi ddaeth hithau i fy rwm i, i ddweud bod yn rhaid imi ymddangos o flaen y Senedd yfory.

²³ Corff llywodraethol neu awdurdod academiaidd y Brifysgol sydd â chyfrifoldeb dros reoli a goruwchwylio myfyrwyr ymysg swyddogaethau eraill.

- Dafydd: (*Gan ei chysuro*) Na hitiwch befo. Mi ddaw pethau'n well nag ydych yn ei ddisgwyl.
- Gwen: Dwi ddim yn meddwl. Mae rhywun wedi bod yn cega wrth y Warden yna, sawl gwaith yr ydw i wedi dwad i mewn drwy ffenest y *cloakroom* a phethau felly, ac mae hi'n gwybod yn rhy dda am fy ngwaith i. Roedd hithau fel Annie yn sôn am aberth fy nhad, ond 'i bod hi'n filwaith casach. Fasa hi byth yn fy nhroi i.
- Dafydd: Gyda llaw, yr oedd Olwen a Lizzie'n dweud wrth Rolant, fod golwg boenus iawn ar Annie.
- Gwen: Oes, dwn i ddim pam, fedr neb ddweud 'i bod hi'n cydymdeimlo efo fi.
- Dafydd: Wel rwan, Gwen bach, mae'n ddrwg gen i ymddangos yn greulon, ond rydw i'n credu y byddai'n well i chi fynd. (*Dechreua Gwen brotestio yn erbyn*) Neu petaen nhw'n ffeindio hyn fyddai gynnoch chi ddim siawns i gael eich cadw yn y Coleg.
- Gwen: (*Yn benderfynnol*) Does gen i ddim siawns fel y mae hi, waeth heb ddim, a thydw i ddim am fynd oddi yma heno chwaith.
- Dafydd: (*Wedi dychryn*) Gwen!
- Gwen: Nag ydw, dyna pam y dois i yma. 'R' ydw i wedi gorffen yn yr Hostel, a d'oes arna i ddim eisiau bod yn y jêl honno ddim rhagor. Wyddoch chi ddim amdani.
- Dafydd: Rwan, Gwen bach, treiwch roi eich rheswm ar waith, da chi. Meddyliwch am eich tad a'ch modryb, mor siomedig y byddan nhw. A pheth arall, mi all hyn wneud drwg i mi. Dwn i ddim sut bydd hi arna i yn y Coleg Diwynyddol.
- Gwen: Dyna chi yn meddwl amdanoch ych hun yn gynta.
- Dafydd: (*Dan gerdded yn ôl ac ymlaen ar hyd yr ystafell*) Nag ydw, Gwen; rydw i wedi nghadw fy hun allan hyd rwan. Yn y Coleg Diwynyddol yr ydw i, ac fel hen stiwdent o'r Brifysgol mi ges ddwad ar y picnic ddoe. Hyd y gwela i, dwi ddim wedi torri rheolau fy ngholeg fy hun; ond os clywan nhw eich bod wedi treulio pnawn yma efo mi, fedra i ddim dweud sut y bydd arna i. Dydw i'n gwneud dim ond siarad er eich lles chi, ac os ydy'n well gynnoch chi daflu pob siawns i ffwrdd, dyna fo. Ond dwn i ddim ydych chi'n sylweddoli beth ydych chi'n wneud. Mae gynnoch chi ddigon o allu i gael gradd dda, ac mi gaech le da yn athrawes ac ennill arian i fwynhau eich hun ac i dalu'n ôl i'ch tad.

Gwen: (*Yn boeth*) Y chi o bawb yn siarad fel yna. Dydych chithau'n meddwl am ddim ond am arian a thalu'n ôl. (*Yn drist*) A dim ond ddoe roeddech chi'n addo pob dim imi ac yn sôn am fentro a gadael i pob dim fynd i'r coblyn, dim ond i ni gael byw ein ffordd ein hunain. Ddoe yn sôn am briodi a byw efo'n gilydd yn fuan, a heddiw dyma chi'n gwrthod fy nghais i i aros yma.

Dafydd: Ie, nid ddoe ydy heddiw.

Gwen: (*Yn araf a synfyfyriol, gan ailadrodd²⁴*) Nid ddoe ydy heddiw. Ac fel yna y bydd hi byth.

(*Yn y fan hon daw cyfnewidiad drosti. Edrych yn drist yna cyfyd fel petai am gychwyn allan. Edrych Dafydd yn falch.*)

Dafydd: Ie, dyna fydda orau i chi, Gwen.

(*Ond yn sydyn daw angerdd Gwen yn ôl*)

Gwen: Na, fedra i ddim fynd yn ôl i'r Hostel yna. Waeth heb ddim.

Dafydd: Treiwch, wir, Gwen. Mae'n siŵr mai dyna fydd orau er eich lles chi.

Gwen: (*Yn wyllt*) Lles, lles;²⁵ mae pawb yn meddwl 'i bod nhw'n siarad er fy lles i. Fy lles i ydy gadael imi wneud fel rydw i'n licio.

Dafydd: (*Mewn anobaith*) O'r gorau. Gwen, beth sydd arnoch chi ei eisiau?

Gwen: Aros yma, os oes gan eich *landlady* wely imi, neu mi gysga i ar y *sofa* yn y fan yma. Rywbeth yn hytrach na mynd yn ôl i'r Hostel yna. Pe tasa yna drên mi faswn yn mynd adre.

(*Â Dafydd allan fel dyn yn methu â gwybod beth i' feddwl o ferched. Pan yw ef allan, edrych Gwen o'i chwmpas ar y darluniau ar y silff ben tân. Edrych ar ddarluniau'r merched yn hir ac yn graff. Yna daw mwy o brudd-der dros ei hwyneb, prudd-der llipa, llai herfeiddiol. Ochneidia'n drwm. Rhydd y darluniau'n ôl ar y silff. Eistedd ar y gadair sy'n wynebu'r gynulleidfa. Synfyfyria'n ddwfn a'i gên ar ei llaw. Yna daw Dafydd i mewn. Gan ei bod â'i chefn ato. Ni wêl ef ei bod yn synfyfyrio. Neidia hithau'n sydyn.*)

²⁴ 'ail-adrodd' sydd yn y gwreiddiol. 'ail adrodd' sydd yn nheipysgrif 2634.

²⁵ 'Les, Les;' sydd yn y gwreiddiol. 'Lles, lles' sydd yn nheipysgrif 2643.

- Dafydd: Nid yw Mrs. Huws yn fodlon o gwbl. Mae ganddi ei henw da fel *landlady* i stiwdents i'w gadw meddai hi. Ond fe wŷr am ddynes sy'n byw yn y cefnau yna sy'n siŵr o'ch cymryd am noson medda hi. Mi aiff drosodd i ofyn iddi rwan. Mae'n debyg nad oes gan honno ddim enw da i'w gadw.
- Gwen: Dim gwahaniaeth rwan.
- Dafydd: Sut felly?
- Gwen: Dwi ddim yn meddwl yr arhosa i wedi'r cwbl.
- Dafydd: (*Yn awyddus*) Rydych am fynd yn ôl i'r Hostel?
- Gwen: (*Yn ddiymadferth*) Ydw.
- Dafydd: Rydw i'n meddwl mai dyna fydd orau i chi yn y diwedd.
- Gwen: (*Gan ail ddweud ond heb roi'r un ystyr iddo â Dafydd*) Ie, dyna fyddai orau imi yn y diwedd. (*Yna newid Gwen yn sydyn. Ymddengys yn galonnog.*) Wedyn gorau po gyntaf imi fynd felly.
- Dafydd: Er bod yn gas gen i'ch gweld chi'n mynd.
- Gwen: Siŵr, yr hen gariad?
- Dafydd: Wrth gwrs, cofiwch am ddoe Gwen.
- Gwen: (*Yn ymddangosiadaol hapus*) Doedd hi'n fendigedig?
- Dafydd: Ac mi gewch chi weld y cawn ni laweroedd o amser tebyg eto. Fedra i ddim meddwl y tron' nhw chi allan o'r Coleg am beth cyn lleied. Rwan, nos dawch, fy nghariad i.
- (*Cusana hi, ac wrth gusanu, edrych Gwen dros ysgwydd Dafydd ar y darluniau ar y silff ben tân, ac ymddengys fel petai'n eu gweld am y tro cyntaf.*)
- Gwen: (*Gan ymddangos yn llawen*) Pwy biau'r lluniau merched yna ar y silff ben tân, Dafydd, chi ynte Rolant Jones?
- Dafydd: Fi piau'r rhan fwyaf ohonyn nhw. Pam? Beth oedd?
- Gwen: Dim ond mod i'n holi. Wel, nos dawch.

(Ar hyn dyma gnoc ar y drws. Geilw Dafydd “Dewch i mewn” a daw Mrs. Huws i mewn.)

Mrs. Huws: Esgusodwch fi, Mr. Edwards, mae yna ferch ifanc arall wrth y drws, eisiau’ch gweld chi.

Dafydd: Fy ngweld i?

Mrs. Huws: Ie.

Dafydd: Perwch hi ddyfod yma os gwelwch yn dda, Mrs. Huws. *(Wrth Gwen)* Mi fydd yr ystafell yma’n llawn o ferched gyda hyn.

(Edrych Gwen a Dafydd fel pe na wyddent beth i’w ddisgwyl. Daw Mrs. Huws yn ôl ac Annie gyda hi. Â Mrs. Huws allan. Mae golwg druenus ar Annie – golwg un wedi bod drwy bangfeydd o boen meddwl.)

Annie: Y, y, maddeuwch i mi am dorri ar eich traws chi. Yr oedd yn rhaid imi gael gweld Mr. Edwards. Fe glywais eich bod chi gartre heddiw. Ond doeddwn i ddim yn meddwl gweld Gwen yma.

Gwen: Lle’r oeddech chi’n meddwl mod i wedi mynd ynte?

Annie: Meddwl roeddwn i eich bod chi wedi mynd allan o’r rwm am funud.

Dafydd: *(Yn awyddus)* Does neb wedi colli Gwen o’r Hostel felly?

Annie: Ddim hyd y gwn i.

Gwen: Wel, mi â i felly Dafydd.

Annie: Na, does dim rhaid i chi fynd o’r hachos i.

Dafydd: Ella mai gwell fyddai i Gwen fynd er ’i mwyn ’i hun, gan nad ydyn nhw ddim wedi ffendio ’i cholli hi.

Annie: Os nad oes wahaniaeth mawr gynnoch chi, mi fasa’n well gen i i Gwen i aros. Chadwa i monoch chi ddim dau funud.

(Edrych Dafydd yn anfoddog.)

Annie: Doeddwn i ddim wedi meddwl dweud yr hyn oedd gen i i’w ddweud ond wrth Mr. Edwards ei hun, ond gan fod Gwen yma, yr ydw i’n credu y byddai’n well imi ei ddweud wrthoch chi’ch dau.

- Dafydd: *(Wrth Annie)* Well i chi eistedd yn y gadair yma. *(Rhydd gadair esmwyth iddi eistedd arni. Eistedd Gwen ar gadair galed yn wynebu'r gynulleidfa. Yn ystod y darn hwn o'r olygfa ni ddywaid Gwen air, ond mae dirmyg ar ei hwyneb. Eistedd Dafydd ar fraich y gadair arall neu gall sefyll â'i bwysau ar y silff ben tân.)*
- Annie: Rhaid imi redeg drwy fy stori neu farw. *(Brysia drwyddi.)* Y cwbl sydd gen i i'w ddweud ydyw mai fi aeth i lawr i glicedu'r ffenestr neithiwr ar ôl i Lizzie ei hagog hi a thrwy hynny fi sy'n gyfrifol am y boen y mae Gwen ynddo fo. *(Mae wyneb Gwen yn oer, a bron yn ddifynegiant gan ddirmyg. Edrych Dafydd fel llofrudd.)*
- Annie: *(Yn arafach ac yn fwy hunanfeddiannol ar ôl cael cyfaddef.)* Mi wn na wnaiff yr un ohonoch chi'ch dau ddeall fy nheimpladau i, achos mae'n debyg na wyddoch chi'ch dau ddim beth yw bod yn fychan a di-sylw, ac oherwydd hynny wyddoch chi ddim beth ydy cenfigen. Mi'r oedd arna i wenwyn bod Gwen yn ffr... yn caru efo chi, Mr. Edwards, dyna pam yr arhosais i gartre o'r picnic a phan glywais i'r genod yn dweud mor hapus yr oeddech chi'ch dau yn edrych ddoe, mi ddaeth rhyw ffit o rywbeth gwaeth na chenfigen trosta i, ac mi es i lawr i glicedu'r ffenest.
- Dafydd: Ydych chi'n siŵr mai peth ddaeth drosoch chi ar y funud oedd y syniad o glicedu'r ffenest.
- Annie: Rydw i'n berffaith siŵr o hynny.
- Dafydd: Fedra i ddim deall y peth o gwbl.
- Annie: Ella medrech chi ddeall y peth yn well pan ddweda i wrthoch chi mai oherwydd fy mod i yn eich caru chi fy hun yr oedd arna i gymaint o wenwyn i Gwen. Ond ddaru mi 'rloed feddwl y buasai Gwen yn dwad i'r holl helynt yma. Meddwl yr oeddwn i mae rhybudd gai hi.
- (Try Gwen ei phen yn araf i edrych arni. Mae dirmyg o hyd ar ei hwyneb. Ond mae gradd o dosturi ynddo'n awr. Edrych Dafydd wedi ei syfrdanu)*
- Gwen: Rydw i am fynd rwan.
- Annie: Rydw i'n dwad efo chi.
- Dafydd: Nos dawch Gwen. *(Cychwyn ati fel petai am ei chusanu – ond mae hi allan trwy'r drws fel bwled. Â Annie ar ei hól yn araf a'i phen i lawr. Â Dafydd drwy'r drws gan ysgwyd ei ben – ysgydwad sy'n awgrymu “Wel, Wel, mae*

merched yn bethau rhyfedd". Gwaedda ar dop ei lais yn y drws "Rolant, Rolant". Daw Rolant i mewn o'r gegin.)

Dafydd: (*Wedi i Rolant ddyfod i mewn.*) Wyt ti'n deall merched? (*Eistedd y ddau fel o'r blaen.*)

Rolant: Ddaru mi 'rioed geisio'u deall nhw'r un fath â chdi. My ddylit ti 'i deall nhw'n iawn, 'rwynt ti wedi cael digon o'u cwmni nhw heddiw, beth bynnag.

Dafydd: Dwi ddim yn meddwl y medr yr Hollalluog 'i deall nhw.

Rolant: Ddim, os wyt ti wedi methu.

Dafydd: Rydw i'n teimlo fel petawn i'n actio mewn drama.

Rolant: (*Gan siarad yn yr un mŵd*) Pa rhyw gynllun a weodd merch amdanat?

Dafydd: (*Gan ddifrifoli*) O gâd dy nonsens.

Rolant: Pwy siaradodd nonsens gyntaf?

Dafydd: (*Gan dynnu ei ddwylo trwy ei wallt*) O, dwn i ddim i beth y cybolais i 'rioed efo merch.

Rolant: Rwynt ti wedi dweud hynny unwaith o'r blaen y pnawn yma.

Dafydd: Un yn dwad yma i ofyn oeddwn i'n dal i' charu hi a'r llall yn dwad yma i ddweud 'i bod hi wedi bradychu 'i ffrind²⁶ am 'i bod hithau'n fy ngharu fi.

Rolant: (*Yn chwareus*) Ac mae hynny yn plesio dy gonsêt²⁷ di?

Dafydd: Rwan, Rolant, gwrando, mae'r peth yn rhy ddifrifol inni jocio yn 'i gylch o. Mi faswn yn medru chwerthin fy hun am ben y peth pe gwyddwn i na fasa'r canlyniadau ddim yn ddifrifol i Gwen.

Rolant: Ond dywed, beth oedd yr holl gonsern y pnawn yma?

Dafydd: Yn gyntaf, mi ddaeth Gwen yma, yn drist iawn ynghylch y cwbl. Fe gafodd wybod *just* cyn dwad 'i bod hi i ymddangos o flaen y Senedd fory. Mae'n debyg bod y Warden wedi bod yn gas iawn wrthi neithiwr a'i bod hithau mewn ysbryd 'malio dim dam' wedi rhoi un am un yn ôl iddi. Erbyn heddiw,

²⁶ 'ffrynd' sydd yn y gwreiddiol. 'ffrind' sydd yn nheipysgrif 2634.

²⁷ O'r Saesneg 'conceit', sef rhywun â chanddo feddwl mawr ohono'i hun.

mae Gwen yn difaru ac yn poeni ac yn gwneud 'i hachos yn waeth wrth ddwad yma.

Rolant: Peth naturiol iawn iddi.

Dafydd: Ie, ond wyt ti ddim yn gweld Rolant, os oedd ganddi ryw faint o siawns am gyfiawnder o'r blaen, d'oes ganddi hi ddim rwan, os ydyn nhw wedi ffeindio iddi fod yma.

Rolant: Wyddost ti beth, Dafydd, rwyt ti'n llawer anos dy ddeall nag unrhyw ferch. Neithiwr yn y fan yma, roeddit ti'n sôn am beidio â malio ac yn wfftio'r rhai a fynnai ddiogelwch *smug*. Heddiw dyma chdi dy hun yn pregethu diogelwch.

Dafydd: (*Gan ochneidio*) Ie, fel yna'r ydw i'n gweld pethau heddiw yn fy munudau oer, a rydw i'n siŵr mai teimlad heddiw sy'n iawn. Mi fasa'n well i Gwen pe tasa hi heb fod yma.

Rolant: Beth oedd yr hogan arall yna eisiau?

Dafydd: Yn y fan yna mae'r ddrama'n dechrau – dwad i gyfadde mai hi glicedodd y ffenest wnaeth hi.

Rolant: Y nefoedd fawr!

Dafydd: Ffaith i ti. Mae o'n swnio'r un fath â darlun y *Cinema*, ac mae'r hyn oedd wrth wraidd y weithred lawn mor ddramatig.

Rolant: Cenfigen, mi wranta.

Dafydd: Ie, ond nid yn unig genfigen, ond mae'n debyg 'i bod hi mewn cariad efo mi, ac mai yn 'i chynddaredd wedi clywed mor hapus oedden ni ddoe, yr aeth hi i lawr i wneud. Nid peth wedi 'i gynllunio oedd o mae'n amlwg, ond rhywbeth a wnaed ar [gynhyrriad y foment].²⁸

Rolant: Chlywais i 'rioed siwd beth. Pwy fasa'n meddwl y baset ti, Dafydd Edwards, pregethwr parchus efo'r Anghudffurfwyr, wedi dy landio mewn... mewn drama mor ogoneddus rhwng ddoe a heddiw?

Dafydd: (*Yn ddifrifol*) Rwan Rolant, nid amser i gellwair ydy hi. Rydw i wedi gwneud fy meddwl i fyny i ofyn i Gwen fy mhriodi fi os digwydd hi gael y sac.

Rolant: Hylo, beth sydd wedi gwneud iti newid dy feddwl mor sydyn?

²⁸ Ni chynigir dim yn y gwreiddiol i ddilyn 'ar'. Ond ceir 'gynhyrriad y foment' yn nheipysgrif 2634.

- Dafydd: Y tro ofnadwy yma sydd wedi 'i wneud efo Gwen. Mi aeth oddi yma fel peth wedi 'i pharlusu heb ddweud “Nos dawch” na dim, er 'i bod hi'n g'lonnog iawn cyn i'r hogan arall yna ddwad i mewn. Anghofia i byth mo'i golwg hi.
- Rolant: Hynny ydy, rwyt ti'n mynd i gynnig²⁹ dy hun iddi am fod gen ti biti drosti. Cofia bod yn rhaid iti gael rhywbeth cryfach na thosturi at ferch i fyw'n weddol ddedwydd efo hi am tua hanner can mlynedd.
- Dafydd: Wrth dosturio wrth Gwen heno, rydw i wedi gweld fy mod i'n 'i charu hi mewn gwirionedd.
- Rolant: Ddigon i fentro Eglwys Biwritanaidd efo hi?
- Dafydd: Digon i fentro Eglwys Biwritanaidd efo hi. Os daw hi i bwynt, d'egwyddor di i mi – yr eglwys gaiff fynd.
- Rolant: Wel gobeithio dy fod ti'n ddigon siŵr.
- Dafydd: (Gan roi slap i Rolant) Fu mi 'rioed yn siwrach.

LLEN

ACT III

GOLYGFA: Cegin orau chwarelwr. Gellir defnyddio'r un dodrefn ag yn Act II ond newid eu safle ychydig. Tynner y ddesg allan, ac yn ei lle dodder dresel a llestri arni neu gwpwrdd gwydr. Mae darluniau gwahanol ar y mur – darluniau Gladstone a Lloyd George neu Tom Ellis³⁰ a phregethwr neu ddau. Mae bwrdd wedi ei osod ar gyfer³¹ pryd o fwyd – bwyd i Gwen a ddisgwylir yn ôl o'r Coleg. Mae lle tân yn yr un man ag o'r blaen. Gosoder y lleithig ar letraws³², fel bo'r sawl a eistedd arni yn hanner wynebu'r gynulleidfa. Pan â'r llen i fyny, daw Rhisiart Pritchard a Sara Pritchard, brawd a chwaer, tad a modryb Gwen i

²⁹ 'gynnyg' sydd yn y gwreiddiol ac yn nheipysgrif 2634.

³⁰ W. E. Gladstone (1809-1898), Prif Weinidog Prydain Fawr 1868-74, 1880-85, 1886 ac 1892-94. David Lloyd George (1863-1945), Cymro a Phrif Weinidog Prydain Fawr 1916-22 sef cyfnod y Rhyfel Mawr. Tom Ellis (1859 – 1899) mab fferm Cynlas yn ardal Cefnddwysarn. Daeth yn aelod seneddol Rhyddfrydol dros Feirionnydd ac roedd yn un o gyfoedion Lloyd George ac yn un o arweinwyr mudiad Cymru Fydd yn y 1890au. Roedd darogan gyrfa seneddol ddisglair iddo ond bu farw'n ifanc o'r diciâu. Mae cofeb iddo ar Stryd Fawr y Bala.

³¹ 'gyfair' sydd yn y gwreiddiol. Nid yw'r cyfarwyddyd yn ymddangos yn nheipysgrif 2634.

³² Ar draws, o gornel i gornel. *Diagonal* yn y Saesneg.

mewn i'r ystafell – y ddau yn gwisgo eu dillad noson waith (dillad diwetydd y De). Dynes tua hanner cant yw Sara Pritchard – dynes dal, landeg, syth ei cherddediad. Mae ganddi wyneb cryf dynes wedi dyfod trwy lawer o bethau. Ymddengys yn fodlon, fel un wedi gweld ffolineb llawer o'r byd ac yn gallu chwerthin am ben ei ffolineb. Mae golwg ychydig yn bryderus arni heno. Dyn rhyw bedair neu bum mlynedd yn hŷn yw ei brawd. Mae ganddo yntau wyneb cryf sydd yn llawen ar adegau cyffredin. Heno mae golwg brudd arno. Cafodd ergyd drom. Tuedda i wargrymu.

AMSER: Tua saith o'r gloch Nos Fawrth ar ôl Act II.

Rhisiart: (*Wrth ddyfod i mewn, er mwyn dweud rhywbeth*) Pryd wyt ti'n dweud y daeth y llythyr yna?

Sara: Ond efo'r post y bore yma.

(*Eisteddant mewn manau cyfleus i'w gweled gan y gynulleidfa*)

Sara: Ydy, ond rhaid iti gofio nad ydy'r byd ddim ar ben wedi i rywun gael ei droi o'r Coleg. Diolch 'i bod hi'n dwad adre'n fyw. Fydd neb yn cofio am hyn ymhen mis.

Rhisiart: Mi gofia i amdano fo byth.

Sara: Na, mi ddoi drosto fo'n³³ gynt nag wyt ti'n i feddwl.

Rhisiart: Na, dwi ddim yn meddwl. Ac mi fydd arna i gywilydd codi mhen tua'r chwarel yna. Rydw i wedi bod yn sôn cymaint am Gwen. Mi *gan* hwyl braf am y mhen i rwan.

Sara: Dim ffasiwn beth. Wnaiff neb iawn chwerthin am dy ben di. Mi gei gydymdeimlad y rhan fwya.

Rhisiart: Ac mi fydd hwnnw fel halen ar friw. Ond dwad i mi mewn³⁴ gwirionedd, beth wnaeth Gwen i haeddu'r ffasiwn beth?

Sara: Dim ond peth wnes ti a minnau ugeiniau o weithiau cyn bod yn 'i hoed hi – mynd allan i garu.

³³ 'drost fo'n' sydd yn y gwreiddiol. 'drosto fo'n' sydd yn nheipysgrif 2634.

³⁴ 'dwad i mi gwirionedd' sydd yn y gwreiddiol. 'dwad i mi mewn gwirionedd' yn nheipysgrif 2634.

- Rhisiart: Mae'n rhaid ei bod hi wedi gwneud rhywbeth gwaeth na hynny.
- Sara: (*Yn ddiamynedd*) Naddo, naddo, ond dyna'u rheolau nhw.
- Rhisiart: Beth ydy 'u rheolau nhw felly?
- Sara: Wel, dydyn nhw ddim i fynd allan efo hogiau ac aros allan yn hwyr a phethau felly.
- Rhisiart: Pwy ydy'r hogyn yma mae Gwen yn 'i gyboli efo fo? Wyddost ti rywbeth amdano fo?
- Gwen: Ddim mwy nag a welaist ti yn y llythyr, mai pregethwr yn y Coleg Diwynyddol ydi o.
- Rhisiart: Ac mae o am gynnig 'i phriodi hi yn ôl y llythyr yna, ond tydi o?
- Sara: Ydy, mae'n debyg 'i fod o'n gorffen yn y Coleg y flwyddyn yma, ac mae ganddo fo eglwys yn barod. Mae o am ddwad yma rywdro mae'n debyg.
- Rhisiart: Sut na fasa *fo'n* cael 'i droi o'r Coleg?
- Sara: Dwn i ddim, ond yn y Coleg Diwynyddol y mae o rwan, ac nid mewn Hostel mae o'n byw. Felly mae'n siŵr nad ydy 'u rheolau nhw ddim mor gaeth.
- Rhisiart: Ac i feddwl 'i bod hi'n priodi rwan cyn bod yn un ar hugain³⁵ wedi'r holl gostau sydd wedi bod efo hi.
- Sara: Wnaiff addysg ddim drwg iddi hi ar ôl iddi briodi. A pheth arall, d'ydy ddim yn rhaid iddi briodi.
- Rhisiart: Beth arall fedr hi wneud?
- Sara: Mi fedr chwilio am le.
- Rhisiart: Mynd i weini ar ôl gwario'r holl arian ar 'i haddysg hi!
- Sara: Rhisiart bach nid gweini ydy pob chwilio am le. Mae yna filoedd o bethau i gael i' wneud i ferched rwan heblaw gweini a thitsio.
- Rhisiart: Fedra hi ddim mynd yn wniadreg na gwneud boneti³⁶ a does arna i ddim eisiau 'i gweld hi'n mynd i siop.

³⁵ 'unarhugain' a geir yn y gwreiddiol ac yn nheipysgrif 2634.

- Sara: D'ydych chi ddim yn amhosibl iddi gael lle'n athrawes mewn ysgol elfennol wrth gwrs.
- Rhisiart: Ond chaiff hi ddim dysgu mewn Ysgol Ganolraddol heb B.A.³⁷
- Sara: Nid Ysgolion Canolraddol sy'n dal y byd wrth 'i gilydd, wedi'r cwbl, ac mae bron gystal cyflog i'w gael yn y lleill rwan.
- Rhisiart: (*Yn fwy calonnog*) Oes yna? (*Yn brudd eto*) Ond wedyn, mi'r oeddwn i wedi rhoi 'mryd ar i Gwen gael 'i B.A. Hi fasa'r gynta o'r lle yma i' chael hi. Rydw i wedi gweithio 'mysedd yn bytiau yn y chwarel yna i roi ysgol iddi. Ac i beth meddi di?
- Sara: Rhaid iti gofio wedyn Rhisiart mai nid darn o bren anfonwyd i'r Coleg. Mi anfonaist hogan â menydd yno, ac oni bai am hynny mi gostiai dipyn rhagor iti i' chadw hi, achos mae ganddi ysgoloriaeth go lew.
- Rhisiart: Oes, oni bai am hynny, faswn i ddim yn medru 'i chadw hi o gwbl yno. Ond mae arni eisiau dillad, ac mae 'nghyflog innau'n fychan, pryd tasa hi'n ennill, mi allsa gadw 'i hun, beth bynnag. A dyma'r hogiau yn dwad eto. Mi faswn yn licio'u gweld nhwythau yn cael rhywbeth gwell na gweithio yn y chwarel. Mi ddylasai Gwen fod wedi meddwl mwy am 'i theulu a llai am hogiau.
- Sara: Ac mi ddylasai pobl y Coleg yna fod wedi meddwl mwy am 'i theulu hi. Pa sens sydd mewn troi hogan o'r Coleg am ddim ond caru? Ac mi fentra i fod pob un trodd hi allan wedi caru digon yn 'i ddydd ond 'i bod nhw wedi anghofio.
- Rhisiart: Ond dydy hynny'n cyfiawnhau dim ar Gwen, ac mae hi'n dweud 'i hun yn y llythyr, bod dynes y Coleg yna – beth maen nhw'n 'i galw hi? – am 'i lladd hi o hyd am 'i bod hi'n esgeuluso'i gwaith.
- Sara: Rhyw hen ferch ydyw honno, a Saesnes at hynny, ac yn gwybod dim faint mae o'n gostio i weithiwr roi 'i blant drwy'r ysgolion.
- Rhisiart: Ond wedyn Sara, gan fod Gwen yn gwybod y rheolau fe ddylasai gadw atyn nhw. Dwad i mi, doedd hi ddim yn lolian efo hogiau pan oedd hi'n yr Ysgol Ganolraddol, oedd hi?

³⁶ Hefgorwyd '(dull ei fam sydd gan Rhisiart Prisiart o siarad ac o feddwl)'

³⁷ Bachelor of Arts o'r Lladin *artium baccalaureus*. Gradd a ddynodir i israddedigion y Dyniaethau mewn Prifysgol.

Sara: Nag oedd. Mi'r oedd hi'n gweithio bob munud o'i bywyd yr adeg honno, Sul, gŵyl a gwaith. Mae'n debyg 'i bod wedi gweld gwahaniaeth wedi mynd i'r Coleg, a pheth arall, mae hi yn yr oed y bydd pawb yn caru.

Rhisiart: (*Gan feddwl am ei boen*) Ts, ts, ts.

Sara: (*Fel petai hi'n clywed sŵn yn y gegin bach*) Dyna hi, Gwen wedi dwad. (*Rhydd ei gweu o'r neilltu a chyfyd i gychwyn allan.*) Rwan, Rhisiart, cofia di na ddwedi di ddim byd cas wrthi hi pan ddaw hi i mewn. Peth ofnadwy o anodd ydy dwad adre ar ôl bod i ffwrdd bob amser, dwad adra ar ôl priodi ar ôl marw rhywun neu ddwad adre ar achlysur fel hyn, pan na wyddost ti ddim p'run ai croeso ai cic sy'n dy ddisgwyl di.

Rhisiart: Wel nid croeso fydd hi, beth bynnag, ac nid cic chwaith.

Sara: Ie, ond gofala di na wnei di bethau yn chwithig iddi ar y dechrau. Y chwithigrwydd yna ydy'r peth ofnadwy pan mae rhywun yn dwad adre. Unwaith y daw rhywun dros ben hwnnw, mi fydd pethau'n iawn. Gollyngwch faint fynnoch chi o stêm wedyn ych dau.

Rhisiart: Mae'n anodd iawn i neb fod yn naturiol pan mae cymaint o boen ar ei feddwl o.
(*Â Sara allan. Wedi iddi fynd, sych Rhisiart Pritchard un deigr yn gyflym gyda'i hances poced, a thery'r hances poced yn ei hól ar unwaith fel petai arno ofn i neb ei weld yn colli deigr yn. Daw Sara'n ôl a Gwen gyda hi. Mae Gwen wedi diosg ei chot a'i het. Edrych yn brudd ac yn wael. Edrych Sara fel petai'n methu [â] gwybod beth i'w wneud.*)

Rhisiart: (*Yn drwsgl, heb ysgwyd llaw na dim.*) Sut wyt ti heno Gwen?

Gwen: Go lew, 'nhad. Sut ydych chi?

Rhisiart: Go lew. Pryd cyrhaeddais ti?

Gwen: Rwan, efo'r trê saith.

Sara: Well i chi gymryd tamaid o fwyd Gwen. Mi gosodais o yn y fan yma rhag ofn y buasai rhywun efo chi.

Gwen: Na, ddim diolch, modryb. Fedra i ddim bwyta rwan. Mi fwytis lot cyn cychwyn o Fryn Afon. Mi fydd yn well gen i gael peth cyn mynd i' ngwely.

(*Eistedd Gwen a'i modryb mewn manau cyfleus. Seibiant chwithig.*)

Rhisiart: Ac mi rwyt ti wedi gadael y Coleg, Gwen.

Gwen: (*Gan ochneidio*) Ydw nhad.

Rhisiart: A dwyt ti ddim yn meddwl bod siawns iti gael mynd yn ôl?

Gwen: Nag oes. Mae o'n derfynol.

(*Ochneidia Rhisiart Pritchard*)

Rhisiart: Dadru imi 'rioed feddwl y basat ti'n dwad â'r gwarth yma am fy mhen i Gwen.

Gwen: Os oes yna warth o gwbl, fydd o ddim ar ych pen chi 'nhad. Ar fy mhen i y bydd o, neu'n hytrach, ar ben pobl y Coleg yna.

Sara: Mi fydd lot ohono ar ben yr hen hogan yna – be di 'i henw hi? Aeth i lawr i glicedu'r ffenest.

Gwen: Tw, dydy hi ddim gwerth sylw. Mae'n wir mai hi fu'r achos imi gael fy nal y tro hwn, ond mae'n siŵr mai wedi fy nal mewn rhyw ffordd arall y baswn i cyn y diwedd.

Rhisiart: Beth wyt ti'n meddwl am 'i wneud rwan?

Gwen: (*Yn brudd*) Dwn i ddim. Mae Dafydd Edwards yn dwad yma heno i ofyn am ych caniatad chi i fy mhriodi fi.

Rhisiart: Oes arnat ti dy hun eisiau priodi?

Gwen: Dwn i ddim, dydwi ddim wedi gwneud fy meddwl i fyny eto.

Rhisiart: Wyt ti'n meddwl y byddi di'n hapus efo fo?

Gwen: Mae'n debyg y bydda i cyn hapused ag y mae rhan fwyaf o bobl ar ôl priodi, ond nid hynny sy'n mynd i wneud i mi benderfynu.³⁸

Rhisiart: Wel, gofala beth wyt ti'n 'i wneud³⁹ beth bynnag, achos fedri di byth ddatod y cwlwm yna, unwaith y bydd o wedi 'i roi.

(*Â ias o ddychryn trwy Gwen*)

³⁸ 'penderfyni' sydd yn y gwreiddiol. 'penderfynu' sydd yn nheipysgrif 2634.

³⁹ 'gwneud' sydd yn y gwreiddiol. 'wneud' sydd yn nheipysgrif 2634.

- Gwen: Wrth gwrs, mae yna lawer o bethau alla i wneud heblaw priodi. Mae cyflog da i' gael am weini rwan.
- Rhisiart: Mynd i weini ar ôl cael cymaint o ysgol!
- Gwen: Wel, mi all genod gweini wneud efo tipyn o addysg.
- Rhisiart: Nonsens. Does ar neb eisiau addysg i olchi llestri a sgwrio lloriau.
- Sara: Wnaiff tipyn o addysg [ddim] drwg⁴⁰ i neb tasa rhywun yn gwneud dim ond bwydo moch.
- Rhisiart: Does arna i ddim eisiau gweld Gwen yn mynd i weini hyd yn oed pe tasa hi heb gael diwrnod o addysg. Gweini laddodd dy fam. Pe tasa hi wedi cario llai o fwyd moch a chodi llai o feichiau trymion mi fasa'n fyw heddiw. (*Egyr Gwen ei llygaid*) Ac roeddwn i wedi meddwl gweld 'i merch hi'n cael 'i B.A. a chael lle mewn Ysgol Ganolraddol.
- Gwen: Mi fysa'n llawn cystal gen i fynd i weini a mynd yn athrawes i Ysgol Ganolraddol.
- Rhisiart: Wyt ti'n colli arnat ti dy hun dywed? Wyt ti'n meddwl cymharu gweithio caled a chyflog bach efo gwaith ysgafn a chyflog da?
- Gwen: Ie mor dda, nes mae nhw'n methu i' adael o i briodi.
- Sara: Mae nhw'n dweud bod athrawon Ysgolion Canolraddol yn gweithio ddigon caled.
- Gwen: Ydyn, maen nhw, ac maen nhw'n blino ac yn mynd i edrych yn hen cyn 'i hamser wrth dreio stwffio pethau i bennau plant dwl.
- Rhisiart: Blino. By – bo! Dydy titsio ddim yn waith.
- Gwen: Ta⁴¹ waeth am hynny, mae yna ddigon o bethau diddorol i'w gwneud rhwng gweini a thitsio.
- Sara: Ugeiniau o bethau.

⁴⁰ 'drwg' sydd yn y gwreiddiol. 'ddrwg' sydd yn nheipysgrif 2634.

⁴¹ 'Tae' sydd yn y gwreiddiol. 'Ta' yn nheipysgrif 2634.

Rhisiart: Ie, ond petaet ti⁴² wedi cael dy B.A., mi gaet⁴³ le yn rhywle. Daiff neb i dy ben di i ddwyn d'addysg di oddi yno.

Gwen: Aiff, digon o bethau. Pwy sy'n cofio hanner y pethau mae o wedi ei ddysgu yn y Coleg ond y poli parots? Mi fedra rheiny adrodd pethau wrth y llath fel dyn gwneud sosej. Y peth sydd arnoch chi eisiau 'i ddweud ydyw, nad aiff neb i mhen i i nôl fy mennydd i.

Rhisiart: Ella, wir.

Gwen: Felly, ydych chi'n gweld, mi fedra i fynd drwy'r byd efo fy mennydd – peth na fedr pobl mo'i wneud efo addysg.

Rhisiart: Mi'r wyt ti wedi dysgu pethau rhyfedd iawn tua'r Coleg yna, beth bynnag. Ddaru mi 'rioed feddwl mai fel hyn y baset ti'n gorffen d'yrfa. R'oeddwn i wedi edrych ymlaen bob dydd wrth weithio ar ben twll mawr y chwarel yna – at y diwrnod y doet⁴⁴ ti allan o'r Coleg â B.A. ar ôl dy enw, - y B.A. gynta o'r ardal yma, ond dyma chdi'n dwad nid yn unig heb dy B.A. ond heb dy enw da.

(Â Rhisiart Prisiart allan yn brudd. Wedi iddo fynd dechreua Gwen wylo'n ddistaw.)

Sara: Dyna fo, Gwen, mi ddaw pethau'n well eto.

Gwen: Ydych chi'n gweld, modryb, rwan yr ydw i'n gweld beth mae fy nhroi o'r Coleg yn 'i olygu i 'nhad.⁴⁵

Sara: Ydy, mae o'n golygu lot iddo fo. Roedd o wedi rhoi 'i fryd ar i chi gael eich B.A. Yr oedd o'n cyfri'r dyddiau nes doech chi allan o'r Coleg.

Gwen: Ie, dyma beth sy'n dwad o dlodi. Rydw i wedi dysgu mwy ers Nos Sadwrn na ddysgais i ar hyd f'oes cynt.

Sara: Ym mha ffordd?

Gwen: Yn un peth mae yna ormod o siarad nonsens am dlodi ac arian. Rydym ni wedi ein dysgu fod tlodi'n beth i ymfalchio ynddo ac arian yn beth i'w ddirmygu – lol botes.

⁴² 'petau't ti' sydd yn y gwreiddiol. 'petai' ti' yn nheipysgrif 2634.

⁴³ 'gaut' sydd yn y gwreiddiol. 'gaet' sydd yn nheipysgrif 2634.

⁴⁴ 'dout' sydd yn y gwreiddiol. 'doet' sydd yn nheipysgrif 2634.

⁴⁵ 'rwan yr ydw i'n gweld beth mae fy XXXXXXXX o'r Coleg yn i olygi i nhad' sydd yn y gwreiddiol. 'rwan yr ydw i'n gweld beth mae fy nhroi o'r Coleg yn i olygu i nhad' sydd yn nheipysgrif 2634.

- Sara: Wir ddaru mi 'rioed ddirmygu arian os byddan' nhw i'w cael.
- Gwen: Na, mae pawb ohonom ni'n licio 'i cael nhw, ond bod pobl gefnog yn licio'n dysgu ni o hyd fod mwy o rinwedd mewn bod yn dlawd. Meddyliwch gymaint o storïau sydd am y bachgen bach tlawd a ddaeth yn enwog neu'n gyfoethog – yr un peth ydi o – nid mewn llyfrau tylwyth teg ydwi'n feddwl, ond ym mhapurau newydd heddiw.
- Sara: Ond beth sydd a wnelo hyn â chi, Gwen?
- Gwen: Pe tasa fy nhaid heb fod mor dlawd, mi fasa 'nhad wedi cael tipyn o addysg a gweld y byd, ac mi fasa'n gweld mai peth i'w gael er 'i fwyn 'i hun ydy addysg.
- Sara: Ie, ond rhaid i chi beidio a beio'ch tad Gwen, am edrych ar bethau fel yna. Dydy o ddim wedi cael addysg i weld pethau yn y golau yna.
- Gwen: Na, dyna sylweddolais i rwan wrth iddo fynd allan. Mae yna hud o gwmpas y llythrennod B.A. iddo fo.
- Sara: Oes. Y gwaetha ydy fod gan bobl dlawd dalent wyddoch chi. Mae o wedi pasio honno i chi, ac mae o mor falch eich bod chi'n cael siawns i ddatblygu'ch talent a phe tasa fo'i hun yn 'i chael hi.
- Gwen: Ia, dyna ydy trasiedi'r peth. Mae o wedi aberthu i roi addysg i mi ac mae'r addysg honno wedi dangos imi mai ffolineb yw'r aberth, neu'r hyn sydd yn symbylu'r aberth. Mae addysg yn dechrau yn y pen *wrong*, modryb. Y 'nhad ddylai gael 'i ddysgu gynta beth ydy addysg.
- Sara: Ie, ond er mwyn gwneud hynny mi fasa'n rhaid cael arian.
- Gwen: Yn hollol, gelen ddeuben yw hi o hyd.
- Sara: Ie, heb i rywun aberthu.
- Gwen: Sut ydach chi'n 'i feddwl?
- Sara: Mae'n rhaid dysgu'r to sy'n codi, ac er mwyn gwneud hynny, rhaid bod yn greulon wrth eu rhieni, pobl fel eich tad.
- Gwen: Peth go drist hefyd ynte?
- Sara: Ie ond fel yna mae bywyd, mae rhywun yn gorfod aberthu i deimladau o hyd.

- Gwen: Ydy, ond mi all yr ochr arall fynd yn rhy greulon. Does dim eisiau inni beidio a deall ein gilydd. Petawn i wedi ceisio deall 'nhad yn well, mi faswn wedi aberthu tipyn bach i gadw rheolau'r Coleg.
- Sara: Ella, ond mi'r oeddech chi'n bell o cartre ac ychydig iawn fedrwn ni ddeall ar bobl sy'n bell oddi wrthom ni – “allan o olwg allan o feddwl”.
- Gwen: A wnaeth pobl y Coleg yna ddim treio neall innau, neu mi fasan wedi rhoi ail gynnig imi.
- Sara: Oeddwn nhw'n gas iawn?
- Gwen: Na ddim mor gas, ond mor berffaith. Mi fasa'n well gen i farw na wynebu Senedd y Coleg yna eto.
- Sara: Doedd gan yr un ohonyn nhw gydymdeimlad?
- Gwen: Un neu ddau. Am y gweddill, mi fasech yn meddwl na welson nhw 'rioed ferch, heb sôn am garu un, ac mae gan y rhan fwya ohonyn nhw lot o blant. Hen lanc oedd un o'r ychydig sticiodd drosta i.
- Sara: (*Dan wenu*) Dwi'n synnu dim.
- Gwen: Ond wedyn hen ferch yw Warden y Coleg. Hi oedd achos y drwg. Mi'r oedd hi wedi penderfynu 'mod i'n griminal neu rywbeth gwaeth.
- Sara: Wel hen ferch ydw innau, petai hi'n mynd i hynny.
- Gwen: Ie, ond mi gymraf fy llw nad ydych chi ddim yn hen ferch am yr un rheswm â hi. (*Newid ei thôn*) Rydw i wedi bod yn meddwl llawer yn ddiweddar, modryb, pam ydych chi heb briodi, nid am na chawsoch gynnig, rwy'n siŵr?
- Sara: Wel, naci; mae pob dynes wedi cael cynnig priodi rhywun rywdro, mi greda i.
- Gwen: Dwn i ddim am hynny. Ond mi'r oedd dynion eich oes chi yn ddall iawn i'ch pasio chi heibio.
- Sara: Wel mi'r oedd lot yn gwneud, ac ychydig yn peidio.
- Gwen: Fuoch chi'n caru efo llawer, modryb Sara, petai gen i ryw hawl i ofyn?
- Sara: Efo rhyw ddau neu dri.
- Gwen: Fuoch chi'n meddwl priodi?

- Sara: Mae pob dynes yn meddwl priodi rywdro.
- Gwen: Ie, ond buoch chi'n meddwl priodi efo rhywun neulltuol⁴⁶ o'r ddau neu dri yna?
- Sara: Do, mi fŷm ar fin priodi efo un ohonyn nhw.
- Gwen: Beth ddaeth rhyngoch chi? Ai ffraeo ddaru chi?
- Sara: Naci. Fel rheol, pan mae pobl yn ffraeo, maen nhw'n dwad yn ffrindiau wedyn; ond gweld rhyw un peth bach wnes i, ac yr oedd hynny'n ddigon i mi benderfynu na fedrwn fyw⁴⁷ efo fo.
- Gwen: Fydda fo'n ormod imi ofyn beth oedd o, modryb? Rydw i'n ofnadwy o ddigwilydd, ond ydach chi'n gweld, heno'r ydw i'n gorfod gwneud un o benderfyniadau mawr fy mywyd.
- Sara: Ydach, mi wn y ngeneth i, ac mi fydda i'n teimlo weithiau 'mod i'n chydig iawn o help i chi. Rydw i'n edrych ar ôl y tŷ yma, ac ar ôl eich dillad chi, a phethau felly, ond rydw i ymhell iawn o fod fel mam i chi.
- Gwen: Rydych chi'n *wrong* yn y fan yna. Rydw i'n medru siarad efo chi yn well nag y baswn i efo mam. Fedra i byth fod yn rhydd i siarad am bethau fel hyn efo 'mherthnasau agosa. Mae nhad fel dyn dieithr i mi, a faswn i byth yn medru sôn am faterion caru efo mam petasa hi'n fyw, dwi'n siŵr.
- Sara: Os oes arnoch chi eisiau gwybod beth ddaeth rhyngo i a 'nghariad, dyma fo. Mi chwerthinwch pan glywch chi. Wedi inni fod yn caru am hir iawn mi ffeindiais nad oedd o ddim yn fodlon iawn os baswn i'n colli cyfarfod gweddi neu seiat. Roedd â'i lygad ar y sêt fawr, ydych chi'n gweld.
- Gwen: Gafodd o rywbeth heblaw rhoi 'i lygad arni?
- Sara: Do, mae o'n eistedd yn gysurus ynddi heddiw, yn edmygedd ei wraig a'i blant.
- Gwen: Oedd, yr oedd o'n edrych yn beth bychan, ond mae'n debyg 'i fod o'n beth mawr i chi.

⁴⁶ 'neulltuol' sydd yn y gwreiddiol. 'neilltuol' sydd yn nheipysgrif 2634.

⁴⁷ 'byw' sydd yn y gwreiddiol. 'fyw' sydd yn nheipysgrif 2634.

- Sara: Cofiwch dydw i ddim yn tosturio wrthyf fy hun heddiw. Rydw i'n meddwl mor lwcus y bŵm i ffeindio hynny cyn priodi. Mae rhai yn ffendio pethau ar ôl priodi.
- Gwen: Ac wrth gwrs, dydy rhai byth yn ffeindio na chynt na chwedyn.
- Sara: Nag ydyw, mae 'i bywyd nhw'n ddi-ddarganfyddiad o'r dechrau i'r diwedd.
- Gwen: A chawsoch chi ddim siawns i briodi wedyn, mi wn, achos mi'r ydych wedi aberthu'ch bywyd er mwyn fy nhad a ni'r plant.
- Sara: Peidiwch â chamgymryd, nid aberthu 'mywyd er mwyn eich tad ddaru mi. Petawn i wedi gweld rhywun y byddai'n werth gen i rannu mywyd efo fo, mi gawsai eich tad fynd. Ond ddeuthum i ddim ar draws neb.
- Gwen: Ella pe tasech chi heb aros efo 'nhad, y basech chi wedi dwad ar draws rhywun gwerth i chi rannu'ch bywyd efo fo.
- Sara: Ella, ac ella'u bod nhw wedi 'mhasio innau lawer gwaith yn y lle yma. Mater o le ydyw priodas a chyfleustra.
- Gwen: Ydw i'n gweld. Petaswn i heb fod yn y Coleg, faswn i ddim wedi cyfarfod Dafydd.
- Sara: A fasa yntau ddim wedi'ch cyfarfod chithau, a hefyd mi allasech fod wedi pasio'ch gilydd. A rwan rydw i'n teimlo y dylwn roi gair o gyngor i chi; peidiwch chi â phriodi os nad ydych chi'n siŵr eich bod chi'n caru'r bachgen yn ddigon i fyw efo fo am oes go faith. Faint sydd ers pan ydych chi'n 'i nabod o?
- Gwen: Tua thri mis.
- Sara: Wrth gwrs, d'oes a wnelo amser ddim ag o. Mi ellwch nabod rhai pobl tu chwyneb allan mewn tri mis, ac mi gymerai dragwyddoldeb i chi nabod y lleill. Hm. Chi ŵyr orau Gwen. Chi raid benderfynu a chi raid fyw efo fo. Un dda ydw i i gynghori! (*Chwardd.*)
- Gwen: Dyna ydw innau'n deimlo, modryb, na fedr neb ond y person ei hun benderfynu dim byd dan haul. Yr unig beth sydd, mod i'n ifanc ac heb weld dim o'r byd, ond dydy hynny ddim yn dweud bod yn ifanc yn *wrong* bob amser.
- Sara: Na bod yn hen yn iawn.

Gwen: Piti na fasa rhyw dylwyth teg bach yn penderfynu pob dim pwysig mewn bywyd inni'n te?

Sara: Petai o'n gwneud, cwestiwn wnaem ni wrando.

Gwen: Piti bo priodi'n beth mor bwysig!

Sara: Dydy o ddim i bawb. I bobl gyfoethog, dydy priodi'n ddim byd ond rhywbeth fel mynd i gonsert. Rhywbeth sy'n digwydd ymhlith pethau eraill.

Gwen: Ie'n te?

Sara: Ac mae ysgar yr un fath. Ond i bobl dlawd, mae priodi'n beth pwysig. Mae'n rhaid iddyn nhw dreio bod yn hapus o achos bod anhapusrwydd yn costio gormod. Fedran *nhw* ddim fforddio mynd ar ôl eu dyheadau. Mater o arian yw hi efo hyn, eto.

Gwen: Mae'n well gen i fod yn dlawd felly.

Sara: Wrth gwrs mae'n dibynnu beth ydych chi'n feddwl wrth hapusrwydd. Ond rhaid imi fynd i roi swper i'r hogiau iddyn nhw gael mynd i'w gwelyau.

(Cyfyd i gychwyn allan)

Gwen: Mi ddylai Dafydd fod yma bellach.

Sara: Pob lwc, Gwen. Cofiwch beidio â gwneud peth y byddwch chi'n difaru amdano.

Gwen: Modryb Sara. Un cwestiwn eto cyn i chi fynd. Oedd mam yn glws iawn pan oedd hi'n ifanc?

Sara: Roedd hi fel pictiwr.

Gwen: Oedd hi wedi gwirioni am nhad?

Sara: Oedd. Ond pam ydych chi'n gofyn y pethau yma rwan?

Gwen: Dim, ond fy mod i'n licio holi. Oedd nhad a mam yn hapus ar ôl priodi?

Sara: I bob golwg, mi'r oeddau nhw beth bynnag. Ond chafodd eich mam fawr o iechyd.

*(Â Sara allan ac â Gwen i syllu ar ddarlun o'i mam sydd ar y silff ben tân.
Pan mae hi fel hyn daw Dafydd Edwards i mewn efo'i thad.)*

- Rhisiart: *(Wrth ddyfod i mewn)* Ydych chi'n mynd yn ôl heno, Mr. Edwards?
- Dafydd: Na fedra i ddim. Ond 'rydw i wedi trefnu i aros gyda ffrindiau imi – wel perthnasau pell mewn gwirionedd- yn y pentre. *(Wrth Gwen)* Sut mae hi erbyn hyn?
- Gwen: Go lew.
- Rhisiart: *(Wrth Dafydd)* Well i chi gymryd cadair.
(Eistedd Dafydd a chychwyn Rhisiart Pritchard allan.)
- Gwen: Ydych chi ddim am aros nhad i gael sgwrs efo Dafydd?
- Rhisiart: Rydym ni wedi cael sgwrs yn y gegin bach rwan, tra roeddit ti a dy fodryb yn siarad.
- Gwen: *(Wrth Dafydd)* O trwy'r cefn y deuthoch⁴⁸ chi i mewn felly?
- Rhisiart: Ie, mi'r oeddwn i'n digwydd sefyll â 'mhwysau ar y llidiart pan ddaeth Mr. Edwards. Wel rydw i am fynd. Does arnoch chi ddim eisiau dim o fy help i.
(Â allan)
- Gwen: Well i chi gael paned o de. Mae modryb wedi ei osod ar eich cyfer chi.
- Dafydd: Mae'n well gen i gael cusan yn gyntaf. *(Cusana hi'n awchus, ond nid yw Gwen mor frwdfrydig.)* Ydych chi ddim yn falch o ngweld i Gwen?
- Gwen: Ydw, wrth gwrs, ond mae rhywun yn fwy swil gartre, neu mi fydda i beth bynnag. *(Try'r sgwrs.)* Beth am fwyd? Mi a i i nol te rwan. *(Â allan i nôl y tebot a'r sandwiches. Tra mae hi allan, edrych Dafydd ar lun ei mam ar y silff ben tân. Daw Gwen yn ôl gyda hambwrdd &c., a gesyd hwynt ar y bwrdd.)*
- Dafydd: Llun eich mam ydyw hwn, Gwen?
- Gwen: Ie.
- Dafydd: Rydych chi'n od o debyg iddi.

⁴⁸ 'ddeuthoch' sydd yn y gwreiddiol. 'deuthoch' sydd yn nheipysgrif 2634.

- Gwen: Felly mae pawb yn dweud.
- Dafydd: [D]ydych chi ddim yn cofio llawer amdani mi wn. (*Eisteddant i lawr i fwyta. Twallt Gwen y te &c. Siaradant wrth y bwrdd am dipyn. Yna wedi gorffen bwyta ânt i eistedd ar y lleithig.*)
- Gwen: Ydw, mae gen i go' plentyn go fawr, ac yr ydw i'n cofio'r hiraeth ar 'i hôl hi'n iawn. Fu hi ddim yn gry iawn o gwbl ar ôl priodi. Mae nhad yn dweud mai gwaith caled pan oedd hi'n gweini oedd achos 'i gwendid hi. Dyna pam oedd o mor awyddus i mi gael rhywbeth gwell na gweini.
- (*Â Dafydd yn synfyfyr*)
- Gwen: Ddarau chi ffeindio'ch ffordd yn iawn?
- Dafydd: Do diolch. Roedd y bobl lle'r ydw i'n aros yn gwybod am yma'n dda. Roedden nhw'n edrych yn bur chwilfrydig wrth imi ofyn.
- Gwen: Oedden, mi wn. Rydw i'n dychmygu ers meintyn faint o ddiddordeb mae'r pentre yma'n gymryd yn f'achos i, ac mor falch y mae'r rhan fwya ohonyn nhw. Hy! (*Yn ddirmygus.*)
- Dafydd: Yr oedd eich tad yn edrych yn brudd iawn pan ddois i ar ei draws o wrth y llidiart.
- Gwen: Ydy, mae o'n sobor o ddigalon.
- Dafydd: Dydy o ddim yn erbyn i chi briodi, nag ydy?
- Gwen: Dwi ddim yn meddwl i fod o o unrhyw wahaniaeth ganddo beth wna i.
- Dafydd: O!
- Gwen: Ydach chi'n gweld, y peth sy'n gwneud nhad yn ddigalon ydy mod i wedi dwad o'r Coleg heb fy B.A.
- Dafydd: Mae'n hawdd deall hynny. Mae hi'n ergyd⁴⁹ fawr iddo fo, gan 'i fod wedi rhoi 'i fryd ar i chi gael eich gradd.

⁴⁹ 'ergid' sydd yn y gwreiddiol. 'ergyd' sydd yn nheipysgrif 2634.

- Gwen: Ydy. Rydw i'n gweld ar ôl dwad adre beth mae fy nhroi i allan o'r Coleg yn 'i olygu iddo fo. Rhaid imi ddweud nad oeddwn i ddim yn gweld cynt neu mi faswn yn fwy gofalus yn y Coleg.
- Dafydd: Ydych chi ddim yn mynd i adael i hynny effeithio dim arnoch chi heno?
- Gwen: O nag ydw. Gan fod y peth wedi digwydd rhaid imi benderfynu beth sydd orau imi i wneud er fy mwyn fy hun a pheidio â gadael i nheimlad i ynglŷn â neb arall ddylanwadu arna i.
- Dafydd: Mae'n dda gen i'ch clywed chi'n siarad mor gall.
- Gwen: (*Mewn gwrthryfel sydyn*) O! Mae pob dim yn *wrong*. Mi ddylech chi a fi fod yn y Coleg, ac yn cael cyfarfod bob tro byddem ni eisiau, ac wedyn cael priodi rywdro yn y dyfodol, gan ein bod ni'n rhoi cymaint o boen i bobl eraill wrth beidio â chael ein gradd. Mi'r oedd arna i hiraeth wrth ymadael y bore yma, a meddwl na chawn i byth fynd i Sosial yn y Coleg eto, nac i'r Côr ar Nos Wener, na chael te bach i fyny yn fy rwm ar ddydd Sul, na mynd i ddarlithoedd. Cofiwch chi, mi'r oeddwn i'n mwynhau ambell ddarlith ar farddoniaeth.
- Dafydd: Mi'r oedd bai mawr ar y Warden a Senedd y Coleg na buasen nhw'n meddwl am eich tad, hyd yn oed os nad oedden nhw'n barod i roi ystyriaeth i chi.
- Gwen: Beth mae amgylchiadau neb yn 'i boeni arnyn nhw? Doeddwn i na nheulu'n ddim byd iddyn nhw. Roedden nhw mor amhersonol a phetawn i'n ferch i filiwnêr. A'r peth sy'n gwneud dyn yn gancar gwyllt ydy 'i bod nhw i gyd yn edrych fel petawn i wedi llofruddio rhywun. R'oedden nhw'n edrych mor gysact ac mor gyfiawn, fel petaen nhw rioed wedi gwneud dim o'i le. A'r Warden (*yn wawdlyd*) yn edrych yn ddifrycheulyd. Roedd o'n frawychus sefyll yn y fan honno ar y carped tew hwnnw, mewn rwm berffaith, o flaen pobl berffaith. Wrth gwrs y ffaith 'i bod nhw i gyd efo'i gilydd oedd yn gwneud iddyn nhw edrych felly. Ar wahân, mae'n siŵr gen i 'i bod nhw'n hen foy's reit glên. Ond roedd pob dim mor sydet, fel bu agos imi chwerthin allan dros bob man. Dim ond un peth fuasai'n gwneud imi fwynhau'r olygfa yna fel un o bethau gorau mywyd.
- Dafydd: Beth fasa hynny?
- Gwen: Bod gen i ddigon o arian i roi clec ar fy mawd arnyn nhw i gyd.
- Dafydd: Ie, arian ydy'r peth pwysicaf yn y byd.
- Gwen: Ydach chi'n dweud hynna?

- Dafydd: Ydw, achos mae gen i ddigon 'chydig ohono i weld 'i werth o.
- Gwen: Dyna *just* beth oedd modryb a finnau'n ddweud cyn i chi ddwad i mewn. Oni bai am brinder arian, fasa'r bicil yma ddim cymaint o brofedigaeth i nhad.
- Dafydd: Un peth ydw i'n synnu ato fo yn yr holl achos ydy, nad ydych chi ddim yn teimlo'n ddig tuag at Annie.
- Gwen: Nag ydw. Plentyn ydy Annie ym mhob ystyr, a gwaith plentyn oedd mynd i lawr i glicedu'r ffenest. Fydd 'i bywyd hi ddim gwerth iddi fyw eto. Achos mae ganddi gydwbybod.
- Dafydd: Ond mae'r weithred yna wedi difetha'ch bywyd chi am byth.
- Gwen: Ydy, cyn belled ag y mae'r Coleg yn y cwestiwn, ond mae o wedi 'gwneud' fy mywyd i mewn ystyr arall.
- Dafydd: Beth ydych chi'n feddwl?
- Gwen: Fedra i byth egluro i chi.
- Dafydd: Cofiwch, wnaeth dyfod acw ddydd Sul ddim lles i chi.
- Gwen: Naddo, fe wnaeth fawr ddrwg, gan fod rhaid i chi gael rhygnu arno. Mi gawsom wybod mod i wedi bod, wrth gwrs. Ond yr oedd yn rhaid imi gael mynd i rywle ac i ble arall yr awn i?
- Dafydd: Ie, wrth gwrs. Ond piti na fasa'n rheswm ni'n drech na'n teimlad ni bob amser.
- Gwen: Ie, piti na fasa fo'r munud yma. Mae fy rheswm i'n dweud mae gwneud y gorau o'r gwaetha ddylwn i, a phenderfynu gweithio'n galed a gwneud iawn am yr hyn wnes i, ond mae nheimlad i'n gwneud imi edrych yn ôl ar yr amser braf ges i yn y Coleg, ac mae gen i biti mawr dros nhad, wrth weld cymaint o ergyd ydw i wedi roi iddo.
- Dafydd: Ie, wel, gan fod y drwg wedi digwydd d'oes dim amdani ond gwneud y gorau o'r gwaetha, a waeth imi dorri'r garw yn fuan nag yn hwyr. Mi wyddoch chi beth yw fy neges i yma heno. Mae'ch tad yn berffaith fodlon inni briodi meddwch chi. Beth ydyw'ch ateb chi, Gwen?

(Gall y ddau fynd i eistedd ar y lleithig yn y fan hon.)

Gwen: Fedra i ddim dweud.

Dafydd: Mae yna amheuaeth yn eich meddwl chi, felly?

Gwen: Oes.

Dafydd: Mi'r ydach chi'n fy ngharu fi o hyd, Gwen?

Gwen: Ydw.

Dafydd: D'ydyw hwnna ddim yn swnio'n angerddol iawn - ddim mor angerddol â nos Sadwrn.

Gwen: Na, yr oedd natur yn ein gwneud ni'n sentimental y pryd hwnnw ac yn ein gosod mewn lliwiau gwahanol, fel mae haul wrth fynd i lawr yn gwneud i dai cyffredin edrych fel plasau.

Dafydd: Ydych chi ddim yn awgrymu mae mynd i lawr yr oedd cariad ni y diwrnod hwnnw?

Gwen: O nag ydw, dydyw'r ffigiwr ddim yn dal yn 'i holl fanylion.

Dafydd: Felly, dydych chi ddim yn meddwl eich bod chi'n fy ngharu i fel yr oeddech chi'r diwrnod hwnnw?

Gwen: Fedra i ddim dweud.

Dafydd: O, Gwen, ydych chi ddim yn cofio'n cariad ni ar ben y boncan honno wrth edrych tua'r môr?

Gwen: Ydw, ond yr ydw i wedi ffeindio peth arall hefyd, fod cariad yn llai barddonol rhwng pedair gwal ystafell.

Dafydd: Pryd ddaru chi ffeindio hynny?

Gwen: Echdoe, yn eich tŷ lodging chi.

Dafydd: Ond mae'n rhaid i gariad fod yn llai barddonol weithiau na'i gilydd. Mae'n rhaid i chi gofio mod i mewn lle cas iawn.

Gwen: Ie, ond mae yna bethau Dafydd – pethau bach ydyn nhw sy'n gwawrio ar eich meddwl chi fel fflach, ac yn y fflach honno yr ydych chi'n gweld mwy mewn eiliad nag a welwch chi mewn pnawn o garu tanbaid ar lan y môr.

- Dafydd: Fedrwch chi ddweud peth welsoch chi?
- Gwen: Na does arna i ddim eisiau dweud. Ond mi welais i ddigon i wybod bod amheuaeth yn fy meddwl a wnaem ni'r tro i'n gilydd yn wŵr a gwraig.
- Dafydd: Amau a fyddwn ni'n hapus, ydych chi'n feddwl?
- Gwen: Naci, achos nid bod yn hapus yw nod ac amcan priodi wedi'r cwbl.
- Dafydd: Beth arall ydy 'i amcan o?
- Gwen: Fedrai i byth ddweud yn iawn – byw gan wybod fedr neb eich diodde chi am cyd o amser, ond y sawl ydych chi wedi ei gael.
- Dafydd: Ac yr oeddech chi'n meddwl y Sul na fedrech chi byth fy niodde fi am ryw hanner can mlynedd?
- Gwen: Na, nid fel yna, meddwl yr oeddwn i, wrth weld cymaint o luniau merched yn eich rwm chi, na fedrech byth fy niodde *i*.
- Dafydd: Gwen bach, mae'n wir fy mod i wedi cyboli efo llawer o genod yn fy nydd, ond yr wyf yn sicr na welais i neb fedrais garu gymaint â chi, ac yr ydw i yn eich caru chi rwan gymaint ag erioed.
- Gwen: D'oes dim byd tebyg i glywed dyn yn dweud 'i fod o'n eich caru'n fwy na neb arall – ond un peth.
- Dafydd: Beth yw hwnnw?
- Gwen: Dal i glywed hynny o hyd.
- Dafydd: Gan yr un person?
- Gwen: Y...wel... mae'n dibynnu...
- Dafydd: Mi wn i mod i wedi meddwl mod i'n caru genethod eraill o dro i dro, ac mi fyddwn i'n meddwl mod i'n caru nhw'n onest, ond mi ffeindiwn yn fuan nad oeddwn i ddim. Ond fŷm i 'rloed yn teimlo tuag at y rheiny fel yr ydw i tuag atoch chi, Gwen. Wyddoch chi roeddwn i'n teimlo pnawn Sul wedi i'r Annie yna ddweud am ei brad tuag atoch chi y medrwn i wneud unrhyw beth er eich mwyn chi.
- Gwen: Roeddech chi newydd wrthod gwneud cymwynas i mi.

Dafydd: Ie, ond eich lles chi oedd gen i mewn golwg, ond mi gwnes hi.

Gwen: Do, wedi imi fynd yn styfnig, ac ella mai felly y basan ni ar ôl priodi.

Dafydd: Dwi ddim yn meddwl. Mi deimlais i rywbeth wrth i chi fynd allan pnawn Sul na theimlais i rioed o'r blaen.

Gwen: Tosturi drosto i?

Dafydd: Efallai mai tosturi ddangosodd i mi faint oeddwn i yn eich caru chi, ond nid tosturi oedd y peth i hun, yr ydw i'n sicr o hynny.

Gwen: Mi fyddwch wedi newid eich meddwl eto cyn pen hanner blwyddyn arall.

Dafydd: Na wnaif byth.

Gwen: Mae'n ddrwg gen i Dafydd, ond fedra i ddim gaddo'ch priodi chi.

Dafydd: Beth ydych chi am ei wneud ynte, Gwen?

Gwen: Yr ydw i'n meddwl treio am le yn y wlad fel *Uncertificated Teacher*; mi ddywedodd y Warden y gwnai hi bob dim i mi gael lle, ac os medra i roi ychydig arian wrth gefn, yr ydw i am agor siop ymhen tipyn.

Dafydd: Tipyn o fenter.

Gwen: Llai o fenter na phriodi.

Dafydd: Ond edrychwch yma, Gwen, os ydych chi am fynnu mynd yn athrawes a chadw siop, pam na chawn ni oedi a phriodi mewn ychydig o flynyddoedd?

Gwen: Mi fyddai hynny'n iawn i rai, Dafydd, ond nid i mi. Os na fedra i'ch priodi chi rwan, rydw i'n sicr na fedra i ddim ymhen pum mlynedd.

Dafydd: Wel, pan ddeuthum i yma heno, rhaid imi ddweud nad oeddwn i ddim wedi paratoi am hyn. Mae o'n siom fawr i mi, Gwen.

Gwen: Mae'n ddrwg iawn gen i Dafydd, ond yr ydw i'n siŵr mod i'n gwneud yr hyn sy'n iawn i chi a minnau. Efallai y byddwch chi'n falch ryw ddiwrnod.

Dafydd: Dwi ddim yn meddwl Gwen, cyn belled ag yr ydw i yn y cwestiwn, ond mae'n amlwg eich bod chi wedi gwneud eich meddwl i fyny cyn imi ddwad yma heno.

Gwen: O Dafydd, naddo, naddo, ar fy llw, naddo, ond mae heno'i hun wedi bod yn help imi benderfynu ac i beth y tynnwn ni bethau allan fel hyn? Well inni ffarwelio a gorffen.

Dafydd: Ac yr ydych chi'n siŵr na wnewch chi newid eich meddwl?

Gwen: Ydw.

Dafydd: Mae'n well i mi fynd felly, ynte.

Gwen: Rydw i'n falch iawn o'r amser braf gawsom ni efo'n gilydd. Mi gâf gofio am hwnnw am byth.

Dafydd: Gwen, wnewch chi ddim addo mhriodi fi, a pharhau'r amser braf hwnnw?

Gwen: Na fedra i ddim Dafydd. (*Gyda sŵn crio yn ei llais.*) Rydw i wedi mynd trwy lawer er nos Sadwrn, ac mae wedi fy nghledu i bethau mwy. Mae o wedi fy helpu i i weld i'r dyfodol, a gweld fy mod i'n gwneud y peth gorau.

Dafydd: Ydych chi'n siŵr, Gwen?

Gwen: Ydw'n berffaith siŵr, er bod nos Sadwrn yn agos iawn. (*Mae hi bron â thorri i lawr.*)

Dafydd: Wel, da bo chi, Gwen, a phob lwc. (*Tagfa yn ei lais*)

Gwen: Da bo chi Dafydd. Mae'n ddrwg gen i na fedra i ddim dwad i'r drws. Mi ddaw modryb.

LLEN

Pennod 4

i) *Y Cynddrws* a dramâu ‘O’r Tu Hwnt i’r Llen’

Legends play with belief, asking us to define it. They examine aspects of human existence that trouble or perplex us; and every legend performance is asking, whether implicitly or explicitly, that listeners believe, disbelieve, or at least consider the possibility of believing in the phenomenon that is in question.¹

Traddodiad i’w drysori ac i ymhyfrydu ynddo yw’r traddodiad chwedlonol i’r Cymro.

Wedi’r cwbl, rhoes y ffrwd hon yn ei thro anadl i rai o straeon mwyaf Ewrop. Hyd y dwthwn hwn dros Glawdd Offa a thros y dŵr, mae’r chwant am rai ohonynt, y chwedlau Arthuraidd er enghraifft, mor fawr ag y bu erioed.

One of the most remarkable phenomena in European history was the impact of the Celtic tradition on some of the most creative literary minds of the twelfth century and after, and through them on the literature, art, and thought of European society down to our own time.²

Yn sicr, yn nes at adref mae’r hen chwedlau wedi bod yn dir ffrwythlon iawn i lenorion a beirdd fel ei gilydd. Gellir dwyn i gof sawl enghraifft o weithiau modern llwyddiannus a phoblogaidd sydd ag un droed mewn hen hanes, *Y Dylluan Wen*, Angharad Jones, *Blodeuwedd*, Saunders Lewis; (Chwedl Math fab Mathonwy, y Mabinogi); *Gwenddydd*, Jerry Hunter (Chwedl Myrddin); *Ymadawiad Arthur*, T. Gwynn Jones (Y chwedl Arthuraidd); *Eryr Pengwern*, Rhiannon Davies-Jones; (Canu Heledd), *Ynys*, Gwyneth Lewis (Chwedl Branwen). Meddai Dafydd Glyn Jones; “Rhydd i awdur modern afael mewn hen stori, ei hailddechongli gan ddethol ohoni, ac awgrymu cymhellion i’w

¹ Hunter, Jerry, ‘From Death Token to O.Henry Ending: Traditional Narrative and the Early Fiction of Kate Roberts’, *Narrative in Celtic Tradition*, Colgate University Press, Hamilton, New York, gol. J.F. Eska, t.114.

² Mac Cana, Proinsias, *The Mabinogi, Writers of Wales*, t.1

chymeriadau. Mae wedi ei wneud erioed. Dyna a wnaeth Homer, Aischulos a Soffocles.”³

Dyna hefyd, i raddau, a wnaeth Kate Roberts yn *Tywyll Heno*; mynd i oes arall i chwilio am ysbrydoliaeth a gosod profiad cymeriad o’r gorffennol pell hwnnw yn ffon fesur wrth fynegi gweithredoedd a digwyddiadau’r presennol ynghyd â’i berthynas a phrofiad dyn o bob oes. Esgorodd hynny yn ei dro ar lenyddiaeth newydd, sy’n plethu’n gelfydd gyda hanes y cymeriad o’r oesoedd tywyll.

Ond cyn cyhoeddi *Tywyll Heno* yr oedd Kate Roberts wedi arbrofi â *genres* eraill yn ogystal. Ac er mai gwir yw dweud mai llenor realaidd ydoedd gan fwyaf mi fentrodd gamu ryw ychydig o droeon i fyd ffantasi; ‘Teulu Mari’⁴ er enghraifft. Anodd gwybod beth oedd cymelliant yr awdures wrth iddi fynd ati i lunio’r stori fer ryfeddol hon am yr anifeiliaid a allai siarad. Saif y stori hon yn gwbl ar wahân i weddill corff ei llenyddiaeth gan mor wahanol ydyw. Gellid yn hawdd ei galw’n ‘fodern’ hyd yn oed ym 1963 pan gyhoeddwyd hi yn y gyfrol *Hyn o Fyd*.

Stori arall, gynharach o gryn dipyn na ‘Teulu Mari’ sy’n mentro i fyd rhyfedd yw ‘Y Gwynt’.⁵ Wedi ei lleoli yn hen dafarn y Black Boy yng Nghaernarfon, dyma stori sy’n chwarae â’r syniad fod rhywrai nad ydynt o’r byd hwn yn cerdded yn ein mysg ac ar dro yn ymweld â ni. Fel yn rhai o’r straeon ysbryd gorau, nid ydym yn siwr iawn a oes yna ‘rywbeth’ yno, ynteu dim ond hanner-breuddwyd teithiwr lluddedig ar noson wyntog.

³ Jones, Dafydd Glyn, ‘Dedwydd a Diriaid’, *Efrydiau Athronyddol* LXI (1998), t.74.

⁴ Roberts, Kate, ‘Teulu Mari’, *Hyn o Fyd*, 1963.

⁵ Roberts, Kate, ‘Y Gwynt’, *Rhigolau Bywyd*, 1929.

Troellai'r dafn yn y gwynt ar hynt ddiamcan ac yna disgynnai ar chwarel fy ffenestr. Rhedai'r lleuad yn gyflym ar gefndir glas tu ôl i gymylau llac, teneu a hongiai yn yr awyr fel gwlan dafad wedi bod drwy glawdd drain. Euthum yn ôl i'r gwely, ond er cau'r ffenestr deuai sŵn y gwynt a rhygnu'r sein a'r dafn glaw yn disgyn ar y chwarel. Eithr yn ysgafnach na chynt. Pwff o wynt, yna gwich, ac yna drawiad ysgafn y dafn glaw ar y gwydr. Cynefinodd fy nghlust ag ef ymhen tipyn ac yn fuan suai'r sŵn triphlyg yma fi i gysgu.

Toc, ffurfiodd y sŵn yn llais a dyma glywn mewn acen feddal, -

“A welaist ti y llanc penfelyn
A'm carai i y dyddiau gynt?”

Heb yn wybod atebais,

“A hoffit glywed stori'r llongwr
A'r ferch wineuwallt droes yn wynt?”⁶

Celfydd iawn yw'r modd y creeir yr awyrgylch yn y stori hon. Fe'n cofleidir gan swyn y geiriau barddonol ac fe'n harweinir i fyd lledrithiol gydag anogaeth y gynghanedd; ‘y gwynt ar hynt’, ‘gwlan dafad...drwy glawdd drain’. Edrydd y ferch, sef perchennog y llais, ei stori drwy wydr y ffenestr yn union fel ag y gwna Catherine Earnshaw, y prif gymeriad yn nofel frawychus Emily Bronte, *Wuthering Heights*.⁷ Ond nid yw'r teithiwr yn croesi i gyfarfod y ferch yn ‘Y Gwynt’ eithr gwrendy ar ei stori yn unig gan ddatgan erbyn y diwedd ei fod wedi blino gormod i wrando rhagor.

Stori ar yr un trywydd ag ‘Y Gwynt’ ond mymryn yn wahanol yw ‘Yr Athronydd’ sy'n ymddangos yn *O Gors y Bryniau*, y gyfres gyntaf o straeon byrion a gyhoeddwyd gan Kate Roberts. Stori yw hon am farwolaeth Luned fechan, ddyflwydd oed. Ni chymrodd ei hewythr Ifan Dol Goed fawr o sylw o'r ferch tra'r oedd yn fyw, ond gyda'i marwolaeth

⁶ Roberts, Kate, ‘Y Gwynt’, *Rhigolau Bywyd*, t.38.

⁷ Mae Kate Roberts yn cyfeirio at y nofel hon gan Emily Brontë yn ei hunangofiant. Gweler Kate Roberts, *Y Lôn Wen*, t.30.

sydyn sylweddola am y tro cyntaf gwerth ei bywyd bach. Mae'r meirw'n cerdded yn 'Yr Athronydd' hefyd fel ag yr oedden nhw yn y ddrama gynnwys honno o waith Kate Roberts a Betty Eynon Davies, *Y Fam*. Ond y tro hwn cawn gipolwg ar yr arallfyd hwn, mewn golygfa sy'n ein hatgoffa o chwedlau tylwyth teg ardal Dyffryn Nantlle:⁸

Yno gwelai ddyn ieuanc yn canu chwibanogl – chwibanogl wedi ei gwneuthur o frwynen cors – a merch ieuanc yn dawnsio i'r miwsig...O'i flaen yr oedd dau yn droednoeth goesnoeth heb unrhyw arwydd annwyd na blinder arnynt...⁹

Y mae'r Athronydd yn sgwrsio â'r ddau a dywedant wrtho sut fyd yw'r byd arall hwn (ni chyfeirir at y byd wrth unrhyw enw penodol); ceir cynhaliaeth o ffrwythau'r coed a gwin gruglus. Mae pawb yn wastad yn hapus yno. Mae'n fyd lle nad oes angen barddoniaeth am mai "meddyliau duon sy'n medru ysgrifennu barddoniaeth oreu,"¹⁰ mae'n fyd hefyd lle nad ydy cariad byth yn blino. Arallfyd gwynfydus a bortreadir gan y ddau a chyrhaeddir ato drwy geg dwy ogof; "Wedi dyfod at enau'r ogof – O dywyllwch! Daeth "twll du'r" plant i'w feddwl. Ond ymhell, bell, bell, ymhen draw'r ogof hon, gwelai enau ogof arall, a llewyrch yn dyfod allan ohoni – nes peri i'r genau edrych fel lleuad llawn ynghanol caddug."¹¹

Er mawr syndod a phoen iddo gwêl yr Athronydd ei nith ymysg grŵp o blant a ddaw allan o'r ogof. Yr oedd y syniad hwn o 'wlad y tylwyth teg' fel gwlad yr ifanc yn eithaf cyfarwydd mewn cylchoedd diwylliedig yng Nghymru tua dechrau'r ugeinfed ganrif (o

⁸ Gweler *Straeon Gwydion*, Dewi Tomos am gyfrol o straeon tylwyth teg Dyffryn Nantlle.

⁹ Roberts, Kate 'Yr Athronydd', *O Gors y Bryniau*, tt.56-57

¹⁰ *ibid*, t.59

¹¹ *ibid*, t.61

dan ddylanwad T. Gwynn Jones¹² mae'n debyg) a byddai Kate Roberts wedi bod yn ymwybodol ohonynt. Ceir mwy o bwyslais ar hyn, fodd bynnag, yn y traddodiadau Gwyddelig; 'Tir na n-Og' – gwlad yr ieuenctid lle na cheir na haint na henaint.

Hynod arwyddocaol hwythau ond odid yw geiriau'r ddawnswraig hardd hon wrth iddi gyfeirio at Luned; "echdoe y ganed hi i'r byd yma, ac y mae hi dipyn yn swil ac yn ddigalon. Hiraeth ofnadwy ydi hiraeth plentyn bach ar ôl bron ei fam."¹³ Datgelir gyda hynny ddwy ffaith am yr arallfyd hwn; yn gyntaf fod pobl wedi iddynt farw yn y byd daearol yn cael eu geni eilwaith i'r byd arall hwn, ac yn ail, wedi iddynt fynd drwy'r broses hon o gael eu geni eilwaith fod ganddynt atgof am y byd daearol y maent wedi ei adael. Mae hon yn elfen anghyfarwydd ar y *genre*. Meddai Sioned Davies, "Thema Geltaidd, ac yn wir thema ryngwladol, yw'r syniad nad yw amser yn cyfrif yn yr arallfyd, ac yr anghofir popeth am y byd dynol."¹⁴ Ymddengys felly fod Kate Roberts nid yn unig yn defnyddio'r cysyniad, ond hefyd yn ei ymestyn.

Ymdebygai'r byd arall hwn yn 'Yr Athronydd' i'r syniad a oedd gan yr hen Gymry am fydd y tu hwnt i'r byd daearol. Gelwir ef yn aml yn Annwn¹⁵ ac nid oes ganddo unrhyw fath o gysylltiad ag Uffern Cristnogaeth. (Syniad llawer mwy diweddar yw hwnnw a deuir ato yn y man.) Dyma'r arallfyd a ddarlunir yn yr hen chwedlau Cymreig. Yn stori 'Pwyll a Rhiannon' *Y Mabinogi* Arawn yw brenin Annwn a chroesa o'r byd daearol i'r byd hwnnw fel y dymunai. Yn y chwedlau Arthuraidd, Gwyn ap Nudd sydd frenin ar

¹² Gweler T. Gwynn Jones 'Tir na n-Og', *Caniadau*, t.60

¹³ Roberts, Kate, 'Yr Athronydd', *O Gors y Bryniau*, t.60

¹⁴ Davies, Sioned, *Pedeir Keinc y Mabinogi, Llên y Llenor*, tt.47-48

¹⁵ weithiau ysgrifennir fel 'Annwfn' neu 'Annwvyn'

Annwn ac yma eto y mae'r ddau fyd fel petaent yn croesi ei gilydd gan roi rhydd hynt fwy neu lai i bobol drosglwyddo o'r naill fyd i'r llall. Fodd bynnag, y mae fel rheol nodwedd arbennig sy'n rhoi mynediad i Annwn; mae'n rhaid un ai agor rhyw ddrws¹⁶ yn rhywle neu ddisgyn i lawr ffynnon¹⁷ neu fynd ar daith drwy ogof neu dros ddŵr cyn cyrraedd. Y daith hon i'r arallfyd baradwysol a bortreadir gan T. Gwynn Jones yn ei gerdd 'Ymadawiad Arthur'. Ynddi adroddir hanes y Brenin Arthur yn colli brwydr Camlan i Fedrawd ei nai. Caiff ei glwyfo'n enbyd cyn cael ei hebrwng ar gwch hud i Annwn i wella. Disgrifir y byd hwn mewn tri hir-a-thoddaid mawr eu bri:

“Draw dros y don mae bro dirion nad ery
Cwyn yn ei thir, ac yno ni thery
Na haint na henaint fyth mo'r rhai hynny
A ddêl i'w phur, rydd awel, a phery
Pob calon yn hon yn heiny a llon,
Ynys Afallon ei hun sy felly.

“Yn y fro ddedwydd mae hen freuddwydion
A fu'n esmwytho ofn oesau meithion;
Byw yno byth mae pob hen obeithion,
Yno, mae cynnydd uchel amcanion;
Ni ddaw fyth i ddeifio hon golli ffydd,
Na thro cywilydd, na thorri calon.

“Yno, mae tân pob awen a gano,
Grym, hyder, awch pob gŵr a ymdrecho;
Ynni a ddwg i'r neb fynn ddiwygio,
Sylfaen yw byth i'r sawl fynn obeithio;
Ni heneiddiwn tra'n noddi – mae gwiw foes
Ag anadl einioes y genedl yno!”¹⁸

¹⁶ Cofier am y drws hud yn 'Chwedl Branwen', "Ac yng Ngwales ym Mhenfro y byddwch bedwar ugain mlynedd. A gellwch fod yno a'r pen gennych heb ei lygru onid agoroch y drws tuag Aber Henfelen i gyfeiriad Cernyw." 'Branwen', *Y Mabinogion*, gol Dafydd a Rhiannon Ifans, t.32.

¹⁷ Gweler chwedl 'Iarlles y Ffynnon' yn *Y Tair Rhantant: Iarlles y Ffynnon, Peredur, Geraint Fab Erbin*, R. M. Jones.

¹⁸ Jones, T. Gwynn, 'Ymadawiad Arthur', *Caniadau*, t.33

Nodir yn y gerdd hefyd fwriad Arthur i ddychwelyd i'r byd daearol ryw ddydd “Ond i'm bro dof eto'n ôl”¹⁹ sef gwreiddyn y broffwydoliaeth enwog am y Brenin.

Y mae dŵr yn chwarae rhan amlwg iawn mewn darn arall o lenyddiaeth sy'n portreadu'r un math o siwrne. Drama yw *Gadael Tir*²⁰ wedi ei chyfieithu gan R. Williams Parry i'r Gymraeg o'r ddrama enwog iawn yn ei dydd *Outward Bound*²¹ gan Sutton Vane²².

Drama am griw o saith o deithwyr sy'n cyfarfod mewn bar ar long²³ yw hon. Y mae un cymeriad, Scrubby, yn tendio'r bar. Sylweddola gweddill y cymeriadau yn fuan na wyddant paham eu bod yno. Y mae'r sefyllfa y maent ynnddi yn un annifyr; mae'n annioddefol o boeth yno, ac mae'r cymeriadau yn gallu bod yn fileinig iawn tuag at ei gilydd. Fodd bynnag erbyn diwedd yr act gyntaf y mae'r gwir yn gwawrio ar un ohonynt:

Tom: (gan grynu mewn ofn) 'Rydan - ni- 'rwan deudwch y gwir – 'rydan – ni'i gyd wedi marw.

Scrubby: ... Yden, syr, 'ryden – ni i gyd wedi marw. Yn hollol farw. 'Dyden – nhw ddim yn darganfod hynny mor fuan fel rheol, ag y gwnaethoch *chi*.²⁴

¹⁹ Jones, T. Gwynn, 'Ymadawiad Arthur', *Caniadau*, t31

²⁰ *Gadael Tir*, Cymreigiad R. Williams Parry o *Outward Bound* Sutton Vane, Archifdy Prifysgol Bangor, rhif 16011. Cyfieithwyd y ddrama ganddo ar gyfer ei pherfformio gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg, Prifysgol Bangor ym 1927. Mae'r nodyn canlynol ar dudalen flaen y cyfieithiad; “Translated by special permission for the 1927 College performance of a play in the Welsh language.” R. Williams Parry oedd Llywydd cyntaf Cymdeithas y Ddrama Gymraeg wedi iddi ei ffurfio'n gymdeithas ffurfiol ym 1923, er Is-lywydd ydoedd erbyn 1927 gyda Syr Harry Reichel yn Llywydd.

²¹ Drama gan Sutton Vane a ysgrifennwyd ym 1923. Fe'i cynhyrnodd ei hun ar gyfer llwyfan Theatr Everyman y flwyddyn honno. Ond profodd yn hynod o lwyddiannus a buan y symudodd i'r West End. Cyrhaeddodd Broadway, Efrog Newydd y flwyddyn ganlynol. Cafwyd fersiwn ffilm deledu ohoni hefyd. Fe'i llwyfanwyd eto yn 2012 yn Theatr Finborough, Llundain – gweler “Theatre:Outward Bound”, *The Stage*, 9 Chwefror 2012, t7

²² Vane, Sutton (g.1888) dramodydd o Loegr a gafodd lwyddaint aruthrol gyda'i ddrama *Outward Bound*.

²³ “Cymer ddigwyddiadau'r ddrama le yn stafell ysmocio llong fechan un o'r cwmnïau mawrion” yw'r olygfa a osodir ar dudalen flaen cyfieithiad R. Williams Parry.

²⁴ *Gadael Tir*, R. Williams Parry, Archifdy Prifysgol Bangor, rhif 1611, Act I

Mordaith o fath gwahanol yw hon sy'n cario meirwon o un byd i'r byd arall. Dysgant y byddent yn cyfarfod â'r un a elwir 'Yr Arholydd' ar ddiwedd y daith, a deallir gan Scrubby y bydd yn rhaid iddynt gael eu profi ac mai canlyniad hynny fydd penderfynu pa un ai i'r Nefoedd yr ânt ynteu i Uffern. Syniad cyffredin iawn, a chyffelyb iawn i'r hyn a geir yn y ddrama hon, yw'r hyn a geir mewn Cristnogaeth sef fod pobl yn cael eu profi wrth giataiu'r Nefoedd i edrych a ydynt deilwng i gael mynediad.

Ar wahanol adegau yn y ddrama, ac yn drawiadol iawn, ceir sŵn cefndirol er enghraifft; "(Clywir sŵn drwm yn gwan, gwan guro, - curiad anhyglyw, lledrithiol, ac anwastad.)"²⁵ Ceir hefyd sŵn ci yn cyfarth, sŵn corn a sŵn gwydr yn torri.

Ond y mae dau gymeriad, Ann a Henry, yn cuddio cyfrinach - eu bod wedi cyflawni hunanladdiad dwbl oherwydd grym eu cariad a'i deisyfiad i fod gyda'i gilydd yn y Nefoedd.²⁶ Deallir hefyd mai cymryd ei fywyd ei hunan a wnaeth Scrubby a'i fod, oblegid hynny, wedi ei dynghedu i deithio ar y môr rhwng y byd daearol a'r byd nesaf hyd dragwyddoldeb; un o "bobl hanner ffordd" fydd ef hyd byth.

Y tro yng nghynffon y ddrama yw bod Henry ac Ann yn cael eu hachub yn y byd daearol; eu bod yn dod yn fyw yn ôl. Y mae hi'n ddrama ysgubol o'i bath a hawdd deall paham y mynnodd R. Williams Parry wrandawriad teg iddi gan gynulleidfa'r Brifysgol pan gawsai

²⁵ *Gadael Tir*, R. Williams Parry, Archifdy Prifysgol Bangor, rhif 1611, Act II

²⁶ Yn draddodiadol, a chan sawl crefydd, ystyriwyd y weithred o ladd eich hunan yn bechod yn erbyn Duw oherwydd y goel fod bywyd yn sanctaidd. Y mae'n debyg mai dyma'r rheswm pam y ceisiai Ann a Henry gelu'r gwir.

ei llwyfannu; “Taer erfynnir am ddistawrwydd perffaith drwy’r perfformiad, rhag peri dileu hud y ddrama brydferth a brawychus hon.”²⁷

Taith frawychus o fath gwahanol sy’n dod i ran tri chymeriad yn y ddrama ryfedd a hwyliog gan Kate Roberts, *Aros Wrth Loco*.²⁸ Taith ar y trêen yw hon, fel y mae’r teitl yn ei awgrymu, ond nid yw’n daith gyffredin. Y mae tair o ferched (dwy ganol oed ac un hŷn) yn aros yng ngorsaf trêen Dinbych. Pan gyrhaedda’r trêen y mae’r merched yn dringo iddo ac yn gwneud eu hunain yn gyfforddus. Y maent yn pasio’r amser drwy “golstro a hel straeon” am eu cydnabod. Yn ddifyr iawn y mae’r merched yn cyfeirio yn eu sgrysiâu at Gwilym R. Jones a Mathonwy Hughes (dau a fu’n gweithio i Morris a Kate yng Ngwasg Gee) ac y mae cyfeiriad yn y ddeialog hefyd at un Kate Roberts! Fodd bynnag buan y sylweddolant nad yw’r trêen yn mynd i unlle, ac mewn dychryn edrychant ar eu tocynnau. Y mae un tocyn yn nodi’r cyrchfan fel “Devil’s Bridge”, y mae’r ail yn nodi “Devil’s Kitchen” a’r trydydd yn nodi “Hell’s Mouth”. Pan saif y trêen, ebycha Mrs Evans, un o’r merched, “Mi rydan ni wedi dwad yn ôl i’r un fan heb fod yn unlla.” Disgynna’r merched oddi ar y trêen wedi’u dychryn yn ofnadwy. Byrdwn y ddrama hon mae’n debyg yw mai tocyn unffordd i uffern sydd i’r rhai sy’n hel straeon am bobl eraill. Yr oedd y ddrama hon yn ymarfer da ar gyfer *Y Cynddrws*. Bwrw prentisiaeth a wnaeth Kate Roberts gyda’r ddrama fach hon yn union fel y bu’r dramâu cegin yn ymarfer ar gyfer *Ffarwel i Addysg*.

²⁷ *Gadael Tir*, R. Williams Parry, Archifdy Prifysgol Bangor, rhif 1611, Clawr

²⁸ Roberts, Kate, *Aros Wrth Loco*, drama heb ei chyhoeddi a ysgrifenydd tua 1960 sydd ar ffurf llawysgrifau yng nghasgliad Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol rhifau 2520-2522

Un a ganddo gysylltiad agos â Kate Roberts ac a weithiai i'w gŵr, Morris Williams yng Ngwasg Gee ac yn ddiweddarach i Kate ei hun ydoedd y llenor o Dal-y-sarn, Dyffryn Nantlle, Gwilym R Jones. Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Hen Golwyn, 1941 am “Nofel Fer” a oedd yn dwyn y teitl *Y Purdan*.

Y mae'n werth myfyrio ychydig uwch y syniad hwn o Burdan. Syniad Pabyddol yn ei wreiddyn. Stad dros dro ydy'r Purdan i'r Pabydd ac un sy'n cael ei amgyffred fel cyflwr yn hytrach nac fel lle diriaethol. Fel mae'r gair ei hun yn ei gyfleu, cyfle i buro'r enaid cyn iddo esgyn i'r nefoedd ydyw. Gall olygu goddef cosb dros dro yn ogystal, neu broses o gyffesu pechod er mwyn cael glanhâd. Eto, y mae yma daith y mae'n rhaid wrthi cyn cyrraedd gwir orfoledd y nefoedd. Nid oes dim Beiblaidd yn y syniad hwn ac yn anorffod felly dim Protestannaidd yn sicr. Ond pwynt sy'n werth ei nodi yw i Babyddiaeth wedi profi ymchwydd yn y nifer o bobl ddiwylliedig, Brotestannaidd Cymreig a drodd ati yn nhridegau a phedwardegau'r ugeinfed ganrif. Denodd ati Saunders Lewis²⁹ yn un; ymunodd ef â'r Eglwys honno ym 1932 er gwaetha'r ffaith fod ei dad yn Weinidog Methodist. Byddai Kate Roberts, o fynych ymwneud â Saunders Lewis, wedi bod yn ymwybodol o'r cynnwrf newydd hwn o amgylch yr hen ffydd.

Fodd bynnag, 'Purdan' mewn ystyr braidd yn wahanol sydd gan Gwilym R. Jones: meddyliau cymysglyd dyn rhwng byw a marw am yn ail â bywyd ei deulu a'i

²⁹ Yr oedd y grefydd Babyddol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd Saunders Lewis. Mewn llythyr at D.J. Williams ym 1939 y mae'n sôn yn benodol a y purdan; “Mi wn i mai peth aflednais, ar yr olwg gyntaf, yw gwrthod rhodd gan gyfaill. Ond gan fy mod i, chwedl chwithau, yn ‘sant cas’, a chwithau yn gythraul o gariad, a'm harosiad i yn y Purdan gan hynny yn ddigon meithiach na'ch byr siwrnai chwi drwyddo, dyma fi'n mentro'n hyach ar eich graslonrwydd nag a fentrais i o'r blaen.” *Annwyl D.J. Llythyrau D.J., Saunders a Kate*, gol., Emyr Hywel, t111

gymdogion. Egyr y stori ynghanol storom eira. (Nodwedd gyffredin yn y *genre*, fel y gwelwyd eisoes, ydyw tywydd anarferol; unai y mae'n annioddefol o boeth, neu mae'n dymhestlog.) Y mae Siôn Wiliam ar ei wely angau. Gwêl ei gyfeillion ei fod yn bur wael ac nad oes gobaith iddo wella a cheir cadarnhad i'r perwyl hwnnw gan y meddyg Dr. Dan Rees. Fodd bynnag, yr hyn sy'n rhyfedd am gyflwr Sion Wiliam yw ei fod fel petai yn brwydro gyda rhywbeth anweledig, rhywbeth haniaethol sydd rywle rhwng y byd hwn a'r byd nesaf. 'Ymrafeilio' yw'r term a geir yn y nofel. "Mae'r fatl fawr yn dechra",³⁰ meddai un o'r gwŷr sy'n cadw golwg drosto wrth weld symudiadau corfforol Siôn yn adweithio i'r hyn sy'n digwydd iddo'n feddyliol.

Pererindod ysbrydol mewn ymchwil am atebion i hen gwestiynau ei galon yw'r daith y darganfydda Siôn Wiliam ei hun arni. Y mae'n ymresymu â'i hunan ac yn ei boenydio'i hunan ynghylch y penderfyniadau a wnaethai a'r profiadau a gawsai yn ei fywyd. Darganfyddwn ei fod wedi ceisio meddiannu Mali ei gymar yn gyfan gwbl a'i bod hithau, mewn gweithred o wrthryfela, wedi troi at ddyn arall am gyfnod. Er iddynt aros gyda'i gilydd, ni faddeuodd Siôn Wiliam ei hanffyddlondeb iddi a surodd y berthynas ymhellach. Yn ei feddwl, gwêl fab penfelyn; "Adnabu Siôn y bychan fel y bachgen y dyheasai ei enaid amdano – ffrwyth ei lwynau ef a Mali, unig gynnyrch addas i'w serch, y plentyn na allent ei gael."³¹ Yn y purdan hwn fe ddaw rhyw dynerwch i'r golwg mewn cymeriad caled, gerwin, ac mae Gwilym R. Jones yn peri i'r ieithwedd newid yn gyfatebol.

³⁰ *Y Purdan*, Gwilym R Jones, t.12

³¹ *ibid*, t.29

“ ‘Roedd fy synhwyrâu’n dweud celwydd wrthyf. ‘Llwybr cwbl groes i natur’ oedd fy llwybr innau. Yr oedd y galon fach yn gwla tra fûm ymhell o’r gwlad. Ond brathais fy nhafod, a gohirio’r gwir. Yr wyf yn ymestyn tuag at rywbeth yn awr ...”³²

Dyma ddrych i’r ieithwedd a ddefnyddia Kate Roberts yn ‘Y Gwynt’. Arddull lenyddol, farddonol fe ymddengys sy’n gweddu i’r byd sydd y tu hwnt i’r byd hwn. Ar ddiwedd y nofel a thra ei fod yn ymrafael yn y byd arall hwn, disgyn Wil dros ei ben i ddŵr ffynnon. Y mae fel petai’n cael ei ddenu at y ffynnon gan rywbeth nas enwir, a chyda’r gwyp honno i’r dŵr derfydd ei fywyd yn y byd daearol hefyd.

Meddai Stephen J. Williams, y beirniad a roes y wobwr gyntaf i *Gwynedd* (Gwilym R. Jones) yng nghystadlaeth y Nofel Fer yn Eisteddfod Hen Golwyn, 1941; “Nid pwnc newydd mewn llenyddiaeth yw dirgelwch meddwl dyn yn awr angau... ond ffrwyth meddylgarwch cyfriniol dwys yw gwaith *Gwynedd*. Newydd hyd y gwn i, yw’r dehongliad seicolegol a awgrymir gan y nofel hon ar ymddygiad yr isymwybod ar fin marwolaeth, a’r modd y cymodir hynny â’r hen syniadau am burdan a dydd barn.”³³

Sylwadau yn yr un wythien sydd gan T. Gwynn-Jones yn ei ragymadrodd i’r cyfieithiad Cymraeg o *La Divina Commedia*; edrydd sut yr oedd y syniad hwn am fyd y tu hwnt i’r llen yn hysbys iawn i bobl mor bell yn ôl â chyfnod Dante (g.1265) y bardd Eidaleg o’r Oesoedd Canol . Nid oedd y syniad am uffern, yn enwedig, fyth ymhell o feddyliau pobl. “...y peth sydd yn sicr yw fod y traddodiadau am y byd tu hwnt i’r llen yn hysbys i bawb yn oes Dante. Yr oedd yr oes yn credu fod diwedd pob peth yn agos, a rhyfeddodau y byd

³² *ibid*, t.19

³³ Stephen J. Williams, ‘Beirniadaeth y Nofel Fer’, *Cyfanoddiadau a Beiriadaethau Eisteddfod Genedlaethol Hen Golwyn*, 1941, tt.161-164

anweledig yn llenwi dychymyg dynion.”³⁴ Nid rhyfedd felly fod cyfleu syniad am burdan, fel cyfle i’r enaid ei buro ei hun a rhoi siawns iddo esgyn i’r nefoedd yn apelio at bobl.

Mae tair rhan i weledigaeth Dante; Annwn, Purdan a Pharadwys a neges fawr ei gerdd ydyw mai “drwy ddioddef y mae gwella, ac y rhaid i ddyn ddwyn pennyd am ei bechod”.³⁵ Caiff Dante ei arwain trwy Annwn a Purdan gan Firsil y bardd.

Lle dychrynlyd iawn yw Annwn Dante. Caiff y bodau sydd yno, yn baganiaid, yn hunan leiddiaid yn fradwyr ac yn rhai a ddirmygodd Dduw, eu cosbi yn hallt iawn drwy eu fflanghellu, eu trybaeddu mewn budreddi, eu sathru, eu berwi mewn gwaed a’u llosgi dan gawodydd o dân. Y mae naw cylch yn yr Annwn hwn gyda’r cosbau yn gwaethygu wrth nesáu at waelod y pwll ble mae Satan yn teyrnasu.

Mynydd yw Purdan Dante.

Dengys diwedd ei ‘Annwn’ fod y mynydd hwnnw wedi ei fwrw i fyny pan hyrddiwyd Satan i lawr o’r nef i ganol y ddaear. Yno yr oedd uffern yn barod i’w dderbyn ac oddi tan fynydd y Purdan, caeodd y ddaear drosto... Felly, ar y mynydd hwn a godwyd uwchlaw wyneb y ddaear drwy gwmp Satan, yr oedd gardd Eden, neu y Baradwys Ddaearol, a rhaid i ddyn, ar ôl ei gwmp o’r Baradwys honno, ei chyrraedd drachefn drwy risiau y purdan cyn y byddai iddo gyrraedd y Baradwys Nefol.³⁶

³⁴ T. Gwyn Jones, Rhagymadrodd *Y Ddwylol Gerdd* Dante, cyfieithiad Daniel Rees, tvii

³⁵ *ibid.*

³⁶ *ibid.*, tvii

Mae gobaith yn y Purdan hwn; clywir sŵn canu a sŵn gweddi'r Arglwydd yn cael ei hadrodd. Pobl sy'n gwneud drygioni, ond yn edifarhau yn syth sydd yn y Purdan. Mae yma dân hefyd, ond tân purol i eneidiau yw hwn. Sonnir am dri gris y mae'n rhaid eu dringo cyn cyrraedd y Baradwys sef, Tristwch, Cyffes a Phenyd (tair elfen edifeirwch, yn ôl athrawon Eglwysig y cyfnod) a saith cylch y mae'n rhaid eu hwynebu; Balchder, Cenfigen, Llid, Diogi, Trachwant ac Afradlonedd, Glythineb a Meddwdod ac Anlladrwydd (y saith pechod marwol). Mae modd i enaid dreulio nifer o ganrifoedd yn gwaredu ei bechodau ym mhurdan Dante.

Y gobaith yw, wedi i enaid ei buro ei hun i'r fath raddau y caiff esgyn i Baradwys lle y trigfa Mair, Pedr, Iago, Ioan, Crist, y Seintiau gorau a Duw ar ei orsedd yn 'y seithfed nef', a bod yno hyd byth.

Dilyn traddodiad hir o lenorion a wnaeth Kate Roberts felly wrth droi at yr arallfyd, y byd y tu hwnt i'r byd hwn, yn destun i'w drama, ac nid oes dwywaith fod *Y Cynddrws*³⁷ yn enghraifft wych o lenyddiaeth yn y *genre* hwn.

Yn ôl Alan Llwyd, lluniwyd y ddrama *Y Cynddrws* ar gais Aneirin Talfan Davies o'r BBC.³⁸ Yr oedd *Ffarwel i Addysg* gan Kate eisoes wedi ei haddasu'n ddrama radio ac wedi ei darlledu dros y tonfeddi ym 1950. Ac yn dilyn llwyddiant y ddrama honno, efallai y daeth y cais am ddrama newydd. Mewn llythyr at Saunders Lewis y mae Kate Roberts

³⁷ Roberts, Kate, *Y Cynddrws*, 1954 cadwyd ar ffurf teipysgrif yng nghasgliad Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol, rhif 2637. (Y mae pob rhif tudalen o hyn ymlaen yn cyfeirio at y deipysgrif hon.)

³⁸ Llwyd, Alan, *Kate*, t.292

yn rhoi mewnwelediad inni o'r hyn a'i cymhellodd i fynd ati i ysgrifennu'r ddrama benodol hon, a'r neges yr oedd yn awyddus i'w chyflwyno;

Nid ceisio rhoi fy syniad am Y Purdan a wneuthum, dim ond am ran ohono, neu agwedd arno – gweld yr wyf fi mai'r meddiannu yma sy'n gwneud pobl yn anhapus, meddiannu cyfoeth, meddiannu plant, meddiannu cariadon, a meddiannu hapusrwydd ei hun...

Yr oeddwn i yn ddigalon iawn pan ysgrifennais hi, ac yn waeth na digalon, mewn anobaith. Ond fe wnaeth les imi gael dweud y pethau yna. Ceisiais er hynny roi ffurf ar y ddrama, yn lle gadael i'r siarad redeg a'i ffrwyno ar ei war...³⁹

Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun felly, yr oedd Kate Roberts mewn stâd o ddigalondid ac anobaith pan gyfansoddodd *Y Cynddrws*. Y mae'n waith sy'n sefyll yn gwbl ar wahân i'w dramâu cynharach, er mor ddifyr ydoedd y rheini, ac yn sicr nid yw'r dramâu a ddilynodd *Y Cynddrws* ychwaith yn gymwys i ddal golau iddi. Gellid dadlau fod Kate gyda *Y Cynddrws*, er gwaethaf neu efallai oblegid ei gofid a'i gwewyr wedi llwyddo i lunio campwaith dramayddol ei gyrfa.

Cyflwynir y gynulleidfa yn yr olygfa agoriadol i sefyllfa ryfedd iawn mewn math arbennig o ystafell aros. Ymddengys mai yma y daw unigolion wedi iddyn nhw farw am nad oedden nhw'n fodlon neu'n hapus yn y byd cynt. Disgrifir y mangre hwn gan y cymeriadau yn ystod y ddrama fel “jêl”, “pedair wal lwyd, wastad”, “yr un fath yn union â waliau capal”, “dim ffenest o gwbl”, “dau ddrws, un tuag at y byd a'r llall at y byd arall”, “bob dim mor lân, dim gwe pry cop na llanastr”, “dim amser”, “dim ogla chwaith”, “lle segurlyd, mwrllyd”, “lle llwyd lle nad oes yna ddim gobaith, dim byd, dim dim”.

³⁹ Ifans, Dafydd gol., *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, tt.180-181

Lle rhyfedd yw'r cynddrws. Ni cheir eglurhad ynghylch sut y mae cyrraedd yno, er y gwelir fod i'r ystafell ddau ddrws a thrwy un o'r rhain y mae'r unigolion yn cyrraedd. Fodd bynnag nid oes modd dychwelyd drwy'r drws hwn, eithr yn unig adael y cynddrws drwy'r drws arall. Nid oes yma, fel sydd i'w gael mewn enghreifftiau eraill o'r *genre* hwn nac arholwr, na phoenydwir na gweinyddwr i weithredu'r penderfyniadau ychwaith. Ond gwyddys fod yna rywbeth yn rhywle sy'n penderfynu pwy sy'n mynd a phwy sy'n dod. Y mae cymeriadau'r ddrama fel petaent yn gwybod hynny yn reddfól. Gwyddant yn ogystal pam eu bod yno; nid cael eu cosbi y maent, eithr cael eu dysgu. Ond nid oes neb yno i gyflwyno'r wers, fel sy'n digwydd mewn llenyddiaeth gyffelyb ac nid yw Pedr ychwaith ddim wrth y Porth. Amrywiaeth ar y thema a geir yma; y cymeriadau eu hunain sy'n dysgu ei gilydd, ac yn cyfarwyddo ei gilydd ynghylch y gwersi y dylid eu dysgu. Sefyllfa therapi grŵp sydd yma nid gwers athro-disgybl. Y mae fel petai Kate Roberts yn mynnu fod y cymeriadau yn dysgu o'u camgymeriadau eu hunain, drwy fynd drwy'r broses o ddatod y clymau drostynt eu hunain.

Chwe chymeriad sydd yn y ddrama. At ei gilydd, mae'r cymeriadau hyn oll yn rhai sobr a chymhedrol a hyd y medrir ei gasglu yn eu llawn pwyll. Nid ymddengys yr un o'u plith yn erwin, yn wallgof nac yn dreisgar. Mân bechodau a briodolir iddynt hefyd. Does dim un llofrudd yma. Gellid dadlau dros alw un cymeriad, Siôn Llwyd, yn dipyn o 'glown' efallai fel y gwelwn yn y man, ond diogel dweud mai cymeriadau digon cyffredin a bortreadir yn y ddrama hon. Ni waeth cyfaddef y gwir, mai bwriad Kate Roberts oedd peri i'r gynulleidfa sylweddoli mai hwy yw'r cymeriadau yn *Y Cynddrws*.

Anodd yw lleoli'r hyn a ddigwydd yn y ddrama o ran dyddiad, ac er bod sawl cyfeiriad at amser mewn hanes, amhenodol iawn yw'r cyfeiriadau hynny. Gobaith pennaf y gynulleidfa i ddyddio'r digwydd yw ymddangosiad Siôn Llwyd, y crwydryn. Ef yw'r olaf i ymuno â'r criw yn y cynddrws ac ef hefyd sy'n rhoi inni ryw lun o oleuni ar ddyddiad y digwyddiadau yn y ddrama. Siôn sy'n gwneud y datganiad pwysig hwnnw yn y cyswllt hwn, fod pobl wedi anghofio am y rhyfel lle y bu i feibion Leusa Huws a'i thebyg golli eu bywydau ynddo a'u bod yn "paratoi am un arall"; hynny yw bod pobl Cymru yn wynebu rhyfel arall.

Leusa Huws: O peidiwch â siarad mor wamal, a sôn am hel y'ch bolia mewn byd mor llwm ag oedd hi adeg y rhyfal.

Siôn Llwyd: Mae pawb wedi anghofio hwnnw rwan ac yn paratoi am un arall.⁴⁰

O wybod fod yr Ail Rhyfel Byd wedi torri yn Ewrop yn 1939 gallwn felly ddyfalu, yn eithaf gofalus, mai tua 1937 a fwriadwyd fel dyddiad i'r digwyddiadau hyn yn *Y Cynddrws*.

Un set o ddyddiadau yr ydym yn gwbl hyderus ohonynt wrth gwrs yw dyddiadau Goronwy Owen sef 1723 – 1769. Os gwir ein dadansoddiad mai rhywle tua thridegau yr ugeinfed ganrif y digwydd y ddrama yna mae Goronwy wedi bod yn yr ystafell am yn agos i gant a deg a thrigain o flynyddoedd. Syniad cyffredin yn y *genre* yw'r syniad o 'amser yn aros yn llonydd', a hefyd nad oes neb yn heneiddio yn yr arallfyd – syniad a fabwysiadwyd gan Kate.

⁴⁰ *Y Cynddrws*, t.5

Sali'r Sgallan, merch ifanc a oedd yn byw tali ac yn magu nythaid o blant ac a fu farw'n ifanc yw'r cymeriad cyntaf i siarad yn y ddrama.⁴¹ Ar un olwg ymddengys i Sali fod yn gwbl fodlon ei byd, ond, ofnai y byddai ei chymar yn ei gadael hi am nad oedd rhyngddynt gwllwm priodas, ac roedd ofn marw arni. "O pam na ddaw o?" yw geiriau agoriadol y ddrama. Yr "o" hwn, fe ymddengys yw Wil, y sawl y bu Sali'n cyd fyw ag o, neu'n byw tali ag o chwedl Kate Roberts, ar y ddaear. Edrydd Sali fel yr oedd ganddi hi a Wil nythaid o blant, a phan yw'n sôn am ei bywyd yn magu ac yn cadw tŷ ('Y Sgallan' oedd enw eu cartref a dyma a rydd i Sali ei llysenw) gwna hynny mewn modd annwyl iawn.

Sali: Cymryd fy mwyniant fel y doi y byddwn i. Eistadd yng nghanol fy ngwaith a mwynhau fy hun ar y munud. Mynd allan i'r haul ac eistedd ar stôl i roi fy mron i'r babi. Peth braf oedd i weld yn cymryd sbel ar hanner sugno ac agor ei geg i chwerthin a rhoi slap ar fy mron i. Fyddwn i byth yn edrach ymlaen at orffan eu magu nhw.⁴²

Ychydig iawn o arian a welodd Sali'r Sgallan ar y ddaear ond nid yw'n danod hynny. Ymresyma mewn dull stoicaidd iawn "...ond pan mae pobl yn byw yn gytûn efo'i gilydd, mi allan ddal llawar o dlodi". Ni ellir dianc rhag y ffaith fod yma debygrwydd rhwng Sali a'r fam yn nrama gynnar Kate sy'n dwyn yr un enw *Y Fam*. Melodrama ar gychwyn yw hanes Sali, hithau. Caiff y ddwy ferch ifanc hyn yn y ddwy ddrama eu cipio gan angau yng ngwanwyn eu hoes gan adael plant a chymar ar ôl.

⁴¹ Sali yw enw'r cymeriad cyntaf a gyflwynir yn *Tywyll Heno* hefyd, ac mae hithau yn perthyn i ystafell arall sy'n nodweddu caethiwed, yn y seilam y tro hwn. Hefyd mae yma gysylltiad â thema'r 'byd arall'; "Y hi oedd y diafol a'm tentiai yn y lle hwn." Kate Roberts, *Tywyll Heno*, t7

⁴² *Y Cynddrws*, tt17-18

Dywed Sali nad oedd hithau, fel Goronwy Owen, wedi byw trwy ryfel. Rhydd hyn yr argraff inni mai hi felly yw un o'r cymeriadau hynaf yn yr ystafell, gan ei bod wedi marw ac wedi dyfod i'r cynddrws cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Sonia hefyd amdani ei hun fel merch ifanc yn cofio gweld dyn a oedd wedi bod yn Rhyfel y Crimea. Gwyddys mai 1853-1856 yw dyddiadau'r rhyfel hwnnw, ond nid yw Sali'n dweud faint yn union oedd ei hoedran pan welodd y dyn ac felly bodloni ar osod oes Sali ar y ddaear yn niwedd yr 19g a wnawn. Gesyd hyn Sali, felly, ynghanol cyfnod crefyddol o bwys mawr yng Nghymru. I oes Gwen Tomos, Daniel Owen y perthyn hi. A chan gofio mai un o'r nodweddion a glodforir fwyaf yng nghymeriad Gwen Tomos yw ei moesoldeb rhinweddol, sylweddolir gwir faint bechod Sali yn llygaid pobl y cyfnod.

Oes lle y rhoddwyd pwys anferthol ar air y Beibl ac oes gymdeithasol gul iawn nad oedd yn arddel unrhyw wyro oddi wrth reolau llym y capel oedd diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl Jane Aaron yn ei herthygl 'Y Flodeuwedd Gyfoes: llên menywod 1973-1993', "Er dyddiau'r Llyfrau Gleision, ffordd unionsyth i ddamnedigaeth oedd rhywioldeb merched dibriod ym marn crefyddwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg; diarddelwyd o'u capeli ferched a ddrwgdybiwyd o amharchu anrhydedd priodas a'r gwely dihalogedig".⁴³

Sali: Do, 'mi wn – mae digon o sôn am rywun a fentrodd fyw efo dyn mewn priodas heb i briodi fo, a hynny pan oedd capeli Cymru yn llawn. 'Sali byw tali' oeddwn i ar lafar gwlad.⁴⁴

⁴³ Aaron, Jane, 'Y Flodeuwedd Gyfoes: llên menywod 1973-1993', *Diffinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* gol. M. Wynn Thomas, t.203

⁴⁴ *Y Cynddrws*, t.9

Ond, yn groes i'r disgwyl cymdeithasol, ond nid efallai i'r sawl sy'n gyfarwydd â gwaith Kate Roberts, nid dyma'r pechod a roddodd docyn unffordd i'r cynddrws i Sali. Nid yw 'byw tali' yn bechod yn llyfrau Kate Roberts,⁴⁵ waeth beth yw barn y capeli ar y mater. Ymddengys fod Sali'n gorfod dioddef am ei bod "wedi caru Wil y Sgallan yn rhy dda".

Miss Citi: ... Wedi caru Wil y Sgallan yn rhy dda mae Sali,
ac mae hi'n methu byw hebddo fo yn y fan yma.⁴⁶

Gan nad oedd cwlwm priodas yn eu clymu wrth ei gilydd roedd Sali'n ofni y byddai Wil yn mynd â'i gadael hi "gan fod gynno fo berffaith ryddid i fynd". Ond fel y digwydd pethau, Sali ei hunan sy'n gadael. "Mi aeth Angau a fi oddi arno fo" meddai Sali'n syml gan gyfeirio'n gynnil at baradocs eironig y sefyllfa. Mae defnyddio prif lythyren yn 'Angau' fel hyn, i droi'r enw cyffredin yn un priod yn cyfleu'r syniad o feidrolyn cig a gwaed yn cipio Sali oddi ar ei chymar. Ei hofn pennaf hi wedi ei wyrdroi'n greulon.

Gyda dyfodiad Siôn Llwyd i'r ystafell caiff Sali fymryn o newyddion am Wil. Cyflwynna Siôn ei hun fel "hen drampwr o sir Gaernarfon" ac mae'n rhaid mai o'r sir honno yr hanai Sali hithau gan fod cof amdani yn parhau yn yr ardal honno. "Mi'r oeddat ti'n draddodiad yn yr ardal erbyn f'amser i" meddai Siôn. Ymhellach, y mae Sali'n datgan ei bod hithau'n adnabod teulu Siôn, ond anodd llyncu hynny, mewn gwirionedd. Nid yw Siôn yn enwi nac yn sôn am ei deulu o gwbl yn y ddrama ac felly ni ellir anwybyddu'r ffaith fod rhyw nam bychan ar gynllun y ddrama yn y fan hon.

⁴⁵ Nid oedd Kate yn gweld unrhywbeth o'i le ar drefniant Jean-Paul Sartre a Simone de Beauvoir a oedd yn byw gyda'i gilydd heb briodi; "Mae ei byw tali gyda Sartre yn beth digon glân." *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t.200

⁴⁶ *Y Cynddrws*, t.9

Edrydd Siôn ychydig o hanes Wil wrth Sali.

Sali: Deudwch i mi, Siôn Llwyd, ydach chi'n nabod Wil, neu oeddach chi yn i nabod o?

Siôn Llwyd: Ydw. Oeddwn yn iawn.

Sali: A sut mae o?

Siôn Llwyd: O mae o'n fyw o hyd yn hen greadur hen, hen, wedi colli i go, yn cofio dim.⁴⁷

Y mae'r newydd yma yn peri dychryn i Sali a saetha gwestiwn at Siôn; "Ydach chi'n meddwl i fod o wedi f'anghofio fi?". Nid yw'r crwydryn yn gwastraffu geiriau a'i ateb swta ydy nad ydi Wil yn cofio dim; "Rydw i'n dweud wrthoch chi nad ydy o'n cofio dim."

Ceisio Leusa Hughes gysuro Sali drwy ddweud y bydd o'n sicr o fod yn ei chofio pan ddaw o ati i'r cynddrws. Ac mae hithau yn darganfod rhyw ychydig o gysur yn y geiriau cyn i sylweddoliad arall wawrio arni, sef y gallai Wil fod wedi priodi gyda merch arall. Ond caiff ateb wrth ei bodd y tro hwn gyda Siôn yn cadarnhau na fu i Wil ail briodi. Rho Wmffra yntau ei big i mewn, gan gyfeirio at sut y bu i'r plant ofalu am Wil wedi iddo fynd i oed. Cyfyd hyn gwestiwn arall yn meddwl y gynulleidfa. Os oedd Wmffra yn adnabod Wil yn ddigon da i wybod fod ei blant yn gofalu amdano, yna pam na fyddai wedi sôn am hynny wrth Sali ynghynt? Does dim awgrym fod Sali'n gwybod dim am amgylchiadau Wil nes y cyrhaeddodd Siôn, ac felly dim awgrym fod Wmffra wedi

⁴⁷ *Y Cynddrws*, t.9

crybwyll Wil yn ystod y pum mlynedd y bu ef yn yr ystafell hon. I osgoi'r blerwch hwn hawdd fyddai i'r dramodydd osod y frawddeg am ofal y plant am eu tad yng ngenau Siôn. Byddai hynny'n haws o lawer i'r gynulleidfa ei dderbyn.

Nid yw'n debygol fod Sali'n mynd i ddysgu ei gwrs yn fuan. "Pam na ddaw o?" yw ei chri feunyddiol. Yn gwbl hunanol mae'n deisyfu marwolaeth i Wil, er mwyn iddi hi gael ei gwmi yn y cynddrws. Ceisia hawlio ei fywyd; ei feddiannu er ei budd personol ei hun. Nid yw'r posibilrwydd na ddaw Wil i'r cynddrws yn croesi ei meddwl, nac ychwaith y ffaith petai'n dod i'r cynddrws y byddai Wil yn hen, hen ddyn a hithau'n parhau i fod yn ferch ifanc, ond mae'r gynulleidfa yn ystyried y posibilrwydd hwnnw. Tybed a gaiff Sali wybod pan ddaw diwedd oes Wil ar y ddaear? Pe digwydd i Wil groesi'n syth i'r nefoedd heb orfod galw yn y cynddrws yn gyntaf, a fyddai Sali rywfaint callach?

Sali'r Sgallan yw'r cymeriad cyntaf hefyd i adrodd ei hymson ar ddiwedd y ddrama. Ail bobiad o'r hyn a gafwyd eisoes sydd yn y fonolog. Hel meddyliau am ei bywyd ar y ddaear efo Wil, a'r plant a wna. "Ond roedd hi'n nefoedd arnon ni, 'roeddni ni mor iach."

Cariad sy'n achosi cwmp un arall o gymeriadau *Y Cynddrws* hefyd, sef Miss Citi. Hen ferch a chyn-athrawes a gafodd ei siomi gan ei chariad a suro wedyn efo'r byd a'i bethau yw Miss Citi. Heb os, byddai Kate Roberts yn ymwybodol y byddai'r gynulleidfa yn tynnu cymhariaeth rhyngddi hithau a Miss Citi. Wedi'r cwbl enw arall am Kate yw Citi, a chofier, wrth gwrs, i Kate fod yn athrawes ysgol nes iddi briodi Morris Williams yn 1928

a hithau'n tynnu at y deugain oed. Ni ellir ond cydnabod yn gwbl argyhoeddedig felly mai gweithred gwbl fwriadol ydoedd hon ar ran y dramodydd.

Y mae Miss Citi yn gymeriad diddorol dros ben ac yn gymeriad hanfodol hefyd.

- Leusa Huws: Y chi wedi cael poen Miss Citi, fasa neb yn meddwl hynny?
- Miss Citi: Do ddigon, a hynny ar ddechrau fy mywyd, yn ifanc iawn.
- Sali: Ond wnewch chi ddim deud wrthon ni Miss Citi? Mi dynasoch chi fy nhu mewn i allan.
- Goronwy Owen: Do, yn wir.
- Miss Citi: O, dim ond imi gael fy nhwyllo gan y dyn ifanc oeddwn i yn i garu. 'Roeddwn i'n meddwl y byd ohono fo, ac ynta ohono inna roeddwn i'n meddwl.
- Sali: A d'oedd o ddim wedi'r cwbl?
- Miss Citi: Nag oedd – mi'r oedd o'n caru efo un arall ers misoedd, ac mi priododd hi.⁴⁸

Thema gyffredin yn straeon byrion Kate Roberts yw siom cariad. Daw Eban Llwyd i'r meddwl yn syth; enghraifft wych o fywyd yn nychu yn dilyn siomedigaeth garwriaethol fel y gwelwyd eisoes. Ond mae dolur Miss Citi yn un ddeublyg; “ 'Roeddwn i wedi rhoi benthyg canpunt iddo fo, a ches i byth ddimai yn ôl” – mae ei chalon a'i phoced yn dioddef. Tra diddorol hefyd yw sylwi sut y mae'r un syniadau yn ymddangos dro ar ôl tro yng ngwaith Kate Roberts. Mae'r swm hwn o ganpunt yn un tra gyfarwydd ac yn cael

⁴⁸ *Y Cynddrws*, tt.13-14

sylw arbennig yn y ddrama gomedi gynnar ganddi, sy'n dwyn yr union deitl hwnnw *Y Canpunt*.

Yn wahanol iawn i Eban Llwyd sy'n byw fel meudwy wedi ei siom yntau, bwrw iddi i'w gwaith gydag ymroddiad a wnaeth Miss Citi wedi iddi ddarganfod brad ei chariad.

Leusa Huws: ... Wn i ddim am neb wnaeth gymaint dros i chymdogion - mi'r ydach chi'n Gristion, os bu Cristion erioed.⁴⁹

Ac ymhellach;

Leusa Huws: O mi'r ydach chi yn garedig Miss Citi, dwn i ddim pam yr ydach chi yn y fan yma a chitha wedi byw er mwyn bobl erill.⁵⁰

Ond dydi hynny ychwaith ddim yn ddigon i wneud iddi anghofio.

Miss Citi: Ond d'oeddwn i ddim yn fodlon wrth wneud hynny. Yr oedd yn llai o drafferth gwneud hynny dyna'r cwbl... gwneud er mwyn anghofio poen yr oeddwn i.⁵¹

Ac yn fwy pwysig na hynny hyd yn oed, mae'r profiad sur hwn wedi gadael blas drwg ar ei ôl ac mae'n lliwio sut y mae hi'n perthnasu gydag eraill.

Miss Citi: Peidiwch â chamgymryd – poen sy'n gyrru llawer o bobl i wneud gweithredoedd da – gwneud rhywbeth i anghofio – gweithio, dal, dal i weithio er mwyn anghofio ein siom, a dim ond cael ein siomi wedyn yn ein cyd-ddynion.⁵²

⁴⁹ *Y Cynddrws*, t.14

⁵⁰ *ibid.*, t.13

⁵¹ *ibid.*, t.17

Ac yn y fan hon efallai y ceir ateb i'r cwestiwn 'pam fod Miss Citi yn y cynddrws?' Yn syml bu iddi golli ei ffydd; ei ffydd yn bobl eraill. Nid yw'n ystyried am funud fod a wnelo'r ffaith fod pobl eraill yn ei siomi o hyd â rhyw ddiffyg ynnddi hi ei hun. Bai pobl eraill, 'yr arall' ac nid bai 'yr hunan'; eto, thema gyffredin yng ngwaith yr awdur ac a drafodir mewn manylder ymhellach.

Miss Citi sydd hefyd yn taflu goleuni ar ambell bwynt diddorol arall ynghylch pwrpas y cynddrws. Fe wŷr hi bethau; ffeithiau am y cynddrws. Nid yw'n datgan sut y daw i wybod y pethau hyn, ac ni fedrwn ninnau ond dyfalu mai dysgu drwy brofiad a wnaeth.

Miss Citi: Wel, welwch chi'r drws acw-y – neu'r porth acw ddylwn i ddweud, mae nhacw yn arwain i'r byd arall, ond yr ydan ni yn gorfod disgwyl yn y fan yma cyn mynd yno am ein bod ni wedi bod yn anhapus ar y ddaear.⁵³

Fe wŷr hi rywbeth arall pwysig hefyd sef mai yno i gael eu 'dysgu' maen nhw ac nid i gael eu 'cosbi'.

Siôn Llwyd: ... Cael ych cospi ydach chi felly?

Miss Citi: Nace. Ein dysgu.⁵⁴

Eto, nid yw'n manylu ar union natur y wers nac ar sut y gŵyr hi hynny ond mae hi'n ymwybodol o'r ffaith fod yn rhaid iddyn nhw fyned drwy broses cyn cael eu gollwng

⁵² *ibid.*, t.14

⁵³ *ibid.*, t.4

⁵⁴ *ibid.*, t.50

drwy'r drws. Cerydda weddill y criw am beidio ag addasu eu ffordd o feddwl. Mae nifer ohonyn nhw, Sali a Siôn Llwyd yn enwedig, â'u llach ar bobl y capel, ond fe'u rhybuddir gan Miss Citi oferedd beio eraill am eu ffaeiddau eu hunain, "Lol i gyd. 'Dydan ni ddim wedi callio dim ar ôl dwad i fan'ma. Felna'n union 'roeddau ni'n siarad pan oeddau ni yn y byd." Mae hi hefyd wedi hen ddechrau difaru'r penderfyniadau a wnaeth tra'r oedd ar y ddaear. Mae'n cyfaddef iddi ddengid rhag ei phoen yn lle ei wynebu ar ei ben a'i drechu. Ond ei phryder mwyaf yw iddi fynd o'r byd "heb wneud dim", ac yna y mae'n datgan union ystyr y geiriau hynny yn ei bywyd hi;

Miss Citi: Byw. Byw. Priodi a chodi teulu.⁵⁵

Y mae'n eiddigeddus o'r merched eraill sy'n y cwmni am iddyn nhw gael yr hyn yr oedd arni hi eu heisiau gymaint. Nid yw'n gallu gwrandao ar Sali'n adrodd ei phrofiadau yn magu ei baban, "O Sali, peidiwch", ac â mor bell a datgan wrth Leusa Huws, a gollodd ei dau fab yn y Rhyfel Mawr, yn eithaf calon-galed, "Mae rhyw iawn mewn colli ar ôl cael. Ond, colli heb gael dim. O na chawn i ail gynnig."

Yn ei monolog clo, myfyria Miss Citi uwch ei phennyd, ac mae'n llwyr sylweddoli mai hi ei hun ac nid Dic, ei chyn gariad oedd ar fai am na fu hi'n hapus ei byd. Edrydd sut y bu iddi wastraffu ei bywyd, "...yn lle mod i wedi rhoi clec ar fy mawd a dweud fod cystal pysgod yn y môr ag a ddaliwyd. Suro wrth y byd, am fod rhyw un pysgodyn bach diasgwrn cefn wedi fy nhwyllo, yn lle mynd i bysgota wedyn".

⁵⁵ *ibid.*, t17

Yr un cymeriad yn y bôn yw Miss Citi a Bess Morris, *Tegwch y Bore*. Athrawes ydoedd Bet hithau wrth ei galwedigaeth a merch ddymunol iawn sy'n ffrind da i Ann, y prif gymeriad; “Rhyw hogan wastad iawn i theimpladau ydi hi ac yn credu mewn gwneud i dyletswydd bob amser.”⁵⁶

Ond mae dyfodiad y Rhyfel yn achosi cryn dipyn o newid yn ei chymeriad. Yng ngolwg pawb mae Bess yn “mynd yn rhyfedd iawn”. A’r rheswm dros hynny yn ôl Richard, cariad Ann yw; “Yn ôl pob dim glywais i gynnoch chi mae hi’n hogan sy’n credu mewn gwneud pethau i bobl eraill.” Gwneud gormod, yn syml, gan weld bai ar eraill am beidio â gwneud digon, a thrwy hynny yn ogystal, aberthu ei hapusrwydd ei hunan; “’Dydi Bess Morris ddim yn caru neb yn fawr iawn, nag ydi?”⁵⁷

Llwyddir, fodd bynnag, i achub Ann rhag yr un dynged. Bu iddi hithau deimlo’r oerni anesboniadwy hwn yn cau amdani; “... peth poeth ydi casineb, ac mi fasa rhyw siawns inni ddwad allan ohono fo. Mae ’nheimplad i yn waeth lawer na hynny. Mae’r gwenwyn yma yn beth mor oer.”⁵⁸

Ond yn wahanol i Bess a Miss Citi daw achubiaeth i Ann, a hynny ar yr unfed awr ar ddeg.

Yr oedd y tangnefedd hwn a ddaethai drosti yn anesboniadwy i Ann. Fe ddaethai fel cawod o law tyner, ac yr oedd ei effaith yr un mor adfywiol, er nad oedd am frysio.⁵⁹

⁵⁶ Kate Roberts, *Tegwch y Bore*, t.308

⁵⁷ *ibid.*

⁵⁸ *ibid.*, t.330

⁵⁹ *ibid.*, t.338

Ac y mae Richard yn hynod o falch na fydd Ann yn dilyn yr un llwybr â Bess.

“’Dydach chi ’rioed wedi’ch creu Ann i roi ych bywyd i ddysgu plant, nac i’ch cau ych hun oddi wrth y byd. Dyma oedd arna i ofn iddo ddigwydd i chi – ych gweld yn cefnu ar bob mwyniant ac yn gwneud peth hollol anaddas i chi – aberthu ych hun ar allor gwasanaeth.”⁶⁰

Yn wahanol i Bess a Miss Citi, mae i Ann siawns am hapusrwydd eto felly.

Gorchwyl pwysig arall sydd gan Miss Citi yn y ddrama yw cyflwyno Goronwy Owen inni, “... Bardd mawr, Goronwy Owen o Fôn”. Rhydd hyn gyfle wrth fynd heibio i Kate ddychanu byd addysg.

Miss Citi: Wel ia, ‘Goronwy’ fydden ni’n galw’r bardd pan oedden ni’n i wneud o yn yr ysgol ers talwm.

Goronwy Owen: Fy ngwneud i Miss Citi?

Miss Citi: Maddeuwch i mi Goronwy. Eich astudio a feddyliwn. Dyna’r Cymraeg sâl sy’n cael i siarad yng Nghymru rŵan, dim byd tebyg i Gymraeg eich llythyrau chi.⁶¹

Dan feirniadaeth lem hefyd y mae safon Cymraeg y cyfnod. Gwyddys fod Kate yn bregethwr cyson ar y testun hwn. Cwynodd yn *Y Faner*, yn 1946 “Bratiaith flêr a siaredir yn ardaloedd gwledig Sir Gaernarfon gan y mwyafrif.”⁶² Ac eto wrth Saunders Lewis

⁶⁰ *ibid.*, t.344

⁶¹ *Y Cynddrws*, t.7

⁶² Roberts, Kate, *Y Faner*, 22 Mai 1946, hefyd yn *Erthyglau ac Ysgrifau Beiriniadol Kate Roberts* t.207

mewn llythyr ym mis Hydref 1930, “ Fel y mae rwan, mae’r Gymraeg a sgrifennir fel dwr llugoer, budr a ddefnyddiwyd i olchi llestri seimlyd. Ach y fi!”⁶³

Pe roir o dan y chwydd-wydr am funud, y geiriau “yng Nghymru rŵan”, ar yr olwg gyntaf cyfleu mae’r geiriau mai newydd gyrraedd y cynddrws mae Miss Citi, ond tybed a oes yma ryw arwyddocâd arall? Yn aml, ceir yn y math hwn o *genre* gymeriadau sydd yn ymwybodol, drwy amryfal ffyrdd, o’r hyn sy’n digwydd ar y ddaear er eu bod hwy, ar eu marwolaeth o’r byd hwnnw, wedi eu trosglwyddo i ‘fyd’ arall. Er enghraifft, mae Estelle yn nrama Jean Paul-Sartre, *Caeddig Ddôr* fel petai yn gweld pobl yn ei hangladd ei hun;

Estelle: ... Ydych chi wedi ...?

Inès: Do. Yr wythnos ddiwthaf. A chithau?

Estelle: Fi? Ddoe. Dydi’r gwasanaeth ddim drosodd eto. (*Mae’n siarad yn hollol naturiol, ond fel petai’n gweld yr hyn y mae’n ei ddisgrifio.*) Mae’r gwynt yn chwythu fêl fy chwaer. Mae’n trio’i gorau i grio. Tyrd, tyrd, un ymdrech fach eto! Dyna ni! Dau ddeigryn bach yn disgleirio dan y düwch. Mae Olga Jaret yn cynnal fy chwaer gerfydd ei braich. ’Dydi hi ddim yn crïo, rhag difetha’r mascara a rhaid i mi gyfaddef petawn i yn ei lle hi ... Hi oedd fy ffrind pennaf fi.⁶⁴

Yn sicr, nid yw Kate Roberts yn ymdrin â’r ddyfais hon i’w phen llanw yn y ddrama hon, ond dengys, gyda hyn o awgrym, adnabyddiaeth o’r hyn sy’n arferol yn y math hwn o lenyddiaeth.

⁶³ *Annwyl Kate Annwyl Saunders*, t.67

⁶⁴ Jones, Richard T., *Caeddig Ddôr*, cyfieithiad o *Huis Clos*, Jean-Paul Sartre

Mae Miss Citi hefyd, fel y gellid disgwyl gan hen ferch o gyn-athrawes, yn llawn doethinebau; “Y rhai sy’n cymryd cyfrifoldeb poen sy’n cael poen”, “twllwch y sydd oddi mewn” a “Rydan ni i gyd wedi pechu...”. Perlau, a phob un ohonyn nhw’n goleuo cornel fechan o weledigaeth ganolog Kate y dramodydd.

Crwydryn syml yw Siôn Llwyd ar yr olwg gyntaf. Cyfarfyddir ag ef pan yw’n glanio yn y cynddrws, yn llythrennol felly, wedi iddo “neidio dros ben wal”. Nid yw’n ymwybodol o gwbl o’r hyn sydd wedi digwydd iddo;

Siôn Llwyd: Ym mhle ar y ddaear ydw i?

Goronwy Owen: D’wyt ti ddim ar y ddaear pwy bynnag wyt ti.

Siôn Llwyd: Ddim ar y ddaear? Lle’r ydw i ynta?⁶⁵

Pan ddaw i wybod y gwir, y mae’n rhyfeddu; “Nid peth fel yna ydy marw - roedd o rhy hawdd.” Cytuna’r cymeriadau eraill ag o gan gyfaddef nad oedd o “cyn waethed ag oedden ni yn i ofni”. Hola Siôn Llwyd, “hen drampwr o Sir Gaernarfon, ‘Siôn Llwyd Ddigartra’ ar lafar gwlad”, ynghylch pwrpas y mangre hwn y mae’n ei ddarganfod ei hun ynddo. Miss Citi sy’n ei ateb ac yn datgan yn ddisigl mai yno y maent oll ac un am eu bod wedi bod yn “anhapus ar y ddaear”. Fel ymateb i hyn y mae’r frawddeg y mae Siôn Llwyd yn ei hynganu nesaf yn hollbwysig; “Fûm i ddim yn anhapus.” Brawddeg sy’n crisialu holl fyrdwn y ddrama. Am na fuodd Siôn Llwyd yn anhapus nac yn anfodlon ar y ddaear ef yw’r unig un i gael ei ollwng o’r cynddrws.

⁶⁵ *Y Cynddrws*, t.2

Yn sgil dyfodiad Siôn Llwyd caiff y cymeriadau eraill dipyn o newyddion am y byd a'i bobl, ac ambell hanesyn amdanynt eu hunain hefyd. Y mae ganddo ddigon i'w ddweud am Wmffra, er enghraifft, gan ei fod yn ei adnabod yn dda yn y bywyd arall.

Ffermwr cefnog ydoedd Wmffra ar y ddaear ac yr oedd hefyd yn wastad ag un llygaid ar y geiniog. Y mae dan y lach gan nifer o'r cymeriadau eraill am iddo elwa o'r Rhyfel Mawr, pan oedd gymaint o ddiodef. Câl fwy am ei gynnyrch yn ystod amser rhyfel a chawsai gadw ei ddau fab adref i weithio'r fferm, ac felly eu harbed rhag eu lladd yn y ffosydd. Y mae'r ffaith olaf hon yn ddraenen boenus yn ystlys Leusa Hughes. Ni fu hi mor ffodus; bu'n rhaid i'w bechgyn hi fynd i ymladd yn y rhyfel a chawsant eu dau eu lladd, "d'oedd neb yn malio bod fy hogia bach i wedi eu lladd dros Berlin." Methodd Leusa Hughes â dygymod â'r boen o golli ei phlant a bu'n rhaid iddi dreulio cyfnod yn y seilam.⁶⁶ Fodd bynnag, fe'i rhyddhawyd o'r ysbyty meddwl, ond ni lwyddodd wedyn i ymdopi â'r amgylchiadau creulon a ddaeth i'w rhan a phenderfynodd gymryd ei bywyd ei hun; "Y penderfynu oedd yn anodd. Gweld rhai rhesymau dros beidio, ond miloedd dros imi wneud. Ond wedi penderfynu d'oedd y gweddill yn ddim byd, d'oeddwn i ddim ond fel darn o bapur yn y gwynt wedyn."⁶⁷ Eto i gyd, yn groes efallai i'r disgwyl ac yn sicr yn groes i'r hyn sy'n nodweddiadol o'r *genre*, nid am gyflawni hunanladdiad y caiff Leusa Hughes ei hun yn y cynddrws, eithr yn syml iawn, am ei bod yn ymdrochi'n ormodol mewn emosiynau hunanol.

⁶⁶ Cymharer â Bet Hughes, *Tywyll Heno*

⁶⁷ *Y Cynddrws*, t.16

Uchelgeisiol iawn o du Kate Roberts oedd cynnwys cymeriad o gig a gwaed yn ei drama. Tasg anodd yw plethu'r dychmygol a'r ffeithiol, ac er nad yw'r ymgais hon gan Kate Roberts yn argyhoeddi'n llwyr fel y gwelir yn y man, rhaid cofio bod traddodiad mewn llenyddiaeth o'r math hwn o osod beirdd ac arweinwyr dysg yn y purdan. Digwyddodd hynny yng ngherdd fawr Dante ond roedd wedi digwydd mewn llenyddiaeth Gymraeg hefyd. Ymddangosodd stori fer gan Gwilym T. Hughes yn *Y Genhinen* ym 1952 yn dwyn y teitl 'Y Gwaredigion'. Stori yw hon am aelodau o gymdeithas y Gwyneddigion sy'n darganfod eu hunain mewn "ystafell orffwys yn y Gwynfyd".⁶⁸ Mae Owain Myfyr, William Owen Pughe, Twm o'r Nant, Iolo Morgannwg a hyd yn oed William Shakespeare yn ymddangos yn y byd arall hwn.

Ffaith ddiddorol arall a all fod o gymorth wrth geisio deall cymhelliad y dramodydd i gyflwyno Goronwy Owen yn y modd hwn yw honno sy'n clymu Kate Roberts wrth ŵr o'r enw J. Seymour Rees. Wedi iddi symud i Aberdâr bu Kate yn rhyw fath o ganlyn y Parchedig J. Seymour Rees,⁶⁹ brodor o Aberaeron yn wreiddiol a gweinidog gyda'r Annibynnwr yng Nghefncoedcymer, yn ymyl Merthyr Tudful ac yng nghysgod Bannau Brycheiniog, er 1915. Gŵr ifanc a chanddo uchelgais i fod yn fardd ac yn llenor oedd J. Seymour Rees ar y pryd, ac efallai fod ei ddiddordeb yn y stori fer ac mewn barddoniaeth wedi apelio at Kate.

⁶⁸ Hughes, Gwilym T., 'Y Gwaredigion', *Y Genhinen* III, Gaeaf 1952, tt.25-33

⁶⁹ Llwyd, Alan, *Kate*, tt. 86-87

Yn ddiddorol iawn yn *Y Genhinen*⁷⁰ ceir stori fer yn dwyn y teitl *Dau Alltud*, gan neb llai na'r J. Seymour Rees hwn. Stori fer a adroddir gan sylwebydd anhysbys wrth iddo fod yn dyst i sgwrs rhwng Goronwy Owen a Williams Pantycelyn yw hon.

Ni chefais ddim o bwys i'w gofnodi am gyfnod gan i'r ddau gyfnewid syniadau am ŵr a fu gynt yn anamlwg iawn yn y fro hon. Dirwynodd y siarad ymlaen at y gamdriniaeth a gafodd ef gan ei Eglwys. Yna, ategwyd hyn gan y byrraf o'r ddau yn y datganiad hwn:-

“Caled yw troeon yr yrfa yn fynych i bawb ohonom. Daeth llawer o siom ar fy llwybrau innau hefyd o bryd i'w gilydd”.

Distawodd ef am ychydig amser fel pe'n galw rhywbeth i gof. Yna, cododd ar ei draed gan adrodd yn doddedig:-

“Cerais fy ngwlad, geinwlad gu-
Cerais, ond ofer caru.
Mawr fy nghwynfan amdani;
Mal Seion yw Môn i mi”.

Gwelais y gŵr tal ar ei draed, ac yn estyn ei law allan wrth ofyn “Ai Goronwy Ddu o Fôn ydych?”

“Ie”, oedd yr ateb tawel a gwylaidd a glywais.

Siglwyd dwylo'n galonnog nes i Oronwy ofyn: “Pwy, tybed, ydych chi?”

Mynegwyd yn syml: “William Williams o Bantycelyn”.

Datganwyd balchder o'r ddeutu yn hwylus, ac eisteddwyd eto ar y boncyff deri.

Cyd-ddigwyddiad? Efallai, ond ni ellir osgoi'n llwyr y posibilrwydd i Rees ddylanwadu ar benderfyniad Kate i gynnwys Goronwy Owen yn ei drama. Wrth gwrs, dylanwad posibl arall yw hoffter ei chyn Athro Prifysgol, Syr John Morris-Jones o waith Goronwy Owen. Ffaith sydd wedi ei chofnodi yn y nofel led gofiannol honno *Tegwch y Bore*, ble mae Ann yn hel atgofion am eu dyddiau Coleg mewn llythyr at ei ffrind Dora.

Wyt ti'n cofio fel y byddai'r Athro yn llafar ganu?

⁷⁰ Rees, J. Seymour, 'Dau Alltud', *Y Genhinen II*, Haf 1952, t.168

‘Disgwyl a da y’ m dysger
Yn araf a wnafl, fy Ner.’⁷¹

Ymhellach y mae’n trafod dylanwad yr Athro arni mewn ysgrif ym 1964;

Nid yw’n rhaid imi sôn am ei dôn arbennig ef ei hun wrth ddarllen barddoniaeth. Mae honno’n wybyddus i bawb a fu’n gwrando arno yn beirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol, lle y gallai ddal torf o wyth mil ar gledr ei law heb help unrhyw feicroffon. Y llinellau o’r ystafell ddosbarth a glywaf fi byth yn fy nghlustiau ydyw;
“Disgwyl a da y’ m dysger
Yn araf a wnafl fy Nêr.”⁷²

Bardd ydoedd Goronwy Owen a aned yn Llanfair Mathafarn Eithaf, Môn ym 1723. Yr oedd yn fardd galluog iawn, “bardd caeth mwyaf blaenllaw ei ganrif”⁷³ yn ôl ei gofiannydd Alan Llwyd. Magwraeth dlawd a gafodd heb lawer o addysg ffurfiol er y bu’n ffodus i fod yn gyfeillgar gyda Lewisiaid Môn ym more ei oes. Roedd ei fam, Siân Parry yn gweini ym Mhentre-eiriannell, cartref y Morrisiaid. Fodd bynnag, suro fu hanes y berthynas rhwng y gwŷr dysg hyn. Yr oedd Goronwy yn gaeth i’r ddiod gadarn a hynny ynghyd â’r dyledion mawr a gasglodd a barodd iddo fod ar grwydr ymhell o’r Gymru a garai gymaint, a’r rheswm pam na ddychwelodd byth. Wrth ei waith, yr oedd yn offeiriad gyda’r Eglwys, ond roedd problemau yn codi o hyd ac yr oedd byth a beunydd ar y clwt. Collodd ei gyntaf anedig, merch o’r enw Elin, yn faban bach yn Walton, Lerpwl ac oherwydd ei swydd fel Offeiriad yr Eglwys fe ei hunan a’i claddodd hi. Canodd awdl farwnad iddi, sy’n agor gyda’r englyn trist hwn:

Mae cystudd rhy brudd i’ m bron – ’rhyd f’wyneb

⁷¹ Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, t.28

⁷² Roberts, Kate, ‘Atgofion am Syr John Morris-Jones’, *Barn*, Awst 1964, tt.279-280

⁷³ Llwyd, Alan, *Gronwy Ddiabael*, *Gronwy Ddu*, t.9

Rhed afonydd heilltion;
Collais Elin liw hinion,
Fy ngeneth oleubleth lon.

Yn ôl Branwen Jarvis, “The poem is highly conventional, stylized even, but it is a heartfelt expression of a father’s grief, all the more moving for its dignity and lack of hysteria”.⁷⁴ Yn nrama Kate, mae Leusa Huws yn edliw iddo anghofio am ei Elin yn fuan iawn wedi ei cholli. Nid yw Goronwy yn anghytuno â hi fel y cyfryw, eithr dweud yn unig y bu’n rhaid iddo geisio anghofio am fod ei golledion “mor fawr”. Cyfeirio y mae, yn ogystal at ei wraig, Elin arall, a’i fab Owen a anwyd ym 1957. Yn y flwyddyn honno hefyd aeth Goronwy a’i deulu ar fordaith hir ar fwrdd y ‘Tryal’ o Loegr i Virginia, America i chwilio am fywyd gwell. Ond llong afiach ydoedd y ‘Tryal’, (fel yr oedd yn nodweddiadol o longau’r cyfnod) yn llawn budreddi ac afiechydon a charcharorion ffiaidd a oedd yn cael eu trawsgludo am eu troseddau. Bu farw ei wraig a’i fab bach yn ystod y fordaith, tua dechrau 1758, a gorfu iddo eu gollwng i’r môr.

Goronwy Owen: ... ond mi’r oedd fy ngholledion i mor fawr –
colli fy Elin yn blentyn pedair oed, a cholli fy
ngwraig a’ m bachgen ar y môr wedyn. Beth
fedrwn i wneud i anghofio ond ail-briodi?⁷⁵

Wedi cyrraedd Virginia, rywbryd rhwng Awst a Hydref 1758, mae Goronwy yn priodi’r eildro gydag Anne Clayton. Ond bu hithau farw yn fuan iawn wedyn; yn ystod yr haf dilynol. Nid yw Leusa Huws yn fodlon derbyn esgus Goronwy;

⁷⁴ Jarvis, Branwen, *Goronwy Owen Writers of Wales*, t.22

⁷⁵ *Y Cynddrws*, t.10

Leusa Huws: Anghofio? I beth oedd arnoch chi eisiau anghofio? Wedi i chi gyrraedd rhyw oed, d'oes yna ddim byd yn digwydd ond yn y co'. Fedrai gwraig arall ddim dileu ych gwraig gynta chi a'ch plant oddiar ych co chi. Tasa chi'n deud fod arnoch chi eisiau rhywun i'ch cysuro.

Mewn llythyr at Saunders Lewis ym 1930 eglura Kate beth oedd pechodau Goronwy yn ei golwg hi. Ei fai mwyaf oedd “meddiannu hapusrwydd ei hun”⁷⁶ meddai. Ni ellir dadlau fod ceisio hapusrwydd yn un o bennaf amcanion y bardd mewn bywyd, nid yw'n wahanol yn hynny o beth i sawl un arall, ond fel yr edrydd y llinell enwog honno o waith y bardd ei hun, (*Cywydd y Maen Gwerthfawr* 1753) ac a ddyfynnir yn y ddrama, “chwilio gem a chael gwymon” ydoedd hanes anffodus Goronwy yn aml. Geiriau Alan Llwyd sydd yn crynhoi'r ddadl; “A rhaid cofio mai creadur anodd oedd Goronwy, creadur eithafol ei ymateb, angerddol ei deimladau, gŵr anystywallt, gwrthryfelgar a hunan-ddinistriol, y math o berson na allai fod yn hollol ddedwydd yn unman.”⁷⁷

Meddai Kate Roberts am Goronwy Owen:

Ni wn a fuasem yn galw Goronwy Owen yn fohemiad ychwaith. Dywed y geiriadur Saesneg mai sipsi yw bohemiad, ac awgrymir blerwch mewn dillad yn ogystal â blerwch mewn byw. Nid oes gennym dystiolaeth fod Goronwy Owen yn flêr ei wisg (hyd y cofiaf) ond yr oedd ei fywyd yn flêr iawn. ‘Dyn didoreth’ y buasai Deheuwyr yn ei alw. Yr oedd yn meddwi, yn benthycy arian, ac yn gwrthod eu talu, nodweddiion eraill bohemiaeth.⁷⁸

⁷⁶ Ifans, Dafydd, gol., *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t.180

⁷⁷ Llwyd, Alan, *Gronwy Ddihafal Gronwy Ddu*, t.322

⁷⁸ Roberts, Kate, ‘Llenorion a Bohemiaeth’, *Erthyglau ac Ysgrifau Beirniadol Kate Roberts*, t.271 a ymddangosodd yn gyntaf yn *Y Faner*, 19 Medi 1957.

Ymhellach;

Drwy ei lythyrau darlun o ddyd annymunol a welaf i, mae'n ddihidio wrth sôn am ei wraig, nid yw'n dosturiol wrth neb ond wrtho ef ei hun. Mae'n genfigennus o feirdd eraill, yn sbeityd o'r beirdd bol clawdd ac o'r hwntwyr. Y ni, bobl Gwynedd, yw hi efo fo bob tro.

Nid yw'r Morysiaid ddim gwell. Maent hwy yn gysnachu ar Oronwy yn ei gefn (chwarae teg nid yw Goronwy yn gwneud hynny â hwy), ac y mae Richard Morris neu Oronwy Owen yn dweud celwydd ynglŷn â'r arian a roddodd R. M. i Oronwy yn fenthyg, ac yr honnodd Goronwy ei fod wedi eu talu, er na fynnai R. M. mo hynny.⁷⁹

Yr hyn y medrir bod yn sicr ohono, fodd bynnag, yw nad ar hap y dewisiwyd Goronwy Owen. Y mae'r bardd caeth adnabyddus hwn yn gyfrwng, ymysg pethau eraill, i gyflwyno barddoniaeth yn y ddrama, ac i sbarduno trafodaeth ddiddorol ar y gynghanedd, ac ar safon barddoniaeth y dydd:

Goronwy Owen:	(yn mwmian wrtho fo i hun) Disgwyl a da y'm dysger.
Siôn Llwyd:	Yn lle cawsoch chi afael ar y llinell yna?
Goronwy Owen:	Fel mae'n digwydd y fi piau hi.
Siôn Llwyd:	Rydach chi wedi i dwyn hi oddi arna i.
Goronwy Owen:	Y fi wedi dwyn llinell o farddoniaeth!
Siôn Llwyd:	Dydy o ddim yn amhosibl ein bod ni wedi i dwyn hi oddi ar ein gilydd. (Yn siarad yn fawreddog ramadegol) Mae gan gynghanedd fel hanes yr arferiad anffortunos o'i hailadrodd ei hun... ⁸⁰

⁷⁹ Roberts, Kate, 'Llenorion a Bohemiaeth', *Erthyglau ac Ysgrifau Beirniadol Kate Roberts*, t.275 a ymddangosodd yn gyntaf yn *Y Faner*, 19 Medi 1957.

⁸⁰ *Y Cynddrws*, t.4

Ceir yn ogystal drafodaeth ar fesur penodol sef ‘Y Wers Rydd’; testun y drafodaeth. “Lobscows” ydy’r math hwn o ganu yn ôl Siôn Llwyd ac â ymhellach drwy ddweud mai’r hyn sy’n nodweddu’r math hwn o ganu yw; “Rhyddni plant heb adael eu clytiau a chyn dywyllled â bol buwch”. Dadleua Miss Citi fod rhai beirdd yn cael eithaf hwyl ar farddoni ar y mesur hwn, a’u bod yn cynnwys y gynghanedd yn gelfydd. Ond cymryd y cyfan yn ysgafn a wnâ Siôn Llwyd drwy ddatgan yn gellweirus fod y gynghanedd yn sicr yn “fyw ac yn iach. Maen nhw’n i dirwyn hi wrth y llath yn Ymryson y Beirdd”. Nid dyma’r tro cyntaf i Kate Roberts feirniadu barddoniaeth, a’r gynghanedd yn benodol yn ei llenyddiaeth. Cyfyd dadl debyg rhwng cymeriadau mewn drama arall o’i heiddo, sef *Aros Wrth Loco*; “Sŵn i gyd heb ddim sens” yw barddoniaeth gaeth ym marn Mrs Huws yn y ddrama honno. Dywed hyn gymaint am yr awdur a’i ragfarnau ag a wna am y gwrthrych. A chofir hefyd bod Bet Jones, gwraig y gweinidog yn *Tywyll Heno*, yn nodi mai’r symton cyntaf o’r salwch tywyll sy’n dod drosti yw “bod y gair ‘syrffed’ yn fy mhen o hyd. Ysgrifennwn ef ar ddarn o bapur weithiau a cheisio gwneud cynghanedd ohono efo’r gair ‘seirff’ a methu.”⁸¹

Mewn llythyr at Saunders Lewis rhydd Kate ychydig o oleuni ar ei safbwynt ynglŷn â hyn oll; “Nid dyfod â barddoniaeth i mewn i glustogi a chwyddo’r ddrama a wneuthum, ond gyda’r bwriad pendant iawn, sef dangos mai clec y gynghanedd sy’n bwysig gan lawer o’r beirdd ac nid y profiad.”⁸²

⁸¹ Roberts, Kate *Tywyll Heno*, t.21

⁸² Ifans, Dafydd, gol., *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, tt.180-181

Gellid disgwyl y byddai gan Oronwy weledigaeth ynghylch eu sefyllfa hwy oll yn y purdan hwn – yr oedd yn weinidog wedi’r cwbl. Eithr nid yw’n cyffwrdd y pwnc o gwbl yn y ddrama. O safbwynt crefyddol, ei unig gyfraniad yw datgan ei anwybodaeth ynghylch y seiat; “Seiat? Beth ydy Seiat?”

Perthyn Goronwy i oes arall wrth gwrs; “d’oedd yna ddim capeli na blaenoriaid yn f’amser i”. Serch hynny, taro rhywun yn rhyfedd a wna’r ffaith nad yw Goronwy’r ddrama’n ceisio rhoi rhyw lun o esboniad ar ei sefyllfa ryfedd, yn enwedig o gofio bod crefydd a Duw yn themâu cyson yng ngwaith y bardd ei hun; “Mae gwaith Goronwy yn llawn o gyfeiriadau at Ragluniaeth Duw. Mae cyfeiriadau o’r fath yn britho’i lythyrau, ac yn amlwg yn y farddoniaeth.”⁸³

Mae’n debyg bod a wnelo hyn â’r ffaith, fel y soniwyd eisoes, nad yw cymeriad Goronwy’n wir yn taro deuddeg yma. Nid yw’r ddrama’n ddigon helaeth nac yn ddigon penodol i ganiatáu ymdriniaeth fanwl a sensitif o’r bardd. Er canmol ymdriniaeth Kate o’r cymeriadau eraill, gwêl Saunders Lewis, yntau, wendid yn y portread o Oronwy. Meddai wrth drafod y ddrama; “... a’i chymeriadau (oddieithr efallai Oronwy Owen) yn fyw ac yn wir”. Ac mae Kate ei hunan yn cydsynio;

Nid oeddwn yn hollol sicr o gymeriad GO fy hun – anodd dweud am ddyn a fu farw mor bell yn ôl. Ond wrth ddarllen ei lythyrau caf yr argraff ei fod yn snob. Cred yr Athro G J Williams mai ffug ysgolheictod yw ei ddiddordeb mewn hen bethau. Un peth yr oedd arnaf eisiau ei osgoi oedd y rhygnu ar ei hiraeth.⁸⁴

⁸³ Llwyd, Alan, *Gronwy Ddiarfael, Gronwy Ddu*, tt. 208-209

⁸⁴ Ifans, Dafydd, gol., *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t.180

Yn ei thrafodaeth ar y ddrama hon yn ei chyfrol ar Kate Roberts yn y gyfres *Writers of Wales*, gwna Katie Gramich y sylw mai Goronwy Owen yw prif gymeriad y ddrama hon; “the main character is an eighteenth-century poet”⁸⁵. Y mae’n hawdd gweld ei fod yn *un* o’r prif gymeriadau, ond anos yw cyfiawnhau’r gosodiad mai ef ydyw y prif gymeriad. Cymeriad cefndirol, dau ddimensiwn ydyw Goronwy’r ddrama ar ei orau. Pe byddai’n rhaid plymio, a dewis prif gymeriad mewn drama fel hon lle nad oes ceffyl blaen amlwg, mae’n debyg mai Siôn Llwyd fyddai’r dewis amlycaf, yn syml, am mai ef sy’n rhoi i’r ddrama ei strwythur, fel y gwelwyd eisoes. Eto i gyd y mae gan Katie Gramich ddadl gref dros ddweud mai cymeriadau stoc, ystrydebol ydi’r rhain i bob pwrpas, “allegorical or representative”⁸⁶ meddai, a’u bod, o’u rhoi ar brawf fel hyn, yn rhoi cyfle i Kate wneud pwynt amdanom ni, a’n ffordd ni o fyw, yn y byd hwn a dyna mewn gwirionedd yw prif bwrpas y detholiad hwn o gymeriadau.

Goronwy Owen sydd, serch hynny, yn cael y fraint o gloi’r ddrama, a hynny gyda’i fonolog snobyddlyd. “bobl bach ddwl” sydd gydag ef yn y cynddrws, meddai, ac mae’n dyheu am gael sgwrsio a ffraeo gydag ysgolheigion fel Lewis Morris a Rhisiart, am fod “pobl fawr i gyd yn ffraeo”. Diogel dweud na ellir rhagweld y bydd Goronwy yn symud o’r cynddrws yn y dyfodol agos er iddo fod yno “ers miloedd o flynyddoedd”. Erys un cwestiwn tyngedfennol; “Ond sut mae dysgu bodlonrwydd i fardd, un na fu’n fodlon erioed?” Ni all hyd yn oed Oronwy Ddu o Fôn, fe ymddengys, wneud dim ond derbyn ei dynged a dysgu sut i ddoddef y cymeriadau sydd gydag ef yn y cynddrws.

⁸⁵ Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, tt.78-79

⁸⁶ *ibid.*, t.78

Da y dywedodd rhyw ddydd o Ffrainc mai pobl erill ydy uffern.⁸⁷

Geiriau Wil yn y stori fer *Penderfynu* sy'n tystio i'r ffaith fod Kate Roberts yn gyfarwydd â, ac wedi darllen, bîd siwr, ddrama enwog (erbyn heddiw) Jean-Paul Sartre (1905-80), *Huis-Clos* a gyfieithwyd i'r Saesneg fel *No Exit* yn 1944, ac i'r Gymraeg fel *Caeëdig Ddôr* yn 1979. Nid oes dwywaith, fodd bynnag, ei bod yn ymwybodol o pwy ydoedd Sartre gan ei bod yn trafod agweddau ar ei fywyd a'i berthynas â'r ffeminist enwog Simone de Beauvoir (1908-86) mewn llythyr at Saunders Lewis yn 1964;

Fe ddarllenais ddwy gyfrol gynaf Madame de Beauvoir – mwynhau'r gyfrol gyntaf yn fawr iawn, a rhannau o'r ail. Mae'n debyg fod fy magwraeth Fethodistaidd (er nad yn rhy gul yn fy hanes i) wedi fy anghyflyru i i fedru mwynhau'r disgrifiadau yna o dai drwg a neuaddau masw. Mae byw tali efo Sartre yn beth digon glân.⁸⁸

Athronydd o Ffrainc oedd Jean-Paul Sartre (1905-1980) a chanddo ddylanwad enfawr ar nifer o agweddau ar y meddwl modern. Fe'i cydnabyddir fel meddyliwr craff a gwreiddiol a dorrodd dir newydd mewn sawl *genre* o fyd llenyddiaeth i fyd athroniaeth. Mewn rhagair i'w nofel *Nausea* fe'i disgrifir fel hyn; "...Sartre explored the meaning of human freedom in a century overshadowed by total war."⁸⁹ Hawdd fyddai priodoli'r union eiriau hynny i Kate Roberts, wrth gwrs, gan y gwyddom iddi hithau fyw drwy ddau ryfel byd, drwy ddirwasgiad enbyd y tridegau a thrwy flynyddoedd a welodd newid radical mewn moesoldeb ac yn ymddygiad pobl at grefydd ac at addysg.

⁸⁷ Roberts, Kate, 'Penderfynu', *Hyn o Fyd*, t.96

⁸⁸ Ifans, Dafydd, gol., *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, t.200

⁸⁹ Rhagymadrodd, *Nausea*, Jean Paul Sartre

Bu'r erydiad yn y conglfeini hyn yr oedd cymdeithas wedi ymglymu wrthynt ers cenedlaethau yn ysgogiad i lenorion ymchwilio gwerthoedd cymdeithas o'r newydd ac i herio'r drefn ond hefyd yn gyfle i ymchwilio'r enaid ac i ofyn cwestiynau mawr bywyd. I'r perwyl hwn mae nofel adnabyddus Kate Roberts, *Traed Mewn Cyffion* yn esiampl berffaith o'r darlunio hwn o ddadfeilio cymdeithas ar draul rhyfel a'r cwestiynu anorfod sy'n deillio o fyw mewn cyfnod o ansefydlogrwydd. Dan gochl y nofelydd mae Kate yn dwyn i gyfrif sawl un am erchyllterau'r byd fel y gwêl hi ef. Y mae'n rhoi'r llywodraeth, Duw, swyddogion y fyddin a hyd yn oed y fam yng nghyfraith yn y doc am eu troseddau. Ond mae hi hefyd, a dyma sydd a wnelom ni ag o, yn ymchwilio i'r berthynas rhwng Rhagluniaeth ac ewyllys rydd a rhwng rhyddid a chaethiwed; yn syml gellid dadlau mai gofyn y mae Kate i ba raddau y mae gan yr hunan y gallu i fyw ei fywyd?

Ychydig iawn o obaith sydd gan y cymeriadau yn *Traed Mewn Cyffion* i freuddwydio am ryddhad, yn sicr. Yn fwriadol, rhoes Kate Roberts deitl i'r nofel sy'n ddrych i dynged y cymeriadau sydd ynddi, ond, a hyn sy'n holl bwysig yn y cyd-destun hwn, gwnaeth Kate rywbeth tra gwahanol efo'i bywyd hi ei hun. Fe'n trewir gan yr argyhoeddiad fod a wnelo athroniaeth Sartre rywbeth ynglyn â gweledigaeth ganolog Kate Roberts.

He is interested in presenting a picture of what things are like, in bludgeoning his readers into accepting a certain view of the world, and he does not care very much what weapons he uses to do this.⁹⁰

Gall y geiriau hyn am Sartre gan Mary Warnock fod yr un mor wir am Kate Roberts.

Bernir Kate yn aml am bortreadu un ffordd o fyw, y ffordd o fyw y gwyddai hi orau

⁹⁰ Warnock, Mary, *The Philosophy of Sartre*, t.10

amdano, ie, ond hefyd y ffordd o fyw y dewisiai hi i'w bortreadu dro ar ôl tro. Ond er gwaethaf y mynych drafod ar fywyd llwm a chaled y chwarelwr ar ochr y mynydd yn Nyffryn Nantlle a geir yn llenyddiaeth Kate rhaid cofio un ffaith bwysig, sef y bu i Kate symud o Rosgadfan yn un ar ddeg oed (pan enillodd ysgoloriaeth i Ysgol y Sir yng Nghaernarfon symudodd i fyw gyda'i chwaer a'i brawd yng nghyfraith yn y dref honno) ac ni ddychwelodd. Fe gipiodd hi fywyd gwahanol felly o ddannedd ffawd, un o'i dewis hi ei hun, gellid dadlau. Sylweddolodd hi'n ifanc iawn ei bod hi'n rhydd i wneud fel y mynnai hi (ond ei bod hi'n ymwybodol o ffiniau cymdeithas). O ystyried ei bod hi'n 'rhamantu' gymaint am y bywyd chwarelyddol, gwnaeth pob ymdrech i sicrhau y byddai ei bywyd hi'n gwbl wahanol. Rhagrith? Efallai, ond gonest hefyd, yn yr ystyr ei bod hi wedi rhoi y cyfle hwnnw iddi ei hun ac ni ellir peidio â synied am hyn fel cryfder yng nghymeriad Kate, yn enwedig wrth ystyried athrylith ganolog Sartre sef ein bod ni oll yn gwbl rydd ac yn fwy na hynny, yn gwbl gyfrifol am bopeth a wnawn ac am bopeth a ddigwydd i ni.

We are free to be what we choose to be, and there is nothing else which we are. Even our feelings, as much as our actions, are freely chosen, for they are themselves attempts upon the world, just as actions are. .⁹¹

Ymhellach, wele galon athroniaeth Sartre;

Human beings, alone of all the objects in the universe, have to make free choices, and the range of their freedom is immense. They are free not only to do as they choose but to feel as they choose – in short, to be whatever they choose. With this extreme belief in freedom goes an equally extreme pessimism about the human predicament.⁹²

⁹¹ *ibid.*, t.118

⁹² *ibid.*, t.10

Cymeriad y bu dadansoddi mawr (ac anghytuno mwy) arni o sawl tu, yn feirniaid llenyddol hyd at feddygon seicriatyddol, yw Bet Jones, *Tywyll Heno*. Un o greadigaethau hynotaf Kate Roberts, ac un sy'n gadael cryn argraff ar ddarlennydd, yw Bet.

Mae'r stori fer hir hon, *Tywyll Heno*, yn olrhain cyfnod ym mywyd Bet pan yw'n dioddef o salwch meddwl difrifol. Byd cul, caethiwus yw ei byd hi fel gwraig i weinidog. Does neb yn deall yr hyn sydd yn ei chalon; neb ychwaith yn gwneud ymgais iawn i ddeall. Yn fuan mae ei theimladau tywyll a'i rhwystredigaethau yn ei threchgu ac mae paranoia llwyr yn ei gorchfygu.

Wrth wella ceisia egluro'r hyn a ddaeth drosti;

“ Mi es yn ddigalon ac yn isel fy ysbryd am fy mod i'n gweld nad oedd dim ystyr i fywyd. 'Fedrwn i ddim credu bod Duw yn rheoli'r byd wrth weld yr holl greulondeb sydd ynddo fo, a 'roeddwn i'n gweld nad oedd dim gwahaniaeth rhwng pobl y capel a phobl y byd.”⁹³

Yr ergyd, a'r gwirionedd mawr ydy nad oes yna wahaniaeth o gwbl, wrth gwrs, rhwng pobl y capel a phobl y byd. Fe w'yr Bet (a Kate a Sartre) hynny'n iawn, ei methiant i ddygymod â'r ffaith honno sy'n gwneud Bet yn sâl. “Rhagrith ydy'r cwbl” meddai hi wedyn wrth sôn am y cyfarfod gweddi, ac wrth Melinda mae'n cyfaddef mai “... o'r tu mewn i mi mae'r drwg. 'Rydw i wedi mynd i feddwl nad oes dim pwrpas i fywyd. 'Rydw i wedi colli fy ffydd.”⁹⁴ Nid colli ei ffydd yn Nuw yn unig a wna Bet, ond colli ei ffydd

⁹³ Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, t.10

⁹⁴ *ibid*, t.56

yn mhobl eraill (yn union fel Miss Citi yn *Y Cynddrws*) ac yn bwysicach fyth, ynddi hi ei hun.

Yn ei llyfr *The Philosophy of Sartre* mae Mary Warnock yn disgrifio sut mae unigolion, neu'r hunan, yn aml yn methu â dygymod â'r sylweddoliad mawr mai hwy, a neb na dim arall, sy'n gyfrifol am eu cyflwr eu hunain.

If one suddenly realized that one was responsible not only for what one did, but for what one felt, and how in general one saw things, one might indeed wilt under so vast a burden of responsibility. One is, after all, greatly comforted by the thought that some features of one's life are inevitable. One did not choose them; one may wish they were otherwise; but there is nothing whatsoever to be done about it, nor does one have to reproach oneself in the least for their being as they are.⁹⁵

A dyna Bet. Y mae hi'n wraig synhwyrol a deallus ar sawl lefel ac ni ellir ond synhwyro ei bod hi wedi bod yn byw dan orchudd, ac yn sydyn reit mae'r gorchudd yn cael ei godi gan adael iddi weld pethau fel ag y maen nhw mewn gwirionedd. Ond nid yw Bet yn hoff iawn o'r hyn a wêl ac â'r cwbl yn ormod iddi gan beri iddi wywo dan bwysa'r sylweddoliad.

Â Warnock rhagddi i drafod yr hyn a elwir yn '*mauvaise foi*' neu'n 'bad faith' gan Sartre, "...whereby we pretend that things are inevitable when they are not. One way or another Bad Faith consists in pretending to ourselves and others that things could not be

⁹⁵ Warnock, Mary, *The Philosophy of Sartre*, tt52-53

otherwise...’’⁹⁶ Enghraifft deilwng o ‘Bad Faith’ ar waith yn llenyddiaeth Kate Roberts yw Bet Jones yn *Tywyll Heno*.

Ambell dro ni allwn ond cydymdeimlo â Bet yn ei gwewyr meddwl. Dro arall, cyhuddwn hi o fod yn gwbl hunanol a hunangyfiawn. Onid y hi, a neb arall sydd ar fai am gyflwr ei bywyd? Onid y hi sy’n afresymol o benstiff, ac nid merched y capel? Oni ellir priodoli ei methiant llwyr i gyfleu ei theimladau i’w gŵr fel methiant o’i thu hi fel gwraig a chymar? Medrir, wrth gwrs, ond serch hynny darbwylla Bet ei hun mai diffyg mewn pobl eraill yw achos ei dioddef hi, a hynny sy’n ei gwneud hi’n gnawdoliaeth berffaith o syniad Sartre o ‘Bad Faith’.

Prin y gellir cuddio'r ffaith mai datblygiad o Mrs Huws, gwraig arall i Weinidog yw Bet Jones. Ymddengys y gyfrol *Tywyll Heno* fel petai wedi tyfu o'r frawddeg honno yn *Tegwch y Bore*; "Mi fydda i dest a thorri allan yn y capel weithiau, a gweiddi dros bob man."⁹⁷ Ffiniau cul bywyd caethiwus gwraig i weinidog sy'n achosi'r anhwylder nerfol y mae Bet yn dioddef ohono a hanes y cyfnod cythryblus hwn yn ei bywyd a geir.

Yn hunangofiannol yr adroddir y stori ac yr ydym megis ar daith gyda'r prif gymeriad. Ymddengys mai dim ond drwy edrych yn ôl dros y digwyddiadau a ddaeth i’w rhan - eu hwynebu a'u cloriannu y daw iachâd a rhyddid mewnol i Bet.

⁹⁶ *ibid.*, t.153

⁹⁷ Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, t.110

Y mae'r daith yn cychwyn mewn ysbyty meddwl a chyda brawddeg agoriadol erchyll sy'n ein taro oddi ar ein hechel fel corwynt,

Cyn imi lawn ddeffro gwyddwn fod Sali uwch fy mhen yn barod i dynnu fy llygaid o'u tyllau wedi imi eu hagog.⁹⁸

Y mae Bet yn gymeriad amwys iawn. Ceir dau olwg arni yn aml. Mor denau ydi'r ffin rhwng cyfiawnder a hunan-gyfiawnder nes ei bod yn anos dweud.

"Yn araf y daeth" meddai hi, "ac ni wn sut, heblaw bod y gair 'syrffed' yn fy mhen o hyd". Y mae ei methiant i gynganeddu 'syrffed' â'r gair 'seirff' yn cael mwy o effaith arni nag a ddylai, ac y mae'n darganfod y gall weld pethau - "[l]lawer mwy nag a welwn cynt". Yn hwyr neu'n hwyrach dechreu deimlo fod Geraint ei mab yn troi ei gefn arni ac y mae â'i llach ar Gruff ei gŵr am iddo wneud ei ran dros bobl a gwneud hynny heb gwyno. Ond ym mhobl y capel, ac yn benodol yng ngwargedd y capel, y mae ei chyllyll ddyfnaf. Y mae rhagrith y merched hyn yn dân llidiog ar ei chroen ac y mae'n ei chael hi'n fwyfwy anos dioddef eu rhagrith.

" 'Does dim enw rhy dda i rai ohonyn' nhw yn siopau'r dre yma, a dwyn ydw i'n galw mynd i ddyled. A maen' nhw'n torri cyt efo'u hen Saesneg yn y capel a phobman, yn cymryd arnyn' fod yn ffrindiau mawr ac yn lladd ar i gilydd efo phobl erill..."⁹⁹

⁹⁸ Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, t.7

⁹⁹ *ibid*, t.64

Teimla ei hun yn dod yn gaeth i'r teimladau yma ac er pob ymdrech, ni all eu gwaredu. Gyda threigl amser teimla rhyw oerni corfforol yn ei meddiannu yn lle'r emosiynau berw cynt, ac fel y dywed Mrs Huws yn *Tegwch y Bore* "Mae oerni yn waeth".¹⁰⁰

Cymeriad arall sy'n wynebu'r un argyfwng tywyll yw Ffebi Beca awdures dyddiadur *Stryd y Glep*. O ganlyniad i ddamwain a gafodd pan ydoedd yn gweithio'n siop y teulu mae Ffebi Beca'n gaeth i'w gwely. Ond does ganddi ddim amheuaeth fod poen meddwl yn llawer gwaeth na phoen corfforol:

Yr oedd y sioc dair blynedd yn ôl o ganfod bod yn rhaid imi
orwedd yn hir yn y gwely yma yn llai o boen imi na'r pethau
a'm blina heddiw.¹⁰¹

Egyr y *nouvelle* hon gyda chofnod Mai 7 yn nyddiadur Ffebi Beca a chly gyda chofnod Medi 22. Nid yw'n gyfnod maith, ond gan ei fod yn gyfnod mor dyngedfennol yn ei hanes ymddengys iddi hi fel petai'n ymestyn dros flynyddoedd yn hytrach nag ychydig fisoedd. Yr un yw profiad Jane Gruffydd yn *Traed Mewn Cyffion* pan yw hithau'n dod wyneb yn wyneb â phryder am y tro cyntaf: "...fe'i cafodd Jane ei hun yn sefyll mewn storm lle'r oedd pob munud cyhyd â phob blwyddyn o'i bywyd er pan briododd."¹⁰² Cyfnod ydyw sy'n troi bywyd Ffebi wyneb i waered. Y mae'n gyfnod o hunanymholi, hunan-ddadansoddi a hunan-ddarganfod mawr i Ffebi Beca a hithau'n bymtheg a deugain oed neu fwy.

¹⁰⁰ Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, t.328

¹⁰¹ Roberts, Kate, *Stryd y Glep*, t.53

¹⁰² Roberts, Kate, *Traed Mewn Cyffion*, t??

Defnyddia Kate Roberts lawer ar yr hen ddelweddau archeteipaidd, tywyllwch a goleuni, yn ei llenyddiaeth, ac yn sicr y mae'n amlwg iawn yn y ddwy gyfrol *Stryd y Glep* a *Tywyll Heno*. Fel y mae'r salwch yn gwreiddio teimla Bet fod llen o dywyllwch mawr yn cau amdani, yn ei mygu a'i chaethiwo: "A dyma'r mwgwd yn dyfod dros fy llygaid eto a'r dŵch i'm calon,"¹⁰³ ac, "Erbyn trannoeth yr oedd y mwgwd wedi dyfod yn ôl a'r dŵch cyn drymed ag o gwbl, yn cuddio gwaelod fy nghalon."¹⁰⁴ Yr un dŵch sy'n dod i boenydio Ffebi Beca yn *Stryd y Glep*: "Yr oedd yn nos dywyll arnaf, heb belydryn o oleuni o unman..."¹⁰⁵ ac, "Yr oedd y dŵch yno, yn gorwedd o flaen fy llygaid fel llen ddu..."¹⁰⁶

Y mae gan Melinda hithau ei rhan i chwarae ym mhererindod ysbrydol Bet. Y mae rhyddid naturiol y wraig weddw gefnog hon yn ddeniadol iddi. Plesio'i hun y mae Melinda heb falio dim yn ysnachu pobl eraill. "Piciai i'r Cyfandir fel y piciwn i i'r dre."¹⁰⁷ meddai Bet yn wfftiol, ond diau fod yr ebychiad yna'n arwyddocaol a bod Bet yn eiddigeddu wrthi am allu mynd a dod mewn rhyddid. Sylwer eto fel y cysylltir Melinda gyda goleuni: "Y munud hwnnw yr oedd ei phresenoldeb fel rhan o'r haul a ddeuai trwy'r ffenestr...". A phan y mae Melinda'n gadael y mae'n mynd a "p[h]eth o'r haul allan efo hi". Felly hefyd Doli yn *Stryd y Glep*, "Daw i mewn i'r ystafell fel heulwen mis Mawrth..." ac fel adwaith i hynny y mae Ffebi'n teimlo'r "llen ddu yn agor ac yn dechrau cilio i ffwrdd yn araf, fel llen yn agor ar act arall mewn drama".

¹⁰³ Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, t.38

¹⁰⁴ *ibid.*, t.57

¹⁰⁵ Kate Roberts, *Stryd y Glep*, t.56

¹⁰⁶ *ibid.*, t.57

¹⁰⁷ Kate Roberts, *Tywyll Heno*, t.37

Prif ddolur Ffebi yw ei methiant i ddygymod â'r cyfnewidiadau mawr sy'n digwydd yn ei bywyd. Cyn hyn yr oedd yn fodlon ei byd am nad oedd dim yn tanseilio rhediad llyfn, rheolaidd pethau. Hoffai gwmmi'r criw bychan o gyfeillion a ymgasglai o gylch ei gwely ar nos Sul wedi'r oedfa, a byddai gwyllo'i chwaer yn mynd o amgylch ei gorwychwylion yn dod â boddhad iddi. Ond daeth newid ar fyd. Gellir olrhain y newidiadau i ddau ddigwyddiad arwyddocaol yn Stryd y Glep, sef fod John ei brawd yn chwilio am wraig a bod Rhys Glanmor y cyfreithiwr wedi marw gan adael ei dŷ i'w ferch Joanna.

O hynny allan daw paid ar lyfnder ac arferiad. Does dim cysur i'w ddarganfod yn y cylch ymgasgledig bellach ychwaith wedi i Miss Jones (y wraig a gadwai dŷ i Dan ers i'w wraig farw) a Joanna wahodd eu hunain yn aelodau o'r criw. Cordda emosiynau Ffebi Beca dan yr wyneb - yn araf i gychwyn, ond buan iawn y grymusant gan beri i Ffebi gael ei chaethiwo ganddynt. Ac ar y ddwy wraig ddieithr - Joanna sy'n ceisio dwyn ei brawd oddi wrthi, a Miss Jones sy'n rhwystr ar ffordd y cynllwyniau sydd ganddi ar gyfer Dan – y canolbwyntia ei chasineb. Cyrhaeddir uchafbwynt yng nghofnod Medi 15 pan yw Ffebi'n dymuno llofruddio Joanna:

Fy holl gasineb at Joanna wedi dychwelyd heddiw oherwydd yr olwg hapus arni ddoe... A chan fod John a Joanna yn mynd i briodi a chan y bydd yn rhaid imi ei gweld hi o hyd, nid oes ond un o ddau beth, cael gwared o'r casineb, trwy ei wthio o'm henaid, neu gael gwared ohono drwy gael gwared o Joanna. Cofiaf ddarllen fod llofruddion yn cael rhyddhad fel yna.¹⁰⁸

Wedi ymdreiddio'n ddwfn i seicoleg mewnol Bet Jones a Ffebi Beca a cheisio deall gwreiddyn y brwydro goddrychol sy'n chwalu eu bywydau, beth ynteu am yr iachâd? Yn

¹⁰⁸ Roberts, Kate, *Stryd y Glep*, t.87

hollol groes i'r broses araf a gymer yr anhwylder i wreiddio: pan ddaw'r adferiad daw "fel rhoi golau trydan ymlaen."¹⁰⁹ Gweld goleuni'r gwirionedd a wna Ffebi Beca - daw i'w hadnabod ei hunan yn well ac y mae'n cael hyder newydd o'r dealltwriaeth i wynebu'r byd a'i bobl. Ond gwêl Bet oleuni fel rhyw gyflwr crefyddol. Gwardigaeth ysbrydol ydyw'r goleuni iddi hi. Y mae'r pwyslais yn symud oddi wrth yr hunan ac ailenillir rhyw wrthrychedd iach, a gellir gweld y cwbl "fel petai wedi digwydd i rywun arall". Yn *Stryd y Glep, Tegwch y Bore a Tywyll Heno* ceir rhyddid o'r carchar drwy edrych heibio i'r hunan a thosturio wrth rywun arall - sylweddoli o'r diwedd fod gan bawb ei bryderon a'i boenau ei hunan. Y mae geiriau Dan yn *Stryd y Glep* yn crisialu'r natur ddynol - " 'A minnau'n meddwl,' meddai, 'nad oedd gan neb boen meddwl ond y fi' ".

Gŵyr pawb mai "ar ragrith y sylfeinir cymdeithas" fel y dywed Ffebi Beca mor ddiflewyn ar dafod; ond y gamp ydyw derbyn y ffaith hon a'i goddef heb fynd i boeni'n ormodol yn ei chylch. Gwendid pennaf Bet yw nad yw'n gallu anwybyddu a throi'r foch arall. Dim ond wedi iddi fod trwy uffern ac yn ôl y mae'r sylweddoliad yn gwawrio arni; "Dysgais yn yr ychydig oriau hynny fod yn rhaid imi fod yn greulon os oeddwn i fedru dioddef y byd o gwbl."¹¹⁰

Mae hyn oll yn arwain yn anorfod at *Tywyll Heno*.

Human beings, alone of all the objects in the universe, have to make free choices, and the range of their freedom is immense. They are free not only to do as they choose but to feel as they choose – in short, to

¹⁰⁹ Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, t.16

¹¹⁰ *ibid.*, t.84

be whatever they choose. With this extreme belief in freedom goes an equally extreme pessimism about the human predicament.¹¹¹

Garcin: ...Ydych chi'n cofio: y brwmstan, y llosgi
Wrth y stanc, y radell. Doniol yntê! 'Does dim angen
gradell. Pobl eraill, dyna ydi uffern.¹¹²

Does dim dwy fod Garcin, Inès ac Estelle wedi cyrraedd uffern yn *Huis Clos*, Sartre. Arweinir hwy yno gan gymeriad od a elwir Gwas, ac yno y byddant hwy hyd dragwyddoldeb, yn eu poenydio ei gilydd fel ryw fath o dâl am oferedd a pechodau eu bywyd ar y ddaear. Sefyllfa abswrdd a bortreadir i ni; "Datgelodd theatr yr abswrdd ochr negyddol dirfodaeth Sartre, gan fynegi diymadferth ac oferedd byd a oedd yn ddibwrpas i bob golwg."¹¹³

Ni ellir osgoi'r tebygrwydd rhwng *Y Cynddrws* a *Huis Clos*. Ystafell yn y byd arall yw lleoliad y ddwy ddrama a dargenfydd y cymeriadau sydd yno eu bod yng nghwmni pobl eraill. Y mae'r cymeriadau yn y ddwy ddrama yn ymwybodol o'r ffaith eu bod wedi marw, ac nad oes modd iddyn nhw ddychwelyd i'r ddaear. Ânt oll ati hefyd i fwrw eu perfedd ynghylch eu pechodau yn y byd arall; er, ymddengys troseddau'r cymeriadau yn *Huis Clos* gymaint yn fwy difrifol. Ymgorfforiad o'r pechodau mawrion traddodiadol yw Garcin, Inès ac Estelle; llofruddiaeth, balchder, godineb a chenfigen, a dyna pam, gallwn gasglu, yr aethon nhw ar eu pennau i uffern.

Inès: Rydym ni yn uffern,

¹¹¹ Warnock, Mary, *The Philosophy of Sartre*, t.10

¹¹² Jones, Richard T., *Caeëdig Ddôr*, cyfieithiad o *Huis Clos*, Jean-Paul Sartre, t.54

¹¹³ Glyn, Annes, *Y Ddrama Gyfoes: Damcaniaethau ac Arferion symbolaeth, swrealaeth a'r Abswrdd*, (addasiad Cymraeg o waith J.L.Styan), t.153

'mach i, 'does yna byth gamgymeriad yma,
a 'does yna byth neb yn cael ei ddamnio'n
ddiachos.¹¹⁴

Nid yn uffern y mae cymeriadau Kate Roberts ysywaeth, ond mewn porth o fath.

Siôn Llwyd: Ella mai yn uffern yr ydw i. Na, d'ydy o ddim
yn edrych yn debyg i fanno 'chwaith; ...¹¹⁵

Ystafell rhwng y byd hwn a'r byd arall a bortreadir gan Kate gyda drws yn arwain ohoni i'r nefoedd. Un drws sy'n arwain i'r byd arall, sylwer, nid dau, fel y gellid disgwyl efallai. Nid ystyrir y posibilrwydd o fyned o'r cynddrws hwn i uffern o gwbl gan y cymeriadau, nac ychwaith gan y gynulleidfa. Ac yn gwbl i'r gwrthwyneb, euog o fân bechodau, os medrir priodoli'r oll a olygir wrth y term 'pechodau' yn y cyswllt hwn, ydyw cymeriadau *Y Cynddrws*. Ped oedir uwch y ddwy ddrama hyn felly; o'i gosod ochr yn ochr â'r anobaith llwyr a ddarlunir yn *Huis Clos*, gellid dadlau fod *Y Cynddrws* yn ddrama led-obeithiol.

Tebygrwydd arall rhwng y dramâu yw'r modd y mae'r cymeriadau yn rhyngberthnasu; weithiau maen nhw'n gyfeillion, yn annog ei gilydd i ymbwyllo ac i ysgafnhau eu beichiau drwy arllwys eu cydwybod,

Leusa Huws: Y chi wedi cael poen Miss Citi, fasa neb yn meddwl hynny?

Miss Citi: Do ddigon, a hynny ar ddechrau fy mywyd, yn ifanc iawn.

¹¹⁴ Jones, Richard T., *Caeëdig Ddôr*, cyfieithiad o *Huis Clos*, Jean-Paul Sartre, t.20

¹¹⁵ *Y Cynddrws*, t.4

Sali:

Ond wnewch chi ddim deud wrthon ni Miss Citi?¹¹⁶

A thro arall maent yn ysgyrnygu ar ei gilydd ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i arteithio gweddill aelodau'r grŵp a'r cwbl oll er eu mwyniant eu hunain.

Ergyd fawr 'Y Cynddrws', nid yn gwbl annisgwyl efallai, ydi mai Siôn Llwyd, y crwydryn syml digartref yw'r cyntaf i gael ei ollwng drwy'r drws i'r byd arall, i'r nefoedd dragwyddol. Y sawl a fu byw y bywyd mwyaf syml sy'n treulio'r amser byrraf yn y purdan.

Fel arall, nid oes dim byd yn digwydd yn y ddrama, heblaw bod y cymeriadau yn trafod eu tynged ymysg ei gilydd, ac yn disgwyl. Dyma a barodd i Katie Gramich alw'r ddrama yn ddrama abswrdd a Becketaidd a thynnu cymhariaeth rhyngddi ac *Wrth Aros Godot*; "The drama strikes the reader as distinctly absurdist and Beckettian..."¹¹⁷ Annhebygol iawn fod Kate wedi clywed, llai na darllen, drama Beckett erbyn iddi gyfansoddi *Y Cynddrws* gan na orffennodd Beckett ysgrifennu *Godot* yn y Ffrangeg wreiddiol, hyd 1949, ei chyhoeddi yn 1952, a'i llwyfannu yn 1953. Ystyrir *Godot*, wrth gwrs, yn un o ddramâu mwyaf dylanwadol a phwysig ei chyfnod. Onid yw'n rhyfedd fod drama Kate Roberts wedi mynd yn angof, a hithau'n ddrama o'r un caliber? Ymhellach gellir clymu hefyd *Tywyll Heno* wrth y gymhariaeth hon i wneud trindod gan fod dylanwad Samuel Beckett i'w weld yn y Stori Fer Hir hefyd, yn enwedig felly yn yr ymgom ddi-atalnod a weiddiasai Bet o ben cadair;

¹¹⁶ *Y Cynddrws*, t.13

¹¹⁷ Gramich, Katie, *Kate Roberts*, Writers of Wales, t.78

‘Rŵan gwrandewch i gyd mae arna’ i eisio dweud yr hyn sydd ar fy meddwl i mae crefydd wedi mynd yn bricsiwn ’does yna ddim crefydd heddiw mae pawb wedi’i gadael hi pawb a mynd i ffordd i hunain i uffern pobol y capel ydy’r gwaetha ohonyn’ nhw i gyd am i bod nhw’n cymryd arnyn’ i bod nhw fel arall mae pobl y byd yn well o lawer ...¹¹⁸

Ni ellir ychwaith ymgelw rhag y ffaith fod teitl y ddrama ryfedd honno *Aros Wrth Loco* yn rhyw fath o barodi ar y cyfieithiad Cymraeg o deitl drama Samuel Beckett, sef *Wrth Aros Godot*.

Ffigur dylanwadol arall (ar wahân i Sartre a Beckett) sy’n gysylltiedig â’r ddrama, ac sy’n cryfhau’r elfen Ffrengig – Ewropeaidd sydd i *Y Cynddrws* yw Charles Baudelaire.

Tua diwedd y ddrama edrydd yr athrawes ddysgedig y geiriau hyn:

Miss Citi: Ond mae'n rhaid inni ddioddef dipyn rhagor. Dydan ni ddim wedi dioddef digon. Ond mi ddaw cyfiawnder. Does yna neb ond y chi yn gwrando erbyn hyn Leusa, a mi ddeuda i chi beth ddwedodd rhyw fardd o Ffrainc.

“Bydded bendith ar ddioddef O Dad.
Nid tegan gwag yw fy enaid yn dy law.
Mae dy ddoethineb yn annherfynol”.

Daw’r dyfyniad o’r gerdd ‘L’imprévu’ gan y bardd o Baris, Charles Baudelaire (9 Ebrill 1821 – 31 Awst 1867) a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Fleur du Mal* ym 1857. Cyhoeddwyd y gerdd i’r Saesneg am y tro cyntaf ym 1954 gan William Aggeler o dan y teitl ‘The Unforseen’.¹¹⁹ Byddai’r cyfieithiad hwn gan Aggeler yn newydd i law pan ydoedd Kate Roberts yn ysgrifennu *Y Cynddrws* ar gyfer ei darlledu ar y radio ym mis Mai 1954 –

¹¹⁸ Roberts, Kate *Tywyll Heno*, t.76

¹¹⁹ <http://fleursdumal.org/poem/305>

mae'r dyddiadau yn cyd-daro'n rhy berffaith i fod yn gyd-ddigwyddiad. Fodd bynnag ni chyhoeddwyd cyfieithiad o'r gerdd i'r Gymraeg hyd yma a gellir ond tybio felly mai ei chyfieithiad hi ei hun o'r pennill cynderfynol yw'r sawl a geir yn y ddrama.¹²⁰

L'imprévu

Harpagon, qui veillait son père agonisant,
Se dit, rêveur, devant ces lèvres déjà blanches:
"Nous avons au grenier un nombre suffisant,
Ce me semble, de vieilles planches?"

Célimène roucoule et dit: "Mon cœur est bon,
Et naturellement, Dieu m'a faite très belle."
— Son cœur! cœur racorni, fumé comme un
jambon,
Recuit à la flamme éternelle!

Un gazetier fumeux, qui se croit un flambeau,
Dit au pauvre, qu'il a noyé dans les ténèbres:
"Où donc l'aperçois-tu, ce créateur du Beau,
Ce Redresseur que tu célèbres?"

Mieux que tous, je connais certain voluptueux
Qui bâille nuit et jour, et se lamente, et pleure,
Répétant, l'impuissant et le fat: "Oui, je veux
Être vertueux, dans une heure!"

L'horloge, à son tour, dit à voix basse: "Il est mûr,
Le damné! J'avertis en vain la chair infecte.
L'homme est aveugle, sourd, fragile, comme un mur
Qu'habite et que ronge un insecte!"

Et puis, Quelqu'un paraît, que tous avaient nié,
Et qui leur dit, railleur et fier: "Dans mon ciboire,
Vous avez, que je crois, assez communiqué
À la Joyeuse Messe noire?"

Chacun de vous m'a fait un temple dans son cœur;
Vous avez, en secret, baisé ma fesse immonde!
Reconnaissez Satan à son rire vainqueur,
Enorme et laid comme le monde!

Avez-vous donc pu croire, hypocrites surpris,

The Unforeseen

Harpagon watching over his dying father;
Mused, looking at those lips that were already white:
"It seems to me we have in the attic
A sufficient number of old boards?"

Célimène coos and says: "My heart is kind,
And naturally enough, God made me very fair."
— Her heart, a shriveled heart like a ham smoked and
seared,
At the eternal flame!

A smoky journalist who thinks he is a light
Says to the poor wretch he has plunged into darkness:
"Where do you see him, this creator of beauty,
This Knight-errant whom you extol?"

I know better than anyone, a sensualist
Who yawns night and day, and laments and weeps,
Repeating, the impotent fop: "Of course, I wish
To be virtuous in an hour!"

The clock in turn says in a low voice: "He is ripe,
The damned one! In vain do I warn the stinking flesh.
Man is blind and deaf, fragile as a wall
That is the home of gnawing insects!"

And then appears Someone all had denied,
Who proud and mocking says: "From my ciborium
You have communicated rather frequently,
I think, at the joyous black Mass?"

Each of you has made a shrine for me in his heart;
And you have secretly kissed my unclean haunches!
Recognize Satan by his conquering laughter,
Immense and ugly as the world!

Could you have believed, surprised hypocrites,

¹²⁰ Nid oes prawf fod Ffrangeg Kate Roberts yn ddigon rhugl iddi allu cyfieithu o gerdd wreiddiol Baudelaire, a derbynir felly mai o'r cyfieithiad Saesneg hwn o eiddo Aggeler y gweithiodd.

Qu'on se moque du maître, et qu'avec lui l'on triche,
Et qu'il soit naturel de recevoir deux prix,
D'aller au Ciel et d'être riche?

That one makes fun of the master, that one cheats him,
That it's reasonable to receive two rewards,
To be rich and go to Heaven?

Il faut que le gibier paye le vieux chasseur
Qui se morfond longtemps à l'affût de la proie.
Je vais vous emporter à travers l'épaisseur,
Compagnons de ma triste joie,

The game must pay the hunter who stands shivering
For a long time on the watch for his prey.
I'm going to take you away through the thickness,
Companions in my gloomy joy,

À travers l'épaisseur de la terre et du roc,
À travers les amas confus de votre cendre,
Dans un palais aussi grand que moi, d'un seul bloc,
Et qui n'est pas de pierre tendre;

Through the thickness of the earth and the rock,
Through the unshapen pile of your ashes
Into a palace huge as I, a single block,
That is not fashioned of soft stone;

Car il est fait avec l'universel Péché,
Et contient mon orgueil, ma douleur et ma gloire!"
— Cependant, tout en haut de l'univers juché,
Un ange sonne la victoire

For it is made of universal Sin,
And contains my pride, my sorrow and my glory!"
But meanwhile, perched on the top of the universe
An Angel sounds the victory

De ceux dont le coeur dit: "Que béni soit ton fouet,
Seigneur! que la douleur, ô Père, soit bénie!
Mon âme dans tes mains n'est pas un vain jouet,
Et ta prudence est infinie."

Of those whose hearts say: "Blessed be your whip,
Lord! O Father, blessed be suffering!
My soul in your hands is not an idle plaything
And your prudence is infinite."

Le son de la trompette est si délicieux,
Dans ces soirs solennels de célestes vendanges,
Qu'il s'infiltré comme une extase dans tous ceux
Dont elle chante les louanges.

The sound of the trumpet is O! so delightful
On the solemn evenings of heavenly harvest,
That it permeates like an ecstasy all those
Whose praises the trumpet sings.

— Charles Baudelaire, *Fleurs du Mal*.

— William Aggeler, *The Flowers of Evil* (Fresno, CA:
Academy Library Guild, 1954)

Ni ellir peidio â myfyrio uwch pa mor arwyddocaol ydyw fod Kate Roberts yn dewis dyfynnu o waith Baudelaire yn anad yr un bardd arall. Yn yr un modd cawsai ei denu i roi cyfeiriad eithaf ffwrwbwt, ond tra dadlenol, am y dyn o Ffrainc [Jean-Paul Sartre] a ddywedodd mai pobl eraill ydy uffern yn y stori fer 'Penderfynu'.¹²¹ Yn y cyd-destun o gloriannau cyfiawnder ac anghyfiawnder ac o ystyried mai Miss Citi yr hen ferch o athrawes sy'n adrodd y geiriau hyn yn *Y Cynddrws*, fe'n harweinir ar gam i feddwl mai

¹²¹ "Da y dywedodd rhyw ddyn o Ffrainc mai pobl erill ydy uffern." Geiriau Wil yn y stori 'Penderfynu', *Hyn o Fyd*, t.96.

bardd clasurol, efallai hyd yn oed crefyddol sydd berchen y geiriau. Ond nid felly. O adnabod y ffynhonnell, deuir i werthfawrogi gwir ergyd y dyfyniad.

Geilw James Mc Gowan *Fleur du Mal*, Charles Baudelaire yn ei ragair i'w gyfieithiad yn “the most celebrated of verse in the history of modern poetry.”¹²² Cyhoeddwyd y gyfres hon o gerddi o dan y teitl hwn am y tro cyntaf ym 1857. Yr oedd yn gyfres hynod o drawiadol a dadleuol iawn yn ei dydd am nifer o resymau.

Un o'r prif themâu a ymchwilir yn y gyfres yw'r berthynas rywiol rhwng pobl a'i gilydd yn enwedig felly perthynas lesbaidd rhwng merched a'i gilydd a'r berthynas rhwng puteiniaid a dynion (cymeriadau nad ydynt yn darganfod boddhad mewn perthynas â dynion.) Yn wir, *The Lesbians* oedd un o deitlau cynnar y gyfrol hon. Meddai McGowan “As willing victims of a passion held in horror by Baudelaire's world, his lesbians make plausible this powerful representation of passion as a sought-for hell”¹²³. Tybed nad yw Miss Citi yn ei gweld ei hun yn un o'r dioddefwyr a bortreadir yng ngherddi Baudelaire? Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun ni chafodd hithau berthynas foddhaol â dyn, ac mae'n ei chondemnio'i hunan am beidio â cheisio perthynas iach ag arall wedi iddi gael ei siomi unwaith. Y mae Francesca Rhydderch yn daer nad oes digon o ymchwil wedi ei wneud i'r elfen rywiol yma yng ngwaith Kate Roberts, “Ond y mae un ardal ar fap bywyd a gwaith Kate Roberts a ddylai fod wedi denu mwy o sylw gan y beirniaid sef rhywioldeb; rhywioldeb yr awdures ei hun, a rhywioldeb ei chymeriadau ffuglen.”¹²⁴

¹²² Rhagair *The Flowers of Evil*, Charles Baudelaire cyfieithiad James McGowan, 1993, t.xiii.

¹²³ *ibid*, t.xv.

¹²⁴ Rhydderch, Francesca, ‘Cyrff yn Cyffwrdd:Darlleniadau Erotig o Kate Roberts’, *Taliesin*, Cyfrol 99, Hydref 1997, t.86.

Ceir themâu eraill hefyd yn *Fleur du Mal* a oedd, yn y modd yr ymdriniodd Baudelaire â hwy, yn newydd iawn yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg *e.e.* marwolaeth, uffern, y syniad am satan a sawl gwedd aflednais arall ar fywyd dinesig Paris. Baudelaire oedd y cyntaf yn ôl McGowan i “bring into verse the banal, the prosaic, or the disgusting – thought to loom especially large in modern life – and give it a poetic function.”¹²⁵

Cafodd ef a’i gyhoeddwr, Poulet-Malassis eu herlyn am drosedd yn erbyn parch cyhoeddus pan welodd y gyfrol olau dydd am y tro cyntaf. Er yn llawer mwy pwyllog a chan gadw un llygaid ar ei chynulleidfa o Gymry Protestannaidd gwelir Kate Roberts hithau yn ymdrin â’r themâu hyn. Ni ellir osgoi’r ffaith fod *Y Cynddrws* yn adlewyrchiad beirniadol ar arferion a gwerthoedd Cymry pumdegau’r ugeinfed ganrif; culni eu crefydd, eu hymglymiad wrth y materol, diffyg bodlonrwydd, sentimentalwch a hunanoldeb. Fel yng ngerddi Baudelaire, dengys Kate inni’r cancr yn ein cymunedau. Y dull o gyflwyno’r darlun yn unig sy’n wahanol.

Ychydig iawn sydd wedi ei ysgrifennu am *Y Cynddrws* oddieithr yr hyn a ddyfynnwyd eisoes gan Alan Llwyd a Katie Gramich. Fodd bynnag, yn ffodus iawn mae llythyr sy’n cloriannu gwerth y ddrama gan un o brif feirniaid llenyddol ein cenedl wedi goroesi ac y mae’n werth ei ddyfynnu’n llawn:

158, Westbourne Rd
Penarth
26 Mai 1954

F’Annwyl Kate,

¹²⁵ Rhagair *The Flowers of Evil*, Charles Baudelaire cyfieithiad James McGowan, 1993, t.xxv.

Gwrandewais ar eich drama mewn amgylchiadau go od neithiwr. Yr oedd “*At home*” gwraig y prifathro o 6 pm hyd 7.30; a minnau’n paratoi i fynd dyma deulu o’r Amerig yn glanio yn y tŷ, Peter John Stephens ar hyn i chwilio am feirdd a dramawyr Cymraeg. Buont yma am hanner awr neu ragor, ac am ddeg munud wedi chwech cychwynnais yn y car modur am dŷ’r prifathro yn Leckwith. Cyrraedd yno tua 6.30 a’r lle’n llawn o athrawon a darlithwyr a’u gwagedd (am ’wn i). Cadw fy llygaid ar y cloc, yfed tri sierri a siarad yma ac acw fel y bydd dyn mewn “*at home*” academig, ac yna ddau funud i saith ffarwelio’n bendant â’r gwestywraig a’r cwmni, a gyrru fy nghar o’r tŷ, rownd y gornel i lecyn tawel ar ymyl cael lle y cana’r gog, a throi radio fy nghar i wrando ar eich “*Cynddrws*”, ac yno y bŵm yn gwrandeio i’r pen, ganllath o’r “*at home*” hwyliog. Y tro cyntaf er pan brynais i’r car (fis yn ôl) imi gael y set radio ynddo’n dra hwylus.

Wel, mi hoffais eich drama, eich syniad chi am burdan a’r rheswm dros fod y cyfryw burdan. Do, fe’i hoffais a’i chael hi’n ddrama a dwyster a myfyrdod a phrofiad ynddi, ie a’i harddull yn gain a’i chymeriadau (oddiethr efallai Oronwy Owen) yn fyw ac yn wir. Aeddfedrwydd, dyna, mi dybiais i, rinwedd y ddrama. A drama radio iawn, oblegid tri chwarter awr o wrando tawel a gafwyd, ac nid oeddwn yn dymuno nac o gwbl yn clywed colli *gweld*. Drama i glust gyfrin atgof a myfyrdod – a barddoniaeth. Fy niolch i chi amdani,

Saunders

Maddeuwch yr amlen¹²⁶

Yr oedd Kate Roberts yn falch iawn o dderbyn sêl bendith Saunders Lewis ar ei drama, “Yr oedd yn dda iawn gennyf am eich geiriau cysurlon amdani. Gyda chryn dipyn o gryndod y mentrais roi honna o flaen y cyhoedd.”¹²⁷ Paham yr ansicrwydd tybed? Ai oherwydd ei bod yn dra gwahanol i weddill corff ei llenyddiaeth? Ynteu, efallai am ei bod ychydig yn heriol o safbwynt crefyddol? Beth bynnag ydoedd ei phryderon yng nghyswllt *Y Cynddrws* nid oedd sail iddynt o gwbl.

Ceisiwyd dangos gyda hyn o eiriau fod hon yn ddrama ysgubol o’i bath sy’n cyflwyno inni agwedd newydd ar waith ac ar gymeriad Kate Roberts. Y mae’n ddrama ddeallus a dirdynnol sy’n drwm dan ddylanwad rhai o lenorion mwyaf Ewrop, Sartre, Beckett a

¹²⁶ *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, tt.179-180

¹²⁷ *ibid.*, t.180

Baudelaire. Gellir gweld hefyd sut y bu'r ddrama hon yn sylfaen cadarn iddi fynd ati ymhen wyth mlynedd i gyfansoddi *Tywyll Heno*.

ii) *Y Cynddrws* gan Kate Roberts. Golygiad cyflawn gyda rhagair a nodiadau

Rhagair

Gan nad yw'r ddrama hon ychwaith wedi ei chyhoeddi, penderfynwyd eto ei golygu fel rhan o'r thesis gan roi cyfle i ddarllenwyr ymgyfarwyddo â'r testun. Erys y ddrama ar ffurf teipysgrif yng nghanlyniad Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol (rhif 2637) a cheir hefyd nodiadau ar ffurf llawysgrifau. Penderfynwyd canolbwyntio yn unig ar y deipysgrif, sef y gwaith gorffenedig a ddarllledwyd ar Radio Cymru nos Fawrth, 25 Mai 1954 am 7 o'r gloch ar gyfer y golygiad hwn.

Y mae hon yn ddrama sy'n arwain y gynulleidfa i sawl cyfeiriad ond er hynny ni cheir na throed nodyn nac ôl nodyn yn y deipysgrif (rhif 2637) o'i dechrau i'w diwedd. Er fod sawl cyfeiriad a dyfyniad yn gofyn am eglurhâd neu ffynhonnell. Ceir yn y ddrama ddyfyniadau o waith beirdd (gan gynnwys baledwyr) o Gymru ac o Ffrainc, a dyfyniadau o'r Beibl. Ceir hefyd gyfeiriadau at ryfeloedd, at wleidyddion ac at fudiadau. Ceir trafodaeth ar fesurau barddoniaeth ac ar grefydd a sawl cyfeiriad at fywyd a gwaith Goronwy Owen o Fôn. Y prif her wrth fynd ati i olygu'r testun ydoedd darganfod ffynhonnellau'r dyfyniadau o farddoniaeth a ddefnyddir yn y ddrama, a darganfod gwybodaeth bellach am y cyfeiriadau eraill a geir.

Golygwyd hefyd fel a ganlyn:

1. Oherwydd natur teipysgrif o'r cyfnod hwn a fyddai wedi ei theipio ar deipiadur traddodiadol byddai wedi bod yn anodd iawn gwneud defnydd helaeth a chywir o'r acen grom neu'r to bach. O'r herwydd bu'n rhaid ychwanegu bron bob un ohonynt.

2. Ni wneir defnydd helaeth ychwaith o'r gofynnod neu'r marc cwestiwn, am yr un rheswm â'r uchod mae'n debyg. Ychwanegwyd '?' ar ddiwedd pob cwestiwn, boed yn un uniongyrchol neu rethregol.

3. Newidwyd geiriau megis *oddiwrth*, *oddiyno*, ac *oddiar* i'r ffurfiau cymeradwy *oddi wrth*, *oddi yno* ac *oddi ar* yn unol â'r cyfarwyddyd yng ngramadeg Peter Wynn Thomas.

4. Newidwyd ambell ffurf ferfol er mwyn ei dadffurfioli a'i gwneud yn fwy llafar; er enghraifft newidwyd pob *ydyw* i *ydy* ac yn yr un modd newidwyd pob *dydyw* i *dydy*. Fodd bynnag, penderfynwyd yn erbyn cymryd y cam nesaf sef *ydi* a *dydi*.

5. Mae defnydd helaeth iawn yn cael ei wneud yn y deipysgrif o'r collnod neu'r sillgoll ee *'Roeddwn*, *'Rydw*, *'Rwyt*, *'D'oes*. Fodd bynnag, llafurus iawn yw'r drefn hon, yn enwedig mewn sgrïpt drama. A chymryd felly fod pawb yn deall bod llythrennau ar goll penderfynwyd arddel y ffurfiau cyfoes ar y sillafiad a hepgor cyn gymaint o'r collnod neu'r sillgoll ag oedd modd heb golli dim o'r ysytr. Nid oes gwahaniaeth o gwbl wrth gwrs yn sŵn y geiriau wrth iddynt gael eu hynganu, eithr yn unig sut maent yn edrych ar y papur. Aeth y geiriau uchod felly yn *Roeddwn*, *Rydw*, *Rwyt*, ac yn *Does*.

6. Ychwanegiad y golygydd yw unrhyw beth a ymddengys rhwng [].

7. Cadwyd at arferiad Kate Roberts yn y deipysgrif o ddefnyddio *sy* yn lle *sydd* bob amser

8. Penderfynwyd hefyd i gadw at arferiad Kate Roberts yn y deipysgrif i dalfyrru'r rhagenwau *ei*, *eu* ac *eich* – defnyddir *i* gan Kate Roberts i gyfleu'r rhagenw unigol *ei* ac ar dro y lluosog *eu* ond er mwyn gwahaniaethu rhwng yr arddodiad *i* sy'n golygu *to* yn Saesneg, penderfynwyd cynnwys, yn y golygiad hwn, y sillgoll o'i flaen - 'i.

Defnyddir *ych* gan Kate Roberts i gyfleu'r rhagenw *eich* a chadwyd at y drefn honno yn y golygiad hwn.

9. Ar dro ceir camgymeriad wrth deipio enw'r cymeriad sy'n siarad. Y mae'n glir o rediad y sgrïpt pa gymeriad sy'n siarad a chywirwyd unrhyw wall.
10. Tueddir i wneud defnydd helaeth o'r cyplysnod (-) drwy'r ddrama i gysylltu cymalau wrth ei gilydd. Gwna hyn y darllen yn llafurus yn aml. Er hwyluso'r ystyr golygwyd y brawddegau meithion hyn a'u gwneud yn frawddegau ystyrlon a llai.
11. Mewn *italig* hefyd y rhoir y geiriau sy'n dynodi pwyslais. Tanlinellu a wneir yn y deipysgrif.
12. Ni cheir unrhyw droed nac ôl nodyn yn y ddrama nac unrhyw ymgais i egluro termau. Ni chyfeirir ychwaith at unrhyw ffynhonnell wrth ddyfynnu o waith beirdd neu o'r Beibl. Gwaith y golygydd yw'r nodiadau oll.

Y Cynddrws

Kate Roberts

Y Cymeriadau

Goronwy Owen ¹	bardd o'r ddeunawfed ganrif
Wmffra'r Geulan	ffermwr cefnog
Sion Llwyd	crwydryn digartref
Miss Citi	hen ferch a chyn-athrawes
Leusa Huws	gweddw a gollodd ddau fab yn y rhyfel
Sali'r Sgallan	dynes a fu farw'n ifanc

Distawrwydd, yna ochenaid isel, laes oddi wrth Leusa Huws, ochenaid uchel ddiamynedd oddi wrth Sali.

Sali: O pam na ddaw o?

Wmffra: Pwy, Sali?

Sali: Ond Wil siŵr iawn, dydw i ddim yn disgwyl am neb arall, ond yr un y bŵm i'n byw efo fo mor hapus. Mi ddylet ti wybod hynny Wmffra.

Goronwy Owen: Disgwyl – be tasech chi wedi disgwyl cyd â fi?

Miss Citi: Wyddoch chi ar y ddaear faint ydach chi wedi i ddisgwyl Goronwy Owen. Does yna ddim amser yn y lle yma.

¹ Goronwy Owen (1 Ionawr, 1723 – Gorffennaf 1769). Bardd o Lanfair Mathafarn Eithaf ym Môn a ddaeth yn enwog am ei gywyddau ac am ei helyntion ariannol. Yr oedd yn cyd oesi â Morrisiaid Môn. Yr oedd y bardd yn ffefryn gan John Morris-Jones a oedd yn Athro Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor pan oedd Kate Roberts yn fyfyrwraig yno.

- Goronwy Owen: Diolch i chi, Miss Citi, am fy nghywiro fi. Ond mi wn i 'mod i yma o'ch blaenau chi i gyd.
- Miss Citi: Dydy hynny'n gwneud dim gwahaniaeth yn y pen draw.
- Goronwy Owen: Pa ben draw?
- Miss Citi: Wel, os byddwn ni yma yn hir iawn eto.
- Goronwy Owen: Beth ydach chi'n sôn am hir a chithe newydd ddweud nad oes yma ddim amser?
- Leusa Huws: O diar, dyma rhain yn siarad yr un fath yn union ag yr oedd y bobl yn y seilam.²
- Wmffra: Paid â dechra sôn am y seilam yna eto Leusa Huws, neu yma y byddwn ni.
- Leusa Huws: Na, dydy seilam ddim yn bwnc braf iawn i ffarmwr cefnog. Peth sydd yn y byd ydy seilam ac allan o olwg ac o feddwl pawb.
- Wmffra: Dydan ni ddim wedi cael siawns i'w ollwng o allan o'n meddwl er pan wyt ti yma. Mi fasa'n gwneud lles inni i gyd weld wyneb diarth a chlywed llais newydd, petasai o yn llais gelyn hyd yn oed.
- Sali: (*Yn awyddus*) Basa wir. Petai Wil yn dwad mi fasa yma dipyn mwy o sirioldeb beth bynnag.
- Wmffra: Siarad drosot dy hun. Does gen ti fawr o le i edliw sirioldeb i neb.
- Sali: (*Yn clywed y sŵn o flaen neb*) Ust. Gwrandewch. (*Daw sŵn heb fod yn drwm, megis sŵn daeargryn isel yn rowlio o dan ystafell*) Dyma rywun yn dwad o'r diwedd.
- (*Wedi i'r sŵn daeargryn orffen, daw sŵn canu o bell, rhywun yn canu'r faled, "Pentre Pen-y-groes".³ Fel y daw'r sŵn yn nes ac yn nes, deëllir y geiriau, y rhai sy'n sôn am sofrins eto yn rowlio hyd bentre Pen-y-groes. Yna sŵn fel petai rhywun yn neidio dros ben wal.*)

² Enw arall am ysbyty meddwl, sef man sy'n trin cleifion a chyflyrau meddyliol yn hytrach na chorfforol. Mae Bet Huws, prif gymeriad y stori fer hir *Tywyll Heno* gan Kate Roberts yn cael triniaeth mewn ysbyty o'r fath er mwyn gwella o'r anhwylder a ddaw drosti.

³ Roedd mesur y faled yn boblogaidd iawn yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oeddynt yn ddrych i fywyd cymdeithasol y wlad yn eu dydd. Gwerthfawrogir hwy yn bennaf am hynny yn hytrach nag am eu gwerth llenyddol neu fydryddol. Hen faled i bentref Pen-y-groes; "Yn hen bentra Pen-y-groes" &c. "... a llawer blwyddyn groes,/ Bydd yr arian eto'n llifo / yn hen bentra Pen-y-groes." Gwyddir mai un o'r Garn oedd yr awdur." Er 'mod i'n enedigol o bentra bach y Garn, Ac er bod y pentra hwnnw, yn uchel yn fy marn"

Sion Llwyd: Dyna hwnna drosodd.

Sali: (*Gyda siom*) Na, nid Wil ydy o.

Sion Llwyd: Ym mhle ar y ddaear ydw i?

Goronwy Owen: Dwyt ti ddim ar y ddaear pwy bynnag wyt ti.

Sion Llwyd: Ddim ar y ddaear? Lle'r ydw i ynta?
(*Neb yn dweud dim*)

Miss Citi: (*yn dyner*) Rwyt ti wedi marw.

Sion Llwyd: Wedi marw? Naddo rioed. Nid peth fel yna ydy marw – roedd o rhy hawdd.

Miss Citi: Mi fedrwn i gyd ddweud hynny. Doedd o ddim cyn waethed ag oedden ni yn i ofni.

Sion Llwyd: Ond... fedra i yn fy myw gredu rhywsut. Roeddwn i mor fflons â'r gog yn cerad hyd y Lôn Las gyda'r nos ... neithiwr – am wn i, ac yn i gneud hi am sgubor y Geulan i fy ngwely gwair yn fanno. Roeddwn i wedi blino ac eisio bwyd arna i, ond yn gwbod y cawn i damaid gan wraig y Geulan, ac mi orweddis ar dorlan –

Wmffra: Sgubor-y-Geulan ddeudis di?

Sion Llwyd: Wel a'm sgubo i! Wmffra wyt ti?

Wmffra: Ia. Wmffra'r Geulan.

Sion Llwyd: *Rhaid* mod i wedi marw felly, achos mae o wedi marw ers pum mlynedd.

Leusa Huws: Waeth iti heb na dechrau cyfri amser. Does yma ddim amser.

Sion Llwyd: Rydw i wedi cyrraedd y nefoedd felly?

Wmffra: Ddim cweit.

Sion Llwyd: Y chdi fasa'n awchio deud peth fel yna wrtha i ynte? Ond mae'n dda gen i weld rhywun yr ydw i yn i nabod yn y lle yma er mai chdi ydy hwnnw.

Wmffra: Ella y bydd yn ddigon da iti wrtha i yn y fan yma.

Sion Llwyd: Nid y nefoedd ydy fanma felly?

Miss Citi: Naci.

Sion Llwyd: Roedd yn ddigon hawdd imi wneud y camgymeriad welwch chi Miss... Mrs...

Miss Citi: Miss Citi mae pawb yn fy ngalw i.

Sion Llwyd: Wela i, Miss Citi, roedd yn hawdd imi feddwl mai yn y nefoedd yr oeddwn i, achos yno y rhoeson nhw Wmffra yma yn y seiat Goffa fuo iddo fo.

Wmffra: Fuos *ti* rioed yn y Seiat.

Goronwy Owen: Seiat? Beth ydy Seiat?

Sion Llwyd: Gofynnwch i Wmffra, mi fedar o ddeud yn well wrthoch chi na fi. Beth bynnag mi es i'r cynddrws⁴ noson dy seiat goffa⁵ di, Wmffra d'oedd gen i ddim dillad ffit i fynd i mewn, er mwyn imi glwad beth oedd ganddyn nhw i ddeud amdanat ti. Dyna'r clwydda mwya glywes i rioed.

Sali: Ia mi wranta.

Wmffra: Dydy hyn ddim yn deg, ac o flaen pobol ddiarth hefyd.

Sion Llwyd: (*Yn mynd yn ei flaen*) Deud dy fod ti'n ddyn gonest, hael, yn tosturio wrth y tlawd (*yn chwertthin*). Ac *O* mi'r oedd yna ganmol arnat ti am fod yn ffyddlon i'r moddion.⁶ Lol-mi-lol.

Wmffra: Ac mi'r oeddwn i hefyd.

Sion Llwyd: Oeddat, chai y *moddion* ddim diodda, beth bynnag arall oedd yn diodda. Tybed a wnaethon nhw gamgymeriad yn y Seiat Goffa. Ella mai yn

⁴ Neuadd fechan neu *porch* rhwng y drws allanol a'r Capel ei hun a olygir.

⁵ Roedd y seiat (o'r Saesneg *society*) yn gyfarfod noson waith lle ceid gwasanaeth dechreuol byr ac yna drafod rhan o'r Beibl neu wrando ar yr aelodau yn dweud eu profiad ar faterion crefyddol. Dechreuodd y seiadau o ganlyniad i'r Diwygiad Methodistaidd a gychwynnodd ym 1735. Yn y cyfnod cynnar yr oedd elfen gyffesol hefyd i'r seiat, gyda'r aelodau yn aml yn sôn am eu beiau neu eu pechodau – rhywbeth tebyg i gyffes Babyddol ond bod hon yn gyhoeddus. Ceid arweinyddi i bob Seiat (dynion yn ddiwahân) a byddai'r rhain yn arwain y drafodaeth a hefyd yn ceryddu neu galonogi'r aelodau fel y byddai'r angen. Mae'r seiat wedi darfod i bob bwrpas erbyn hyn, er efallai'n cael ei chynnal mewn eglwysi mwy efengylaidd eu tueddiadau. Y mae cyfrol William Williams Pantycelyn, *Drws y Society Profiad* yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i arwain seiat a'i diben.

⁶ Mae 'moddion' yn golygu gwasanaethau arferol y Sul. Weithiau defnyddir y term 'moddion gras' (cyfieithiad llythrennol o *means of grace* Saesneg) i'w disgrifio.

uffern yr ydw i. Na, dydy o ddim yn edrych yn debyg i fanno chwaith; er bod yr olwg ar rai ohonoch chi fel tasach chi yno.

Sali: Fasa waeth inni fod yn Uffern am wn i, na bod mewn rhyw le dim byd fel hyn, rhyw nunlle o le, nad ydy o na du na gwyn, rhyw le llwyd fel morddwr mewn mawnog, heb flas ar ddim ond ar gwyno.

Miss Citi: Mi allasa fod yn waeth arnom ni i gyd Sali.

Leusa Huws: Dwn i ddim wir, Miss Citi, peth ofnadwy ydy disgwyl.

Miss Citi: Rydw i'n synnu atoch chi Leusa Huws, yn dweud ffaswin beth. Mae yna bethau gwaeth na disgwyl, ac mae ambell ddisgwyl yn diweddu'n dda iawn.

Sion Llwyd: Disgwyl? Disgwyl am be'r ydach chi?

Goronwy Owen: (*Yn mwmlan wrtho fo i hun*) Disgwyl a da y'm dysger.⁷

Sion Llwyd: Yn lle cawsoch chi afael ar y llinell yna?

Goronwy Owen: Fel mae'n digwydd y fi piau hi.

Sion Llwyd: Rydach chi wedi ei dwyn hi oddi arna i.

Goronwy Owen: Y fi wedi dwyn llinell o farddoniaeth!

Sion Llwyd: Dydy o ddim yn amhosibl ein bod ni wedi ei dwyn hi oddi ar ein gilydd. (*Yn siarad yn fawreddog ramadegol*) Mae gan gynghanedd fel hanes yr arferiad anffortunos o'i hailadrodd ei hun. Ond yr oeddech chi Miss yn mynd i ddweud wrtha i am beth yr oeddwn i'n disgwyl.

Miss Citi: Welwch chi'r drws acw... y ...y... Dwn i ar y ddaear bedi'ch enw chi –

Sion Llwyd: Sion Llwyd – hen drampwr o sir Gaernarfon. “Sion Llwyd Ddigartra” ar lafar gwlad.

Miss Citi: Wel, welwch chi'r drws acw, neu'r porth acw ddylwn i ddweud, mae nhacw yn arwain i'r byd arall, ond yr ydan ni yn gorfod disgwyl yn y fan yma cyn mynd yno am ein bod ni wedi bod yn anhapus ar y ddaear.

Sion Llwyd: Fûm i ddim yn anhapus. Cael ych cosbi⁸ ydach chi felly?

⁷ Dyfyniad o *Cywydd yn Ateb y Bardd Coch o Fôn*, Goronwy Owen.

⁸ *cospi* sydd yn y teipysgrif.

Miss Citi: Nage.⁹ Ein dysgu.

Goronwy Owen: Mae hi'n wers hir iawn i rai ohonom ni.

Sali: Dyna'r bardd a finna yn cytuno am unwaith.

Sion Llwyd: Bardd?

Miss Citi: Ia. Bardd mawr. Goronwy Owen o Fôn.

Sion Llwyd: Yrïoed? Pwy fasa'n disgwyl eich gweld chi mewn lle fel hyn? Mae'n dda iawn geni gyfarfod â chi. Maddeuwch imi am eich amau chi ar y llinell yna. Mi fum innau yn barddoni ers talwm.

Goronwy Owen: Yn y mesurau caeth?

Sion Llwyd: Weithiau. Ond tipyn o rigymwr cefn gwlad oeddwn¹⁰ i.

Goronwy Owen: Un o'r beirdd bol clawdd¹¹ felly.

Sion Llwyd: O rhag cywilydd i chi Syr! D'ydyn nhw ddim yn defnyddio'r gair 'bol' yng Nghymru rŵan – maen nhw'n rhy neis – dim ond rhyw bobol fel fi.

Sali: Dydy pobol ddim yn hel yn 'u bolia yno felly?

Sion Llwyd: Fwy nag erioed.

Leusa Huws: O peidiwch â siarad mor wamal, a sôn am hel yn ych bolia mewn byd mor llwm ag oedd hi adeg y rhyfal.

Sion Llwyd: Mae pawb wedi anghofio am hwnnw rŵan ac yn paratoi am un arall.

Leusa Huws: (*Yn griddfan*) A'r mamau yn gorfod dioddef eto.

Sali: Dwn i ddim be di rhyfal.

⁹ *Nace* sydd yn y deipysgrif wreiddiol.

¹⁰ *oeddwn* i sydd yn y deipysgrif wreiddiol, ond golygydd hynny'n ddiweddarach a cheir *oeddwn* i mewn pensil drosto.

¹¹ Beirdd gwlad a olygir wrth y term *beirdd bol clawdd*. Ceir tystiolaeth i Goronwy Owen ddefnyddio'r term hwn mewn llythyr at Richard Morris ym mis Awst 1752, "... Mân-glyttwyr Dyriau, naw hugain yn y Cant, sydd hyd Gymru yn gwybeta, ac yn gwneuthur neu'n gwerthu ymbell resynus Garol, neu Ddyri fol Clawdd." Dyfynnwyd o *The Letters of Goronwy Owen (1723-1769)*, golygiad J.H. Davies. Yr oedd beirdd clasurol fel Goronwy Owen a Morrisiad Môn yn edrych yn anffarfiol ar gerddi'r beirdd gwlad cymdeithasol a oedd yn cynnwys baledwyr a rhigymwyr a beirdd caneuon gwerin. Y gred oedd nad oedd eu barddoniaeth yn fawr oherwydd nad oedd yn glasurol. (Yr un ddadl fe ymddengys a gawsai Kate Roberts a Thomas Parry ar destun y ddrama Gymraeg.) Yr oedd nifer o'r beirdd gwlad hyn hefyd yn anterliwtwyr ac yn almanacwyr.

- Goronwy Owen: Na finna.
- Leusa Huws: Gwyn ych byd chi.
- Sali: Rydw i'n¹² cofio gweld dyn oedd wedi bod yn Rhyfal y Crimea¹³ pan oeddwn i'n blentyn. Mi'r oedd lot ohonom ni yn mynd bell ffordd i weld o fel petasa fo'n bin a wela Sioe.¹⁴ 'Roedd gynno fo goes bren, ac yn cadw ysgol. Efo'r goes bren yma yr oedd o'n pwnio petha i benna plant.
- Goronwy Owen: Gwahanol iawn i'm hadeg i. Roedd addysg yn beth gwareiddiedig y pryd hynny.
- Leusa Huws: Fasa dim rhaid i mi gerdded llathen i weld neb oedd wedi bod mewn rhyfal.
- Sion Llwyd: Dacw i chi un o'r un oed â chi, Leusa Huws, na wŷr o ddim be di rhyfal.
- Wmffra: Doedd dim rhaid i mi wybod beth oedd hi.
- Sion Llwyd: Mi wnaeth newid mawr yn dy fywyd di. Mi gest ddigon o arian am dy lefrith, cael seithswllt y pwys am dy fenyn ar y slei, a chael dy siec bob mis...
- Leusa Huws: A chael cadw'i hogia gartra heb orfod mynd i gwffio¹⁵, nid r'un fath â fy hogia fi.
- Wmffra: Wel, os oedd y Llywodraeth yn deud mod i i gael eu cadw nhw gartra, mae'n bur siŵr i chi nad oeddwn i ddim am 'u gyrru nhw yno ac mi'r oedd yn rhaid i bawb ohonoch chi gael bwyd.
- Leusa Huws: Dyna pam roeddwn ni'n cael cyn lleied¹⁶ os mai ti oedd yn i dyfu o. Mi fuost ti yn lwcus pan oedd pawb arall yn anlwcus.
- Wmffra: Roedd yn *bryd* i rwbath ddwad â lwc i ffarmwrs – doedd neb yn gofyn i beth oedd ein cynnyrch ni'n dda cyn bod rhyfal. Mari acw yn eista am fora cyfa yn y farchnad yn treio gwerthu i hwyau a'i menyn. Talu arian mawr am fwyd i wyddau a thyrwyn ar hyd y flwyddyn, a neb yn gofyn i beth oeddwn nhw'n da yn y farchnad Nadolig.

¹² *i'm* sydd yn y deipysgif wreiddiol.

¹³ Rhyfel y Crimea (Hydref 1853-Chwefror1856). Rhyfel rhwng Prydain, Ffrainc a Sardinia ar y naill ochr a Rwsia ar y llall. Penrhyn yn yr Wcráin ar arfordir y Môr Du yw Y Crimea.

¹⁴ *siou* sydd yn y deipysgrif.

¹⁵ *gwffro* sydd yn y deipysgrif sy'n amlwg yn wall teipio.

¹⁶ *llued* sydd yn y deipysgrif wreiddiol sydd wedi ei olygu yn *lleied* yn ddiweddarach mewn beiro.

- Sion Llwyd: Ac mi fasa'n well gen titha i dy wyddau bydru o henaint na'u gwerthu nhw'n rhatach i neb.
- Wmffra: Hawdd *iti* siarad, fuo raid *iti* rioed brynu bwyd i iar.
- Goronwy Owen: Gadewch eich ffraeo. Dwedwch i mi. Roeddech chi'n sôn am farddoniaeth gynnau. Sut y mae hi ar farddoniaeth Cymru bellach?
- Sion Llwyd: Lobscows! Mae yna rwbath newydd rŵan mae nhw yn i alw yn 'wers rydd'.¹⁷
- Goronwy Owen: A sut beth ydy hwnnw?
- Sion Llwyd: Gwaeth na gwaith y 'beirdd bol clawdd'. Rhyddid¹⁸ plant heb adael eu clytia a chyn dywyllled â bol buwch.
- Mis Citi: Rŵan, rŵan, Sion Llwyd, dydy hynna ddim yn wir. Mae yna rai Goronwy, sydd fel mae Sion Llwyd yn dweud - wel dydw i ddim am siarad mor fras â fo ...
- Sion Llwyd: Na fasa neb yn disgwyl i¹⁹ hen ferch wneud ...
- Miss Citi: Peidiwch â thorri ar fy nhraws i. Dweud yr oeddwn i fod rhai yn sgwennu'r wers rydd yna mor rhwydd â dirwyn²⁰ edafedd, ond mae yna rai sy'n cymryd trafferth fawr, ac yn dwad â'r gynghanedd i mewn i'r mesur yn gelfydd iawn.
- Goronwy Owen: Mae'n dda gen i glywed fod y gynghanedd yn fyw o hyd.
- Sion Llwyd: O mae hi'n fyw ac yn iach. Mae nhw'n i dirwyn hi wrth y llath yn Ymryson y Beirdd.²¹
- Goronwy Owen: Dwn i ddim ar y ddaear beth ydyw hynny.
- Miss Citi: Na waeth imi heb na dechrau egluro'r newid – mae'r beirdd bol clawdd, fel y galwch chi nhw, Goronwy wedi dwad yn barchus iawn erbyn hyn hefyd.

¹⁷ Math o gerdd sy'n ymryddhau oddi wrth fesurau caeth traddodiadol yw Y Wers Rydd neu'r *Vers Libre* er fod iddi rai rheolau. Diffinir y mesur yn y gyfrol *Odl a Chynghanedd* gan Dewi Emrys fel a ganlyn; "Y mae'r *Vers Libre* yn caniatáu rhyddid; ond nid *penrhyddid* ydyw, o bell ffordd." t.93.

¹⁸ *rhyddid* sydd yn y deipysgrif wreiddiol ond golygwyd hynny'n ddiweddarach i *rhyddni*. Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

¹⁹ *disgwyl hen ferch* sydd yn y deipysgrif wreiddiol ond ychwnegwyd *i* mewn pensil yn ddiweddarach i roi *disgwyl i hen ferch*.

²⁰ *dernyn* sydd yn y gwreiddiol ond golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach i *dirwyn*.

²¹ Cystadleuaeth rhwng beirdd.

Goronwy Owen: D’oes gan neb barch i mi beth bynnag.
‘Goronwy’ wir.

Miss Citi: Wel ia, ‘Goronwy’ fydden ni’n galw’r bardd pan oedden ni’n i wneud o yn yr ysgol ers talwm.

Goronwy Owen: Fy ngwneud i [Miss] Citi?

Miss Citi: Maddeuwch i mi Goronwy. Eich astudio a feddylw’n. Dyna’r Cymraeg sâl sy’n cael i siarad yng Nghymru rŵan, dim byd tebyg i Gymraeg eich llythyrau chi.

Goronwy Owen: Ac yng ngwlad y Sais y sgrifennais i’r rheiny.

Miss Citi: Ia, ond ddaru i chi rioed adael Sir Fôn wir.

Sion Llwyd: Da iawn gweld bardd yn cael ei barchu ar ôl cymaint o flynyddoedd. Fel arall y mae hi – pob bardd yn cael i anghofio wedi iddo fo fynd yn hen.

Sali: Ond tydi rhyw hen siarad fel hyn yn ddiflas, Leusa Huws?

Leusa Huws: Dwn i ddim. Mae’n o’n mynd â meddwl rhywun oddi wrth bethau eraill.

Wmffra: Wel wir mi rydw i yn leicio clywad sôn am farddoniaeth a phethau felly.

Sion Llwyd: Mi fasa’n rhyfedd iawn gynoch chi feddwl Miss Citi a Mr. Goronwy Owen fod Wmffra wedi bod yn barddoni ers talwm.

Miss Citi: Wel wir – mae o’n dipyn o syndod, ac eto – mae o’n gwybod i Feibl.

Sion Llwyd: Pan oedd o a fi’n ifanc, mi’r oeddan ni’n dilyn cwarfodydd llenyddol ac yn cystadlu ar wneud englynion ac areithiau byr fyfyr. Mi’r oedd Wmffra yn englynwr dan gamp.

Goronwy Owen: Does dim diwedd ar ryfeddodau.²²

Sion Llwyd: Ond mi aeth Wmffra ar ôl y byd, ac i garu’r byd a mynd i’r sêd fawr – yn y drefn yna.

Wmffra: D’oedd hynny ddim gwaeth na mynd i gerad y byd fel y gwnes di, mi’r oeddwn i yn gweithio am fy mwyd beth bynnag.

Sion Llwyd: Mi’r oeddwn innau, ambell dro.

²² Golygydd hynny yn *Rhyfeddod y rhyfeddodau!* mewn pensil yn ddiweddarach.

Wmffra: Hawdd iawn ydy i chi gael ych twyllo gan dafod ffraeth y dyn yma, ond dyn diog yn ych gwneud chi dan ych trwyn oedd o. Rydw'n cofio ei weld yn dwad acw a chael brecwast iawn gan Mari cyn dechrau dyrnu efo'r ffust, ac yn gwneud esgus i fynd i nôl menthyg ffust well, un dderw i'r Fedwan, a dim yn dwad yn ôl am flwyddyn at y dyrnu.

Sion Llwyd: (*yn chwerthin*)

Wmffra: Hawdd iti chwerthin, y fi oedd yn gorfod talu am y bwyd.

Sion Llwyd: Ia, mi ofelist²³ mod i'n gwneud chwarter stem cyn brecwast ar ôl hynny.

Wmffra: Do unwaith, mi gedwaist yn ddigon clir ar ôl yr un tro hwnnw.

Sion Llwyd: Do mi aethom ein dau yn reit bell... oddi wrth ein gilydd.

Sali: A dyna pwy ydy'r dyn yma?

Sion Llwyd: O, a mi'r wyt ti'n fy nabod i?

Sali: Ddim yn hollol, ond mi glywais ddigon o sôn am dy deulu di.

Sion Llwyd: A phwy wyt ti felly?

Sali: Sali'r Sgallan.²⁴

Sion Llwyd: Sali'r Sgallan! Wel mi glywais i ddigon o sôn amdanat ti. Mi'r oeddat ti yn draddodiad yn yr ardal erbyn f'amser i.

Sali: Do, mi wn. Mae digon o sôn am rywun a fentrodd fyw efo dyn mewn priodas heb i briodi fo, a hynny pan oedd capeli Cymru²⁵ yn llawn. 'Sali byw tali'²⁶ oeddwn i ar lafar gwlad!²⁷

Sion Llwyd: A dyna pam rwyt ti yn fan'ma?

²³ *ofelest* sydd yn y llawysgrif wreiddiol ond golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *ofelist*.

²⁴ Weithiau ceir *Sali'r Sgallan* a thro arall *Sali'r Sgallan*. Cadwyd at *Sali'r Sgallan* yn y golygiad hwn.

²⁵ *pan oedd capeli Cymru yn llawn* a geir yn y deipysgrif wreiddiol ond golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *pan oedd y capeli yn llawn*. Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

²⁶ Ystyr yr ymadrodd yw bod dau nad ýnt yn briod yn byw gyda'i gilydd gan rannu dyletswyddau ariannol. Ceir enghraifft o Kate Roberts yn defnyddio'r ymadrodd mewn llythyr at Saunders Lewis; "Fe ddarllenais ddwy gyfrol gyntaf Madame de Beauvoir – mwynhau'r gyfrol gyntaf yn fawr iawn, a rhannau o'r ail. Mae'n debyg fod fy magwraeth Fehodistaidd (er nad oedd yn rhy gul yn fy hanes i) wedi fy anghyflyru i fedru mwynhau'r disgrifiadau yna o dai drwg a neuaddau masw. Mae ei byw tali gyda Sartre yn beth digon glân." *Annwyl Kate Annwyl Saunders*, gol Dafydd Ifans, t.200.

²⁷ *ar lafar gwlad!* sydd yn y deipysgrif wreiddiol ond golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *ar lafar ond ôl*. Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

Miss Citi: O naci Sion Llwyd. Does a wnelo hynny ddim â hyn. Wedi caru Wil y Sgallan yn rhy dda mae Sali, ac mae hi'n methu byw hebddo fo yn y fan yma.

Sali: Deudwch i mi, Sion Llwyd, ydach chi'n nabod Wil, neu oeddach chi yn i nabod o?

Sion Llwyd: Ydw. Oeddwn yn iawn.

Sali: A sut y mae o?

Sion Llwyd: O mae o'n fyw o hyd, yn hen greadur hen, hen, wedi colli i go', yn cofio dim.

Sali: Ydach chi'n meddwl i fod o wedi f'anghofio fi?

Sion Llwyd: Rydw i'n deud wrthoch chi nad ydy o'n cofio dim.

Leusa Huws: Hitiwch befo Sali, mi gofith yn iawn pan ddaw o yma. Dydan ni ddim yn cael llonydd i anghofio yn fan'ma.

Sali: Os nad ydy o wedi priodi rhywun arall.

Sion Llwyd: O, naddo.

Sali: Diolch byth. Ddaru rhywun edrych ar i ôl o?

Wmffra: Do, mi rydw i yn gwybod hynny. Mi fuo'r plant yn ffeind iawn wrtho fo.

Leusa Huws: Chwarae teg iddyn nhw.

Sali: (*yn wylo*) Ond pam na ddaw o? Pam mae'r Brenin Mawr yn ein cadw ni ar wahân mor hir? Dyma fi yn fan'ma er pan oeddwn i'n ddynas ifanc, a dyna Wil yn hen ddyn hen. Mae arna i ofn na wnaiff o mo fy nabod i.

Sion Llwyd: (*yn greulon*) Ydy mae'r bwlech ar ôl y marw yn cau yn bur gwit.²⁸

Leusa Huws: Nag ydy, Sion Llwyd. Wnaeth o ddim cau ar ôl fy hogia bach i.

Goronwy Owen: Mae arna i ofn fod Sion Llwyd yn iawn.

Miss Citi: Yn ôl pob hanes mi²⁹ gaeodd yn fuan iawn i chi Goronwy?

²⁸ *gurt* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd yn *gwit* mewn pensil yn ddiweddarach a chadwyd at y golygiad hwnnw.

- Goronwy Owen: Efallai, ond mi'r oedd fy ngholledion i mor fawr – colli fy Elin³⁰ yn blentyn blwydd a hanner oed, a cholli fy ngwraig a'm bachgen ar y môr wedyn.³¹ Beth fedrwn i wneud i anghofio ond ail-briodi?³²
- Leusa Huws: Anghofio? I beth oedd arnoch chi eisio anghofio? Wedi i chi gyrraedd rhyw oed, does yna ddim yn digwydd ond yn y co'. Fedrai gwraig arall ddim dileu ych gwraig gynta chi a'ch plant oddi ar ych co' chi. Tasa chi'n deud fod arnoch chi eisiau rhywun i'ch cysuro, mi faswn i yn ych dallt chi.³³
- Sali: O mae'n dda gin i ych clwad chi'n deud hynny Leusa Huws, er nad ydw i ddim yn dallt pob dim. Ddarw Wil ma f' anghofio *fi*.
- Sion Llwyd: Dydy o'n cofio dim.
- Sali: Be wyddost ti be sy'n mynd trwy i feddwl o? Os ydy o wedi colli i go', ella nad ydy o ddim wedi f' anghofio *fi*.
- Leusa Huws: Sali bach, fel yna'r oedd pobl yn siarad yn y seilam.
- Sion Llwyd: Be wyddoch chi am seilam?
- Leusa Huws: Mi fûm i yna am flynyddoedd.
- Wmffra: (*Yn ochneidio*) Mi glywn yr un truth eto.
- Leusa Huws: Wnaiff o ddim drwg iti. Mi gest ti fyd rhy braf ar y ddaear, yn cael cadw dy blant gartra heb fynd i'r rhyfal, a gwneud dy ffortiwn, a rhoi deng mil o bunnau am ffarm i dy hogyn. Wyddost ti ddim byd am ddiiodda.

²⁹ *ond* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd yn *mi* mewn pensil y ddiweddarach a chadwyd at y golygiad hwnnw.

³⁰ Merch Goronwy Owen a fu farw mis Ebrill 1755 yn bymtheg mis oed, nid *pedair oed* fel a nodir yn y deipysgrif wreiddiol. Newidwyd oedran y plentyn i gadw'n nes at y ffeithiau. Fe gladdodd Goronwy Owen Elin ei hunan ym mhlwyf Walton, Lerpwl ble'r oedd yn Ddiacon ar y pryd. Gweler Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu*, tt.147-148

³¹ Bu farw Elinor Owen (*nee* Hughes g. 31 Ionawr, 1717) gwraig Goronwy Owen, a'u mab bychan Owen (g. 28 Ionawr, 1757) ar y fordaith o Lundain i Virginia, America tua Mawrth 1758 ac yn unol â'r drefn bryd hynny cawsant eu gollwng i'r môr. Gweler Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu*, tt.227

³² Priododd Goronwy Owen ag Ann Clayton ym 1758. Bu farw Ann ym 1759. Priododd Goronwy am y trydydd tro yn 1763 gyda Jean Simmone a chafwyd pedwar o blant o'r briodas honno. Gweler Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu* tt.249, 256, 313, 318.

³³ *Tasa chi'n deud fod arnoch chi eisiau i rywun i'ch cysuro.* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Ond ychwanegwyd mewn pensil yn ddiweddarach *Tasa chi'n deud fod arnoch chi eisiau i rywun i'ch cysuro, mi faswn i yn ych dallt chi.* Cadwyd at y golygiad diweddarach yn y golygiad hwn.

Wmffra: Rydw i'n methu gweld bod yn rhaid inni fynd i gwarfod â diodda heb fod eisio inni.

Sion Llwyd: Ond dowch chi, mi gafodd o ddiiodda.

Wmffra: Wyddost titha ddim amdano chwaith. Mi est i grwydro er mwyn osgoi dy gyfrifoldeb.

Sion Llwyd: Wnes i ddim drwg i neb, dim ond gaddo gneud joban bach a thorri fy ngair. Tipyn o hwyl oedd hynny.

Wmffra: Hwyl wir!

Sion Llwyd: Ia hwyl. Ond nid hwyl oeddat ti yn i gael wrth boeni ynghylch dy arian ac ofni i'r prisiau ostwng, a gweld dy hun yn gorfod talu crochris am ffarm i dy fab, ac yn byta dy winadd bob tro y gwelat ti fod gweision ffermydd yn mynd i gael codiad yn eu cyfloga.

Sali: A mi'r oedd Wmffra yn flaenor?

Sion Llwyd: Oedd.

Sali: A blaenoriaid oedd am fy nhroi fi o 'nhŷ am nad oeddwn i'n byw'n onest meddan³⁴ nhw.

Miss Citi: Rŵan, rŵan Sali, does a wnelo hynny ddim â'r peth. D'oedd Wmffra ddim yn flaenor yr adeg hynny.

Sali: Run petha ydyn nhw i gyd.

Miss Citi: Lol i gyd. Dydan ni ddim wedi callio dim ar ôl dwad i fan'ma. Felna'n union roeddwn ni'n siarad pan oeddwn ni yn y byd.

Goronwy Owen: Mae'ch siarad chi yn dywyll i mi. Doedd yna ddim capeli na blaenoriaid yn f'amser i, ac ni fasa neb yn gweld bai ar Sali y pryd hynny. Ond mi'r oedd pawb yn byw reit hapus, a neb yn busnesu efo bywyd ei gymydog.

Sion Llwyd: Dyna pam y trois i fy nghefn arno Syr – cofio am ych oes chi yr oeddwn i.

Wmffra: Ond mi'r oedd hi'n oes dlawd iawn.

³⁴ *meddau* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd yn *meddan* mewn pensil yn ddiweddarach a chadwyd at y golygiad hwnnw.

- Leusa Huws: Tlawd fyddai'n i gweld hi bob amsar ar y rhan fwya o bobol, dim ods faint y gawn ni.
- Miss Citi: Mae lot o wir yn hynna Leusa Huws.
- Sali: Ond pan mae pobol yn byw yn gytûn efo'i gilydd, mi allan ddal llawar o dlodi.
- Wmffra: Dydw i'n gweld dim synnwyr bod yn dlawd, pan mae digon wrth ein hymyl ni, dim ond inni ymysgwyd i gymryd gafael ynddo fo.
- Sali: Ond tasa pawb yn cymyd gafael ynddo fo, fasa yna ddim i neb gael.
- Sion Llwyd: Gadael fy siâr i Wmffra wnes i.
- Leusa Huws: Roeddach chi'n sôn am fyw'n gytûn Sali, cyn i'r lleill yma dorri ar ych traws chi.
- Sali: Oeddw, mi'r oedd Wil a finna'n dlawd fel llygod eglwys, ond yr oeddau ni'n meddwl y byd o'n gilydd ac yn anghofio tlodi.
- Miss Citi: Ond doeddach chi ddim yn hapus Sali mi wranta, ne fasach chi ddim yn y fan yma.
- Sali: Oeddw, mi'r oeddau ni'n berffaith hapus. Yr oeddau ni'n dau wedi gweld cimint o bobol wedi priodi yn anhapus, ac yn dal i fyw efo'i gilydd ddim ond er mwyn enw o fod yn barchus am fod llyffethair priodas am eu traed nhw, nes y daru inni benderfynu peidio â rhoi'r llyffethair hwnnw.³⁵ Rydw i'n cofio'n iawn am ddau hen bererin wrth fymyl i, wedi byw efo'i gilydd fel ci a chath am dros ddeg - mlynedd – a thri – ugain (*igian - ei dynnu allan fel yna*). 'Roedd o'n ddigon o wers i neb.
- Miss Citi: Ond mi wranta i nad oeddech chi ddim yn fodlon wedyn Sali. Mi all llyffeithar fod yn help weithiau, ac mi all rhyddid fod yn rhwystr.
- Wmffra: Mi rydach chi'n siarad fel ffarmwr profiadol Miss Citi.
- Miss Citi: Nid am ddefaid yr ydw i'n sôn Wmffra. Fasa Sali ddim yn y fan yma oni bai iddi fod yn anfodlon.

³⁵ *Yr oeddau ni'n dau wedi gweld cimint o bobol wedi priodi yn anhapus, ac yn dal i fyw efo'i gilydd ddim ond er mwyn enw o fod yn barchus am fod llyffethair priodas am eu traed nhw, nes y daru inni benderfynu peidio â rhoi'r llyffethair hwnnw. sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn Yr oeddau ni'n dau wedi gweld cimint o bobol wedi priodi yn anhapus, nes y daru inni benderfynu peidio â phriodi. Roedd rheini'n dal i fyw efo'i gilydd ddim ond er mwyn yr enw o fod yn barchus. Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.*

Sali: Mae Miss Citi yn eitha iawn. Roedd arna i ofn.

Leusa Huws: Ofn i'ch gŵr chi farw?

Sali: Naci siŵr iawn; ond ofn iddo fynd â ngadael i, gan fod gynno fo berffaith ryddid i fynd. Yn lle bod yn llyffethair amdanon ni'n dau, y fi oedd am roi llyffethair arno fo.

Sion Llwyd: Ond ddaru o ddim dengid yn naddo?

Goronwy Owen: “Amodau, rhwymau fu rhôm, Eithr angeu a aeth rhyngom!”³⁶

Leusa Huws: Ia wir.³⁷

Wmffra: Cwpled da³⁸ iawn.

Miss Citi: Ydy mae ei sŵn yn dda iawn i chi Wmffra, ond dydy hi'n golygu dim i chi.

Leusa Huws: Bedach chi'n feddwl Miss Citi?

Miss Citi: Meddwl am y glec y mae nhw. Nid meddwl am y peth i hun – y marw.

Leusa Huws: Ia, fel na mae hi, neu roedd hi, doedd neb yn malio bod fy hogia bach i wedi eu lladd dros Berlin.

Wmffra: Ond doedd yna filoedd yr un fath.

Leusa Huws: Doedd hynny ddim cysur i mi.³⁹

Miss Citi: Mi'r ydach chi yn llygad ych lle yn fan yna Leusa Huws.

Leusa Huws: O mi'r ydach chi'n garedig Miss Citi, dwn i ddim pam yr ydach chi yn y fan yma a chitha wedi byw er mwyn pobl erill.

³⁶ Dyfyniad o gywydd Tudur Aled y rhoddwyd yr enw ‘Mae’r Haf wedi marw hefyd’ arno gan T Gwynn Jones. Gweler T. Gwynn Jones, *Gwaith Tudur Aled, Cyfrol II*, t.483. “*Amodau rhwymau fu rhôm / Eithr Angau a aeth rhyngom*”. sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Cadwyd at y dyfyniad cywir o gyfrol T. Gwynn Jones yn y golygiad hwn.

³⁷ *T.s t.s t.s* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *Ia wir*. Cadwyd at hynny yn y golygiad hwn.

³⁸ *Llinell dda* sydd yn y deipysgrif wreiddiol.

³⁹ *imi* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *i mi*. Cadwyd at hynny yn y golygiad hwn.

Miss Citi: Ond d’oeddwn i ddim yn fodlon wrth wneud hynny. Yr oedd yn llai o drafferth gwneud hynny dyna’r cwbl... gwneud er mwyn anghofio poen yr oeddwn i.

Leusa Huws: Y chi wedi cael poen Miss Citi, fasa neb yn meddwl hynny?

Miss Citi: Do ddigon, a hynny ar ddechrau fy mywyd, yn ifanc iawn.

Sali: Ond wnewch chi ddim deud wrthon ni Miss Citi? Mi dynsoch chi fy nhu mewn i allan.

Goronwy Owen: Do yn wir.

Miss Citi: O, dim ond imi gael fy nhwyllo gan y dyn ifanc oeddwn i yn i garu. Roeddwn i’n meddwl y byd ohono fo, ac ynta ohono inna, roeddwn i’n meddwl.

Sali: A d’oedd o ddim wedi’r cwbl?

Miss Citi: Nag oedd. Mi’r oedd o’n caru efo un arall ers misoedd, ac mi priododd hi.

Sali: Yr hen gena. Ond sut na basech chi wedi i nabod o ynghynt Miss Citi?

Miss Citi: Roedd o’n fachgen clên iawn. A nid dyna’r cwbl. Roeddwn i wedi rhoi benthyg canpunt iddo fo, a ches i byth ddimai yn ôl.

Wmffra: Mi’r oedd hynny’n waeth.

Miss Citi: Yn waeth na beth?

Wmffra: Na phriodi rhywun arall.

Sion Llwyd: Clywch chi arno fo. Y fo fyddai’n gwneud imi ddyrnu am awr cyn brecwast.

Goronwy Owen: Wel, Miss Citi, ddyliech chi ddim gweld bai arno fo am beidio â thalu ei ddyledion. Rhyw bobl bach na wŷyr neb ddim amdanyn nhw sy’n talu eu dyledion.

Miss Citi: Ia ella. Mi ddylai pobl enwog fel chi, wybod Goronwy. Yn ôl pob sôn doeddech chi ddim yn enwog am dalu eich dyledion eich hun.

Goronwy Owen: Braint bardd, Miss Citi, braint bardd. Dydw i ddim wedi anghofio’r Dafis hwnnw, yr wyneb lleuen gadach, a aeth â nodrefn i am i mi beidio â gorffen talu amdanyn nhw.

Sion Llwyd: (yn chwerthin)

Miss Citi: Wel, mi weithies i ddigon caled i hel y canpunt.⁴⁰

Leusa Huws: Ac oni ddaru chi weithio'n ddigon caled wedyn?⁴¹ Wn i ddim am neb wnaeth gymaint dros i chymdogion. Mi'r ydach chi'n Gristion, os bu Cristion erioed.

Miss Citi: Peidiwch chi â chamgymryd. Poen sy'n gyrru llawer o bobl i wneud gweithredoedd da. Gwneud rhywbeth i anghofio – gweithio, dal, dal i weithio er mwyn anghofio ein siom, a dim ond cael ein siomi wedyn yn ein cyd-ddynion.

Wmffra: Dydy'ch diwinyddiaeth chi ddim yn iawn Miss Citi.

Miss Citi: Ella nad ydy o ddim. Ond mae hynna'n wir, diwinyddiaeth neu beidio.

Leusa Huws: Ond mi ddaru i chi ddal i gredu ynddyn nhw Miss Citi, a dal i'w helpu er i bod nhw'n anniolchgar. Nid run fath â fi, mi rois i fy nghalon i lawr a mynd i'r seilam. O am le ofnadwy, pawb o'u couau, a phobl hyll.⁴² Merched clws yn mynd yn hagar, a hen arferion ffaidd...

Miss Citi: (*Yn torri ar ei thraws*) Dyna fo, does arnom ni ddim eisiau clywed rhagor.

Wmffra: Mi fûm i yno unwaith yn edrach am berthynas, ac yr oeddwn i'n meddwl ei bod hi reit braf ar lawar ohonyn nhw, yn gorwedd yn dawal yn eu gwelyau heb fedru cymryd poen, dim eisio poeni am dreth na ...⁴³

Leusa Huws: Y cena calon galad. Mi fasan yn rhoi llawar am gael bod yn dy le di.

Sion Llwyd: Clywch! Clywch!

⁴⁰ y *can punt* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Y mae'r swm hwn o ganpunt yn ein hatgoffa o'i drama gynnar *Y Canpunt* a ysgrifennodd ar y cyd â Betty Eynon Davies a Margaret Price.

⁴¹ *Ac oni ddaru ichi weithio'n ddigon caled wedyn.* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach i *Ac mi ddaru ichi weithio'n ddigon caled wedyn.* Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn, ond ychwanegwyd y gofynnod ar ddiwedd y frawddeg.

⁴² *O am le ofnadwy, pawb o'u couau, a phobl hyll.* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *O am le ofnadwy, pawb o'u couau, pobl dduwiol yn rhegi, a phobl hyll.* Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

⁴³ *Mi fûm i yno unwaith yn edrach am berthynas, ac yr oeddwn i'n meddwl ei bod hi reit braf ar lawar ohonyn nhw, yn gorwedd yn dawal yn eu gwelyau heb fedru cymryd poen, dim eisio poeni o ble deuai'r arian nesaf i dalu treth yr incwm, nac i dalu cyflogau mawr. Dim eisio llenwi ffurflenni.* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *Mi fûm i yno unwaith yn edrach am berthynas, ac yr oeddwn i'n meddwl ei bod hi reit braf ar lawar ohonyn nhw, yn gorwedd yn dawal yn eu gwelyau heb fedru cymryd poen, dim eisio poeni am dreth na ...* Cadwyd at hynny yn y golygiad hwn.

- Miss Citi: Basan. Yn ein lle ni i gyd. Mi fasan yn rhoi'r byd am gael digon o synnwyr i boeni ynghylch rhywbeth. Y rhai sy'n cymryd cyfrifoldeb poen sy'n cael poen.
- Leusa Huws: Wir, doedd gen i ddim help am fethu dal. Mi dreiais fy ngorau fendio, ac mi ddois allan yn well. Ond wedi dwad allan, yr un oedd y gwacter wedyn.
- Goronwy Owen: Ym mhle'r oedd dy ŵr di?
- Leusa Huws: Wedi'i gladdu ers blynyddoedd. Roeddwn i bron wedi wedi'i anghofio fo. Roedd o wedi marw o'r diciâu. Wedi diodda am flynyddoedd a blynyddoedd. Wna i byth anghofio'i ddiiodda fo. Fel yna mae chwarelwrs, yn mynd efo sgyfaint gwlyb i feddau sychion, yn ddyinion ifanc.
- Miss Citi: O tewch Leusa Huws.
- Leusa Huws: Ydy, mae o'n ofnadwy. Ond mi fedrais i anghofio hwnna am fod gin i ddau hogyn bach i weithio er eu mwyn nhw.
- Goronwy Owen: Pam roeddech chi'n gweld bai arna i am anghofio ynta? Doedd gen i ddim byd?
- Leusa Huws: (*Heb gymryd sylw*) ...a doedd gin i mo hynny wedi dwad o'r seilam, dim byd na neb i weithio er ei fwyn. Roeddwn i'n treio gweld rhywbeth gwerth edrach ymlaen ato yn y diwrnod wedyn o hyd. Weithiau mi gawn afael mewn cawren. Mi fyddai cofio fod gen i dorth gartra i frecwast yn ddigon o sbardun imi edrch ymlaen at drannoeth.
- (*Sion Llwyd yn agor ei geg mewn diflastod.*)
- Wmffra: Piti garw na fasech chi wedi gwneud yr un peth â Miss Citi – treio meddwl am bobl erill.
- Sion Llwyd: Un da wyt ti i siarad.
- Leusa Huws: Ia ond fedrwn i ddim – doeddwn i'n gweld dim gronyn o gysur yn yfory, mi aeth yn nos dywyll, ac mi benderfynais⁴⁴ ladd fy hun.
- Sali: (*yn gweiddi*) O.

⁴⁴ *mi benderfynais* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *mi benderfynis*. Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

Leusa Huws: Y penderfynu oedd yn ofnadwy. Gweld rhai rhesymau dros beidio, ond miloedd dros imi wneud. Ond wedi penderfynu doedd y gweddill ddim byd, doeddwn i ddim ond fel darn o bapur yn y gwynt wedyn.

Sali: (*yn griddfan*) O, am wastraff ar fywyd. Y fi yn dyheu am fendio, yn gwingo yn erbyn y drefn o farw, a Leusa Huws yn taflu bywyd i ffwrdd.

Wmffra: Ac yn pechu wrth wneud hynny.

Miss Citi: Rydan ni i gyd wedi pechu, Wmffra'r Geulan.

Goronwy Owen: Rydw i'n gwrthwynebu i'r siarad creulon yma. Pam mae'n rhaid inni ddiiodda'r fath beth?

Miss Citi: Hawdd iawn i chi siarad. Dydach chi ddim wedi diiodda llawar. Leusa Huws ddaru brofi poen i'w waelodion, a pheidio â threio dengid rhagddo fo efo gweithredoedd da. Dengid rhagddo wnes i, ac wrth imi fynd yn hen, roedd amser yn fy mlino, roeddwn i ac yntau yn rhedeg ras. Roedd amser yn mynd fel chwrligwgan, a minnau'n lorio ac yn aros yn ôl, ond yn gwybod y byddai'n rhaid imi ei ddal ryw ddiwrnod, a mynd o'r byd heb wneud dim.

Leusa Huws: Y chi heb wneud dim!

Miss Citi: Ia, heb wneud dim ond ceisio lladd amser yn lle gwneud yr hyn oedd arnai ei eisiau.

Leusa Huws: Beth oedd hynny, Miss Citi?

Miss Citi: Byw. Byw. Priodi a chodi teulu.

Leusa Huws: I'w colli wedyn mewn rhyfal.⁴⁵

Miss Citi: Dim ods. Mae rhyw iawn mewn colli ar ôl cael. Ond colli heb gael dim... O na chawn i ail gynnig.

Goronwy Owen: Ond d'ydydym ni byth yn cael yr hyn sydd arnom ei eisiau.
 "Chwilio gem, a chael gw[y]mon!"⁴⁶

Sion Llwyd: (*Yn ddistaw*) Perig bywyd dweud nad y fo piau honna.

⁴⁵ *I'w colli wedyn mewn rhyfal.* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *I colli nhw wedyn mewn rhyfal.* Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

⁴⁶ Dyfyniad o 'Cywydd y Maen Gwerthfawr', Goronwy Owen. Gweler y gyfrol *Barddoniaeth Goronwy Owen* a gyhoeddwyd gan H Evans a'i feibion, Lerpwl. "*Chwilio gem a chael gwymon.*" sydd y deipysgrif wreiddiol. Ar wahân i ychwanegu y yn *gw[y]mon* cadwyd at y dyfyniad cywir o'r gyfrol *Barddoniaeth Goronwy Owen* yn y golygiad hwn.

- Wmffra: Llinell odidog.
- Leusa Huws: Ia wir Wmffra. Doedd yna byth ddarfod na chyrraedd pen draw pan oeddau ni yn y byd, na chael eistedd a theimlo ein bod wedi gorffen.⁴⁷ Pan oedd y plant yn fychan, mi fyddwn i'n meddwl y cawn i eistedd wedi iddyn nhw fynd yn fawr a dechrau ennill, a chael paned o de yn hapus wrth y tân. Ond ches i ddim.
- Sali: Cymryd fy mwyniant fel y doi o y byddwn i. Eistedd yng nghanol fy ngwaith a mwynhau fy hun ar y munud. Mynd allan i'r haul ac eistedd ar stôl i roi fy mron i'r babi. Peth braf oedd i weld yn cymryd sbel ar hanner sugno ac agor ei geg i chwerthin a rhoi slap ar fy mron i. Fyddwn i byth yn edrach ymlaen at orffan eu magu nhw.
- Miss Citi: O Sali, peidiwch.
- Leusa Huws: Dyna fo, Miss Citi. Mae Sali yn siarad lot o synnwyr.
- Goronwy Owen: Ydy. Edrych ymlaen at gael mynd i sir Fôn yr oeddwn i.
- Wmffra: Wel pam na fasach chi'n mynd ynta? Roedd yn haws mynd yno o Loegr nag o fan 'ma.
- Goronwy Owen: Doedd ar neb f'eisiau i yno. Roedd gan yr Esgobion eu pobl, ac nid y fi oedd un ohonynt.
- Miss Citi: Dydw i ddim yn meddwl ych bod chi wedi treio llawar ar ôl y tro cynta.
- Goronwy Owen: Do, mi ddarum.
- Wmffra: Ond fasan ni ddim wedi cael y cywyddau da yna tasach chi wedi mynd.
- Miss Citi: Mi fasan wedi cael cywyddau hiraeth am Lundain wedyn.
- Goronwy Owen: Tewch â'ch siarad dwl Miss Citi.
- Miss Citi: Mi ddywedodd ryw fardd o'n hamser ni, Goronwy, "Mwyn i bawb y man ni bo"⁴⁸, ac os bu hynny'n wir am rywun, mi'r oedd o'n wir amdanoch chi. Dwn i ddim fydd o'n werth ych symud chi i'r nefoedd, anfodlon fyddwch chi wedyn.
- Goronwy Owen: Wel, mae'n wir mai dyn anfodlon ydy bardd.

⁴⁸ Dyfyniad o gerdd?

- Wmffra: Dim gwerth rhoi wyau dano fo.
- Sion Llwyd: (*Yn hanner deffro*) Dyna pam y rhoist ti orau i farddoni Wmffra. Ond fuost ti ddim mwy bodlon wedyn.
- Miss Citi: Ond mi ddaru⁴⁹ i chi fodloni yn y diwedd yn do, Goronwy?
- Goronwy Owen: Dwn i ddim.
- Miss Citi: Ond chawsom ni ddim cywyddau hiraeth gynnoch chi o'r Mericia, ac mi'r oeddech chi'n bellach o sir Fôn nag erioed.
- Goronwy Owen: Dydw i ddim yn mynd i ddweud fy hanes, a throi fy mherfedd tu chwithig allan, fel mae rhai ohonoch chi wedi bod wrthi heno. Fy musnes i ydy pam y bwm i'n ddistaw wedi mynd i'r Mericia. Does dim eisiau i'r byd a'r betws wybod hanes neb – er y basa fo'n lles i'r Morysiaid⁵⁰ yna fod wedi cael gwybod fy ffawd i.
- (*Sali yn chwyrru cysgu*)
- Sion Llwyd: Mae Sali wedi mynd i gysgu.
- Miss Citi: Ydy'r greadures. Dydy rhyw siarad fel hyn ddim at i thast hi.
- Sion Llwyd: Mi fasa'n dda gin inna gael symud oddi yma hefyd. Dydw i rioed wedi aros yn unlla am fwy na noson, a d'oes dim gwair na dim yn fan'ma i ddyddyn roi i ben i lawr. Rydw i mewn llawn cydymdeimlad â'r bardd.
- Goronwy Owen: Aros, nes byddi di wedi bod yma cŷd â fi.
- (*Daw sŵn daeargryn ysgafn fel o'r blaen, a sŵn drws yn agor*).
- Sali: (*Yn deffro*) Mae rhywun yn dwad eto. O na, rhywun sy'n cael mynd odd'ma. Gobeithio nad y fi. Well gin i aros am Wil.
- Miss Citi: Sion Llwyd sy'n cael mynd.⁵¹
- Sion Llwyd: Diolch byth. Rydw i wedi hen laru yma. Ella ca i gysgu yn sgubor y Geulan wedi'r cwbl.

⁴⁹ *Ond mi ddaw i chi fodloni yn y diwedd yn do Goronwy?* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *Ond mi ddaru i chi fodloni yn y diwedd yn do, Goronwy?* Cadwyd at hynny yn y golygiad hwn.

⁵⁰ Cyfeiriad at Morrisiaid Môn sef y brodyr Lewis (1701-65), Richard (1703-79), Wiliam (1705-63) a Sion neu John (1706-40) Lewis. Hynafiaethwyr, llenorion a llythyrrwyr a fagwyd ym Mhentre-eiriannell, Môn. Yr oeddent yn cydoesi â Goronwy Owen.

⁵¹ *Sion Llwyd sy'n cael mynd.* sydd yn y deipysgrif wreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach yn *Ti, Sion Llwyd sydd yn cael mynd.* Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

(Sŵn ei draed yn cerdded)

Miss Citi: Nid y ffordd yna Sion. Yn dy flaen yr wyt ti'n mynd nid yn d'ôl.

Sion Llwyd: *(Yn siomedig)* Dydw i ddim yn cael mynd yn f'ôl i Gymru?

Goronwy Owen: Does neb yn cael mynd yn ôl i Gymru o fan'ma.

Sion Llwyd: Wela i byth mo Gymru eto?

Goronwy Owen: Na weli *byth*.

(Tawelwch ennyd)

Sion Llwyd: *(Yn canu a bron â thorri i lawr)*
Cyn delwyf i Gymru'n ôl fy ffrind
Cyn delwyf i Gymru'n ôl
O bydd glaswellt ar fy llwybrau i
Cyn delwyf i Gymru'n ôl.⁵²

(Seibiant byr)

Wel, ffarwel gyfeillion, a diolch i chi am sgwrs ddifyr ac adeiladol. A gobeithio y ca i dy weld ti'n o fuan Wmffra. Rydw i bron wedi dwad i dy hoffi di. (*Â ymaith, a chaeir y drws*)

Leusa Huws: *(Yn beichio wylo)* Does yna ddim cyfiawnder yn y fan yma ychwaith, ddim mwy nag yn y byd. A finnau'n disgwyl mai fi fyddai nesa, er mwyn imi gael gweld fy nau hogyn bach.

Miss Citi: Ydy, mae'n anodd disgwyl,⁵³ ond mi ddaw rywdro, a chofiwch mi fydd arna i hiraeth wedi i chi fynd.

⁵² Hen faled Gymreig;

Ffarwel i dre Biwmares
A dinas bach Bod-lon,
Ffarwel i dre Caernarfon
Lle mae'r merched ieuainc llon;
Trafeiliais y byd a'i hyd a'i led,
A thrwodd a thros y môr,
Bydd glaswellt ar fy llwybrau
Cyn y delo'i Gymru'n ôl. (Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed ganrif*, t.56)

Yn ôl Thomas Parry, "Fe ddywedir y byddai'n arfer gan longwyr ganu'r pennill hwn wrth gychwyn allan o'r porthladdoedd, ond newid yr enwau lleoedd am y lleoedd a welent wrth hwylio." Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed ganrif*, t.56

⁵³ Ychwanegwyd *Leusa* yma yn ddiweddarach mewn pensil. Fe'i hepgorwyd yn y golygiad hwn.

Leusa Huws: Gobeithio y cewch chi ddwad yr un pryd â mi Miss Citi. Rydach chi wedi bod mor ffeind. O, naci, mae arna i eisio cyfarfod y ddau ar ben fy hun. O Dduw, does dim diwedd ar ddatod clymau hyd yn oed yn fan yma.

Miss Citi: Ond mi gewch chi weld eu datod i gyd. Mi gewch chi weld y daw pob dim yn iawn.

Leusa Huws: (*Yn wyllo*) Rhyw hen drampar fel yna yn cael mynd mor fuan.

Miss Citi: Ia, Leusa Huws. Rhyw bili pala o ddyn, a nefoedd pili pala sydd yn ei ddisgwyl.

Leusa Huws: Pili pala?

Miss Citi: Ia, iar bach yr ha.

Leusa Huws: Oes gynnoch chi rywun yr ydach chi'n dyheu am ei weld wedi mynd trosodd Miss Citi?

Miss Citi: Nag oes fawr neb mwy na'i gilydd. Mi ges i fy ngadael yn unig ar y ddaear a neb yn poeni dim yn fy nghylch i, wedyn pam mae'n rhaid imi fynd i chwilio amdanyn nhw yn y nefoedd?

Leusa Huws: Hollol wir. Fel yna yr oedd hi efo minnau. Sawl noson y bum i ar ben fy hun efo'r gath, disgwyl clywad sŵn troed ar lwybyr yr ardd a neb yn dwad ar fy nghyfyl i.

Wmffra: Mi gest gydymdeilad ardal pam gollist ti dy feibion.

Leusa Huws: Do *am wsnos*. Doeddau nhw ddim yn meddwl dim amdana i wedyn.

Miss Citi: Na, dyna fel mae pobl. Meddwl am neb ond amdanyn nhw eu hunain. Anghofio pob cymwynas ac edrych arnoch chi fel petaech yn ffwl. O mi'r oedd hi'n anodd peidio â chwerwi.

Leusa Huws: Ac mae hi'n ymddangos i mi mai'r un fath y mae hi yn y fan yma. Dim cyfiawnder, y dwetha ddaeth i mewn yn mynd odd yma gynta.

Miss Citi: Na, nid anghyfiawnder oedd i Sion Llwyd fynd drosodd gynta. Ond mae'n rhaid inni ddiodef dipyn rhagor. Dydan ni ddim wedi diodef digon. Ond mi ddaw cyfiawnder. Does yna neb ond y chi yn gwrando erbyn hyn Leusa, a mi ddeuda i chi beth ddwedodd rhyw fardd o Ffrainc,
 "Bydded bendith ar ddiodef O Dad.

Nid tegan gwag yw fy enaid yn dy law.
Mae dy ddoethineb yn annherfynol".⁵⁴

Wmffra: Maddeuwch i mi, Miss Citi, mi'r oeddwn i'n gwranddo. Fedra i byth wrthod y demtasiwn o wrando ar farddoniaeth. Ond maddeuwch imi am ddweud. Mae Paul wedi dweud yn well o lawer "Canys ein byr ysgafn gystudd ni".⁵⁵

Miss Citi: Wir, mi'r ydach chi'n gwybod eich Beibl, Wmffra, "sydd odidog ragorol".⁵⁶

Llen

Cerddoriaeth

Sali'r Sgallan: Dyma fi Sali'r Sgallan mewn jêl ers degau o flynyddoedd, ers faint d'wn i ddim. D'oes dim posibil cyfiri, petai rhywun yn medru cyfiri, does yma na chloc nac almanac Robat Robaits, Caergybi⁵⁷. Pedair wal lwyd wastad, heb garrag yn bochio allan, run fath ag oedd yn y Sgallan ers talwm. Dim ffenast o gwbl, dim ond dau ddrws; un tuag at y byd, a'r llall tuag at y byd arall. Ac mae pob dim mor lân, byth lanast, na gwe pry cop yn y corneli. Mi fasa'n dipyn o rw bath gweld pry cop fel petaen ni mewn beudy. Ond does yma ddim byd, ddim ogla dim. Mor dda oedd

⁵⁴ Dyfyniad o'r gerdd 'L'imprévu' o'r gyfrol *Fleurs du mal* gan Charles Baudelaire; *De ceux dont le coeur dit: "Que béni soit ton fouet, / Seigneur! que la douleur, ô Père, soit bénie! / Mon âme dans tes mains n'est pas un vain jouet, / Et ta prudence est infinie"*. <http://fleursdumal.org/poem/305> Cyfieithwyd y gerdd i'r Saesneg am y tro cyntaf ym 1954 gan William Aggeler; 'The Unforseen', *The Flowers of Evil; Of those whose hearts say: "Blessed be your whip, / Lord! O Father, blessed be suffering! / My soul in your hands is not an idle plaything / And your prudence is infinite."* Byddai'r cyfieithiad hwn gan Aggeler yn newydd i law pan yr oedd Kate Roberts yn ysgrifennu *Y Cynddrws* ar gyfer ei darlledu ar y radio ym mis Mai 1954.

⁵⁵ Adnod o'r Beibl; 2 Corinthiaid 4:17 "Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni;"

⁵⁶ Miss Citi sydd yn adrodd ail hanner yr adnod yn y deipysgrif wreiddiol, ond ychwanegwyd enw Wmffra mewn pensil yn ddiweddarach. Cadwyd at y gwreiddiol yn y golygiad hwn.

⁵⁷ Gwerthwr almanacau sef llyfrau a gynhwysai wybodaeth am y tywydd, ysgrifau ar ffawd, crefydd, gwleidyddiaeth ac amaethyddiaeth a cherddi; baledi yn bennaf. Caed hefyd hanes ffeiriau ac eisteddfodau ynddynt.

ogla gwarthaig y Sgallan ers talwm pan fyddai'i llysnafedd nhw yn hongian yn rhaffa oddi wrth'u cega nhw, a finnai'n godro ar y stôl a 'mhen yn dynn yn nhgnewyn y fuwch, yn synfyfyrio ac yn breuddwydio yr un fath â'r fuwch yn union, ac yn llawn mor fodlon. Y dyddiau braf pan oeddau i allan yn gweithio hyd y caea, a rhoi'r babi i gysgu ar boncan yn yr haul ynghanol yr eithin. Mor falch fyddwn i ar ôl y gwaith calad, o gael rhedag i'r tŷ i ddisgwyl Wil adra o'r ffarm lle'r oedd o'n gweithio. Dim ond chweigian am weithio o ola i ola am wsnos gyfan. A finna'n rhoi gluod ar y tân er mwyn cael fflam i ferwi'r lobscows. Mor falch oeddwn i o'i weld o, a mor falch oedd ynta o gael disgyn i gadair galad. Ond roedd hi'n nefoedd arnon ni, roeddau ni mor iach. Dwn i ddim beth oedd y salwch ddoth ata i, a gwneud imi adael fy nheulu. Mor braf oedd hi gyda'r nos yn y gaea, cael eistedd wrth y tân i wau sanau i Wil a'r plant, a throedio i hwn ac arall er mwyn gwneud ceiniog, a gwneud gwaith edau a nodwydd gwyn i ferchaid y ffatri i roi dan u peisia gwynion a'u cobenni. D'oedd arna i ddim gwenwyn iddyn nhw na'u crandwydd. Roeddau nhw yn talu yn dda i mi. Sgwn i lle ma nhw bellach, a lle ma Wil a mhlant i? Ma walia'r hen le yma ru'n fath yn union a walia capal, lle na chawn i byth i dwllu fo am fod pawb yn f'erbyn i.

CROSS FADE INTO MUSIC

Leusa Huws:

Pryd ca i fynd o'r lle yma? Y fi Leusa Huws, na chafodd ddim cydymdeimlad. O na chawn i weld fy hogia bach. Tydw i ddim wedi diflasu mwy ar fanma nag oeddwn i ar y ddaear pan rois i ben ar 'y mywyd. Llwyd oedd y byd y pryd hynny hefyd, dim gobaith, dim byd, dim dim. Y Brenin Mawr wedi mynd â phob dim oddarna'i. Ond rhaid imi beidio â deud hynna o flaen Miss Citi, neu mi ga'i ddrwg. Ond wir, doedd na ddim byd yn y byd, lle'r un fath â fanma – y ddau hogyn wedi'u prentisio, wedi dwad i ennill mymryn, a finna wedi cael yr het newydd gynta ers blynyddoedd. Ond yr oedd hi'n reit braf bod heb het pan oeddau nhw yn yr ysgol, er mwyn iddyn nhw gael tamaid go lew, a dillad go gynnas. Rydw i[n] gweld u dillad nhw'n eirio yn y popty bach wrth ochr y tân, a'r potas yn mud ferwi ar y pentan erbyn iddyn nhw ddwad o'r ysgol. A phan oedd Ned yn sâl, am flynyddoedd, rhedeg o hyd rhwng y siambar a'r tân, a gwrando ar y griddfan isal, mi'r oedd hynny'n braf rhagor na pheth ddoth wedyn. Mae gobaith o hyd i ddyn gwael, a ma gobaith i ŵr o ryfal meddan nhw. Ond ddath fy hogia fi ddim o'r rhyfal. Na nid gobaith sydd i ŵr o ryfal, ond ofn gobaith. Ac mi ddath fy ofn i yn wir. Mae Miss Citi yn dweud bod gobaith yn fan'ma. Mi rydw i wedi mynd i chredu hi erbyn hyn. Mi ga i weld fy hogia bach ryw ddiwrnod. Ond O! Mae'r aros yma'n hir.

CROSS FADE INTO MUSIC

Wmffra'r Geulan: Dyn cry fel Wmffra'r Geulan yn gwneud dim. Y fi fyddai allan efo'r tractor, neu mewn ffair ac yn dilyn y wedd ers talwm, a nwylo dros i gilydd yn segura. Wedi dwad i ryw le segurllud mwrllud fel fan'ma, a finna, wel, ddim yng nghanol fy nyddia, ond yn ddyn tebol. Ia, wedi dwad yma pan oedd Ffawd yn gwenu arna i. O Dduw mor braf oedd hi yn mynd â bustych gwerth edrych arnyn nhw i'r ffair, bustych gora'r plwy, a mor braf oedd hi wedi i'r rhyfal ddwad, gael arian teilwng amdanyn nhw, yn lle fel yr oedd hi ers talwm pan na fydda ffarmwr yn cael digon i dalu am i uwd. Does dim byd tlysach na phentwr o bapura punt a chithau'n medru'u rhoi nhw ar gownter y banc a gwbod mai chi pia nhw. Ond mi'r oedd digon o fyd a thrafferth fo'r hen lywodraeth yna hefyd. A phan mae hi'n fyd da, mae arnom ni ofn iddi fynd yn fyd salach arnon ni. Mae un peth yn dda mewn byd gwan, mae dyn yn medru gobeithio. A mi'r oedd gen i amsar y pryd hynny i ymhel efo barddoni, gwneud englyn, a mynd efo Sion Llwyd o gyfarfod llenyddol i gystadlu ar araith ddifyfyr, a gweld torf fawr o mlaen yn gwranddo a'u cega yn gorad. Sgwn i lle mae'r hen Sion erbyn hyn? A'r capal, sŵn y gwynt yn crio tu allan ar nos Sul, a'r pregethwr yn rhwyfo pregethu neu'n mynd i'r hwyl, a minna'n⁵⁸ mynd adra wedi cael gwledd, a gwledd o gig oer a thatws wedi'u twmo gin Mari wedi mynd adra. Mi'r oedd digon o ryw fynd a symud yr adeg honno, ond does yna ddim yn fan'ma, a thydi'r sgwrs fawr at fy nhast i. Mae'r bardd yn rhy ddysgedig, a'r hen ferch yn rhy dda. Piti na ddoi rhywun.

CROSS FADE INTO MUSIC

Miss Citi: Ond fûm i'n wirion, Dyma fi, Citi yn ddiboeni.⁵⁹ Byw i bobl eraill am gŷd o flynyddoedd, a chael mymryn bach o hapusrwydd ym mhen cynta f'oes. Ond mi ges gymaint o hapusrwydd yn y tair blynedd y bûm i'n caru, fel i fod o'n edrach weithia fel petai hynny i bara imi am weddill f'oes. Gwyn oedd pob dim, a dim lle i boen ddwad i mewn o gwbl. Roeddwn i mor hunanol, yn meddwl am neb arall ac yn meddwl na ddoi byth wermod⁶⁰ i gwpan Dic a minnau. Dysgu plant pobl eraill, eu hoffi a'u casáu bob yn ail. Eu gwthio drwy arholiadau, a'm gwneud fy hun yn gas iddyn nhw a phawb, am fy mod wedi fy siomi mewn cariad. Y cannoedd plant a aeth drwy fy nwylo, rhesi ar ôl rhesi yn eu blowsus gwynion a'u siwtiau navy blue, blwyddyn ar ôl blwyddyn, yr un hen arholiadau, yr un hen lyfrau, yr un hen athrawon, yr un hen siarad siop, yr un hen wyliau ar y Cyfandir, yn lle mod i wedi rhoi clec ar fy mawd a dweud fod cystal pysgod yn y môr ag ddaliwyd. Suro wrth y byd, am fod rhyw un pysgodyn bach diasgwrn cefn wedi fy nhwyllo, yn lle mynd i bysgota wedyn. A dyma fi yn fan'ma, yn treio dweud wrth bobl

⁵⁸ *mynna'n* sydd yn y deipysgrif wreiddiol.

⁵⁹ *ddiboeni* sydd yn y gwreiddiol. Golygwyd hynny mewn pensil yn ddiweddarach i *ddihoeni*. Cadwyd at hynny yn y golygiad hwn

⁶⁰ Planhigyn gwenwynig.

eraill fod gobaith, ac yn amau a oes gobaith fy hun. A dyma Citi a fu unwaith mor llawen.

CROSS FADE INTO MUSIC

Goronwy Owen:

Mae nhw'n dweud nad Uffern ydyw'r lle yma, mai aros yma yr ydym ni, nes dysgir ni i fod yn fodlon. Ond sut mae dysgu bodlonrwydd i fardd, un na fu'n fodlon erioed? Rydw i yma o flaen y cwbl ohonyn nhw, ers miloedd o flynyddoedd am wn i. A does yma ddim sgwrs fel yr hoffwn i, sgwrsio fel y byddwn i, efo Lewis Morris a Rhisiart, drwy lythra, a ffraeo pan welwn i nhw. Ffraeo oedd ein ffordd ni o siarad. Rown i ddim ffeuen am y bobl bach ddwl yma sy'n ymhyfrydu mewn byw yn dawel ac yn heddychlon. Mae pobl fawr i gyd yn ffraeo. Mi'r oedd hi'n braf yr amser hwnnw, cael disgwyl llythyr neu barsel o lyfrau oddi wrth y Morysiaid a disgwyl eu gair o ganmol am y cywyddau y byddwn i'n eu hanfon iddynt. Peth braf ydyw disgwyl llythyr i ddyn anfodlon, a dyn oedd yn hiraethu am wlad ei eni. Donnington, Walton, a Llundain, tlodi a dlêd, hiraeth am Fôn, ond yr oedd hynny yn well na'r fan yma. Mi fuasai'n well dioddef geiriau cas Rhisiart Morris yn y dafarn yn Llundain noson y Cymrodorion⁶¹. Ac mae'r bobl yma mor gyffredin. Ond mae'r ddynes a elwir Sali yn odidog o hardd. Mae hi fel heffer ifanc. Eithr y mae hi'n ddwl. A minnau wedi arfer efo ysgolheigion.

Llen

⁶¹ Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, sef cymdeithas lenyddol Gymraeg yn Llundain a sefydlwyd ym 1751.

Kate Roberts ac August Strindberg – Yr Angladd

Ymysg papurau Kate Roberts yn ei chasgliad yn y Llyfrgell Genedlaethol y mae llawysgrif o ddrama gan yr awdures sy'n dwyn y teitl *Yr Angladd*.¹ Yng nghatalog y llyfrgell ceir y disgrifiad hwn o'r llawysgrif: "Sgript Drama yn llaw Kate Roberts, sef cyfieithiad o waith Strindberg yn dwyn y teitl "Yr Angladd".² Yr hyn a geir yma yw drama-gyfeithiad gan Kate Roberts o waith un o brif ddramodwyr Ewrop yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gwyddys i lenyddiaeth Kate Roberts gael ei chyfieithu nid yn unig i'r Saesneg ond i ieithoedd eraill hefyd.³ Ond wele yma enghraifft o rywbeth unigryw a rhyfeddol o brin i'r sawl a astudia lenyddiaeth Kate Roberts, sef cyfieithiad ganddi hi o waith llenor arall. Ond nid unrhyw lenor, eithr neb llai na Johan August Strindberg, y sawl y proffwydodd Henrik Isben y byddai amser yn profi ei fod yn artist mwy nag yntau.⁴

Hefyd yn y Llyfrgell Genedlaethol y mae llyfr nodiadau hynod o ddifyr a gadwai Kate Roberts o tua 1923 ymlaen.⁵ Ynddo yn ei llaw ei hun, ceir enw'r gyfrol *Great Stories of All Nations*⁶ sef cyfrol o straeon byrion o wahanol gyfnodau gan awduron rhyngwladol a gyhoeddwyd ym 1927. Ceir ynddi

¹ Gwaith wrthi'n cael ei gyfansoddi ydoedd hwn yn ôl pob golwg gan fod sawl fersiwn o rai adrannau o'r ddrama i'w cael, er gellid dweud gydag ychydig iawn o olygu fod yma ddrama gyflawn.

² Roberts, Kate, *Yr Angladd*, Papurau Kate Roberts, LLGC, 2526

³ Gweler ee *Katzen auf einer Versteigerung*. Erzählungen Cyf. (o'r Gymraeg) Wolfgang Schamoni. Bielefeld: Pendragon, 2000; Kate Roberts: *Tee trinken op de heide*. Cyf. Vertaald door Dries Janssen. Brecht: Etnika, 1969; Kate Roberts: *La Mouette et autres nouvelles Galloise*. Cyf. Jean Hamard. Besancon, 1993 (Annales litteraires de l'Universite de Besancon, no 489).

⁴ Watts, Peter, 'Rhagair i *The Father*', *August Strindberg: Three Plays*, t.22.

⁵ Llyfr nodiadau Kate Roberts o tua 1923 ymlaen, Papurau Kate Roberts, LLGC, 2559. Deuai'r llyfr ei hun o gyfnod KR fel athrawes yn Ysgol y Merched Aberdâr.

⁶ Lieber, Maxim a Williams, Blanche Colton, *Great Stories of All Nations*, (Llundain: Harrap & Co, 1927) tt.1086-1091.

straeon enwocaf y byd (ar y pryd) wedi eu didoli yn ôl mamwlad yr awduron. O wlad Prydain ceir straeon amrywiol megis 'The Pardoner's Tale' Geoffrey Chaucer, 'The Apple-Tree' gan Katherine Mansfield,⁷ 'The Stollen Bacillus' H.G.Wells, a 'Two Blue Birds' gan D.H. Lawrence. O Sweden, ceir stori fer gan August Strinberg sy'n dwyn y teitl 'A Funeral'.⁸

Nis oes amheuaeth mai cyfieithiad o stori fer *A Funeral*, Strindberg yw drama *Yr Angladd*, Kate Roberts. Yn ei drama, gesyd Kate Roberts y stori yn ei chyddestun drwy gymorth Adroddwr:

Adroddwr: Eisteddai'r Cowper gyda'r barbwr yn y dafarn yn yr Engsung yn chwarae gêm ddiniwed o gardiau. Un o'r gloch y prynhawn oedd hi ar ddiwrnod gaeafol ym mis Tachwedd. Yr oedd y dafarn yn berffaith wag gan fod y rhan fwyaf o bobl wrth eu gwaith. Llosgai'r fflamau'n goch yn y lle tân clai a safai ar bedwar troed pren mewn cornel, ac edrychai fel arch. Yr oedd arogl hyfryd ar y cangau pîn ar lawr, yr oedd y parwydydd a'r panelau da yn cadw'r drafftiau allan ac yr oeddynt yn edrych yn gynnes. Yr oedd aderyn coch y berllan yn fyddar yn ei gawell; yn awr ac yn y man edrychai allan trwy'r ffenestri, ond yr oedd yn rhaid iddo roi ei ben ar un ochr i weld a oedd yn braf ai peidio. Ond yr oedd yn bwrw eira oddi allan...

Cyfieithiad gair am air ydyw, gydag ambell gyfeiriad neu air wedi ei hepgor, o baragraff agoriadol 'The Funeral' Strindberg:

⁷ Ganed Katherine Mansfield ym 1888 yn Seland Newydd ond ymfudodd i Loegr pan oedd yn 19 oed ac yno y cyhoeddwyd nifer o'i straeon byrion. Bu farw yn Ffrainc ym 1923 yn 34 oed o'r diciâu wedi iddi fynd yno i geisio gwellhad o'r cyflwr. Y mae wedi ei chladdu yn Avon, Isle de France.

⁸ Cyhoeddwyd 'A Funeral' yn y Saesneg am y tro cyntaf yn Strindberg, August, cyf. Claud Field, *The German Lieutenant and Other Stories*, (Llundain: T. Werner Laurie Ltd, 1915). Ceir e-gopi o'r gyfrol yma: <http://www.gutenberg.org/files/46107/46107-h/46107-h.htm>. Ceir copi o 'A Funeral', hefyd yn *Treasury of World Literature*, gol., Dagobert D. Runes, (Efrog Newydd: Philosophical Library, 1956) tt.1250-1255.

The cooper sat with the barber in the inn at Engsung and played a harmless game of lansquenet for a barrel of beer. It was one o'clock in the afternoon of a snowy November day. The tavern was quite empty, for most people were still at work. The flames burned brightly in the clay fire-place which stood on four wooden feet in a corner, and looked like a coffin; the fir twigs on the ground smelt pleasantly; the well-panelled walls kept out draughts and looked warm; the bull-finch in his cage twittered now and then, and looked out of the window, but he had to put his head on one side to see if it was fine. But it was snowing outside...

Am resymau na allwn wneud dim ond dyfalu yn eu cylch, hepgorodd Kate Roberts y ffaith bod y cowper a'r barbwr yn chwarae cardiau am farel o gwrw – gellid damcaniaethu mai pryderu yr ydoedd am ymateb cynulleidfa o ymneilltuwyr a fyddai o bosibl yn beirniadu hapchwarae o'r math hwn, ac mai dyna sydd i gyfrif ei bod wedi hepgor cynffon y frawddeg wreiddiol. Fodd bynnag, ar wahân i'r eithriad bach hwnnw, y mae llinellau agoriadol y ddrama Gymraeg yn gyfieithiad pur o'r fersiwn Saesneg o'r stori fer. Nid oes dwywaith felly mai cyfieithiad o'r stori fer *A Funeral* gan Johan August Strindberg yw'r ddrama *Yr Angladd* Kate Roberts.

Egyr *A Funeral* mewn tŷ tafarn clyd ym mis Tachwedd a chaiff fflamau'r tân a chynhesrwydd y paneli coed o amgylch yr ystafell eu cyferbynnu â'r tywydd oer a gerwinder yr eira y tu allan. Yno'r diwrnod hwnnw y mae pedwar o ddynion: y tafarnwr, y cowper, y barbwr a gŵr ifanc sy'n ddieithr i'r tri arall. Drwy ffenestri'r dafarn gall y criw cynnull weld gorymdaith angladdol yn dyfod i lawr y ffordd tuag at y fynwent. Er hyn y mae'r awyrgylch ar ddechrau'r ddrama'n eithaf hwyliog gyda'r cymeriadau yn wfftio at y fath sioe ynghylch y meirw. Fodd bynnag pan wawria ar y tafarnwr mai angladd Hans Schönschreiber, clerac a fynychai'r dafarn o dro i dro a wêl, y mae'r awyrgylch

yn newid. Edrydd y tafarnwr hanes trist blynyddoedd olaf Hans ar y ddaear wrth y tri arall.

Yr oedd Hans yn byw gyda'i fam a'i ddwy chwaer ac yn eu cynnal drwy weithio'n eithriadol o galed fel cleric;

Y Tafarnwr: ...A'r nefoedd annwyl! Mi fu'n rhaid i'r llanc druan sgwennu. Mi wyddwn i'n iawn sut yr oedd petha. Yr oedd y tair merch yn byw yn yr un rŵm a fynta mewn twll llygoden fawr. 'Roedd yn rhaid iddo fo roi'r cwbl fedrai o grafangio iddyn nhw; a phan ddôi o o'i waith i ginio, dyna lle'r oeddau nhw yn i fyddaru fo efo'u cwynion. 'Doedd yna ddim menyn ar y bara, dim siwgr ar y teisennau; 'roedd ar y ferch hyna eisio ffrog newydd, a'r fenga eisio cêp newydd. Wedyn 'roedd yn rhaid iddo sgwennu drwy'r nos, ac O 'roedd o wrthi hi bob munud.⁹

And heavens, how the poor young fellow had to write! I know exactly what went on. The three women lived in one room and he in a rat-hole. All he could scrape together he had to give them; and when he came from work to eat his dinner, they deafened him with complaints. There was no butter on the bread, no sugar on the cakes; the eldest sister wanted to have a new dress, and the younger a new mantle. The he had to write through the whole night, and how he wrote!"¹⁰

Ond nid oedd plesio ar y merched; yr oeddent yn anniolchgar ac yn dannod iddo nad enillai ddigon o arian i gael digon o ddanteithion ac i brynu dillad o wneuthuriad da iddynt hwy. Gweithiai mor galed oni ddechreuodd ei iechyd nychu. Ond hyd yn oed wedyn nid oedd dim pall ar hunanoldeb y merched. Un diwrnod, fodd bynnag, gofynnodd fachgen ifanc am law'r chwaer ieuengaf mewn priodas. Byddai cynnal dwy yn hytrach na thair wedi lliniaru rhyw gymaint ar faich Hans, ond gwrthodwyd y bachgen gan y fam am ei fod o

⁹ Roberts, Kate, *Yr Angladd*, Papurau Kate Roberts, LLGC, rhif 2526. Y mae'r testun wedi ei godi yn union fel ag y mae'n ymddangos yn y llawysgrif wreiddiol.

¹⁰ Strindberg, August, 'A Funeral', *Treasury of World Literature*, (Frog Newydd: Philosophical Library, 1956), t.1252

ddosbarth cymdeithasol is na hwy. Er bod gan y bachgen ddigon o fodd i gadw'r chwaer, mwy yn wir nag oedd gan Hans, yr oedd yr aberth gymdeithasol yn fwy na allai'r fam ddygymod ag o. Yna, un diwrnod digwyddodd rhywbeth a fyddai'n anfon Hans dros y dibyn yn gyfan gwbl: fe syrthiodd mewn cariad.

Mi syrthiodd o mewn cariad i hun. Doedd ei fam o a'i chwirydd o ddim wedi bargeinio am hynny, ond dyna ddeddf natur.¹¹

He went and fell in love. His mother and sister had not counted on that, but it was the law of nature."¹²

Yn fuan yr oedd yn awyddus i briodi, ond nid oedd ei fam yn barod i'w ryddhau o'i ddyletswydd iddi hi. Gwnaeth y fam bethau'n anodd rhwng ei mab a'i ddyweddi ac nid oedd croeso iddi yng nghartref Hans. Profa'r rhwyg o orfod dewis rhwng ei fam a'i gariad yn ormod i Hans a sylweddola fod y tri ohonynt yn gwbl resynus oherwydd y sefyllfa. Un noson daw'r cyfan i uchafbwynt dramatig:

Y Tafarnwr: ...Ond 'roedd o'n mynd ymlaen o hyd i weithio i'w fam a'i chwirydd, a mi'r ydw i'n gwybod i fod o gyda'r nos yn eista ac yn sgwennu wrth ochr i gariad, a hithau'n gwnïo, dim ond er mwyn cael bod yn i hymyl ac arbed amser. Ond yr oedd y fam a'r chwirydd yn meddwl drwg am y ddau ac yn dangos hynny hefyd.

Y Cowper: Oeddan reit siwr. (yn sbeitleyd)

Y Barbwr: Y cnafon drwg. [Yn y fan yma mae rhai ohonynt yn gofyn am goffi]

Tafarnwr: Rhyw ddydd Sul: amser cinio y buo hyn; y llanc ifanc ddeudodd hynny wrtha i i hun, pan ddoth

¹¹ Roberts, Kate, *Yr Angladd*, llawysgrif o gasgliad Papurau Kate Roberts, LLGC, rhif 2526

¹² Strindberg, August, 'A Funeral', *Treasury of World Literature*, gol., Dagobert D. Runes, (Efrog Newydd:Philosophical Library) 1956, t.1253

o yma i gael rhywbeth at i frest, achos erbyn hyn 'roedd o'n pesychu'n druenus. 'Roedd o wedi mynd allan efo'i gariad i Brunkeberg a phan oeddau nhw'n dwad adre dros Bont y Gogledd, pwy ddaru nhw gyfarfod ond i fam a'i chwiorydd. 'Roedd ar i gariad o eisio troi'n ôl, ond dyma fo yn gafael yn dynn yn i braich hi a'i thynnu hi ymlaen. Ond 'roedd y fam yn para i sefyll wrth ganllaw'r bont ac yn sbio i'r dŵr; dyma'r chwaer hyna yn poeri o'i blaen a gwneud yr un peth. Ond am y chwaer fenga, dyna i chi gyrflafan. Mi safodd yn llonydd a sbio ar gêp wlanen y ferch ifanc a chwerthin, achos roedd gynni hi gêp o frethyn Lloegr, ac o achos hynny yn union, 'roedd yn rhaid i gariad i brawd wisgo gwlan. Meddyliwch am yr hoeden lartsh.¹³

But still he went on working for his mother and sisters, and I know that in the evening he sat and wrote by his fiancée's side, while she sewed, only to save time and to be able to be with her. But his mother and sisters believed evil of the pair, and showed it too. It was one Sunday about dinner-time; he told me himself the young fellow, when he came here to get something for his chest, for now he coughed terribly. He had gone out with his fiancée to Brunkeberg, and as they were coming home over the Bridge, whom did they meet but his mother and sisters? His fiancée wanted to turn back, but he held her arm firmly and drew her forward. But his mother remained standing by the bridge railings and looked into the water; the elder sister spat before her, and did the same, but the younger - she was a beauty! She stood still and stared at the young woman's woollen mantle and laughed, for she had one of English cloth - and just because of that, her brother's fiancée had to wear wool. The impudent hussy!¹⁴

Y mae'r straen yn ormod i Hans a'r awgrym cryf yw bod y merched yn ei fywyd wedi ei ddefnyddio i'w dibenion eu hunain, ac wedi ei ladd. Sylwer nad yw Kate yn cynnwys cyfieithiad o'r disgrifiad o'r chwaer ieuengaf fel merch brydferth gan arddangos, o bosibl, ei hatgasedd tuag ati. Erbyn iddo dynnu tua therfyn ei stori mae'r tafarnwr yn wylu'n gwbl agored ac y mae'r barbwr yntau

¹³ KR, *ibid* a Strindberg, *ibid*, t.1253

¹⁴ KR, *ibid* a Strindberg, *ibid*

yn cuddio llygaid cochion. Try'r dynion yn eu holau i wyllo'r arch dlodaidd yn cael ei gollwng i'r ddaear a gwelant ferch ifanc yn penlinio wrth y bedd ac yn gollwng blodau gwynion ar yr arch – y ddyweddi yn dweud ei ffarwel olaf. Wrth sefyll y mae'r ferch yn dod wyneb yn wyneb â mam Hans. Y maent yn dal ei gilydd mewn rhai eiliadau o gasineb, y naill yn beio'r llall am dristwch ei sefyllfa. Ond yn sydyn y maent yn cofleidio ac yn dal ei gilydd mewn moment o edifeirwch a galar. Ar hynny dywed y tafarnwr ei fod yn sicr y byddai'r chwaer ieuengaf yn cael derbyn cais y bachgen ifanc hwnnw i'w briodi yn awr petai ef yn gofyn eilwaith. A chyn gynted ag y dywed y geiriau mae'r gŵr ifanc a fu'n gwrando'r stori yn y dafarn yn codi ac yn datgan mai ef ydoedd y bachgen a gadd ei wrthod, a'i fod yn dal i garu'r chwaer er gwaethaf ei hymdriniaeth ofnadwy o'i brawd a'i ddyweddi. Daw'r stori i'w therfyn ar nodyn o obaith felly y bydd priodas wedi'r cwbl, ond gyda'r rhybudd na fydd i'r gŵr ifanc fywyd hawdd gyda'r chwaer honno:

Mi gynigith i hun iddi eto, petai hi yn fwy hunanol, petai hi'n dlotach ac yn fwy truenus nag y mae hi, oblegid peth felly ydy cariad.¹⁵

He will have her though she were ever so selfish and bad-tempered, poor and wretched, for such is love!¹⁶

Yn ei hanfod ac ar wahân i ambell hepgoriad, mae'r ddeialog a luniodd Kate Roberts o'r stori fer wreiddiol bron â bod yn gyfieithiad union. Y sgysiau a ddigwydd rhwng y cwmni sydd yn y dafarn sy'n arwain ac yn datgelu'r stori yn 'A Funeral', ac felly mae'r stori'n addas ac yn ei chynnig ei hun yn ddelfrydol ar gyfer y dasg o'i haddasu'n ddrama. Y mae iaith lafar, goeth Kate

¹⁵ Roberts, Kate, *Yr Angladd*, llawysgrif o gasgliad Papurau Kate Roberts, LLGC, rhif 2526

¹⁶ Strindberg, August, 'A Funeral', *Treasury of World Literature*, gol., Dagobert D. Runes, (Efrog Newydd:Philosophical Library) 1956, t.1255

Roberts hefyd yn addas ar gyfer y golygfeydd a geir yn y stori. Dyma eiriau

olaf y ddrama a'r stori:

Y barbwr: Wel y gŵr drwg a'm cipio. Y fo oedd hwnna.

Y cowper: Dydy pethau ddim yn diweddu mor hapus bob amser.

Y barbwr: Beth am y clarc.

Y cowper: Na. Ddaru pethau ddim diweddu'n dda iddo fo. Ond mi wnaeth i'r lleill. Yr oedd ganddyn nhw, fel petai, fwy o hawl i fyw na fo, o achos y nhw oedd yn fyw gynta. 'Y cynta i'r felin gaiff falu.'

Y barbwr: Yr oedd y dyn ifanc yn ddwl, dyna oedd yr helynt i gyd.

Tafarnwr: Ia, ia. Yr oedd o'n ddwl mae'n wir, ond yr oedd hynny'n beth da ynddo fo beth bynnag.

Y cowper: Oedd , mi'r oedd o.

Y barbwr: Oedd, mi'r oedd o'n beth da.¹⁷

"Deuce take me – that was he himself!" said the barber.

"Things do not always end so happily," remarked the cooper.

"How about the clerk?" objected the barber.

"No, they did not end well with him, but with the others, you know. They had, as it were, more right to live than he, the young one; for they were alive first, and he who first comes to the mill, grinds his corn first."

"The young fellow was stupid, that was the whole trouble," said the barber.

"Yes, yes," concluded the inkeeper. "He certainly was stupid, but it was fine of him anyhow."

In that they were all agreed.¹⁸

Y mae nifer o gwestiynau i'w gofyn sy'n ennyn chwilfrydedd. Yn gyntaf, paham y bu i Kate Roberts ddewis cyfieithu o waith August Strindberg yn benodol? Yn ail, paham yr aeth ati i ddewis addasu stori fer gan lenor sy'n

¹⁷ Roberts, Kate, *Yr Angladd*, llawysgrif o gasgliad Papurau Kate Roberts, LLGC, rhif 2526

¹⁸ Strindberg, August, 'A Funeral', *Treasury of World Literature*, gol., Dagobert D. Runes, (Efrog Newydd:Philosophical Library) 1956, t.1255

adnabyddus yn rhyngwladol fel dramodydd yn anad dim arall, a'i haddasu yn ddrama a hithau erbyn cyfnod cyfansoddi'r ddrama hon yn bencampwr y stori fer? Ac yn olaf, paham na chyhoeddodd ei drama gyfieithiad wedi iddi'n amlwg neilltuo peth amser i'r gwaith?

O safbwynt deall cymhelliant Kate Roberts i ddewis Strindberg fel llenor i'w gyfieithu i'r Gymraeg fe gyfyd sawl sgwarnog difyr. Ni ellir diystyru'r ffaith bod Kate Roberts wedi herio hoffter academyddion Adran y Gymraeg, Coleg Bangor o gyfieithu dramâu Henrik Isben ac eraill i'r Gymraeg i'w perfformio gan y Gymdeithas Ddrama yn y 1930au. Geiriau hallt oedd ganddi ar gyfer Thomas Parry "...nid yr un peth yw bywyd cenedloedd eraill a'n bywyd ni...", ac ymhellach dywed bod cyfieithu dramâu yn "niweidiol" yn "estron".¹⁹ Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, fodd bynnag, wele hi'n ymroi ei hunan i gyfieithu stori fer yn ddrama gan ŵr nad oedd ganddi (ar yr olwg gyntaf, beth bynnag) ddim oll yn gyffredin ag ef. Anodd peidio â gweld rhyw arwyddocâd dyfnach yn y dewis o lenorion yn ogystal; dewis Ifor Williams a Thomas Parry ydoedd Henrik Isben,²⁰ dramodydd cyson a dwys. Am y pegwn eithaf â hynny, dewis Kate Roberts ydoedd August Strindberg, archelyn Isben am gyfnod hir, (er gwaethaf y deyrnged a roes Isben i Strindberg ar ddiwedd ei yrfa) a llenor a ystyrir yn emosiynol ac yn ffrwydrol.

Ganwyd Johan August Strindberg yn Stockholm, Sweden ar 22 Ionawr 1849 yn fab i Carl Oscar Strindberg, uchelwr a ddarganfu ei hun yn fethdalwr ychydig cyn geni August ac a weithiai fel masnachwr llongau. Morwyn weini

¹⁹ Llythyr gan Kate Roberts, *Y Genedl Gymreig*, 16 Chwefror 1931, t5

²⁰ Llwyfanwyd *Tŷ Dol* gan Gymdeithas y Ddrama Gymraeg ym 1926; cyfieithiad Ifor Williams o *A Doll's House* gan Henrik Isben, ac ym 1930 llwyfanwyd *Hedda Gabler*, sef cyfieithiad Thomas Parry eto o waith Isben.

ydoedd ei fam Eleonora Ulrika Norling. Ganwyd August yn gynamserol i deulu na allai fforddio plentyn arall, ffeithiau na allai August wneud ddim oll yn eu cylch ond a barodd iddo gario croes ar ei gefn gydol ei oes. Oblegid amgylchiadau anodd ei eni, y ffaith bod ei fam yn perthyn i'r hyn a alwodd Strindberg yn *underklass* gan gyfeirio'n benodol at ei "slave blood", a hefyd annirniadaeth ei fam (na chawsai ddim ysgol ei hunan o ganlyniad i'r dosbarth cymdeithasol yr oedd yn perthyn iddo) o'r cyfleoedd a ddaethai yn sgil addysg, bu tensiynau rhyngddynt, ac ni phrofodd berthynas arferol mam a mab.²¹ A phan fu farw ei fam ac yntau'n dal yn blentyn nid oedd y brofedigaeth yn un drom iddo eithr, yr hyn a'i blinai ac a fu'n hunllef oes iddo oedd ei ddeisyfiad a'i obsesiwn gyda'r ddelwedd o'r 'fam berffaith' neu o'r 'ferch famol'. I'r gwrthwyneb, profodd Kate Roberts fagwraeth lawer iawn mwy 'perffaith' ar sawl lefel. A hithau'n blentyn i ferch a anfonwyd i weini yn 10 oed,²² perthynai i'r un dosbarth cymdeithasol â mam Strindberg eithr ni wyddai teulu Kate Roberts, na Kate ei hunan, ddim am unrhyw fath arall o fywyd. Yr oedd Strindberg, ar ochr ei dad, fodd bynnag, yn uchelwr o dras ac yr oedd y paradocs hwn o berthyn i ddau ddosbarth cwbl wahanol o bobl yn artaith barhaus iddo. Yn eironig ddigon, drwy fod yn perthyn i ddau ddosbarth cymdeithasol a oedd am y pegwn â'i gilydd, ni theimlai ei fod yn perthyn i'r un ohonynt; yr oedd ar goll yn y canol. Yn arwyddocaol iawn hefyd y mae dwy o'i ddramâu enwocaf, *The Father* a *Miss Julie*, yn darlunio'r tensiwn a'r rhwyg a deimlai Strindberg a fodolai rhwng y gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol.

²¹ Meyer, Michael, *Strindberg: A Biography*, (Llundain: Secker & Warburg, 1985), t.13.

²² Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1960) t.98.

Yn sicr hefyd cafodd ei deimladau tuag at ei fam, neu'r hiraeth a oedd ganddo am ei greadigaeth ddelweddol o'r 'ferch famol', ddylanwad mawr ar ei agwedd tuag ferched yn gyffredinol. Priododd dair gwaith ac roedd pob un o'r priodasau yn rhai tymhestlog a chenfigennus. Gwelai ferched mewn goleuni anffafriol, yn is eu statws na dynion a lleisiai farn gref am rôl y ferch o fewn cymdeithas mewn erthyglau a straeon.

The movement for women's emancipation both scared and angered him. It was an affront for women to question male authority. Men were bound to support their families while their wives should stick to their duties as mothers and wives. Strindberg strongly opposed the idea that a woman should have the right to dispose of her own money after marriage. The husband should be responsible for economic matters simply because, as a man, he was better fitted to handle money. During the 1880s he wrote several essays, including 'Woman's Inferiority to Man, and the Reasons for Her Subordinate Position' (published 1890, and in French in *La Revue Blanche*, 7 January 1895), in which he sought to demonstrate the inferiority of women. Among other arguments, he deployed so-called biological facts to prove that women were intellectually inferior to men, not least of account of their smaller brains. And at the same time as a writer, he chose to pose as a scientist who was merely collecting evidence, not taking sides. However, while writing these articles, Strindberg was obsessed by the woman question, an obsession that does not equate with the scientific approach that he sought to apply in his articles. It is evident that the enormous interest which he invested in issues of gender was deeply rooted in his own anxiety, aware as he was of how middle-class women chafed against the obstacles to their education and professional work.²³

Perthynas dra gwahanol oedd gan Kate Roberts â'i mam hithau ac y mae'r parch mawr a oedd ganddi tuag ati i'w weld yn glir yn ei hunangofiant.

²³ Fahlgreen, Margaretha, 'Strindberg and the Woman Question', *The Cambridge Companion to August Strindberg* gol., Michael Robinson, t21

Ymhellach, dadleua Francesca Rhydderch fod y ddelwedd a geir o Catrin Roberts, mam Kate yn *Y Lôn Wen* yn cydblethu'n union â'r ddelwedd Gymreig o'r fam: "Wrth edrych ar hunangofiant Kate Roberts... ymddengys fod ei disgrifiad hi o'i mam yn cydymffurfio yn llwyr â'r portread Cymraeg o'r fam,"²⁴ gan gyd-fynd yn union â'r delweddau a gaed mewn cylchgronau poblogaidd y cyfnod megis *Y Gymraes* ac *Y Frythones*. A osodwyd Catrin Roberts ar bedestal gan Kate? A greodd hi ddelwedd o fam a oedd yn batrwm o burdeb a dyletswydd? Yr union fam yr oedd Strindberg yn deisyfu amdani?

Yr oedd gan Kate Roberts hithau rywbeth i'w ddweud am rôl y ferch mewn cymdeithas. Y mae ei straeon byrion yn frith o ferched stoicaidd, cryf sy'n wynebu eithaf heriau bywyd yn ddewr. Y mae Jane Gruffudd, *Traed Mewn Cyffion*, yn enghraifft berffaith o hyn, yn ogystal ag Ann Owen, *Tegwch y Bore*. Ac y mae hyd yn oed ei phlant benywaidd, Winni Ffinni Hadog a Begw, yn ymwroli yn erbyn llaw galed bywyd yn llwyddiannus yn *Te yn y Grug*. Yn amlach na pheidio, yng ngeiriau Bet Huws yn *Tywyll Heno* "y peisiau sy'n teyrnasu" yn llenyddiaeth Kate Roberts.²⁵

Gellid gwthio'r ddadl ymhellach yng nghyswllt Kate Roberts a dadlau bod elfennau o ffeministiaeth yn y portreadau o'r merched a geir yn ei gweithiau.²⁶ Yn ôl Glyn Jones, "Yr enghraifft orau yw Ann Owen, *Tegwch y Bore*, sy'n chwalu'r diffiniad traddodiadol o ferch fel estyniad o'i chymar. Adlewyrchir ei hanniddigrwydd yn y llinellau hyn: "Methai edrych ymlaen at fywyd efo

²⁴ Rhydderch, Francesca, 'Cyrff yn Cyffwrdd: Darlleniadau Erotig o Kate Roberts', *Taliesin*, Cyfrol 99, Hydref 1997, tt.86-97.

²⁵ Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, (Dinbych: Gwasg Gee,1962), t.75

²⁶ Gweler; Roberts, Eigra Lewis, *Kate Roberts, Llen y Llenor*, (Caernarfon:Pantycelyn, c1994)

Richard. Dywedai un hanner ohoni y dylai fynd ymlaen gyda'i gwaith fel athrawes. Dywedai'r hanner arall y dylai briodi." Nid ar chwarae bach y gall Kate Roberts y llenor a'r wraig fusnes gondemnio Ann i'r gegin."²⁷ Y mae'r un peth yn wir yn ogystal am yr argyfwng sy'n wynebu Gwen Pritchard yn *Ffarwel i Addysg* a Let Huws yn *Modryb a Nith* - dewis bywyd annibynnol i'r merched hyn a wna Kate Roberts yn hytrach na bywyd priodasol, am y tro beth bynnag. Yn wrthgyferbyniol, di-fflach a llwydaidd at ei gilydd yw'r dynion yn ei gweithiau a phriodolir iddynt feiau na ellir eu maddau yn hawdd iawn. Dyna Dafydd, *Ffarwel i Addysg* ac Iolo, *Y Byw Sy'n Cysgu* yn euog o odineb, Twm Ffinni Hadog, *Te yn y Grug*, ac Wil Owen, 'Pryfocio', y naill yn euog o drais corfforol a'r llall o drais seicolegol. Er gwaethaf hyn oll, yr hyn sy'n bwysig i'w nodi ydyw, er bod modd profi'r tueddiadau ffeministaidd yn ei gweithiau, nid yw Kate Roberts yn cwestiynu hawl dynion i redeg cymdeithas. Ar y mater hwn, y mae Strindberg a hithau mewn cytgord. Ar y cyfan ymwroli a dysgu sut i ymdopi a wna merched Kate. Derbyn ei thynged a wna Bet Huws yn *Tywyll Heno*, a derbyn hefyd a wna Catrin Owen yn y stori annifyr 'Pryfocio'. Er gwaethaf ei bygythiad o hunanladdiad, troi ar ei sawdl a mynd adref a wna Catrin er bod "...y diawl ei hun yn ei hwyneb ar ei ffordd adref."²⁸

Syniadau ychydig yn wahanol sydd gan Henrik Isben ar y testun dan sylw, fodd bynnag. Yn un o'i ddramâu enwocaf, *Tŷ Dôl* (a'r ddrama a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Thomas Parry ar gyfer Cymdeithas y Ddrama Gymraeg, Coleg Bangor) nid yw Nora'r prif gymeriad yn derbyn ei thynged; yn act olaf y

²⁷ Jones, Glyn, 'Kate Roberts y Ffeminist', gwefan Cylchgrawn Cymru y BBC, <http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/awduron/kate-roberts-ffem.shtml>

²⁸ Roberts, Kate, 'Pryfocio', *O Gors y Bryniau*, (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1925), t.97

ddrama gadawa ei gŵr, Torvald a'i phlant er mwyn byw ar ei phen ei hun, i ddarganfod pwy ydyw a'i phwrpas mewn bywyd. Pan geisia Torvald ei hatgoffa o'i dyletswydd fel gwraig a mam, etyb Nora drwy ddatgan bod ganddi ddyletswydd tuag ati hi ei hunan yn gyntaf a'i bod wedi cael digon ar fod yn degan, yn ddol, yn nwylo dynion. Er bod *Ffarwel i Addysg* yn arddangos elfennau cryf o ffeministiaeth o'r math a bortreadir gan Isben yn *Tŷ Dôl*, rhaid cofio bod Gwen wedi gwneud ei phenderfyniad i fynd ar ei thrywydd ei hun ar gyfnod llai tyngedfennol yn ei bywyd na Nora. Ac yn wir, gellid hyd yn oed ddadlau fod Kate Roberts yn datgan yn *Ffarwel i Addysg* fod perygl mewn rhoi addysg i ferched, a bod Gwen, oherwydd yr addysg a dderbyniodd yn diosg ei dyletswydd i'w thad a'i thaflu i'r pedwar gwynt. Yn *Miss Julie*, drama fawr Strindberg, y penyd a roir i'r prif gymeriad am dynnu'n groes, am odinebu gyda'r gwas, yw marwolaeth; ni wêl Julie fod ganddi opsiwn ond hunanladdiad.

Elfen arall gyffredin rhwng Strindberg a Kate Roberts yw'r ffaith bod y ddau yn tynnu'n drwm ar eu profiadau personol yn eu gweithiau llenyddol.

“Although far more complex an issue than is generally recognized, the autobiographical element in Strindberg's writing is clearly crucial.”²⁹

Ysgrifennai Kate am y bywyd y gwyddai amdano, bywyd y teulu cyffredin Cymreig a'u brwydr feunyddiol yn wyneb tlodi, caledi a chaethiwed bywyd. Wrth bortreadu'r teuluoedd hyn a'u cymunedau manteisiodd Kate Roberts, yn anuniongyrchol mae'n wir, ar y cyfle i feirniadu'r hyn a gynrychiolai bileri cymdeithas; swyddogion y llywodraeth a arddelai ryfel, ffydd gul pobl y capel,

²⁹ Robinson, Michael, *Studies in Strindberg*, (New Jersey: Humanities Press inc, 1982), t.39.

ariangarwch a ffug-ymhonnus pobl a ddylai wybod yn well. Faint ohoni hi ei hun sydd yn *Tywyll Heno* neu *Traed Mewn Cyffion*, er enghraifft? Geilw Alan Llwyd *Tegwch y Bore* 'Ei nofel hunangofiannol' gan bwysleisio mor agos yw'r ffuglen i'r profiadau real a brofodd hi ei hun. Y mae bywyd a gwaith Strindberg yntau wedi eu plethu mor dynn wrth ei gilydd fel ei bod yn amhosibl bron datgymalu'r ddeubeth. Creadur tymhestlog a phoeth a oedd yn anodd iawn ei blesio ydoedd Strindberg. Nid oes dim amheuaeth nad oedd yn ddyn galluog a gallai droi ei law at sawl peth yn rhwydd. Yn ogystal â bod yn llenor toreithiog yr oedd yn wyddonydd, yn gerddor medrus ac yn arlunydd ardderchog:

Strindberg turned to painting in times of upheaval in his personal life or when his capacity as a writer failed him. He saw the arresting landscape outside his native Stockholm as a metaphor for his inner turmoil and painted the waves, rocks and ever-changing skies in a vast array of compositions, colour palettes and moods. Although landscapes in subject matter, these works can also be seen as symbolic self-portraits offering an illuminating insight into the mind of this often-troubled genius.³⁰

Ysgrifennodd mewn sawl ffurf: erthyglau, traethodau, nofelau, straeon byrion ac yr oedd yn barddoni. Eithr yn ddi-os gyda'r ddrama y profodd y llwyddiant mwyaf, a chyda'r ddrama y cysylltir ef yn bennaf heddiw. Darganfu allbwn i'r egni emosiynol a oedd ynddo drwy ei waith creadigol a darganfod y gallai ddadlwytho'r terfysg a gorddai o'i fewn drwy ysgrifennu. Y mae ei weithiau i gyd yn ddrych i'r emosiynau personol hyn, ac nid yw *A Funeral* yn eithriad.

³⁰ Paentiadau August Strindberg, Tate Gallery <http://www.tate.org.uk/whats-on/tate-modern/exhibition/august-strindberg-painter-photographer-writer>

Stori am gariad enbyd yw *A Funeral* yn anad dim arall a stori sy'n ymgorffori rhai o brif emosiynau'r ddynoliaeth. Mewn nodyn ar y llawysgrif o'i chyfieithiad ysgrifennodd Kate Roberts y canlynol: "Stori yn perthyn i'r byd - elfennau sy'n perthyn i gymeriad dynoliaeth yn hunanoldeb, balchder, hunan aberth a maddeuant."³¹

Hawdd deall paham fod y stori arbennig hon wedi apelio at Kate Roberts. Y mae'r themâu sydd i'w cael ynnddi yn rhai cyfarwydd iddi ac yn rhai y bu iddi hi ei hun eu trin a'u trafod yn ei gweithiau: marwolaeth, aberth, tlodi a balchder. Awyrgylch tywyll sydd i *A Funeral* drwyddi draw ac mae stori Hans a adroddir gan y tafarnwr yn un enbyd o drist. Yn aml iawn beirnedir Kate Roberts hithau am ganolbwyntio'n ormodol ar ochr ddu bywyd ac am ddarlunio pobl ar eu gwaethaf. Nid ar ddamwain y rhoes Bobi Jones y teitl 'Y Frenhines Ddiodefus', a John Emyr 'Enaid Clwyfus' iddi. Yn ôl John Emyr:

Er iddi fanteisio ar yr holl draddodiad rhyddiaith Cymraeg, un o'r llenorion byd eang modern hyn yw Kate Roberts hithau. Y llenor pryderus modern yw hi. Un sy'n clywed ar ei chalon i ymdrin â rhai materion cyfyngedig. Y llenor modern obesef.³²

Ei gras gwardigol hi ydoedd ei magwraeth ymneilltuol a chyda'r dylanwad hwnnw yn drwm arni llwyddodd i gadw caead ar y crochan berw o emosiynau a gorddai o'i mewn. Ac o'r herwydd, cip sydyn a chynnil a gawn ar y storom fewnol.

³¹ Roberts, Kate, *Yr Angladd*, Papurau KR, LLGC, rhif 2526.

³² Emyr, John, *Enaid Clwyfus: Golwg ar waith Kate Roberts*, (Dinbych: Gwasg Gee) 1976, t.219

Stori sy'n gadael ei hôl ar ddarllenydd yw *A Funeral*. Y mae angst Hans yn y stori wrth iddo geisio plesio ei fam drwy wneud ei ddyletswydd, a'i euogrwydd wrth iddo geisio dwyn ychydig o hapusrwydd iddo'i hun yn ddarllen arteithiol. Byddai clawr *Tywyll Heno* sy'n atgoffa rhywun o ddarlun enwog Edvard Munch, *The Scream*, yn addas iawn ar gyfer y stori hon gan Strindberg. (Yn wir, fel y mae'n digwydd yr oedd Strindberg a Munch yn gydoeswyr ac yn gyfeillion, a phaentiodd Munch sawl portread o'r dramodydd.³³) Trasiedi real yw'r stori yn portreadu yr hyn a ddigwydd i ddyn sy'n ceisio plesio pobl eraill heb ofalu digon amdano ei hun. Neges fawr y stori hon gan Strindberg, nid yn annisgwyl efallai, yw fod merched yn anfon dynion da i'w beddau gyda'u drwgweithredoedd a'u cynllwyniau ystrywgar, a bod dyletswydd yn beth i'w osgoi os am fyw'n gytûn. Yn sicr, ni fyddai Kate Roberts wedi methu â gweld hynny wrth ei darllen. Ni fyddai ychwaith yn anymwybodol o'r dicter yn y portread a geir o'r fam yn y stori. Y mae gan fam Hans lawer yn gyffredin â Sioned Gruffydd, mam yng nghyfraith Jane Gruffydd yn *Traed Mewn Cyffion* a fu'n dibynnu'n drwm ar ei phlant, Ifan yn gyntaf ac yna Geini heb air o ddiolch wrth yr un o'r ddau ohonynt. Ar ddechrau'r nofel honno eglura Ifan sut y bu pethau rhyngddo ef a'i fam:

Yn y fan yna y cafodd Ifan egluro i'w wraig mai hon oedd Doli Rhyd Garreg, y bu'n ei chanlyn ac yn meddwl ei phriodi rywdro. Ond pan laddwyd ei dad yn y chwarel, a phan ddisgynnodd dyletswyddau penteulu ar ei ysgwyddau gan mai ef oedd yr hynaf o'r plant a oedd heb briodi, bu'n rhaid iddo ohirio priodi. Mi flinodd Doli aros, ac mi ddechreuodd gyboli efo bechgyn eraill. Gorffennodd hynny yntau.³⁴

³³ Gweler rhai o'r paentiadau hynny yma;

<http://www.moma.org/collection/works/64973?locale=en>

³⁴ Roberts, Kate, *Traed Mewn Cyffion*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1936), t.11

Ar hyd y daith bu Jane Gruffydd yn talu'n ddrud am briodi Ifan. Yng ngolwg Sioned, ei mam-yng-nghyfraith, bu iddi ddwyn Ifan oddi arni a dwyn hefyd y cyflog a ddeuai ef adref gydag ef o'r chwarel. Ni faddeuodd Sioned i Jane nac i Ifan am iddynt briodi a chafodd ddial arnynt drwy swcro eu merch drwblus, Sioned arall, a rhoi eu perthynas a'u merch dan bwysa mawr. Efallai i Kate Roberts weld yn stori Hans yn *A Funeral* dynged a allai fod wedi bod yn wir am Ifan Gruffydd pe na bai wedi priodi Jane. Achubiaeth a gafwyd i Ifan, oherwydd iddo briodi, a thranc fu hanes Hans am iddo beidio. Yn wir, y mae'r cyfan o'r merched yn y stori *A Funeral* yn rhai milain ac anserchus, hyd yn oed y ddyweddi sy'n cweryla â Hans am arddel ei fam a'i chwirydd o dan y fath amgylchiadau. I'r gwrthwyneb portreadir y dynion i gyd yn rhai cydymdeimladol, sy'n deall ac yn rhannu gofidiau a gwewyr Hans. Ar ddiwedd y stori y mae'r dynion oll wedi eu hysgwyd gan y fath annhegwch a ddaeth i ran Hans ac mae'r tafarnwr yn golchi y llechen a gadwai iddo y tu ôl i'r bar yn lân, a dagrau yn rhedeg i lawr ei ruddiau.

Trafodwyd eisoes mai merched sy'n cael canol llwyfan gan Kate Roberts yn ei gweithiau llenyddol, bron yn ddieithriad. Y mae dewis *A Funeral*, lle mae'r merched yn amlwg yn cael eu portreadu'n anffafriol a'r dynion yn gymeriadau i dosturio drostynt yn gam annisgwyl ganddi.

Hawdd gweld hefyd pam fod Kate Roberts yn teimlo y byddai'r stori hon yn gwneud drama fer dda. Mewn gwirionedd ni fyddai angen set fawr a chymhleth, byddai set syml yn cyfleu'r dafarn ddiddos i'r dim, ac ni raid gweld yr orymdaith angladdol, gellid cyfeirio ati yn unig. Hefyd, er mai stori am

Hans a geir, nid ydym yn cyfarfod â Hans o gwbl, eithr yn unig wrando ar stori drist ei fywyd a'i farwolaeth wrth i'r tafarnwr ei hadrodd. Un peth sy'n rhyfedd, fodd bynnag, yw i Kate Roberts benderfynu defnyddio Adroddwr fel cymeriad ychwanegol i osod y sefyllfa, techneg a ddefnyddir ganddi yn *Modryb a Nith* hefyd. Aflwyddiannus yw'r canlyniad yn y ddau achos, yn anffodus. Techneg sy'n torri ar rediad y ddrama ydyw hon gan wanio'r perfformiad, yn enwedig felly yn *Yr Angladd* lle mae ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa yn hanfodol i lwyddiant y ddrama fel darn o gelfyddyd. Am hynny, nid yw'r ddrama Gymraeg yn argyhoeddi gystal â'r stori fer wreiddiol. Gresyn na welodd Kate Roberts ei ffordd yn glir i gyfieithu'r stori fel ag yr oedd yn ei ffurf wreiddiol. Efallai hefyd ei bod yn ymwybodol nad oedd ei hymgais ar gyfieithu'r stori fer wedi bod yn gwbl lwyddiannus, ac mai dyna sydd i gyfrif paham nad anfonodd hi at unrhyw gyhoeddwr. Yr hyn sydd yn wir, fodd bynnag, yw ein bod drwy astudio dramâu Kate Roberts, y rhai sy'n argyhoeddi a'r rhai nad ydynt efallai wedi bod mor llwyddiannus, yn dod i adnabod dimensiwn newydd ar y llenor. Y mae'n deg dweud hefyd fod astudio ei dramâu yn codi mwy o gwestiynau am Kate Roberts nag sy'n bosibl eu hateb.

Modryb a Nith: drama radio mewn pedair rhan

A new technique promises to reveal hundreds of masterpieces hidden beneath later works... It amounts to the biggest single art find: a host of unseen works by masters old and new, from Rembrandt to Van Gogh and Picasso. But these works can't be seen on the walls of any gallery or museum. And they are hidden not in a safe or bank vault, but on canvases which the artists themselves painted over.¹

Anodd amgyffred y perlau a gollwyd o waith yr artistiaid hyn wrth iddynt fynd ati'n fwriadol i beintio dros weithiau cynharach. Eu gobaith wrth wneud hynny, gellid tybio, ydoedd peidio â bodloni ar dda lle gellid gwell a chyrchu tuag at greu campwaith a oedd yn eu darbwyllio eu hunain ac a fyddai wrth fodd cynulleidfa'r dydd. Y mae'n wir fod ganddynt yn ogystal resymau economaidd dros ailddefnyddio eu canfasau; roedd offer arlunio yn ddrud, ac ni ellid cyfiawnhau aberthu darn o ganfas oni fyddid yn gwbl argyhoeddedig fod y gost greadigol o golli'r gwaith a oedd arno yn uwch na'r gost economaidd o golli'r canfas ei hunan.

Ond nid arlunwyr yw'r unig artistiaid sy'n ailgylchu. Gwedd wahanol ar yr un math o beth yw ailddefnyddio syniad am stori, ond newid y fframwaith sy'n ei dal. Ar ei chyfaddefiad ei hun, y cymeriadau a'r posibiliadau sy'n mela o'u cwmpas sy'n ymddangos gyntaf i Kate Roberts wrth iddi fynd ati i greu:

Wel, 'dwi ddim yn meddwl 'mod i wedi rhoi llawer o sylw i'r grefft erioed, heblaw bod fy ngreddf i'n deud 'mod i'n anghywir. Cymeriadau – *pobl* sy'n fy niddori i, a 'falle fod y grefft yn dod i mewn rywsut, yn dianc i mewn.²

O ystyried llenyddiaeth Kate Roberts yn ei chyfanrwydd gellir yn wir weld mai'r cymeriadau, neu stori'r unigolyn sydd, gydag ychydig eithriadau, o dan y chwyddwydr ganddi. Y mae'n

¹ Harry de Quetteville, 'Van Gogh painting uncovered by new Xray machine', *The Telegraph*, 23 Medi 2008, <http://www.telegraph.co.uk/news/science/science-news/3352325/Van-Gogh-painting-uncovered-by-new-Xray-machine.html>; cyrchwyd 29 Mawrth 2016.

² Geiriau Kate Roberts mewn cyfweiliad gyda Gwyn Erfyl, 'Kate Roberts – Cefndir, Crefft, Cred', *Kate Roberts, Ei Meddwl a'i Gwaith*, gol. Rhydwen Willams, t. 33.

sicr yn wir am nifer o’i straeon byrion, fel ag y mae’n wir am *Tywyll Heno* a *Stryd y Glep* ac i raddau llai efallai (er bod elfennau cryf i’w darganfod ynddynt) am *Traed Mewn Cyffion* a *Tegwch y Bore*. Yn ddiau, y mae’r dechneg o ganolbwyntio’n gyntaf ar y cymeriadau yn ei chynnig ei hun yn berffaith ar gyfer ffurf y stori fer, a geill fod mai dyma a barodd iddi lwyddo i’r fath raddau gyda’r ffurf honno gan beri inni gofio amdani’r dwthwn hwn fel pencampwr y stori fer yn anad dim arall. Cerbyd i gyfleu’r stori felly yw’r ffurf, a cheir enghreifftiau o Kate Roberts yn ymhel â sawl ffurf ar gyfer stori benodol cyn penderfynu ar y ffurf derfynol.

Dyma’n union a ddigwyddodd gyda *Modryb a Nith*. Mae’r stori benodol hon am ddwy berthynas i’w chael ymhlith papurau Kate Roberts yn y Llyfrgell Genedlaethol fel darn o ryddiaith lawysgrifol (dim dyddiad) ac fel drama deipysgrif mewn pedair rhan a ddarllledwyd ym 1959.³ Ond ymhellach na hynny, a’r hyn sy’n hynod ddifyr ond odid yw bod y stori’n bodoli’n ogystal, o dan deitlau eraill, ar ffurf dwy stori fer gyhoeddedig sef ‘Hen Bobl yn Caru’ a ‘Torri Amod’ yn y gyfrol *Yr Wylan Deg* a gyhoeddwyd ym 1976.⁴ Yr oedd, fe ymddengys, yn benderfynol o gael dweud stori’r ddwy ferch hyn, a chafwyd sawl ymdrech ganddi i’w cyflwyno i gynulleidfa. Ym mroliant cyhoeddiad cyntaf *Yr Wylan Deg* ceir y frawddeg ganlynol: “Mae’r storïau yn ymwneud â phob oedran, pobl ieuainc, pobl ganol oed, a hen bobl; mae’r awdur yn eu hadnabod i gyd.” Nid oes amheuaeth nad yw’r awdur yn eu hadnabod; bu iddi rannu blynyddoedd lawer yng nghwmni’r cymeriadau hyn cyn iddynt ymddangos yn y gyfrol hon.

³ Roberts, Kate, *Modryb a Nith*, LLGC, Papurau Kate Roberts, 2640-4. Drama-gyfres Radio mewn pedair rhan a ddarllledwyd ar Raglen Cymru y BBC ym Mai 1959. Gweler drafft arall yn rhif 2614 uchod. 2640 Drafft llawysgrif, 12 tt. 2641 Sgript deipiedig y rhan gyntaf "Atgof a Gobaith", a ddarllledwyd nos Sul, 10 Mai 1959 2642 Sgript deipiedig yr ail ran "Dechrau Amheuon", 17 Mai 1959, 23, tt. 2643 Sgript deipiedig y drydedd ran "Torri Amod", 24 Mai 1959, 22 tt. 2644 Sgript deipiedig y bedwaredd ran "Swm Priodi", 31 Mai 1959, 25 tt.

⁴ Roberts, Kate, *Yr Wylan Deg*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1976)

Nid oes ddyddiad wrth y creu gwreiddiol ond gwyddys i'r fersiwn ddrama o *Modryb a Nith* gael ei darlledu ar Radio Cymru yn wythnosol ar y Saboth rhwng 10 a 31 Mai, 1959:

Modryb a Nith (y cyfarwyddo gan Wilbert Lloyd Roberts)

Rhan 1: "Atgof a Gobaith", darlledwyd nos Sul, 10 Mai 1959, 8:30-9:00

Rhan 2: "Dechrau Amheuan", darlledwyd nos Sul, 17 Mai 1959, 8:30-9:00

Rhan 3: "Torri Amod", darlledwyd nos Sul, 24 Mai 1959, 8:30-9:00

Rhan 4: "Sŵn Priodi", darlledwyd nos Sul 31 Mai 1959, 8:30-9:00

Hon felly oedd y drydedd ddrama ganddi a ddarlledwyd dros y tonfeddi ym mhumedgau'r ugeinfed ganrif, yn dilyn *Ffarwel i Addysg* a ddarlledwyd ym 1950 ac *Y Cynddrws* a ddarlledwyd ym 1954. Nid oes ddyddiad unigol ychwaith wrth y straeon byrion 'Hen Bobl yn Caru' a 'Torri Amod', ond mae Alan Llwyd o'r farn eu bod yn perthyn i'r 1970au;

Ar ddydd ei phen-blwydd yn 85 oed, cyhoeddwyd casgliad newydd sbon o straeon ganddi, *Yr Wylan Deg*. Anfonodd Saunders Lewis lythyr ati ar ddydd ei phen-blwydd i'w llongyfarch ar y gyfrol. Canmolodd 'Yfory ac Yfory' yn benodol fel 'campwaith a gem o stori'. 'Y mae'r llyfr i gyd yn drysor a'r Gymraeg ar ei disgleiriaf drwyddo,' ychwanegodd. Roedd y straeon hyn eto yn perthyn i wahanol gyfnodau yn ei bywyd. Ymddangosodd 'Yfory ac Yfory' yn rhifyn Nadolig 1949 o'r *Faner*. Cyhoeddwyd 'Yr Apêl' yn *Y Genhinen* ym 1950, a 'Heb Gyffro Mwy' yn rhifyn Nadolig 1953 o'r *Faner*. Yn rhifyn Nadolig 1955 o'r *Faner* y cyhoeddwyd 'Ymweliad' (dan y teitl 'Ymwelydd i De'), a stori Nadolig *Y Faner* ar gyfer 1965 oedd 'Un Funud Fach'. Mae straeon eraill yn perthyn i'r 1970au.⁵

Gellir cytuno ag Alan Llwyd fod y ddwy stori fer dan sylw yn perthyn yn eu ffurf orffenedig i'r 1970au. Ond yn sicr, roeddent yn bodoli ar ffurf wahanol dau ddegawd yn gynharach.

Dangoswyd eisoes sut y bu i arbrawf Kate Roberts yng ngwythien yr absŵrd fod yn hynod lwyddiannus gyda'r *Cynddrws*, eithr ni pharhaodd ar y llwybr hwnnw gyda'r ddrama hon. Gwelir yn hytrach gyda *Modryb a Nith* ddychwelyd at themâu ac at *genre* sy'n fwy nodweddiadol o'i gwaith; yn fwy real a diriaethol, gymaint felly fel bod lle i ddadlau bod y

⁵ Llwyd, Alan, *Kate, Cofiant Kate Roberts 1891-1985*, (Talybont, Ceredigion: Y Lolfa, 2011), t.354.

deunydd crai a'r testun yn perthyn i amser sy'n dyddio i gyfnod cyn *Y Cynddrws*. Tybed ai llwyddiant *Y Cynddrws* a ysgogodd gais arall gan gynhyrchydd o'r BBC am ddrama, a bod Kate wedi ailymweld â deunydd a oedd eisoes yn bodoli ganddi ar ffurf braslun rhyddieithol? A welodd yma gyfle i gyflwyno i gynulleidfa stori'r ddwy ferch hyn a fu'n mudlosgi gyhyd? Beth bynnag fu ei rhesymau dros weddnewid y darn rhyddieithol i ffurf drama (a chymryd mai'r darn rhyddiaith oedd y testun gwreiddiol) nid oedd Kate Roberts yn ddigon hapus â'r canlyniad i beidio ag ailymweld eto â'r cymeriadau a'u stori a'u rhoi drwy broses o fetamorffosis pellach.

Cnewyllyn y stori ym mhob achos yw bod merch ifanc, tua'r ugain oed, yn penderfynu priodi cyn iddi orffen ei chwrs coleg. Y mae'r ferch yn hanu o deulu sydd wedi gorfod aberthu rhywbeth i dalu am addysg uwch i'w merch a thrwy briodi mae'r ferch yn mynd yn groes i'w dyletswydd i'w theulu. Fel gwraig briod byddai disgwyl iddi un ai beidio â gweithio ac o ganlyniad i hynny beidio ag ennill cyflog, neu ddefnyddio ei chyflog i gadw ei thŷ ei hunan yn hytrach na thalu'n ôl i'w thad. I deuluoedd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif hapchwarae oedd talu am addysg i'w merched gan na ellid bod yn sicr o enillion ar y buddsoddiad. I bob pwrpas gwelid priodi yn syth ar ôl gadael y coleg yn wastraff o arian y tad. I wrthgyferbynnu wedyn â'r ferch ifanc hapus a ffri ceir perthynas hŷn iddi, modryb ddibriod, sy'n ceisio dod i delerau â phrofedigaeth ddofn. Y mae'r ddwy ar drothwy penodau newydd yn eu bywydau eithr dylanwedir ar lwybr y penodau newydd hyn gan eiriau a gweithredoedd y llall.⁶

⁶ Gwelir amrywiaeth ar y thema hon yng ngwaith Kate Roberts mewn cyd-destunau eraill yn ogystal e.e., y stori fer 'Y Man Geni', *O Gors y Bryniau*, ble mae'r bachgen ifanc, Tomos, yn ystyried gadael yr ysgol a mynd i weithio yn y chwarel a'i fam yntau yn awyddus iddo barhau â'i addysg.

Er bod cnewyllyn y stori am y ddwy ferch, y fodryb a'r nith, yn parhau yn gyson yn y ddrama ac yn y fersiynau a geir yn y ddwy stori fer, yn anorfod mae rhai amrywiaethau. Y mae a wnelo'r rheini bron yn ddieithriad â'r ymgais i ffitio'r stori i'r gwahanol strwythurau.

Y prif gymeriadau yn *Modryb a Nith* yw Let Huws, merch ifanc sy'n penderfynu priodi cyn gadael y coleg, a Sera Huws, chwaer ddibriad tad Let, sef y fodryb yn y ddrama. Dau gymeriad pwysig arall yw Sam Goch a gyflwynir fel cymydog ar ddechrau'r ddrama a Bren Jones, dyweddi Let. Cymeriadau ymylol i bob pwrpas yw Ned Huws, tad Let sydd hefyd yn frawd i Sera, Alis Huws, mam Let, ac Emlyn, Olwen a Morfydd, plant Sam Goch.

Yn y ddrama y mae Let yn mynd â'i neges i dŷ ei modryb Sera ble mae'n llawn bwrlwm a chyffro am ei dyweddiad a'i gobeithion am ei dyfodol ar drothwy'r bennod newydd hon yn ei bywyd. Y mae Sera hithau ar drothwy pennod newydd, eithr yn gwbl groes i Let, gorfodir y newid hwn arni o ganlyniad i farwolaeth ei chwaer Elin y bu'n gofalu amdani drwy waeledd mawr ers blynyddoedd. Y mae'r cyfosodiad yn gwbl drawiadol; y ferch ifanc a gwledd o anturiaethau yn agor o'i blaen, a'r ferch ganol oed mewn gofid a galar yn cau drws ar yr hyn a fu'n fywyd iddi ers tro byd. Dwy sy'n profi dau eithaf bywyd yw Let a Sera ar ddechrau'r ddrama, ac fel y dywed Sera wrth Sam ei chymydog, "... 'Doedd gen i ddim awydd rhannu ei llawenydd efo hi, ac o ran hynny 'doedd arni hithau ddim eisiau rhannu fy ngofid efo minnau."

Er nad yw'n llwyr ddeall argyfwng Sera y mae eu sgwrs y prynhawn hwnnw yn gadael cryn argraff ar Let. Dechreua bendroni ynghylch ei sefyllfa ei hunan; cofia sut yr arferai fod yn hapus cyn iddi fynd i'r coleg, a cheisia feddwl sut bydd ei bywyd wedi iddi briodi: "Ac am y tro cyntaf, yn nhŷ modryb Sera y prynhawn yma, fe ddaeth cwestiwn imi, beth wedyn? Beth

wedyn?”. Ymhellach sylweddola mai’r gwir a ddywed ei modryb pan ddywed “Mae lot o bobl ifanc mewn cariad efo modrwy dyweddïo ac efo priodas ei hun”, ac nad ydoedd wedi rhoi digon o feddwl i’r hyn a olygir i fod yn briod. Wrth dorri’r newydd i Bren nad yw’n barod i’w briodi, daw’n glir iddi ei bod wedi bod yn fyrbwyll a bod ganddi lawer iawn i’w ddysgu am fywyd: “ Mae arna i eisio cael gwahanol brofiadau a thyfu” a “...lledu fy ngorwelion a chael profiad o wahanol fywyd”. Nid ar chwarae bach y derbyn Bren ei rhesymau, fodd bynnag, a gwêl fai ar y fodryb, “ Yr unig beth sy’n fy mhoeni i ydyw, mai effaith tŷ eich modryb arnoch chi a wnaeth i chi weld hynna. Mae o’n rhywbeth afiach i mi, fel dewiniaeth neu rywbeth felly”.

Drama’r gwrthgyferbyniadau yw *Modryb a Nith* a thra mae un perthynas yn torri wele un arall yn blodeuo. Nid yw Sam, y cymydog cyfeillgar, wedi cuddio ei deimladau oddi wrth Sera. Y mae’n ymwybodol ei fod yn awyddus i’w phriodi, ond yn awr yn dilyn marwolaeth ei chwaer dyma hi’n rhydd i’w dderbyn. Dywed Let wrthi y dylai briodi Sam a chael bywyd diddorol a chynhyrfus gydag o, ac ymhellach dywed y dylai Sera geisio am fywyd fel Maud Gonne.⁷ Erbyn diwedd y ddrama y mae Sera wedi dyweddïo i briodi, a Let yn tyngedu bywyd sengl iddi ei hun: “mi gaf edrych arni [y fodrwy] a chofio i minnau rywdro fod wedi fy nyweddïo i briodi”.

Y mae’r ddwy stori fer sy’n gwreiddio o’r un plot a’r ddrama sef ‘Hen Bobl yn Caru’ a ‘Torri Amod’ yn dweud yr un stori am ing cwpwl ifanc wrth iddynt dorri eu dyweddïad, ac am hapusrwydd cwpwl hŷn sy’n priodi yn hydref eu bywyd.

⁷ Maude Gonno (21 Rhagfyr 1866 – 27 Ebrill 1953). Chwyldröwraig Wyddelig, awen y bardd W.B. Yeats a mam Sean MacBride a enillodd Wobr Heddwch Nobel, 1974.

Yn wir y mae'r teitl 'Torri Amod' yn cyfateb yn union i'r teitl a roes Kate Roberts ar drydedd rhan ei drama radio *Modryb a Nith*. Egyr y stori fer yn union fel y ddrama, oddi eithr mai Mair ac nid Let yw enw'r prif gymeriad y tro hwn:

Yr oedd Mair wedi dyfod adref o'r coleg ar ôl ei blwyddyn olaf a modrwy dyweddiad ar ei bys. Yr oedd ar ben ei digon; ond yr oedd un peth bach yn ei phoeni; yr oedd yn rhaid iddi fynd i dŷ ei Modryb Sera i gydymdeimlo â hi ar farw ei chwaer Elin, oedd yn byw gyda hi, ac a fuasai'n orweiddiog ers blynyddoedd. Teimlai'n drwsogl a chwithig wrth fynd i dŷ galar unrhyw amser, ac yn sicr heno byddai'n anodd iawn iddi sôn am ei dyweddiad mewn tŷ felly.⁸

Y mae'r stori yn dilyn union lwybr *Modryb a Nith*, gyda Mair yn penderfynu torri ei dyweddiad â Bryn yn dilyn ei hymweliad tyngedfennol â Sera. Y mae Sera'r stori fer yn datgan wrth Mair ei bod hithau'n derbyn cynnig annwyl ffrind iddi, sef Wil y Saer, i'w briodi a chyda hynny yn clymu'n ddestlus glo y stori fer a chlo'r ddrama radio wrth ei gilydd. Yr hyn a gymer pedair rhan neu bedair act, hirwyntog ar brydiau, i'w ddweud yn y ddrama fe'i dywedir yn gynnil ac yn graff yn y stori fer.

Ceir stori o fewn stori yn 'Hen Bobl yn Caru'. Yma y mae Siân yn darllen stori i'r hen bobl a drigai yng Nghartref Plas Llyr, a dyma baragraff agoriadol y stori a ddarllenai:

Yr oedd Alis wedi dyfod i'r cynddrws i frwsio dillad ei chwaer ymadawedig. Yr oedd yn noson braf o haf a'r haul wrth hwylio at y machlud yn taflu ei olau i'r rhan hon o'r tŷ. Er bod tri mis er pan fuasai farw Elin ei chwaer, yr oedd y galar a'r hiraeth yn dal i grynhoi ym mhwill ei chalon. Yr oedd wedi gohirio gwneud y gwaith yma o gael gwared â'r dillad, a heno yr oedd yn cofio am ei chwaer yn gwisgo'r dillad yma ac yn ychwanegu at ei phoen. Yr oedd am fyned â hwy i siop ddillad ail law yn y dref. Rhedai ei dagrau yn ddiymwybod iddi. Ar hynny, pwy a ddaeth at y drws ond ei nith, Megan, a oedd newydd ddyfod adref o'r coleg, ar ei gwyliau haf. Er pan welsai hi ddiwethaf yr oedd wedi ei dyweddiö i ryw fachgen o'r coleg, ac yn meddwl priodi yn fuan.⁹

⁸ Roberts, Kate, 'Torri Amod', *Yr Wylan Deg*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1976), t.92

⁹ Roberts, Kate, 'Hen Bobl yn Caru', *Yr Wylan Deg*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1976), t.36

Wele'r un stori yn mynd drwy'r felin eto gyda'r chwyddwydr ar y berthynas rhwng Modryb Alis a'i chyfaill Sam y tro hwn. Nid oes sôn, fodd bynnag, yn y stori hon fod Megan yn bwriadu torri ei dyweddiad â Bryn.

Ni ellir anwybyddu ychwaith debygrwydd y cymeriadau a geir yn *Modryb a Nith* i'r rheini a geir yn y ddrama gynharach *Ffarwel i Addysg*. Yn wir, gellid dal fod nifer o rinweddau cyffelyb i'w darganfod rhwng cymeriadau'r ddwy ddrama, yn enwedig felly rhwng y ferch a'r fodryb yn y ddau achos. Drych yw Let Huws *Modryb a Nith* i Gwen Pritchard *Ffarwel i Addysg*. Merched ieuainc tua'r ugain oed yw'r ddwy ac maent ill dwy yn perthyn i'r brîd prin hwnnw a gaed ar ddechrau'r ugeinfed ganrif sef merch sy'n derbyn addysg uwch. Erbyn i'r gynulleidfa gyfarfod â hwy y mae'r ddwy hefyd â'u bryd ar briodi; Gwen am iddi gael ei diarddel o'r coleg o ganlyniad i'w charwriaeth â Dafydd a Let sydd wedi syrthio mewn cariad â Bren Jones, doed a ddelo. Erbyn golygfeydd clo *Modryb a Nith* a *Ffarwel i Addysg*, ac o bosibl, o ganlyniad i'w hymddiddan â'u modrybedd, y mae blaenoriaethau'r merched wedi eu gwyrddroi ac y mae'r ddwy'n penderfynu na fyddan nhw'n priodi wedi'r cwbl. Yn yr un modd nid yn unig y mae Sera *Modryb a Nith* a Sara *Ffarwel i Addysg* yn rhannu'r un enw, y maent hefyd yn rhannu nifer o briodweddau eraill. Chwaer i dad y prif gymeriad yw'r ddwy, ac mae'r ddwy am resymau digon tebyg i'w gilydd yn ddibriod. Bu'r ddwy yn ofalwyr llawn amser; Sera yn gofalu am Elin ei chwaer a fu'n wael am gyfnod hir a Sara yn gofalu am blant ei brawd wedi iddo golli ei wraig. Y mae'r ddwy wedi aberthu eu rhyddid i feithrin perthynas a allai ddiweddu mewn priodas er mwyn rhoi buddion eu teuluoedd yn gyntaf. Fe'u portreadir fel merched canol oed stoicaidd a welodd fwy na'u siâr o galedi bywyd. Y mae Kate Roberts y dramodydd yn cydymdeimlo â hwy, yn eu portreadu fel merched cyson, cryf ac mae ei hedmygedd ohonynt yn gwbl glir. Dyma ferched sy'n dal pen rheswm â'u nithoedd ieuainc, penchwiban gan ddangos iddynt fod mwy i fywyd na bod yn wraig i rywun, a bod

modd profi bywyd cytbwys a llawn, gan gynnwys profi eithaf grym cariad emosiynol, heb ddyn. Dywed Katie Gramich, “The drama focuses intensely on the empathy between these two women and the choices that women face in their lives.”¹⁰ Fodd bynnag, y mae un gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy fodryb: tra mae Sara yn *Ffarwel i Addysg* yn parhau i fod yn ddibriod, ac yn berffaith hapus felly, y mae Sera *Modryb a Nith* yn derbyn cynnig Sam Goch i’w briodi.

Erbyn y dwthwn hwn y mae cymdeithas wedi ei gweddnewid ei hunan i’r fath raddau fel ei bod bron yn amhosibl tynnu cymhariaeth rhwng bywyd y dyn cyffredin heddiw a bywyd ei gyfatebydd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Odid mai un o’r elfennau a welodd y newid mwyaf dros y blynyddoedd yw strwythur y teulu cnewyllol. Gellid dadlau bod yr amser lle’r oedd chwaer (neu yn yr un modd, frawd) i un ai mam neu dad plentyn yn chwarae rôl werthfawr yn ei fywyd wedi hen ddarfod. Yn hytrach mae nifer helaeth o ‘fodrybedd’ mewn enw yn unig bellach yn ysgwyddo’r swyddogaethau a fyddai ynghynt wedi eu cyflawni gan y berthynas waed hon; gwarchodwraig, tiwtoriaid preifat, partner y tad, llys chwaer hŷn o briodas cynt. Edwinodd pwysigrwydd y fodryb yn y cyfnod modern felly, ond yng nghyfnod Kate Roberts, a chyn hynny hefyd, byddai i’r berthynas benodol hon statws uchel a hygredd. Byddai modryb yn aml iawn yn sefyll yn y bwlch a adawyd gan wraig ei brawd yn dilyn ei marwolaeth, a chyda hynny byddai’n ysgwyddo cyfrifoldebau cadw tŷ a magu plant rhywun arall gan aberthu ei bywyd ei hun.

To be left motherless is a universal human tragedy, one that draws the aunt out of the shadows to take centre stage in a bereaved family not quite her own. The role she must dutifully play is not always gratifying. She may be considered an intruder or branded second best. She may be required to sacrifice elements of her own life, nurturing nieces and nephews without access to the biological taproot of parenthood. To those who have known the intimate romantic

¹⁰ Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011), t.80.

sweetness of maternal love, she can assuage but never altogether compensate.¹¹

Camu i'r bwlch yw'r union beth a wnaeth y fodryb yn *Ffarwel i Addysg*. Yn ôl honiad Rhishart Pritchard, bu farw mam Gwen o ganlyniad i'r gwaith caled a wnaethai dros y blynyddoedd: "Gweini laddodd dy fam. Pe tasa hi wedi cario llai o fwyd moch a chodi llai o feichiau trymion mi fasa'n fyw heddiw".¹² Gan fod yn rhaid i Rhisiart fynd i weithio er mwyn cynnal Gwen a'i brodyr bychain a chan nad oedd Sara, ei chwaer, wedi priodi daeth i fyw ato i'w gynorthwyo i ofalu am y tŷ a magu ei blant. Ychydig yn wahanol yw sefyllfa Sera, hithau'n ddibriod, yn *Modryb a Nith*. Cynnig cymorth ymarferol mewn dull ychydig yn wahanol a wna modryb Sera. Nid yw Let wedi colli ei mam; y mae Alis, er gwaethaf nodweddion marwaidd ei chymeriad, yn dal ar dir y byw. Fodd bynnag, datgelir inni yn ymson agoriadol Sera ei bod wedi rhoi benthyg hanner canpunt i Ned ac Alis i dalu am addysg uwch i Let. Y mae rhoi'r arian, cynilon oes gellid tybio, yn dipyn o aberth. Gesyd yr aberth hon agendor rhwng Sera a Let yn yr ystyr bod Let yn ei dyled i Sera, ac oblegid hynny fe'u rhwymir wrth ei gilydd ar yr un pryd. Yr hyn sydd hefyd yn ddifyr yng nghyswllt Sera yw ei bod wedi ymgymryd â'r rôl draddodiadol i fodryb ddibriod o fod yn ofalwr yn ogystal. Deallwn fod Sera wedi bod yn gofalu am ei chwaer Elin a fu'n wael iawn ers blynyddoedd. Gellid dadlau felly bod aberth Sera yn fwy enbyd am ei bod yn un ddeublyg. Erbyn act gyntaf y ddrama *Modryb a Nith* mae Elin wedi marw o'i hafiechyd, yn ogystal â bod Let wedi cyhoeddi ei bwriad i briodi gan adael Sera i wynebu'r her enfawr o orfod ailgloriannu ei bywyd yn wyneb colli ei chwaer a cholli yr hanner canpunt. Y mae'r berthynas rhwng modryb a nith felly yn gallu bod yn un chwerwfelys. Eto i gyd y mae'n berthynas lawer iawn mwy deinamig na'r berthynas rhwng mam a merch. Yn ddi-os, nid oes gan Let fawr o feddwl o'i mam, Alis, y dywed amdani: "dynes wag, a'i siarad hi fel sŵn cacwn mewn potel." Gall

¹¹ Christensen, Rupert, *The Complete Book of Aunts*, (Llundain: Faber & Faber, 2006), t.31.

¹² Roberts, Kate, *Ffarwel i Addysg*, llawysgrifau a theipysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhifau: 2515-2517, t.8.

uniaethu'n well â'i modryb sydd yn ymddangos yn fwy doeth na'r fam, ac yn amlwg gan rannu ei gofidiau a'i modryb mewn ffordd na fyddai'n bosibl iddi wneud gyda'i mam. Modryb ddoeth ac addfwyn yw Sara *Ffarwel i Addysg* hefyd a modryb sy'n cynorthwyo Gwen i ddyfod at benderfyniad sydd wrth ei bodd. Difyr iawn yw'r fecanwaith hon ac o'i dadansoddi gellir deall efallai paham ei bod yn un sy'n gweithio mor dda i Kate Roberts ac i lenorion eraill enwog y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Y mae'r fodryb gam ymhellach oddi wrth y ferch nag ydyw ei mam, ac yn medru datgysylltu ei hun oddi wrthi mewn ffordd fwy gwrthrychol na all y fam. Mantais fawr cael eich magu gan eich modryb yn hytrach na chan eich mam, fe ymddengys, yw medru meithrin cyfeillgarwch cytbwys gan fod y berthynas emosiynol yn wahanol i'r hyn a geir rhwng mam a merch. Gwelir yr un patrwm yn ymddangos wrth ystyried modrybedd enwog eraill llenyddiaeth.

Yr enwocaf o ddigon yw clasur Jane Austen, *Pride and Prejudice*, sy'n cynnig inni ddwy fodryb o galibr cwbl wahanol yn Lady Catherine de Bourgh (modryb Darcy) ac Aunt Gardiner (modryb Elizabeth). I bob pwrpas Aunt Gardiner yw'r oedolyn benywaidd sy'n cynnig yr arweiniad mwyaf cytbwys a chall i Elizabeth yn y nofel, gan gymryd yr awenau oddi wrth ei mam fiolegol ddiffygiol. Modryb dra gwahanol yw Mrs Reid yn *Jane Eyre* gan Charlotte Brontë sy'n trin Jane ei nith drwy briodas yn ddifrifol o wael gan broffesu ar un pwynt bod y ferch wedi marw er mwyn ceisio cael gafael ar ei hetifeddiaeth. Modryb o fath gwahanol eto yw Betsy Trotwood, y fodryb egsentrig yn *David Copperfield*, Charles Dickens. Yn wir mae llenyddiaeth ryngwladol i blant yn enwedig yn frith o gyfeiriadau at fodrybedd o bob math. Dyna Aunt Em, modryb a gwarchodwr Dorothy yn *The Wonderful Wizard of Oz*, Frank Baum, Aunt May, modryb Peter Parker yn *Spider-man* ac Aunt Petunia, modryb gas Harry Potter yn llyfrau J.K.Rowling. Perthynas ychydig yn wahanol o'r un goleddfiad yw'r un a geir rhwng dau mewn chwedl ychydig yn nes at adref.

Ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi ceir hanes y bachgen bach penfelyn a gaiff ei wrthod gan ei fam a'i 'fabwysiadu' i bob pwrpas gan ei ewythr (nid modryb y tro hwn, ond bron â bod yr un berthynas i'r plentyn). Brawd i Arianrhod yw Gwydion – ill dau yn fab i Dôn. Y mae Gwydion yn camu i'r bwlch a adawyd gan y fam ac yn cymryd arno ei hun i ofalu am y bachgen bach a chyda hynny yn dechrau ar un o anturiaethau gorau'r iaith Gymraeg. Plentyn amddifad yw Llew, a chaiff ei fagu gan berthynas i'w fam, ac yn union fel ag a wneir yn y straeon a enwir uchod, priodolir i'r bachgen hwn alluoedd arbennig.

Val yd oed Wydyon diwarnawt yn y wely, ac yn deffroi, ef a glywei diaspat yn y gist is y draet. Kyny bei uchel hi, kyuuch oed ac y kigleu ef. Sef a oruc ynteu, kyuodi yn gyflym, ac agori y gist. Ac ual y hegyr, ef a welei uab bychan yn rwyuaw y ureicheu o blyc y llen, ac yn y guascaru. Ac ef a gymerth y mab y rwng y dwylaw ac a gyrchwys y dref ac ef, lle y gwydat bot gwreic a bronneu genti. Ac ymobryn a wnaeth a'r wreic ueithryn y mab. Y mab a uagwyt y ulwydyn honno. Ac oet y ulwydyn hof oed gangtunt y ureisket bei dwy ulwyd. A'r eil ulwydyn mab mawr oed, ac yn gallu e hun kyrchu y llys. Ynteu e hun Wydyon, wedy y dyfot y'r llys a synnywys arnaw. A'r mab a ymgeneuinawd ac ef, ac a'y carawd yn uwy noc un dyn.¹³

Y mae hyn oll yn cyrchu tuag at un datgeliad pwysig sef bod stori'r plentyn amddifad, neu'r plentyn a chanddo fam ddiffygiol, yn fwy 'arbennig' na stori'r plentyn a chanddo fam fiolegol sy'n ymgymryd a'i rôl yn llwyddiannus.

Geiriau caredig sydd gan D.J. Williams am y ddrama *Modryb a Nith* a diolcha Kate Roberts iddo mewn llythyr ar 21 Awst 1959: “Annwyl D.J a Siân, Mae arnaf lythyr i chi ers talwm iawn. Buoch yn garedig iawn wrth ysgrifennu ataf i ganmol *Modryb a Nith*, ac yr oeddwn mor falch o gael eich llythyr. Yr oedd Meic, *Y Cymro* wedi bod mor annheg, ond credaf mai'r un yw ef â Daniel *Y Faner*, ac os felly, ni ddylwn gymryd sylw ohono.”¹⁴ Fodd bynnag ni

¹³ 'Math Vab Mathonwy', *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams, t78

¹⁴ Hywel, Emyr, gol., *Annwyl D.J. Llythyrau D.J. Williams a Kate Roberts*, (Talybont: Y Lolfa, 2007), t.241.

ellir peidio â theimlo fod D.J wedi canmol y ddrama er mwyn cysuro Kate. Yn wir, fel ag a noda yn ei llythyr bu'r sawl a enwir Meic, yn ddeifiol o gas wrth drafod *Modryb a Nith* yn ei golofn 'Gwyllo a Gwrandu efo Meic', yn *Y Cymro*;

DIGALON, dienaidd a difywyd ydoedd y bennod gyntaf o'r ddramagyfres newydd ar y radio, *Modryb a Nith*. Fe'm siomwyd bod awdur o safon Kate Roberts yn gorfod ymostwng i ddefnyddio dull mor elfennol o gyfleu stori ag a gawsom nos Sul; nid oedd un storiwr yn ddigon ganddi oherwydd troai dwy o'r cymeriadau, ar brydiau, hwythau yn storiwyr pan adroddent dalpiau hirion o'r hyn y mynnai'r awdur a redai trwy eu meddyliau.

Yn ol y blyrb yn y Radio Times, yr oedd y meddyliau hyn i fod i redeg ar draws ei gilydd "fel cwnhingod gwyllt," fel y bydd meddyliau pobl yn gyffredin; fel yr oedd, fodd bynnag, gorymdeithient fel trwp o eliffantod mewn syrcau.

Gallai awdur o alluoedd Kate Roberts fod wedi cyfleu meddyliau ei chymeriadau yn eu sgwrs, fel a ddigwyddodd am bum munud yn agos i ddiwedd y bennod, pan ymddangosodd Sam Goch i sgwrsio a Sera Huws.

Yn ystod sgwrs y ddau actor profiadol Nesta Harries a Charles Williams, yr oedd yn bosibl clywed eu meddyliau yn ogystal a'u geiriau a theimlwn fod ychydig o gig a gwaed yn y rhan hon. Nid oedd yr actorion eraill yn agos cystal, ac fel y dywedodd Sam Goch, "y mae gorfod gwrandu ar bobl anniddorol yn greulondeb."

Os oes llawer rhagor o'r "traethu meddyliau" hyn yn y penodau nesaf, oni all y Cynhyrchydd ddyfeisio rhyw ffordd i wahaniaethu rhwng y monologiau a rhannau eraill y ddrama? Yr unig ffordd y gwyddwn i mai ymson ydoedd ambell ddarn oedd am fy mod yn digwydd cofio nad oedd neb o'r cymeriadau eraill yn bresennol.¹⁵

Mae prif lafn y feirniadaeth hon yn cyfeirio at strwythr y ddrama, ac yn benodol at y defnydd helaeth a wneir ynddi o'r storiwr ac o'r ymson. Er bod yma destun sy'n ddiddorol ac yn cynnig ei hun yn burion ar gyfer drama, y mae *Modryb a Nith* ysywaeth yn cloffi yn y tir neb rhwng stori fer hir a drama. Y mae defnydd o'r dechneg llif yr ymwybod yn gweithio'n wych yn *Tywyll Heno*, er enghraifft, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, ac yn wir mae tystiolaeth

¹⁵ 'Gwyllo a Gwrandu efo Meic', *Y Cymro*, 14 Mai, 1959, t.7

iddi ddefnyddio'r dechneg mewn stori fer gynnar iawn sef 'Meddyliau Siopwr'¹⁶ a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Rhigolau Bywyd* ym 1929. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r dechneg yr un mor llwyddiannus yn ei drama. Yn yr un modd â *Ffarwel i Addysg* nid oes yma adeiladwaith, na *crescendo* ac yn wir, y mae'r diwedd glo'n gyfleus iawn. Collodd Kate Roberts sawl cyfle yn *Modryb a Nith* i gyflwyno'r gwrthdaro sydd yn y stori yn effeithiol. Nid yw'r gwrthdaro rhwng Sera a Let wedi ei ymchwilio i'w ben draw eithaf, a gellid disgwyl mwy o dân gwyllt rhwng Let a Bren wrth iddi dorri eu dyweddïad. Gwir hefyd y dywed Meic fod yr ymsonau yn llesteirio rhediad y ddrama gan beri i'r stori lusgo'n llawer iawn mwy nag sydd raid. Nid ymgela Meic rhag taflu mwy o ddŵr oer ar ben drama Kate Roberts wedi iddo wrando ar y rhan olaf ohoni:

PRIN y llwyddodd y ddrama-gyfres nos Sul *Modryb a Nith* i godi dim uwchlaw lefel siomedig ei phennod gyntaf fis yn ôl. Yn y pennod olaf, penderfynodd Sera, o'r diwedd i dderbyn cynnig Sam i'w phriodi, ond nid datblygiad naturiol o gwrs rhediad y meddwl, clywsom gymaint amdano, ydoedd hyn; yn hytrach ffrwyth ymyrraeth hollol annisgwyl (a chyfleus) tri phlentyn Sam, ar y munud olaf fel petae.

Gadawodd yr argraff mai dyfais ydoedd eu hymddangosiad sydyn hwy gan yr awdur i ddirwyn ei stori i ben.

Defnydd stori fer oedd yma, ac nid cynnwys addas i ddrama-gyfres: herciodd yn araf a chloff o bennod i bennod heb fawr o help gan y cynhyrhydd na'r actorion, ar wahan i Nesta Harries a Charles Williams.¹⁷

Tybed ai geiriau Meic a ddarbwyllodd Kate Roberts i ailymweld â'r stori a'i chofleidio â mantell y stori fer? Yr oedd yn goflaid saff bid siwr. Cyhoeddwyd y straeon byrion, ac fe'u derbyniwyd bryd hynny heb feirniadaeth.

¹⁶ Roberts, Kate, 'Meddyliau Siopwr', *Rhigolau Bywyd*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929), t.59

¹⁷ 'Gwyllo a Gwranddo efo Meic', *Y Cymro*, 4 Mehefin, 1959, t.5

Llyfryddiaeth

Kate Roberts: Prif Ffynonellau

Dramâu Kate Roberts

Roberts, Kate *Y Botel*, drama ddirwestol boblogaidd (cyfieithiad o *The Bottle*, T. P. Taylor), tua 1910, llungopi o'r gwreiddiol yn Archifdy Prifysgol Bangor, rhif X/DG 421 Rob

Roberts, Kate a Davies, Betty Eynon, *Y Fam*, (Llundain a Chaerdydd: The Educational Publishing Co., 1920)

Roberts, Kate, Davies, Betty Eynon a Price, Margaret, *Y Canpunt: Comedi o Gwm Tawe*, (Y Drenewydd: The Welsh Outlook Press, 1923)

Roberts, Kate, Davies, Betty Eynon a Price, Margaret, *Wel! Wel!: comedi*, (Y Drenewydd: The Welsh Outlook Press, 1926)

Roberts, Kate *Ffarwel i Addysg*, llawysgrifau a theipysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhifau: 2515-2517

Roberts, Kate, *Arian ac Aur: comedi bedair act*, Cyfieithiad o *Gold and Silver*, Davies, Betty Eynon, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1937)

Roberts, Kate *Y Cynddrws*, llawysgrifau a theipysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhifau: 2636-2638

Roberts, Kate *Modryb a Nith*, teipysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhifau: 2641-2644

Roberts, Kate *Aros Wrth Loco*, llawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhifau: 2520-2522

Roberts, Kate *Y Gwas*, llawysgrifau a theipysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhifau: 2614, 2652, 2653, 2645-2650

Roberts, Kate, di-deitl; drama am chwarelwr o'r enw Wil Evans, llawysgrif yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhif: 2523

Roberts, Kate *Yr Angladd*, cyfieithiad o stori fer 'A Funeral' Strindberg, Johan August, llawysgrif yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Kate Roberts rhif: 2526

Roberts, Kate 'Bore Sul yn nhŷ'r Jonesiaid', *Y Wawr (Cylchgrawn Merched y Wawr)*, Rhifyn 9, Hydref 1970, tt11-12

Ffuglen Kate Roberts

Roberts, Kate, *O Gors y Bryniau*, (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1925)

Roberts, Kate, *Deian a Loli*, (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1927)

Roberts, Kate, *Rhigolau Bywyd a storïau eraill*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1929)

Roberts, Kate, *Laura Jones*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1930)

Roberts, Kate, *Traed Mewn Cyffion*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1936)

Roberts, Kate, *Ffair Gaeaf a storïau eraill*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1937)

Roberts, Kate, *Stryd y Glep*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1949)

Roberts, Kate, *Y Byw Sy'n Cysgu*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1956)

Roberts, Kate, *Te yn y Grug*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1959)

Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1960)

Roberts, Kate, *Tywyll Heno*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1962)

Roberts, Kate, *Hyn o Fyd*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1963)

Roberts, Kate, *Tegwch y Bore*, (Llandybïe: Gwasg Christopher Davies, 1967)

Roberts, Kate, *Prynu Dol a storïau eraill*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1969)

Roberts, Kate, *Gobaith a storïau eraill*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1972)

Roberts, Kate, *Yr Wylan Deg*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1976)

Roberts, Kate, *Haul a Drycin*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1981)

Ffeithiol, Kate Roberts

Roberts, Kate, a Lewis, Saunders, *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992)

Roberts, Kate, 'Atgofion am Syr John Morris-Jones', *Barn*, Awst 1964, tt279-280

Roberts, Kate, *Atgofion Cyfrol 1*, (Cymru: Gwasg Tŷ ar y Graig, 1972)

Roberts, Kate, 'Drama Bangor', *Y Genedl Gymreig*, 9 Mawrth 1931, t5

Roberts, Kate, *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol*, gol. David Jenkins, (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1978)

Roberts, Kate, 'Y Ddrama yng Nghymru', *Y Brython*, 12 Rhagfyr 1935

Roberts, Kate, *Y Lôn Wen: darn o hunangofiant*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1960)

Kate Roberts: Ffynonellau Eilradd

Cyfrolau

Aaron, Jane, 'Finding a voice in two tongues: gender and colonization', *Our Sister's Land: The Changing Identities of Women in Wales*, gol., Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts and Moira Vincentelli, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1994), tt183-198.

Aaron, Jane, *Pur fel y Dur: Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998)

Clancy, Joseph P., *The world of Kate Roberts : selected stories, 1925-198*, (Philadelphia : Temple University Press, 1991)

Davies, Hazel Walford, gol. *Llwyfannau Lleol*, (Llandysul: Gomer, 2000)

Davies, Hazel Walford, *Saunders Lewis a Theatr Garthewin*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995)

Davies, John, Baines, Menna, Jenkins, Nigel, Lynch, Peredur I., gol., *Gwyddoniadur Cymru*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008)

Davies, Owain Wyn, *Hud a Lledrith Hen Ardaloedd*, (Pen-y-groes: Stiwdio Mei, 1988)

Dyhouse, Carol, *No distinction of sex? Women in British Universities 1870-1939*, (Llundain: UCL Press) 1995

Edwards, Hywel Teifi, *Codi'r Llen*, (Llandysul : Gwasg Gomer, 1998)

Emyr, John, *Enaid Clwyfus: Golwg ar waith Kate Roberts*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1976)

Gramich, Katie, *Kate Roberts, Writers of Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011)

Griffiths, Bruce, *Saunders Lewis*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1989)

Hywel, Emyr, gol., *Annwyl D.J. Llythyrau D.J. Williams a Kate Roberts*, (Talybont: Y Lolfa, 2007)

Jenkins, John, gol., *Y Stori Fer: 'Seren Wib Llenyddiaeth'*, (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1979)

Jones, Bobi, gol., *Kate Roberts: Cyfrol Deyrnged*, (Dinbych: Gwasg Gee 1969)

Jones, Geraint Wyn, *Fel Drôr i Fwrdd Astudiaeth o waith Kate Roberts hyd 1962*, (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2010)

Jones, Harri Pritchard gol., *Goreuon Storiâu Kate Roberts*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1997)

Lewis, Saunders, gol., *Crefft y Stori Fer*, (Llandysul: Gwasg Gomer / Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1949)

Llwyd, Alan, *Kate: Cofiant Kate Roberts 1891-1985*, (Talybont, Ceredigion: Y Lolfa, 2011)

Llwyd, Alan, *Bob: Cofiant R. Williams Parry 1884-1956*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 2013)

Morgan, Derec Llwyd, *Kate Roberts, Writers of Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru 1991)

Morgan, Derec Llwyd, *Bro a Bywyd Kate Roberts*, (Caerdydd: Cyngor Celfyddydau Cymru, 1981)

Owain, O. Llew, *Hanes y Ddrama yng Nghymru 1850-1943*, (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1948)

Roberts, Eigra Lewis, *Kate Roberts*, Llên y Llenor, (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1994)

Roberts, Kate, *Straeon y Lôn Wen*, cyfres Pigion 2000, (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1999)

Rhydderch, Francesca, *Cultural Translations: a Comparative Critical Study of Kate Roberts and Virginia Woolf*, Thesis Ph.D (Aberystwyth) 2000

Styan, J. L., addasiad Cymraeg Annes Glyn, *Y Ddrama Gyfoes: Damcaniaethau ac Arferion symbolaeth, swrealaeth a'r Abswrdd*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 2007)

Tomos, Dewi, *Llyfr Lloffion Cae'r Gors*, Llyfrau Llafar Gwlad 72, (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2009)

Williams, Gerwyn, *Tir Neb: Rhyddiaith Gymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996)

Williams, Ioan M., *Y Mudiad Drama yng Nghymru 1880 – 1940*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2006)

Williams, Nia, “*Fy iaith, fy ngwlad, fy nghenedl*” hanes ymgyrchoedd Kate Roberts 1915-1961, Thesis MA Prifysgol Cymru (Aberystwyth, 1998)

Williams, Rhydwen, *Kate Roberts, Ei Meddwl a'i Gwaith*, (Llandybie: Gwasg Christopher Davies, 1983)

Erthyglau/ Ysgrifau/Darlithoedd

Evans, G.G., ‘Henaint a Thranc yr Anterliwt’, *Taliesin*, cyfrol 54, 1985, tt14-29

Evans-Jones, Albert, (Cynan), ‘Y Ddrama yng Nghymru’, *Llwyfan* 5, tt25-26

Davies, John, ‘Traed Mewn Cyffion’, *Barn*, Tachwedd 1971, tt25-6

Davies, Pennar gol., Saunders Lewis: ei feddwl a'i waith, (Dinbych: Gwasg Gee, 1950)

- Gramich, Katie, 'The intimate circle of a writer's life', *Agenda*, Gwanwyn 2011, tt70-73
- Gramich, Katie, 'The Madwoman in the Harness-Loft: Women and Madness in the Literatures of Wales', *Dangerous Diversity: The Changing Faces of Wales*, gol. Katie Gramich and Andrew Hiscock (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), tt20-33
- Gruffydd, W.J., Adolygiad o O Gors y Bryniau, *Y Llenor* IV, 4 (1925) tt254-256
- Gruffydd, W.J., Adolygiad o Rhigolau Bywyd a Storiâu Eraill, *Y Llenor*, IX, 1 (1930), tt56-58
- Gruffydd, W.J., Adolygiad o Traed Mewn Cyffion, *Y Llenor*, XV, 3 (1936), tt123-127
- Hughes, Gwilym T., 'Y Gwaredigion', *Y Genhinen III*, Gaeaf 1952, tt25-33
- Hunter, Jerry, 'From death token to O. Henry ending: traditional narrative and early fiction of Kate Roberts', *Narrative in Celtic tradition : essays in honor of Edgar M. Slotkin*, gol. Joseph F. Hamilton, (N.Y. : Colgate University Press, 2011)
- Hunter, Jerry, Poen y ddynoliaeth : golwg ar 'Yr Atgyfodiad' gan Kate Roberts, (Pen-y-groes: Cyfeillion Cae'r Gors, 2005)
- Jones, Bobi, 'Storiâu Cynnar Kate Roberts', *Barn* 209 (1980), t159-61
- Jones, Dafydd Glyn, 'Dedwydd a Diriaid', *Efrydiau Athronyddol* LXI, 1998, tt65-85
- Jones, Dafydd Glyn, 'Gymrwch chi gwestiwn?', *Barn*, Mehefin 2014, tt40-41.
- Jones, Dafydd Glyn, 'Saunders Lewis a Thraddodiad y ddrama Gymraeg', *Llwyfan* 9, Gaeaf 1973
- Jones, Dafydd Glyn, 'Y Ddrama Ryddiaeth', yn Geraint Bowen, gol., *Y Traddodiad Rhyddiaeth yn yr Ugeinfed Ganrif*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976) tt211-40
- Jones, Harri Pritchard, *Kate yn y De*, Darlith Flynyddol Cae'r Gors 2010, traddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent 2010
- Lewis, Saunders, 'Rhagair', yn *Samuel Beckett, Wrth Aos Godot*, cyf. Saunders Lewis, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1970)
- Lewis, Saunders, 'The Present State of Welsh Drama', *The Welsh Outlook*, Vol VI 1919, tt302-304
- Lewis, Saunders, 'Y Cofiant Cymraeg', *Meistri'r Canrifoedd*, gol., R.Geraint Gruffydd, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1973), tt. 341-356
- Lloyd, D. Tecwyn, 'Daniel Owen ar y Llwyfan, 1909-1937', *Llên Cymru* 10, 1968, tt59-69
- Lloyd, D. Tecwyn, 'Gwir gychwyn y busnes drama 'ma...'', *Llwyfan* 8, 1973, tt5-8

Lynch, Peredur, 'Morris T. Williams y Nofelydd', *Taliesin*, cyfrol 85, 1994, tt7-25

Morgan, Mihangel, 'Distawrwydd Enbyd Kate Roberts: Bywyd a Gwaith Llenyddol Kate Roberts rhwng 1937 (Ffair Gaeaf a storïau eraill) a 1949 (Stryd y Glep)', *Llên Cymru*, 2007, tt196-203

Morgan, Mihangel, 'Kate yn y Cwm', Cyfres y Cymoedd: *Cwm Cynon*, gol. Hywel Teifi Edwards, (Llandysul: Gwasg Gomer) 1997, tt285-308

Morgan, Mihangel, 'Ymateb i Kate Roberts', *Llên Cymru*, 2012, tt163-170

Penrhys, Llew, 'Drama Gymraeg yn y Rhondda', *Y Darian*, Rhagfyr 22, 1932, t8

Pritchard, Caradog, *Cerddi Caradog Pritchard, Y Casgliad Cyflawn*, (Abertawe: Gwasg Christopher Davies) 1979

Rhydderch, Francesca, 'Cyrrff yn Cyffwrdd: Darlleniadau Erotig o Kate Roberts', *Taliesin*, Cyfrol 99, Hydref 1997, tt86-97

Rhys, Manon, 'Atgyfodi Cwm Glo, Kitchener Davies', Cyfres y Cymoedd: *Cwm Rhondda*, gol. Hywel Teifi Edwards, (Llandysul: Gwasg Gomer) 1995, tt276-300

Williams, Ioan M., 'Daniel Owen a 'Gwir Gychwyn' y Mudiad Drama', *Llên Cymru* 28, 2005, tt138-159

Williams, J. Ellis, *Tri Dramodydd Cyfoes*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1961)

Williams, C. Ruth, *Merched gweithiau Kate Roberts*, Thesis M.A., (U.C.N.W., Bangor: Adran y Gymraeg, 1990)

Gwefannau

Baudelaire, Charles, *Fleurs du Mal*, <http://fleursdumal.org/poem/305>

Williams, Ioan M., 'Ideoleg ac Aestheteg y Mudiad Drama', *Gwerddon* http://www.gwerddon.org/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/Gwerddon_02-%28terfynol%29.pdf

Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, Cae'r Gors: <http://www.caergors.org/kategwa.html>

Cyffredinol

Baines, Menna, *Yng ngolau'r lleuad : ffaith a dychymyg yng ngwaith Caradog Prichard*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 2005)

Baudelaire, Charles, *Fleurs du mal*, (Paris: Hachette, 1992)

Beauvoir, Simone de, *The Second Sex*, cyfieithiad a golygiad H.M. Parshley, (Llundain: Vintage, 1997)

- Beckett, Samuel, *Waiting for Godot: a tragic comedy in two acts*, (Llundain: Faber and Faber, 1965)
- Bell, Quentin, *Virginia Woolf: A Biography: Volume One: Virginia Stephen 1882-1912* (Llundain: The Hogarth Press, 1972)
- Bell, Quentin, *Virginia Woolf: A Biography: Volume Two: Mrs Woolf 1912-1941* (Llundain: The Hogarth Press, 1972)
- Chapman, T. Robin, *Un bywyd o blith nifer : cofiant Saunders Lewis*, (Llandysul: Gomer, 2006)
- Dante, *Dwyfol gân Dante: Annwn, Purdan, Paradwys*, (Caernarfon, 1903)
- Davies, John, *Hanes Cymru*, (Llundain: Penguin Books, 1992)
- Davies, Kitchener, *Cwm Glo*, (Lerpwl, 1935)
- Davies, Kitchener, *Meini gwagedd : drama fer*, (Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, 1945)
- Davies, Sioned, *Pedeir Keinc y Mabinogi, Llên y Llenor*, (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1989)
- Edwards, Hywel Teifi, *Wythnos yn hanes y ddrama yng Nghymru, 11-16 Mai 1914*, (Bangor: Cymdeithas Theatr Cymru, 1984)
- Edwards, Hywel Teifi, *We Lead, Others Follow: Swansea and the Welsh Drama Festival 1919-1989*, (Caerdydd: BBC Wales, 1989)
- Ekman, Hans-Göran, *Strindberg and the Five Senses, Studies in Strindberg's Chamber Plays*, (Llundain: The Athlone Press, 2000)
- Ellis, Islwyn Ffowc, *Cysgod y Cryman*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1953)
- Emrys, Dewi, *Odl a Chynghanedd*, (Llundain: Cwmni Cymraeg Foyle, 1948)
- Emyr, John, *Dadl Grefyddol Saunders Lewis ac W.J. Gruffydd*, (Aberystwyth: Llyrgell Efengylaidd Cymru, 1986)
- Fullbrook, Kate a Fullbrook, *Edward, Simone de Beauvoir and Jean-Paul Sartre : the remaking of a twentieth-century legend* (Efrog Newydd: Harvester Wheatsheaf, 1993)
- Gébler, Carlo, *The Dance of Death*, [hanes August Strindberg], (Londonderry: Logan Press, 2000)
- Griffith, W. J., *Storiau'r Henllys Fawr*, (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1954)
- Griffiths, Bruce, *Saunders Lewis, Writers of Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1979)

Gruffydd, W. J. *Beddau'r Proffwydi, yn Dramâu W. J. Gruffydd*, Cyfrolau Cenedl 7, gol. Dafydd Glyn Jones, (Bangor: Dalen Newydd, 2013)

Gruffydd, W. J., *Llenyddiaeth Cymru: Rhyddiaith o 1540 hyd 1660*, (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1926)

Hallam, Tudur, *Canon ein Llên*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007)

Hallam, Tudur, *Saunders y Dramodydd*, [Llên y Llenor], (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2013)

Hill, Charles, G., *Jean-Paul Sartre : freedom and commitment* (Efrog Newydd: P. Lang, c1992)

Hunter, Jerry, 'From Death Token to O.Henry Ending: Traditional Narrative and the Early Fiction of Kate Roberts', *Narrative in Celtic Tradition*, gol. J.F. Eska, (Colgate University Press, Hamilton, New York)

Hunter, Jerry, *Poen y Ddynoliaeth : golwg ar 'Yr Atgyfodiad'* gan Kate Roberts, Darlith Flynyddol Cae'r Gors, (Pen-y-groes : Cyfeillion Cae'r Gors, 2005)

Ifans, Dafydd a Rhiannon, *Y Mabinogion*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 1980)

Jarvis, Branwen, *Goronwy Owen, Writers of Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1986)

Jones, Dafydd Glyn, *Rhywbeth yn trwblo : straeon ysbryd gan ein prif awduron*, (Bangor: Dalen Newydd, 2012)

Jones, Gwilym R., *Y Purdan*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1942)

Jones, Harri Pritchard, *Kate Roberts yn y De*, Darlith Flynyddol Cae'r Gors 2010, (Rhosgadfan: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, Cae'r Gors, 2010)

Jones, R. M., *Y Tair Rhامant : Iarlles y Ffynnon, Peredur, Geraint fab Erbin*, (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1979)

Jones, Richard, T., *Caeëdig Ddôr*, cyfieithiad o *Huis-clos* gan Jean-Paul Sartre, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1979)

Jones, T. Gwynn, *Gwaith Tudur Aled, Cyfrol II*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1926)

Jones, T. Gwynn Jones, 'Ymadawiad Arthur', *Caniadau*, (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1934)

Lake, A. Cynfael, *Huw Jones o Langwm*, Llên y Llenor, (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2009)

Lewis, Caryl, *Naw Mis*, (Talybont: Gwasg y Lolfa, 2009)

- Lewis, Saunders, *Dramâu Saunders Lewis, Y Casgliad Cyflawn: Cyfrol I*, gol., Ioan M. Williams, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996)
- Lewis, Saunders, *Dramâu Saunders Lewis, Y Casgliad Cyflawn: Cyfrol II*, gol., Ioan M. Williams, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000)
- Lewis, Saunders, *Monica*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 1930)
- Llwyd, Alan, Bob: *Cofiant R. Williams Parry 1884-1956*, (Llandysul: Gwasg Gomer, 2013)
- Llwyd, Alan, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu: Cofiant Goronwy Owen, 1723-1769*, (Cyhoeddiadau Barddas, 1997)
- Mac Cana, Proinsias, *The Mabinogi, Writers of Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1992)
- Meyer, Michael, *Strindberg A Biography*, (Llundain: Secker & Warburg, 1985)
- Owen, Goronwy, *Barddoniaeth Goronwy Owen*, (Lerpwl: H. Evans, 1924)
- Parry, R Williams, *Gadael Tir*, cyfieithiad o *Outward Bound* gan Sutton Vane, Archifdy Prifysgol Bangor, rhif 16011
- Parry, Thomas, *Baledi'r Ddeunawfed ganrif*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru) 1935
- Parry, Thomas, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1979)
- Parrt, Thomas a Morgan, Merfyn, *Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976)
- Pritchard, Caradog, *Cerddi Caradog Pritchard: Y Casgliad Cyflawn*, (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1979)
- Pritchard, Caradog, *Un Nos Ola Leuad*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1961)
- Roberts, Adrian C., *Twm o'r Nant: Dwy Anterliwt*, Cyfrolau Cenedl 2, (Bangor: Dalen Newydd, 2011)
- Robinson, Michael, *Studies in Strindberg*, (Norwich: Norvik Press, 1998)
- Robinson, Michael, gol., *The Cambridge Companion to August Strindberg, Companions to Literature*, (Caergrawnt: Cambridge University Press, 2009)
- Sartre, Jean-Paul, *Nausea*, cyfieithiad Robert Baldick, (Llundain: Penguin, 2000)
- Steene, Brigitta, *August Strindberg*, (New Jersey: Humanities Press inc, 1982)
- Strinberg, August, 'A Funeral', *Great Stories of All Nations*, gol., Maxim Lieber a Blanche Colton Williams, (Llundain: Harrap a'i Gwmni)

Strinberg, August, 'A Funeral', *Treasury of World Literature*, gol., Dogbert D Runes, (Efrog Newydd: Philosophical Library, 1956)

Strinberg, August, *Miss Julie*; cyfieithwyd gan Glenda Carr a Michael Burns (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991)

Strindberg, August, *Three Plays*, cyfieithwyd gan Peter Watts, (Llundain: Penguin, 1958)

Thomas, Gwyn, *Y Bardd Cwsg a'i Gefndir*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1971)

Thompson, Williams J., gol., *Understanding Les fleurs du mal : critical readings*, (Nashville: Vanderbilt University Press, c1997)

Warnock, Mary, *The Philosophy of Sartre*, (Llundain: Hutchinson & Co Ltd.) 1965

Williams, Gerwyn, *Tir Neb: rhyddiaith Gymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1996)

Williams, J. Ellis, *Inc yn fy Ngwaed*, (Llandybie : Llyfrau'r Dryw) 1963

Williams, O. Arthur, *Hanes y Ddrama Gymraeg ym Môn 1930-1975*, (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2008)

Williams, T. J., *Hanes y Ddrama Gymreig, (Bangor: Samuel Hughes, Argraffydd), 1915*

Wynne, Ellis, *Gweledigaethu y Bardd Cwsc*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976)